Celt 5351.25.30

Harvard College Library

FROM THE BEQUEST OF

THOMAS WREN WARD

TREASURER OF HARVARD COLLEGE
1830–1842

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# CYFRINACH

# BEIRDD YNYS PRYDAIN:

YS EF

LLWYBREIDDIAETH AG ATHRAWIAETH

AR

## Y Farddoniaeth Gymraeg a'i Pherthynasau,

YN OL TREFN A DOSPARTH Y PRIF FEIRDD GYNT

AR Y GELFYDDYD WRTH GERDD DAFOD;

YN CYNNWYS,

1 Yr Iaith Gymraeg.
2 Perthynasau Cerdd—Dychymyg a Chrebwyll.
3.... Amcan a dyben.
4.... Ansawdd cyfiawn Fyfyrdod.
5.... Trefn o Barth Ymddwyn.
6.... Cyfiawn Ddyfalu.
7.... Amlder Deunydd a Dychymyg.
8.... Parth Bann, ag Awdl a Phennill, a Chynghanedd, ag Accen.
9.... Parth Gwirionedd.
10 Rhywiau Cerdd, herwydd Sylfon, a Chrebwyll, ag Achos ag Ystyr.
11 Trioedd Cerdd.
12 Rheithiadau Cerdd, yn V. Rheithiad, a Chymmwylliadau arnynt.
13 Rheithiadau y Mesurau, yn XXIV. Rheithiad, a XV. o Golofnau Adlawol.
14 Dosparth Simwnt Fychan.
15 Corfannau Cerdd Dafod,—yn ol Dosparth Morganwg.
16 Cynnwysdrem y Cynghaneddion.
17 Beiau ac Anafau Cerdd.
18 Eisteddfod Fawr Caerfyrddin.

A ARGRAFFWYD DAN OLYGIAD

"*BARDD WRTH FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS PRYDAIN,*"

Y DIWEDDAR IOLO MORGANWG.

---

The style and language of Cyfrinach y Beirdd are lucid and elegant; and it displays a critical acumen highly creditable to the bards."—
*Cambro-Briton*, Feb. 1821.

---

ABERTAWY;

CYHOEDDWYD GAN J. WILLIAMS,

Rhif 8, Heol Fawr.

1829.

Digitized by Google

Celt 5351.25.30

HARVARD COLLEGE
JAN 3 1918
LIBRARY

Ward fund

Cyhoeddedig wrth Fraint.

# Rhagddarweiniad.

AR ol llawer galw, a hir ddisgwyl, yn agos hyd anobaith, gann feirdd a llenyddion Cymru, am Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain yn argraphedig, dyma'r ddosparth loywdrefn, o'r diwedd, yn cael ei rhoddi iddynt; ond nid, ysgwaetheroedd! ynghyd â Rhagddarweiniad trylwyr a fwriadodd yr hwnn a fu a'i fryd yn gadarn, dros amser hir, ar gyhoeddi'r gwaith, sef fy nhad trylen a goleuddawn, y diweddar IOLO MORGANWG, diwydrwydd parodbwyll pa un a'i hachubodd o draflwngc coll ag angof, drwy adysgrifennu'r cyfan allan o hen ysgrif-lyfrau mall a braenedig, fal y deellir oddiwrth y cyfeiriadau at y fath ammherffeithrwydd a welir yn rhai fannau o'r llyfr.

Gofynnir, ond odid, am ba achos y bu'r gwaith cyhyd cynn ymddangos, wedi tueddu'r wlad, trwy hyspysiadau cyhoeddedig, tua diwedd y flwyddyn 1821, i ddisgwyl am dano'n fuan? dyledswydd, yn ddiammeu, yw eglurhau'r achos: ond mae'r Pencerdd yn ddistaw! distawrwydd didor angau! Gann fod y llygad amlygwel a neillduodd y traethawd trysorfawr o blith ysgrifau hen lyfrgelloedd a ganiáttawyd iddo eu chwilio, yn awr yn dywyll, a'r law ddiflin a'i adysgrifennodd yn llaes, ag yn dychwelyd i'r prudd, yn y tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw,—a'r ddawn eneidfawr a ymhyfrydodd yn ei rhagoroldeb wedi ymddiosg yr hen gorph adfaeledig, ag wedi canu'n iach i Orsedd Beirdd Ynys Prydain, a'r Eisteddfodau cylmedig, gwrthddrychau ei orhoffedd tra yma, ag wedi cyrraedd, hyderir, CYLCH Y GWYNFYD, yr orphwysfa addawedig i ragorau buchedd rhinweddol,



Digitized by Google

myfi a geisiaf amlygu'r oediad, yn ol y cyfarwyddyd sydd gennyf; gyda diolch diragrith am yr hir amynedd a ddangoswyd, a gobeithiaf y rhydd y cynnyg foddlonrwydd.

Fe ganniattaodd fy nhad i ddau neu dri o'i gyfeillion neillduol adysgrifennu'r Traethawd o'i ysgrif ei hunan, pa un yr oedd ef yn arfer ei chymmeryd gydag ef, o bryd i bryd, ar ymdaith trwy Gymru. Gwerthfawrogwyd yn fawr cywreindeb anghyffredin y gwaith gann awenyddion dysgedig; cyfaddefwyd, ar y cynolwg, burdeb y iaith, cadernid eglurdyb y geiriau cyfansawdd, cywirdeb diledryw, a chyflawnder cynnwysbwyll, y ddosparth, herwydd prif ansawdd ag angenrheidiau Cerdd Dafod a'i pherthynasau; ynghyd a synniadau ucheldawn, llithrigrwydd melusber, a gloywder mydryddawl, y penillion cynnrych, a chododd dymuniad bywiog am gael y Traethawd yn agraphedig, er budd cyffredin y Dywysogaeth. Ymdannodd y dymuniad hynn, yn fwy neillduol, ym Mhowys; ag er mwyn ei gyflawni yn ddioed; cynhaliodd y Parchedig John Jenkins, o Geri, Swydd Trefaldwyn, Eisteddfod arbennig yn ei dŷ, gwyl Nadolig, 1820, i ba un y daeth llawer o Feirdd a dysgedigion enwoccaf Cymru, a chann fod fy nhad y pryd hynny wedi ei orddiwes gan fethiant oedran, a doluran gwasgfawr, gwahoddwyd finnau yno, yn ei le, i ymuno drosto a'r cydsynniad cyffredin. Gwedi i'r Parchedig John Jenkins, y Parchedig Wallter Davies, a'r Parchedig William J. Rees o Gascob, gydymgynghori ar yr achos, mynegwyd yr amcan i'r cyfarfod; ac, yna, cymeradwywyd y cynnyg yn awyddus, gann y llenyddion cyfrifol ag oeddynt yno yn wyddfodol; pa rai, a gwresogfryd cyfeillgar ac annogaethol, a amlygasant eu hewyllys da, parth goraddysg awenyddion eu cenedl, a'u hawddgarwch cyfrinachol, rhann lles fy nhad, yn ei henaint. Mae gwrthddrych eu cyfeillgarwch mawr wedi ymadael â'r byd hwnn, "a'i wen a'i wg," ond nis angofiaf y caredigrwydd a ddangoswyd ganddynt nes elwyf ffordd ddiweddaf yr holl fyd.

Ar fy nychweliad adref, ymegniodd fy nhad, dann

Digitized by Google

fawr wendid corph, i barottoi gwasg-ysgrif, ynghyd a nodiadau cwrr dalen, fal y gwelir, a rhoddwyd y gwaith i'r Argraphydd, ond o eisiau digon o lythyrennau argraph, cymmerodd oediad anocheladwy le, ac wedi cyflawni'r diffyg, aethpwyd ym mlaen yn llesg iawn, herwydd troi at archwylion eraill, fel yr ymgynnygasant. Parodd yr achwyniadau, o'r achos, ymryson lled ddigofus. Yr oedd fy nhad ar y pryd hynny yn ymbarottoi at y Ragddarweiniad, gann ysgrifennu gwahanol ddernynau ar yr amryw destunau perthynasol iddo, ond wrth weled attaliadau yn dywanu yn olynol, a'i analluogrwydd yntau yn cefnu yn galed, efe a aeth mewn blinder corph a meddwl, i Dreflemin, ei hen drigfa, gan anobeithio gweled y llyfr yn gyhoeddedig yn ei amser ef, a gweddill bychan ei rym yn diflannu yn fuan. Er iddo fyned o Dreflemin, ddwy waith, gann ei bwyll, wedi hynny, y tro diweddaf wrth ddwyffonn, etto ni fyddai hanes y cyfryw gynnygiadau ond cofrestr dioddefaint. Dywedodd wrthyf, mewn llythyr, ei fod wedi gorphen y Rhagddarweiniad, ond yn ymhiraethu yn fawr na phrysuresid y gwaith, pann, dann well iechyd, y gallasai gyflawni'r cyfan mewn ychydig wythnosau. Pann yr ymwelais ag ef, amryw weithiau, yn ei flwyddyn ddiweddaf, gochelais yn ofalus, ei flino wrth ei gymmell, a'i draed yn pallu, i chwilio ei ysgrifennadau am y Rhagddarweiniad. Cefais gipolwg arno, rhyw amser o'r blaen, ond nid oedd, ar y pryd hynny, yn gwbl orphennedig. Ni chefais olwg arno byth mwy: beth a ddigwyddodd iddo, nis gallaf ddirnad, ymmhellach na'm cred ddiysgog iddo ddiflanu, gydag amryw bethau eraill, pann, dann adfail methiant, yr oedd ef yn analluog i gadw golwg wyliadwrus, fal gynt, ar ei bapurau a'i lyfrau. Cefais, beth bynag, rhai o'r dernynau crybwylledig a ysgrifennodd ef ym Merthyr, ym mhlith ei gyfansoddiadau eraill, ag mae'r cyfryw yn gynnwysedig rhwng nodau benthyg "fal hynn" yn y Rhagddarweiniad hwnn; a'i synniadau ef yw'r cyfan a welir rhwng pob nodau o'r fath, lle na roddir un enw priodol yn gyssylltedig.

Digitized by Google

Mae'r llythyrennau cyfeiriadol a welir yn y llyfr, yn enwedig tua'r dechreu, yn tystiolaethu ei adchwiliadau Henfeirniadol, pa rai yr oedd ef, o'i ragordyb, yn eu barnu yn anhepcorol, parth Rhagddarweiniad goleudrem i'r Traethawd. Hiraethir yn fawr i ffrwyth ei fyfyrdod dwys, a'i grebwyll bywiog, fyned ar goll. Pe amcenwn ganlyn brisg ei draed, gan ymdrechu treiddio i maes synniadau cyffelyb i'r rhai rhagymddangosiadol i'w fryd eglurbwyll ef, aflwyddiannus, dros amser, ond digwydd, a fyddwn, gann nad oes ond ychydig dros flwyddyn oddiar pann daeth ei ysgrifau a'i lyfrau, pa rai ydynt hollol angenrheidiol i'r gorchwyl, i'm dwylo: callach, am hynny, rhoddi heibio'r cynnyg, rhag gwyro yn fyrbwyll, i rai camsynniadau; ag nid wyf yn chwennych cadw'r gwaith dann gudd yn hwy. Fal y canlyn mae Rhagddarweiniad fy nhad yn dechreu, ond y mae yn darfod yn ddisymmwth, gyda'r dernyn papur, yr hwnn a ysgrifennodd, mae'n debyg, ar dderbyn llenn ddiweddaf y Traethawd o'r wasg:

"Y DARLLENYDD HAWDDGAR,

Dyma fi, o'r diwedd, wedi gorphen fy ngorchwyl trafferthus, a hynny dann wasg dolurau, a gwendidau henaint, ar fin oedran pedwar ugain mlwydd; a thra chydwybodol yr wyf yn rhoi diolch i'r Duw mawr am gynnorthwy idd ei ddwyn i benn. Glynais, yn dra gofalus, a chydwybod diduedd, wrth lythyriaeth, geiriadaeth, a dull yr ymadrodd fal ag a'u cefais yn llyfrau'r awduron, heb newyd, hyd eithaf fy nghof, gymmaint a llythyren, na'r efnyn lleiaf yn ystrawaeth yr ymadrodd. Ni chyffyrddir a nemmor o beth yng Nghyfrinach y Beirdd nad yw'n Wenhwyseg lled bur, ag nad yw yn burach na dim a welir mewn un cangheniaeth o'r Gymraeg, mewn un rhann arall o Gymru Nid yw dydd ei phurdeb mwyaf wedi rhoi goleu haul inni etto, ond gobeithiwn ei fod yn ei wawr, er gwasgaru'r llygrediguaeth ag a welwn yn ymdannu, yn gaddug tew, dros ein hiaith a'n gwlad."

Digitized by Google

"Y mae Llywelyn Sion, yn ei ragannerch, yn addaw, ar ol Dosparth Cerdd Dafod Morganwg, rhoi un Caerfyrddin, neu, fal ei gelwir yn awr, un Gwynedd; ag ar y diwedd, efe a roddes Ddosparth Tudur Aled, a drefnwyd gan y bardd rhagorol hwnnw, er achosion Eisteddfod gyntaf Caerwys, yn y flwyddyn 1526; eithr gann immi gael gafael ar Ddosparth Simwnt Fychan, a gafodd ei hawdurdodi, dros holl Wynedd a Phowys, gann ail Eisteddfod Caerwys, yn y flwyddyn 1567, rhoddais honno yn lle un Tudur Aled? a barnu'r wyf mae'r Traethawd dysgediccaf a ysgrifennwyd erioed yng *Ngwynedd* ar Farddoniaeth Gymraeg ydyw un Simwnt Fychan. Nid oes neb *yno* yn dangos beiau ag anafau Cerdd Dafod yn fwy celfydd nag ef. Mynegais a wneuthym yn hynn o beth i ddau neu dri o Wyneddigiaid ys blynyddau, ag nid hir y bu wedi hynny cynn immi gael llythyr enlliblawn, dan enw *Bleddin min Pladur*, ond yr oedd y mwgwd yn rhy denau i guddio y gwir agwedd. Gann fod yr ysgrifenydd yn y bedd, ni roddaf ei enw priodol. Cefais lythyr arall digon cynheullyd o Wynedd, dann enw *Clustfeinydd*; y ddau lythyr yn haeru fy mod wedi troi heibio Ddosparth Tudur Aled, achos nas gallasai un Morganwg sefyll yn ei hwyneb; am hynny, meddant, rhoddais un Simwnt Fychan yn ei lle; yn atteb i'r cyfryw enllib, meddyliais nad oedd dim gystal a roi un Tudur ar ol un Simwnt Fychan, a barned pob dyn diduedd pa un ai tegwch ai annhegwch a wneuthym â Dosparth Gwynedd: os un Gwynedd sy raid ei galw, yn hytrach nag un Caerfyrddin, lle a'i ganed."

"Fal, hyd eithaf ffyddlondeb, y dilynais ysgrif Edward Dafydd, felly y gwneuthym wrth argraphu Dosparth Simwnt Fychan ag un Tudur Aled, pa rai ydynt yn ymrafaelu ychydig parth llythyriaeth ar un Edward Dafydd. Fy marn i yw y dylit, wrth gyhoeddi hen ysgrifenwaith, ymgadw yn ddiwrthgil wrth ddull oes yr ysgrifennydd."

Crybwyllir bellach, yn fuan, am Gadair Morganwg,

ag yn enwedig, Cadair Tir Iarll: herwydd ein bod yn gyflwyr ddyledus i Feirdd uchelfryd diwydbwyll yr hen Gadair honno am gymmaint ag y sydd yn gadwedig, ar gywirsail, parth addysg ar Farddoniaeth a mydryddiaeth Prif Feirdd Ynys Prydain.

"Rhai a haerant, fe allai, dann gynhyrfiadau eiddigedd, mae yn amser Eisteddfod Caerfyrddin, cylch 1450 y dyfeiswyd Barddas Morganwg, a'i llenoriaeth cyssylltiadol, gyntaf, ond nid yw hynny ond tywalltiad anwybodaeth, yn profi annysgeidiaeth y cyfryw frenddwydwyr geudyb; a'u bod heb ddeall dim yn y byd o'r hynn ag sydd ganthynt mor dafodrydd ar siarad; heb ddarllain dim o waith yr hen Feirdd: neu, os darllenasant, heb amgyffred y crybwylliadau tryfrith a welir ynddynt am yr Hen Ddosparth; sef yr honn a elwid, er ys oesoedd, Dosparth Morganwg, yng ngwrthwyneb i Ddosparth, neu yn hytrach Annosbarth Caerfyrddin. Er cymmaint dadwrdd y fath ddeilliaid coegdyb, ceir tystion goleubwyll, eglurfawr, yn yr oes honn, er iddynt gael eu hegwyddori yn ol rheolau Dafydd ab Edmwnd, yn awyddus i gyfaddef purdeb cyssefin y Ddosparth honn, yn ol prif ansawdd a gofynion Cerdd Dafod. Gyda'r blaenaf o'r Beirdd a'r Dysgedigion crybwylledig, enwaf y Parchedig Bencerdd, Wallter Dafis, y Parch. John Jenkins, o Geri, swydd Drefaldwyn, y Parch. William J. Rees o Gascob, a'r Parch. Dafydd Richards, Llansilin.*

"Gwedi ymadawiad y Rhufeiniaid o ynys Prydain, yng nghylch 400, neu'n gynt, fe allai, fe ymroddes y Prydeiniaid yn ebrwydd i drefnu gwladwriaeth, yn ymddibynniadol ar neb rhyw genedl arall. Yn y cyfnod canlyniadol, hyd 500 oed CRIST, bu galw ar atgof hên a chyssefin drefn a gwydodaeth Beirdd Ynys Prydain; ag adferwyd Cadair wrth Gerdd yng Nghaerlleon ar Wysg, lle bu y ddau Ferddin, Taliesin, Mabon Sant, ag eraill yn Ben-athrawon: ag yno y trefnwyd, dann nawdd Ar-

---

* Bu farw y gwr dysgedig, cyfeillgar, a rinweddol hwnn yng ngrym eiddyddiau, ychydig wythnosau o flaen fy nhad.—*Ab Iolo.*

Digitized by Google

thur a'i Farchogion gyda'r doethion dygynnull, Dosparth y Ford Gronn; 'sef Dosparth ar gelfyddyd, a gwydodau, defodau, a breiniau, Beirdd a gwyr wrth Gerdd Dafod, a dodi gwellhad a chadw, lle gwelit achos, ar bob teilwng o'r hen, a gwaranred ar bob newydd a fernid yn gynnydd a mwyhad at wybodau gwiwgais, parth doethineb ag achos Gwlad a Chenedl." Gair cysswyn y Gadair honn oedd GWIR YN ERBYN Y BYD, YN ENW DUW A'I DANGNEF.

Yn ol tystiolaeth y cynoresgynnydd, Iwl Caisar, a'r ysgrifenwyr Rhufeinig ar ei ol, yr oedd Essyllwg yn rhagori ym mhell ar daleithau eraill Cymru mewn cyrraeddiadau hywedd, ag ymegniaeth gwladgar. Eglur yw i drigolion y dalaeth honn ychwanegu yn fawr at wybodaeth eu cenedl oddiwrth ddysgeidiaeth y Rhufeiniaid, ac i'w Beirdd, yn enwedig, ymfuddio yn helaeth oddiwrthynt. Oddiyno ynn ddiammeu y tarddodd gwybodaeth o'r corfannau, gwybodaeth na fu erioed, hyd y dydd heddyw, ym meddiant Beirdd unrhyw dalaeth arall o Gymru. Tua'r cyfnod rhagddywededig diwylliwyd yn fawr Celfyddyd Barddoniaeth; olrheiniwyd y y prif rheithiadau addasiadol i dueddiadau'r iaith, a a gwasgarwyd addysg disglaergyrch dros y wlad gann wyr llen Gwenngor Cattwg Ddoeth, yn Llanfeithin (Llancarvan) a Banngor Illtud yn Llanilltud Fawr, ynghyd ag ysgolion enwog eraill.

Er bod yr hynn a ganlyn yn ysgrifiaw fy nhad, yr wy'n sicr, herwydd dull yr ymadrodd, nad ydyw ond adysgrif o rhyw hen lyfr. Mae'r ymadrodd yn debyg i ddull Caradoc Llancarvan.

"Wedi marw Arthur, yng nghad Gamlan, doded y Ford Gronn yng nghadwraeth Urien Rheged, yng nghastell Aberllychwr; sef yno ei brifiys ef; ag yno amcan deucan mlynedd: wedi hynny, Caerwynt, a mwy na chan mlynedd; yn ol ar adwedd idd ei phrif ansawdd, yng Nghaerlleon ar Wysg, dann bendefigaeth Iestyn ap Gwrgan, a'i dodes yn ei gastell newydd ar Daf, ym mreshindref Caerdydd." Gwedi cwymp Ar-

Digitized by Google

thur, aeth celfyddyd a gwybodaeth dann orchudd, herwydd difrod ac anrhaith rhyfeloedd gwaedlyd; heb braidd llenlewyrch yn tywynu i ddeffroi ymgais. Tua dechreu y nawfed ganrif ymddangosodd awenydd athrylithlawn, goleufyw,—Geraint Fardd Glas o'r Gadair; yr hwnn a gododd Gadair adgywair wrth Gerdd, yn Llandaf, a'i gair cysswyn—DUW A PHOB DAIONI; a thymma ddechreu Cadair Morganwg, yn amrafael ar Gadair Beirdd Ynys Prydain, sef un Caerlleon ar Wysg, dann ddosparth y Ford Gronn; er mae blynyddau ar ol hynny y galwyd hi yn Gadair Morganwg. Yn awr ymlaen at GADAIR TIR IARLL. Gwelir y tystiolaethau canlyniadol yn llythyrenol, fal y maent wedi eu hadysgrifennu o gasgliadau John Bradford, o'r Bettws, neu Ieuan Tir Iarll, ag eraill.

"Einion ap Collwyn a ddodes y Gadair gyntaf yn Nhir Iarll, lle a'i gelwid Cadair Einion." Nid yw hanesion yn hollol gyttuno parth helaethder Tir Iarll; rhai yn dywedyd nad oedd yn cynnwys mwy na phlwyfau y Pil, Margam, y Bettws, a Llangynwyd, eraill yn ychwanegu rhywfaint rhagor. Mae'n debyg bod y cynnwysiad uchod yn lled agos i'r gwir, enw cyssefin yr ardal oedd Y Maes Mawr. "Cai Hir, nai Arthur ymherodr arglwydd Cwmmwd y Maes Mawr, ym Morganwg, a drefnes Gadair wrth Gerdd Dafod gyntaf yn Nhir Iarll, sef a'i gelwid yn yr amseroedd gynt, Cwmmwd y Maes Mawr; lle a'i symmudwyd o Gaerlleon ar Wysg, achos amrygyrch y Saeson. Eisioes Cadair Caerlleon a'i gelwid yno; ag yn amser cyfrangau Rhys ap Tewdwr a Iestyn ap Gwrgan, aflonyddwyd y Gadair, hyd yn amser William Iarll Caerloyw; ac efe a'i hadnewydddwys yn Nhir Iarll; sef felly, o'i enw ef, y doded enw newydd ar Gwmmwd y Maes Mawr? ac y dodes fraint a thrwydded i Feirdd."—*Antoni Powel, Llwydiarth, Llangynwyd*—Eto—Cadai rTaliesin, Bardd Urien Rheged yn Llynllychwr a elwid CADAIR FEDYDD am nas gellid Braint Athraw ynddi ond a fyddai dann Fedydd ac Adduned y Ffydd yng Nghrist; a'r Gair

Digitized by Google

Cysswyn, DA'R MAEN GYDA'R EFENGYL; a'r gair hynny a fu hyd amser Rhobert Iarll [Caerloyw, tad y William Iarll uchod] a ddodes y Gadair honn, dann addawd Braint a thrwydded, yn y Maes Mawr, ym Morganwg; a dodi enw Tir Iarll ar y cyfran a ddoded yn drwydded i'r Beirdd, a'r cyfran arall yn drwydded Myneich; a'r gair Cysswyn NID DA LLE GELLIR GWELL, yn nawdd Duw a dangnef. A dodi ar Gadair Tir Iarll chwiliaw ym maes hen wybodau Barddas; a gwedi'r chwiliaw, a'r caffael, a'r cadarnhad,—dwyn ar adwaedd Prif Gadair, a Gorsedd, a Gwybodau, a Breiniau, a Defodau Beirdd Cyntefigion Ynys Prydain, yn gyflwyr gyfun." —*Hen Ysgrif.*——Mae amryw hen hanesion eraill yn cyttuno a'r un ddiweddaf—un o honynt yn myned ymlaen fal hyn:—Ag o hynny ydd aethant Beirdd Tir Iarll yn glodgael o neb a gaed o Feirdd yng Nghymru." Adnewyddwyd Breiniau'r Gadair honn, yn wastad dann ammod ymchwilio am, a gloywi, gwybodau Barddoniaeth, gann amryw o arlwyddi Morganwg, yn olynol, fal ag y bu hi dann nawdd anrhydeddus, dros oesoedd lawer.

Mae son, mewn hen lyfrau casgledig ac ysgrifennedig gann Feirdd a Dysgedigion Cadeiriau Morgannwg a Thir Iarll, am ddosparth Rhys Goch ap Rhiccart, dosparth Ieuan Fawr ap y Dewlith, (1170) rhai Trahaiarn, Brydydd Mawr, Edyrn Dafod Aur, Gwilym Tew, Dafydd Ddu, Athraw, Ieuan Llawdden, Ieuan Swrdwal, Einion Offeiriad, Lewys Morganwg, ag amryw eraill hyd 1540; Beirdd Tir Iarll i gyd. Gwelir, gann hynny, i Feirdd y Gadair hon lynu, yn ffyddlawn a diwyd, o oes i oes, wrth yr ammod ymchwil a ddodid arnynt. Ar ol Lewys Morganwg, cododd Meurig Dafydd, o gylch 1540, Bardd eithaf cywirfarn a diwydbwyll. Yn ei fawr awyddfryd dros bob gwybodaeth, a chelfyddyd Barddoniaeth yn neillduol: efe a chwiliodd i maes, yn dra threiddgar, lyfrau yr holl awduron o'i flaen ef ag a oeddynt i'w cael; yr ydym yn ddyledus iddo am Ddosparth gywir a chyflawn y corfannau; ond y mae yn dywedyd iddo ei thynnu i maes o'r Gramadeg Cymraeg a wnaeth Syr Edward Stradling, o gastell Sandunwyd, noddwr gwiwgof y Dr. Sion Dafydd Rhys. Gwelir, oddiwrth syn-



Digitized by Google

niadau Llywelyn Sion ag Edward Dafydd, mai efe a wnaeth *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* yn un llyfr dosparthus gyntaf; gann bod yr egwyddorion, cynn hynny, beth yma a pheth accw, yn llyfrau dosparth yr awduron rhag-grybwylledig. Gann ei fod yn wr esmwyth ei fyd, bu gantho amser ar law i ganlyn tueddiadau ei ddawn a'i grebwyll; ag yn dra chlodfawr y defnyddiodd ei ddydd. Yr oedd Llywelyn Sion yn un o'i gyfoedion, ond bu fyw rai blynyddau ar ei ol ef, ag a ganlynodd brisg ei draed, gann adysgrifennu llyfr Cyfrinach y Beirdd, ag ychwanegu yn helaeth at y synniadau egwyddorol a'r pennillion cynnrych. Gwr cywreindyb, bywiogddawn, oedd Llywelyn Sion; a dibaid ei ymegniaeth, a buddiolfawr ei lafur, parth llenoriaeth—Dyma dystiolaeth John Bradford am dano,—"Llywelyn Sion o Langynwyd, oedd wr esmwyth yn y byd, yn Brydydd da, ac ysgrifennwr teg: efe a goppiodd lawer o hen lyfrau Cymreig, yn brydyddiaeth a llafariaith, fel a'u gwelir mewn llawer man ym Morganwg; a hynny dros dal, i'r sawl a'u chwennychai; ac efe a ynnillodd lawer o arian a chariad wrth hynny. Yr oedd ef yn fawr ei barch yng nghastell Caerdydd, ac yn Rhaglan; ac o fyfrgell Rhaglan y cafodd ef y rhan fwyaf o'r pethau a ysgrifennodd ef, canys Syr William Herbert, arglwydd Morganwg, ac Iarll Penfro, a gynnullodd ynghyd y pethau goreu ymhell o'r hen ysgrifennadau Cymreig, fel ag oedd gantho serch mawr at hynny o beth. Y mae ar gof fod yn y Twr Crwn, yn Rhaglan, ystafell fawr, yn llawn o hen lyfrau Cymreig; a mwy, a gwell o honynt, nag oedd yn un man arall yng Nghymru; ond fe a'u llosgwyd oll yn amser Oliver Cromwel, pan gymmerwyd y castell hynny gan wŷr Oliver, er colled mawr i bawb a garynt Iaith a hen Ddoethineb y Cymry. Gwnaeth Llywelyn Sion lyfr a enwodd ef "Atgofion Gwybodau yr hen Gymry, sef cyfarwyddyd ar Brydyddiaeth, Achyddiaeth, Cofiedyddiaeth, Meddygyniaeth, Ffermyddiaeth, Deddfyddiaeth, Celfyddiaeth, a Fferylliaeth, yr hen Gymry, fal y dywed Watgin Powel, yn ei Farwnad iddo; ac a'i danfonodd i Lundain, i gael ei brintio; ond bu farw Llywelyn Sion yn y cyfamser; ac

Digitized by Google

fe aeth y llyfr ar goll. Efe a wnaeth lyfr cyfarwyddyd ar Brydyddiaeth a'i pherthynasau gwell nac a fu erioed o'i flaen ef."—*Ieuan Tir Iarll.* Syrthiodd mantell Llywelyn Sion ar ei ganlyniedydd, Edward Dafydd, o Fargam; yr hwnn oedd yn fachgenyn ieuangc pann oedd ef ar fin ei fedd. Yr oedd Edward Dafydd yn meddiannu, yn drylwyr, holl wybodau a doniau athrylithlawn ei ragflaenoriaid Llywelyn Sion a Meurig Dafydd. Gwelir oddiwrth ei Ragymadrodd, y law a fu gantho ef yn y llyfr rhagorol hwnn.

Ni welodd fy nhad ond dwy ysgrif o Gyfrinach y Beirdd erioed; un gann John Bradford o'r Bettws, ac un arall yn llyfrgell Llanharan, gerllaw Llantrisaint; a'i gred ef oedd nad oedd rhagor yn bod. Yr oedd y ddwy yn amryfaelu, rhyw ychydig bach, fal y dengys y nodiadau cwrr dalen. Yr oedd y ddwy, mae'n debyg, yn ysgriflaw Edward Dafydd.

Yng ngeiriau fy nhad :—"Gellir, gyda chymmwysder cyfiawnfarn, gyfrif y Traethawd hwnn ar Farddoniaeth Gymraeg, a llenfeirniadaeth mydryddawl, fal seren y wawr, yn cyhoeddi torriad dydd, y Ceinwybodau i'r Iaith Gymraeg :—dydd gwynfydawl! i wasgaru caddug gwrthdrefn; dydd heulrhed gloywddysg a disglaerder awenyddiaeth! Gwae ni erioed! i gynnwrf gwlad attal y dylif glwysdardd yn amser Siarls y Cyntaf, pann gollyngwyd ellyllion rhyfel waedffrwd yn rhydd ar ymgyrch difrod ag anrhaith! ac i faswedd cywilyddus, a chabledd gwenwynwyw, teyrnasiad yr Ail Siarl, orchuddio wybrengylch gwybodaeth ragorddawn, a gwyro'r wlad i goegddysg gwagedd, a llygredd ofergamp. Llwyr gwae ni! na fuasai yr Athraw gwiwglod hwnnw, y Dr. Sion Dafydd Rhys, yn ymgyfrinachu a'i gyfoed, a'i gymydog, yn agos, Meurig Dafydd, a rhoddi ei draethawd ef ar Farddoniaeth yn ei eirlyfr, yn hyttrach nag un Gwilym Ganoldref; ond mae'n debyg bod yr amryfusedd cadarn a aeth yn benn, gyda Dafydd ab Edmond, yng Nghaerfyrddin, wedi hudlewyrchu ei ddeall yntau yn rhy bell i ganniattau iddo chwilio a barnu yn ddiduedd."

Gydâ golwg ar y lles, parth ymchwil ac ymegniaeth, a darddodd oddiwrth yr ymryson a'r gwrthneu, a gym-

Digitized by Google

merodd le yn Eisteddfod Caerfyrddin, mae fy nhad yn dywedyd fal hynn :—"Prif amcan Gruffydd ab Nicolas, pann drefnodd Eisteddfod fawr Caerfyrddin, oedd chwilio allan bannau Prydyddiaeth, parth synwyrbwyll a chelfyddyd ar iaith, a threfn, a mydryddiaeth; eithr doded rhwystr ag attal ar hynny gnan Brydydd Pwll Gweppra; a chann syrth Awen a Phwyll, yr oes honno, gorchestion a 'dillynion mabanaidd, ag anhybwyll iawn, a gerid yr amseroedd hynny, ym mhob gwlad a wyddit am dani, ag eonder, neu hunandyb hyderus a rhyfygfawr, a ddygai'r bél ar bob ymbwyll, amgen na phethau nid gwell na chwareu plant bychain, distadleddau coegwybodaeth, a gorchestion diansawdd, ag anfuddiol, a phei na buasai Dafydd ab Edmwnd yn odid i amgen gael ei drefnu a'i gadarnhau'n warantedig yno, na derbyn a gwarantu Dosparth Llawdden, Gwilym Tew, ac eraill o Feirdd Tir Iarll; ag yna, odid fawr na fuasit, un ag arall o'r pleidiau gwrthgais, yn cyduno i gadarnhau y cyfryw Ddosparth; ag, o hynny parhau, hyd heddyw, ag amser i ddyfod pell tu hwnt i'n gwybodaeth, heb ymchwil ymmhellach parth nag hynafiaeth nag ansawdd celfyddyd ag ymbwyll, ond gadael yr hen lyfrau a'r hen gofion i lwngc anghof, lle yr oeddynt wedi myned yn agos. Gwedi i'r ymryson am y goreu gymmeryd lle, gorfu ar Feirdd Morganwg, er ymddiffyn eu gwrthneu a'u clod, ymroi'n ddiwyd, ag yn egniol, i chwilio allan holl egwyddorion yr hen gelfyddyd wrth Gerdd Dafod a'i pherthynasau; i achub llyfrau a choffadwriaethau o law hen amser gafaelgraff: ond er, fal mae achos ofni, ni adfeddianuwyd ond ychydig o'i anrhaith, da fu'r llwydd i achub rhywfaint o'i grafangc. Ond yn awr, ag nid cynn yn awr, gann mor ddiymdawr y buom, y mae canlyniadau ymchwiliadau a chaffaeliadau Beirdd Tir Iarll yn cael eu gosod allan o flaen y byd; ag o flaen pob barn diduedd, ag yn wynebu pob rhagfarn a geffir yn ymchwerwi, ag yn ymdymhestlu, yn erbyn yr hynn a ddengys maint y bu camsyniadau hunanoldeb anwybodaeth. Gwelir, hyd y dydd heddyw, gwasgaredigion synniadau Awen ag Ymbwyll nifer fawr o hen Brydyddion ag Athrawon; o lyfrau pa rhai y tynnwyd, ys oesoedd lawer yn ol, cynnwysiadau'r llyfr hwnn; ag

Digitized by Google

hynn yn ffawd inni, er ymddiffyn, yn ddangosadwy, y Ddosparth."

"Odid, o iawn ddefnyddio, nas gellid Trefn a Rheolau ar Feirdd a Barddoniaeth a fyddai'n well, a mwy cyfaddas i gyflwr gwybodau llenoriaeth, a goleuni dysgeidiaeth, y sydd yn awr, pei ymroddid i hynny, ag odid na chaid defnyddion tuag at y cyfryw ddiben, mwy neu lai, ym mhob un o'r hen Ddosparthau; ag, fe allai ym mhlith fy meddyliau gwasgaredig innau, pa rhai ydynt dann gadw. Amcenais y cyfryw, fal cymmhwylliadu doethineb a chyfiawn ymbwyll, o ewyllys calon, er lles fy Nghenedl. Yn hynny gellir dywedyd am danaf, yng ngeiriau'r brenin Dafydd, fy mod wedi pentyrru golud (yn fy marn fy hunan o leiaf) ag nis gwnn pwy a'i casgl."

Ar ddernyn bychan o bapur, cefais y synniadau diweddglo canlyniadol o'i eiddo.

"Dyma iti, Ddarllenydd, hanes y maint a wneuthym i mewn perthynas i'r llyfr hwnn; annhrefnus, mewn mesur y cefais i'r defnyddion y sydd ynddo, niweidio tystiolaeth eu hanfodoldeb y buasai amcanu gwell trefn arnynt.—Y mae'm einioes ar benn, o fewn i ennyd fach iawn. Mae fy ngwaith ar ddarfod; yn wir wedi darfod. I DDUW, yn ddarostyngedig, y bo'r diolch am fy ngwared o lawer clefyd llymdost, dros einioes hir, i ymlafurio ym maes gwybodaeth fy Rhagflaenoriaid, ag i ddwyn rhann o'u hamcanion i ben."

Mae synniadau fy nhad yn anghyssylltiedig, fal ag y sylwais o'r blaen. Braidd iawn y gellais ddarllain rhai o honynt. Mae amryw o'r llinellau yn rhedeg un ar draws y llall, gann fod ei law, ar y diwedd, yn grynedig; a'i lygad yn bwl. Bernir, fe allai, bod rhai o'i sylwadau ewrr dalen yn lled flaenllym, ond gallaf ymhelaethu, yn gydwybodol, na tharddasant, yn y mesur lleiaf, oddiwrth unrhyw deimlad anghyfeillgar, eithr oddiwrth ei wrthneuaeth i'r llygredigaeth ag oedd ef yn ei weled yn ymdannu dros y Iaith Gymraeg; ag yn ei hollol annhrefnu. Yr oedd gantho barch mawr, fal y rhan fwyaf, i ymdrechiadau gwladgar gwrthddrychau ei wrthddadl, ond yn cyfrif dyledswydd arno i gyhuddio camsyniadau.

Y rhai canlyniadol ydynt ychydig o'r cyfeiriadau lluosog a welir mewn hen lyfrau at Feirdd Tir Iarll.

Digitized by Google

Beirdd Tir Iarll! brudded yr hwyl!
Bwrw dyn oedd eu brawd anwyl;
Bwrw llwch ar wynebwr llonn:
Bu'n ei daith yn benn doethion.

MEURIG DAFYDD, YN MARWNAD WILLIAM EGWAD.

Yma 'ddoeddem ni ddeuddeg
O Feirdd, un, sy fyw, ar ddeg.

* * * *

Mae yn y tir, myn y tân,
Oes Hywel, eisau Ieuan!
Ap Hywel fraisg, angel fry,
Swrdwal oedd ein trysordy:
Dangos ol dy bedolau
Drwy Dir Iarll, dyred ar iau.

LLYWELYN GOCH Y DANT.

Yma, o Brif-Feirdd ymbrofwn
O dair gradd i dorri grwn.

GRYFFYDD DAFYDD YCHAN, AM FEIRDD TIR IARLL.

Un ydoedd awen awdiaeth
O Dir Iarll, awdur y Iaith.
Yn *raddol* yno'r oeddynt,
Yr holl Feirddion gwychion gynt.
Myrddin a gafas mawrddysg,
Mae Teliesin, dewin dysg?
Mae Edyrn mwy a'i hadwen?
Mae Dafydd Ddu? bu yn benn.
Mae deugant? mae eu degwm?
Mae gwyr Tir Iarll? mae gair trwm.
Mae i'n och, un am y naill.
Mae Iorwerth? a mae eraill?
Mae Lewys aml ei awen?
Mawr gwyn gwalch Morganwg wenn:
Mae Rhisiart am yr oesoedd?
Manola un, mwyn ail oedd.

DAFYDD BENWYN, YN MARWNAD RHISIART IORWERTH, (MAB IORWERTH FYNGLWYD.)

Ba ddyrnod bu ddoe arnom!
Beirdd Tir Iarll bu orddod drom!
Duodd gwawd ac oedd gadarn,
Diweddu Beirdd fel dydd barn.

LEWYS MORGANWG, YM MARWNAD IORWERTH FYRGLWYYD.

*Diammeu yw mae at Feirdd Tir Iarll mae Rhys Goch Eryri yn cyfeirio, bron yn brophwydoliaethol, yn y llinellau canlynol.*

"A oes gobaith i'n Iaith ni,
Faith gof awdl, fyth gyfodi?

Digitized by Google

Oes, oes, cwynwn anfoes caith,
Bo iawn gwbl, byw yw'n gobaith.
Pa bryd, feibion digonawl,
Pencerddiaid hydr ar bob mydr mawl
Y cawn ni'r Alelia,
O Farn deg DUW FRENIN da?
Pan ddel caledwaith chwaith chweg,
Cnawd pwy o'r mordwy mawrdeg,
Gloywfab Cof-hydr, ddrych gwych gwydn,
Golau o'r Marchog Elydn:
Ac yna Awen Genau,
Yn y Tir, gwir, ac nid gau,
Y'n bernir, hwn yw'r gwir gwyllt,
Wyrion Gwennwysion Essyllt."

RHYS GOCH, ERYRI.

Mae Traethawd Saesneg y Parch. Wallter Dafis, ar Wahanol Ansoddau ag Anghenrheidiau Dosparthau Caerfyrddin a Morganwg, yn amlygu'r gwirionedd yn deg, gann ddangos, yn dra chelfydd, cymmysged annhrefnus, a chamsynniadau mawrion y naill, ynghyd ag Egwyddorion a Gofynion cywirsail y llall. Da fyddai cynnyg gobrwy am y cyfieithiad goreu i'r Cymraeg o Draethawd yr athraw gloywdyb cywirfarn.

Gwelir, wrth y Pennillion cynnrych ar y Pedwerydd Ansawdd ar ugain ar Gerdd Dafod, sef Dyrif, neu Garol, bod celfyddyd Cerdd Arwest wedi cyrraedd gloywder mawr ym Morganwg, er ys oesoedd lawer; a chesglir oddiwrthynt, gydag amcan lled gywir, yr erddiganau perthynol iddynt. Maent yn beroriaethol iawn, parth llithrigrwydd peraidd, a synwyr dychymygfawr. Gobeithiaf, os cynhelir Eisteddfod byth etto yng Ngwent, yr adferir a choleddir hen ddull cywreingamp y Dalaeth, yn hyttrach na gwthio, o ddir duedd, trefn Gwynedd ymlaen, i fyddaru clustiau, a gwaradwyddo'r wlad gerwyneb dieithraid. Gobeithiaf y cyfaddefir yr annhegwch mawr o drais-ddodi trefn ar Ddadgeiniad yr ardal na fu erioed ar arfer a gwybod yno: a byth na fydded, yn enw pob tynged dda.—Beth a ddywedid yng Ngwynedd, pe byddai dysgedigion Gwent yn cymmeryd y rhwysgfrwyn yn eu dwylo, a thrais-yrru eu trefn hwy arnynt, a honno yn anarferedig ganthynt! Ym mhellach, sicr wyf, i'r eithaf, pe buasai *ystyr* y pennillion ffiaidd, a gwaradwyddus, a ganwyd, yn fuddugawl, gann rai o

Digitized by Google

Ddadgeiniaid Gwynedd yn Aberhonddu, yn niweddar, yn wybodus i'r Cyfarfod yng nghyffredin, na arosasai cymmaint ag un rhian yn yr ystatell i harddu ag anrhydeddu Eisteddfod. Wfft byth i'r fath gyfeillion!—Sylwad arall, yn fyrr:—Mae gwyriadau tra-gresyn wedi cymmeryd lle yn yr Eisteddfodau a'r Gorseddau. Yn yr oesoedd gynt yr oedd y Beirdd yn ymgyfrinachu er diwyllio celfyddyd, olrhain gwybodau a gloywi Dosparth:—beth yw arfer yr oes *olau* honn? Bwytta ac yfed, cyn gynted ag y diangir o ystafell yr Eisteddfod. Truenus meddwl hefyd, am y drefn gyfeiliornus o gynnal Gorsedd a chyfrannu Graddau a arferir yn awr—Graddu *pawb*, menywod a gwrrywod; a llawer o honynt yn gwybod dim yn y byd am Reithiadau Barddoniaeth; a hynny dann adduned, *Gair a Chwybod* eu bod yn hyddysg a medrus ynddynt, *Yng ngwyneb haul a llygad Goleuni!* Mae'n debyg bod y bai rhyfygus hwnn ar arfer ys oesoedd.

Pybyr wedd, *pawb* a raddwyd?
Ba air waeth! ei beio'r wyd.
Achwyn boen a chnoi, beunydd,
Barddas wael y Beirdd y sydd.

WM. CYNWAL.

Byrr ddeunydd mewn Barddoniaeth;
Barddas wir heb urddas aeth!

EDMWND PRYS.

Bydded i'r Beirdd a'r dysgedigion gyfarfod, ag ymgyfrinachu yn yr Eisteddfodau, er mwyhad Gwybodaeth a llwybreiddiaeth i'r Ieuaingc a'r anhyddysg, dann nawdd Duw a'i dangnef; gann gofio, er cymmaint yw rhagorddysg yr oes wyddfodol, bod gennym, i gyd, le i fyned rhagom, ac mai "NID DA LLE GELLIR GWELL." Yn awr diweddaf, gyda golwg ostyngedig iawn ar yr ychydig, neu ddim, yr wyf fi wedi ei wneuthur, yn y pethau hynn, parth ymhelaethu gwybodaeth fy ngwlad a'm cenedl, mewn cydmariaeth a'r enwogion diwydbwyll rhagenwedig yn y Rhagddarweiniad hwnn; a chann obeithio y caf einioes ag achlysuron cyfleus i ganlyn brisg eu traed, cynn belled ag y medrwyf.

Yn enw Duw a phob Daioni,

TALIESIN AB IOLO MORGANWG.

*Merthyr Tudfil, Gor.* 9, 1828.

Digitized by Google

/|\

LLYMMA GYFRINACH

# BEIRDD YNYS PRYDAIN.

---

YS ef Llwybreiddiaeth ag Athrawiaeth ar y Farddoniaeth Gymraeg a'i pherthynasau, herwydd Barn a Dosparth BEIRDD A CHADAIR MORGANWG; yr hon yw cyssefin ddosparth BEIRDD YNYS PRYDAIN, ar GERDD DAFAWD, ag a elwir, o iawn alwad, YR HEN DDOSPARTH; am mai hon a fu o'r dechreuad.

Ag EDWARD DAFYDD o DDINAS MARGAM ym Morganwg a'i treinodd, gan ei thynnu allan o Lyfrau Beirdd ag Awduron dysgedigion, rhag ei myned ar goll, nid amgen nag o waith a Llyfrau MEURYG DAFYDD, a DAFYDD LLWYD MATHEW, a DAFYDD BENWYN, a LLYWELYN SION; y sef ydd oeddynt oll yn FEIRDD CADEIRIOG wrth FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS PRYDAIN, a PHENCERDDIAID wrth Awdurdod Gwlad ag Arlwydd, ar holl Arlwyddiaeth MORGANWG, a GWLAD GWENT ag EUAS.

A'r Ddosparth honn a farnwyd yn gyfiawn herwydd Prif ansawdd Cerdd Dafawd, ag arfer PRIF FEIRDD YNYS PRYDAIN; ag a gadarnhawyd yn yr ORSEDD WRTH GERDD DAFOD a gynneilwyd yn y BEWPYR ym MORGANWG ar DDYDD LLUN, a DYDD MAWRTH, a DYDD MERCHER y SUL GWYNN yn y Flwyddyn 1681, dan Nawdd a Dawn Syr RHISIART BASSED, FARCHOG, Arlwydd y Lle; a than OSTEG A RHYBUDD UN DYDD a BLWYDDYN drwy FORGANNWG, a GWENT, ag EUAS; ag yn BENCERDDIAID yno CHARLES BWTTWN YSGWEIER, a DAFYDD O'R NANT, ag EDWART DAFYDD O FARGAM, a chyda hwynt, y Rhain, yn BRYDYDDION a BEIRDD WRTH FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS PRYDAIN, ag yn ATHRAWON cyfiawnfarn; nid amgen,

1. HYWEL LEWYS,
2. JOHN ROBERTS,
3. THOMAS LEWYS,
4. DAFYDD EDWARD.
5. SION PADAM,
6. MORGAN GRUFFUDD,
7. DAFYDD EVAN SION,
8. CHARLES DAFYDD MEREDYDD,
9. HOPCIN LLYWELYN,
10. LLEISON IFAN,
11. JENKIN RICHARDS,
12. BLEDDYN SION.
13. SAMUEL JONES OFFEIRIAD.

A Hynn i gyd yn ENW DUW A PHOB DAIONI. *Amen.*



Digitized by Google

AT

# FEIRDD YNYS PRYDAIN.

ANNERCH A LLWYDDIANT YN ENW DUW A PHOB DAIONI.

GANN ddarfod imi er yn lasfachgen hoffi ag astudo Barddoniaeth, a chwilo Llyfrau Beirdd ag Awduron dysgedigion, ag yn enwedig Llyfrau y Beirdd henaf o Gymru, a chann ystyried yr arch a roddwyd ar y Beirdd yng Ngorsedd Cerdd Dafod *Caer Dydd*, yr honn a gynneilwyd yn y Castell yno dan Nawdd, drwy Ddawn, a Gorchymmyn yr *Arlwydd William Herbert;* ys ef, iddynt chwilo i maes, a dwyn ar ail arfer, yr HEN DREFN A DOSPARTH ar y Gelfyddyd wrth Gerdd Dafod, a'i Pherthynasau; ag ar *Freiniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain,* mi a lwyr ymroddais i'r ymbrawf a allwn i rywfaint o les herwydd hynn o amcan; gann weled o honof yn drylwyr ammherffeithrwydd yr hynn y sydd gennym mewn prynt ar yr achos hynn; ag ni bu na diffyg na meth arnaf gynnull twysged fawr o'r wybodaeth a ddymunais ei chael; a chwedi hir a mawr lafurwaith mi roddais ar gasgl yr hynn a welir ymma'n fy Llyfr maeth; cannys felly y galwaf ef, am nad yw o'm cenhedlad fy hun. Hir o amser, a thros oesoedd, y bu'r pethau hynn dan encudd a choll yn eigion y Tywyllwch; *Lewys Morganwg* a gafodd i maes lawer o bethau, ond nid y cwbl; *Meyryg Dafydd* a ddatguddiodd lawer o honynt yn y llyfr a wnaeth ef iddei Arlwydd *Syr Edward Lewys* o'r *Fann; Dafydd Benwyn*, a *Dafydd Llwyd Mathew*, a wnaethant Lyfrau, gan ddangos ynddynt o'r newydd rhai bethau hen iawn; a *Llywelyn Sion o Langewydd* a gasglwys y cyfan yng nghyd iddei Lyfr o'u gwaith hwynt; ag a wnaeth Drefn a Dosparth ar fesurau Cerdd a'r peth oedd berthynraid iddynt, gann roddi trem goleuwel ag athrawiaeth arnynt, a'i ddangos yn amlwg wrth brif a chyssefin Ryw ag Ansawdd, ag nid oedd yn ei Lyfr amgen na hynn o fai, ys ef nid oedd wrth raid ag achos ym mhob mann, hanner digon o Fesurau a phennillion Cynnrych a golygwel er dysgu'r mesurau; ag nid rhyfedd, am na chanasant y Beirdd ar hanner y cyssefin

Digitized by Google

fesurau er ys cannoedd maith o flynyddau; ag nid oedd ef ond hen a methedig pann gymmerth y gwaith mewn Bryd a Llaw; er hynny efe a wnaeth ei oreu; a chann fod hynn o ddiffyg yn ei Lyfr ef, mi a wnaethum fy ngorau er cynnull yng nghyd yr hynn a ellais o Feirdd ein Gwlad, er cynnal Gorsedd wrth Gerdd, er cael barn cymmaint a ellid ar y peth, a chyfnerth genthynt yn fy ngorchwyl, a hynn a gafwyd yn rwydd gyda mawrserch drwy ddawn, a thann nodded, o fonheddig fwynder, y Pendefig awenfryd a thrybwyll *Syr Rhisiart Bassed Farchog*, o *Gastell y Bewpyr*, wedi cynnal o hono rybudd wrth osteg dros undydd a blwyddyn drwy Forganwg a Gwent ag Euas yn ol yr hen ddefod, ag yno barnwyd hynn o Ddosparth ar Gerdd a'i pherthynasau yn gyfiawn, herwydd *Prif a Chyssefin Arfer Beirdd Ynys Prydain*; a herwydd *Ansaudd Angen* ag *Ansawdd Braint* yr amrafael fesuron Cerdd Dafod, a'i bod yn gyflwyr unrhyw a'r gelfyddyd a fu gan y Prif-feirdd, cyn myned o'u dysg a'u hathrawiaeth ar wall a diflant; a chann un a'r llall o'r Beirdd yn yr Orsedd honno y cefais y Pennillion cynnrych ag oedd yn ddiffyg yn Llyfr *Llywelyn Sion*; ambell pennill yn wir a dynnais o waith Beirdd y ddwy oes ddiweddaf, a rhai a welir o henynt a wnaethym fy hun; ag am yr athrawiaethau ar ddechreu'r mesurau, nid ynt amgen na llwyr a didwyll ymadroddion *Llywelyn Sion*: a'r sawl a chwilant Lyfrau yr hen Feirdd a welant yn gyfloyw a thrywel mai honn yw'r farn a'r ddosparth gyfiawn ar Gerdd Dafod a'i pherthynasau, a'i bod yn cyttuno'n gyflwyr gyfunfodd a'r peth y sydd ar gof a chadw o waith yr hen a chyssefin Feirdd, cyn amser yr annysg, a'r anneall, a'r anystyriaeth a ddigwyddwys ar y Cymry.

Yr oedd amcan y Beirdd, er ys deucant a hanner o leiaf o flwyddi, ar chwilo i maes, ag adferu'r peth oedd ar goll a thann gudd ag anarfer o'r Hen Gelfyddyd, wrth Gerdd, ag o'r hen Freiniau a Defodau; ond pan gafwyd Gorsedd ar hynn o amcan yng *Nghaerfyrddin*, daeth *Dafydd ap Edmwnt* yno dan ddallu Beirdd anghelfydd a'i wag-orchestion diansawdd, a'u galw yn fesurau Cerdd, ar Enwau o'i grebwyll ynfyd ei hunan, a rhoddwyd Barn ag Awdurdawd ernynt; a'r farn honno a saif hyd yn hynn dros holl Gymry'n agos, eithr *Morganwg*, a *Gwent*, ag *Euas*; ag yn y rhai in barthau hefyd y mae llawer un ni wyr well na dilyn yr hudlewyn a darddwys o'r drefn a wnaed yng *Nghaerfyrddin*: Gorsedd oedd honno a lwyr ddiystyrwyd gan *Feirdd Morganwg*; (A) a chodi *Cadair* a wnaethant iddeu hunain, ag unwyd dan honn Wlad *Gwent* ag *Euas*; a hynn drwy fodd ag awdurdod Gwlad ag Arlwydd a thau haelionni mwyn *Pendefigion* a *Dysgedigion Morganwg*; a gwnaeth-



Digitized by Google

pwyd eitha pwyll a gallu yn y Gadair honn er adfer yr *Hen Gelfyddyd wrth Gerdd;* a gwedi hir amser ag ymgais, nid rhaid ofn nag ammau nad yw hyn o'r diwedd wedi boddloni'r cais oedd a'i olwg arno; ag nad yw'r cyfan wedi ei gael o hir a llwyr ymofyn; ond ofni yr wyf mae caffaeliad cyfoeth mewn hen oedran yw hynn yn y diwedd; ys ef iddei golli ar fyrr, ag ofni'r wyf hefyd y bydd Beirdd a Chymreigyddion y wlad yn hir cyn y delont i weled gwirionedd a chyfiawnder yr addysg a roddir yn hynn o Lyfr: nid hawdd cymmhwyso prenn ar ol iddo dyfu dros hir o amser yn gam; yr un gyffelyb yw deall dyn.

Y Ddosparth ar Gerdd a welir yn y Llyfr hynn a elwir er ys hirfod maith o amser *Dosparth Morganwg*, eithr dylit o gyfiawn bwyll ei galw yn *Hen Ddosparth Beirdd Ynys Prydain;* ond *Beirdd Gwynedd* a'i galwant yn *Ddosparth y Cwn*, a *Dosparth y Moch*, a *Dosparth y Dommen;* eithr nid gwaeth hi, er cael ei difrïo fal hynn; ag f'allai y bydd hi o hynn yn well ag yn uwch ei chlod rhyw ddydd a ddaw: cymmysgwch a fynnoch ar y llaeth, i'r wyneb y daw'r hufen; ag felly'r Gwir a'r Cyfiawnder. *Dosparth Caerfyrddin* yw yr un sydd ar arfer gann Feirdd Gwynedd; os ydoes un o ryw fath ganthynt; yr hynn nid yw ry debyg i fod, er maint eu bost am Brydyddiaeth; bost clochaidd iawn yn wir; a da fyddai gennyf, er lles Iaith y Cymry, eu gweled *cystal a'u bost.* Gwir yw, ni phrintir dim Barddoniaeth ein awr gan Feirdd Cymru; ag nid oes y dydd heddyw glera fal y bu gynt; am hynny ni wyddis yn un Sir fawr am hanfod a digwydd y Sir nesaf. Ni's gwyddom pa Feirdd y sydd yn y rann fwyaf o Gymru; a mynych ddigon, ni's gwyddom yn un penn o'n Sir ein hunain ddigwydd a chyflwr y penn arall. Yr wyf yn meddwl pann ddarffo am yr ychydig Feirdd sydd ym *Morganwg* ein awr, nid yw'n debyg y ceir llawer iawn ar eu hol yng Nghymru: am hynn o achos ag ystyr y cesglais hyn o Lyfr yn ysgrifennedig, ag a fynnais ei brynto er cadw cof a gafael ar yr hen a chyssefin Gelfyddyd wrth Gerdd, ag am yr Hen Freiniau a Defodau a fuant gynt ar arfer gan *Feirdd Ynys Prydain* dros holl Gymru; ag fel y mae 'n awr, parth y Gelfyddyd o leiaf yn Nawdd *Cadair Morganwg.*

Mi osodais bob peth o'r athrawiaethau a'r Ddosparth yn y wedd ar drefn ar modd, herwydd iaith a geiriolaeth ymadrodd, ag y cefais hwynt ynn yr hen Lyfrau, a Llyfrau'r Athrawon a enwais eiswys: rhag imi gloffi a gwanhau'r awdurdod sydd iddynt, drwy newid geiriau a dull a threfn yr ymadrodd, ag er y barnaf y gellid er lles grynhoi a byrhau llawer iawn o'r draith

a'r ymadrodd, a'u gwneuthur wrth hynny 'n fwy bywiog ag ym fwy cyflun a'r meddwl a'r ystyr; etto dewisais beido, am y pwyll a'r achos a ddangosais; ag er mwyn cynnal ar gof a gweledind ffordd yr *Hen Athrawon* ar iaith ag ymadrodd; yr hynn o beth a wna foddlondeb i RAI: os bai a welir, nid arnaf fi y mae, oddierth yn yr ymadrodd hynn; ag mewn ambell Pennill Cynnrych a wnaethum fy hunan yn ol yr awen a'r pwyll a gefais gann Dduw; ag yn ol yr hyn a ddëellais ar y Gelfyddyd a'r Athrawiaeth wrth Gerdd, am nad oedd gennyf mewn ambell mann bennillion o waith *Hen Feirdd* a Beirdd eraill mewn llaw, er gosod i lawr llwyr ddrych nod a golygwel ar y mesurau ym mhob dull a modd ernynt; mae gan mwyaf yma 'r cyfryw bennillion o ganniad Beirdd amgen ymhell na mi; a beiddiaf atteb drostynt o barth awen, a dysg, a chynnildeb goleuwel, ym mhob peth a berthyn i Gerdd Dafod a'i pherthynasai; y mae enwau y rhain Feirdd wrth eu gwaith; yr hynn waith a ettyb drosto'i hunan hyd yn oes oesoedd; hirfod maith o amser ar ol darfod am bob son a chof am danaf fi, a'm gwaith gwannbwyll.

Digwyddodd i'r Farddoniaeth Gymraeg yn gyflwyr y peth a ddigwydd i bob dysg o'r Byd, unwaith y coller cyfiawn bwyll a sylw arno; a deall o wraidd a gwaelod ar ei wir a'i gyfiawn ansodd; ag o hynn y daeth y cyfryw drywyllt ag oferwag fydraethu a dall brydyddu, a distadl a dibwyll ymbyncio ar ddiles a diflas orchestion, (os gorchestion sy raid eu galw,) ag a welir yng Ngwaith y Beirdd a ganasant yr oes o flaen honn. Diarheb yw, "*Mai haws bod yn dda nag yn ddrwg, a bod yn gall nag yn ffol,*" a gwir iawn yw hynn, fal y mae'n brawf yr holl gynnildeb disylwedd o wir wanbwyll a gwag ystyr ag a gafas awdurdod *Gorsedd Cerdd Caerfyrddin.* (B)

Pann fyddai'r Gwyr call deallus ni welsant erioed yr hen lyfrau Barddoniaeth, a'r gyssefin Athrawiaeth ar Gerdd Dafod, yn gweled y cyfryw oferbwyll gerddi disylwedd a disynwyr ar dann dros yr holl dir; yn fwbach rhyfeddod Gwlad; ag yn cael y clyw celwyddog eu bod lawer gwell, a mwy rhagorbwyll a rhagorwaith na'r hen gerddi gynt, nid rhyfedd i'r hen farddoniaeth Gymraeg syrthio mor druenus bendramwnwg, i'r cyfryw ammharch a dibrisdod, a dunos encudd, ag y mae y dydd heddyw; fal y mae prin cynifer Bardd deallus a chynnifer Sir y sydd yng Nghymru: yn wir, wrth a glywaf o ddidwyll ysbysiad, nid oes Bardd deallus, herwydd eu rheol a'u celfyddyd eu hunain, yng Ngwynedd am bob dwy o'u Siroedd, od oes un am y cyfan: (C) ag er hynny, digon o ryw fath o drwsgl *rimpynnu* dann enw *prydyddu*, heb nag iaith na chrebwyll; yn wir, fe fu

Digitized by Google

erioed, ag y mae hyd heddyw, digon a digon, herwydd eitha cydwybod, o'r cyfryw frefiadau, dann enw caniadau, ym mhob rhann o Gymru; ond ni fuont yn Benn Gorchestion gwlad a chenedl hyd ein amser ni. Dodwn garolau'r oes honn wyneb yn wyneb a choeg-orchestion yr oes ddiweddaf i dynnu'r aurwy, fal y gweler p'un fydd drechaf, a ph'un a bïau'r clod am awen, pwyll, a chelfyddyd, a barned yr oes a ddaw ar yr ymdrech.

Y mae Dosparth a Threfn Morganwg yn tyfu'n drylwyr o gyssefin ansawdd Bann a mesur wrth gerdd, ag yn gyflawn gyttun ag arfer ag athrawiaeth *Prif Feirdd Ynys Prydain*; ag yn un awendwf a serchymgyd a'r Iaith Gymraeg; fal y gweler yn oleudrem wrth chwilio Gwaith y Prif Feirdd, ar ba rai blaenaf ag enwoccaf yw *Taliesin*, ag *Aneurin*, a *Llywarth Hen*, a *Myrddin ap Morfryn*, a *Myrddin Emrys*, ag ar eu hol y bu *Beirdd Gwynedd* yn haeddu clod mawr; (D) ag yn arwain y blaen ar Feirdd Cymry, ag yn eu gwaith hwy y ceir gwir olwg ar ansawdd gyfiawn Cerdd Dafod; ond collasant y Bel dann wasg a difreiniant a ddaeth ernynt wedi lladd eu Tywysog *Llywelyn ap Gruffydd*: ym mhenn ychydig amser wedi hynny daeth Beirdd Deheubarth yn oreugamp; a llawer o henynt yn gywreinion, fwy nag y gellir yman eu henwi. (E)

Yr wyf yn gobeithio y ceidw y Llyfr hynn gof a gafael ar yr addysg wrth Gerdd, herwydd yr hen Gelfyddyd, hyd oni ddaw rhyw un arall ar 'ym ol i a roddo i'r Beirdd Cymreig, os bydd Beirdd, y cyfryw athrawiaeth a fo cymmwys a gweddus; a deisyfaf ar i Dduw, o ba un yn *unig* y mae *Awen a Deall*, roddi llwyddiant ar bob gwirddysg a chyfiawn gelfyddyd, a rhoi aflwydd ar bob peth amgen, a'm gwneuthur i a phob Dyn o'r Byd, yn ddefnyddiol ryw ffordd neu i gilydd, i'r CYMRY, ag i'r HOLL FYD; a hynn bob amser a fydd swmm a sail gweddi a dymuniad eich eiddo ym mhob anoferwaith,

EDWARD DAFYDD,

**Yn Enw Duw a phob Daioni.**

**AMEN.**

Digitized by Google

/|\

## LLYMMA DRAETHAWD

# LLYWELYN SION,

Yn Nechreu ei Lyfr.

LLYMMA GYFRINACH BEIRDD YNYS PRYDAIN, sef llwybreiddiad addysg ag Athrawiaeth ar Ansawdd a phriodolder Barddoniaeth, a rhywiau, herwydd Ansodd o Fraint ag Angen, ar y mesurau Cerdd Dafod, herwydd Trefn ag Awdurdod yr *Hen Feirdd Cyssefiniaid*: a honn yw'r ffordd iawn i wybod a deall Rhyw, ag Anian, a Defnydd, Barddoniaeth Gymraeg yn ol a fu gynt yn amser y *Prif Feirdd*, nid amgen na *Thaliesin*, a *Myrddin Morfryn*, a *Myrddin Emrys*, ag *Aneurin*, a *Gwion Fardd*, sef oeddynt oll yn byw yn amser *Unbennaeth y Cymry, ar Ynys Prydain*, ag eraill Feirdd cywreinion y rhai a fuant yn amser cyfiawn Dywysogion Cymru, ag a fuant yn unfarn ungamp a'r Prif Feirdd hynny. Ag yman y ceir addysg gyflawn ar Ansawdd Mesurau, a Bannau, ag Odlau, a Chynghaneddion o bob rhyw ag anian, a phob priodolder arall ar gerdd herwydd Iaith a synwyr, a dychymmyg a Chrebwyll, a Threfn, a Dosparth; a hynn o gyfiawn Bwyll a Barn: yr honn ddull ag arfer o ganu a feddylwyd ag a ddechreuwyd gyntaf gann *Enos* ap *Sedd*, ap *Addaf*, y gwr cyntaf; yr hwnn *Enos* gyntaf erioed a foliannodd Duw mewn cyfiawn Gerddwriaeth. (F)

A thrwy'r *Ysprydd Glan*, a Barn ag Athrawiaeth *Enos*, y cafas wyr duwiol eraill *Awen*, ag a fuant oll yng nghylch y chwechanfed flwyddyn o grëadigaeth ADDAF; ag o hynny hyd geni CRIST, y cynhailiodd y Proffwydi y ffordd honn o ganu, gann ei gwellhau wrth Broffwydo CRIST IESU, a'n hynaif ninnau ai cawsant pann ddaethant gyntaf i'r Ynys honn; ag a gafas ei harfer gann *Feirdd* a *Derwyddon*; eithr ei llygru a wnaethant wrth broffwydo celwydd; a myned a wnaeth *Awen* ar lwgr a meth hyd pan ddaeth CRIST yn y cnawd: a'r pryd hynny y derbynniasant em Cenedl ni o *Gymry* y Ffydd yng NGHRIST drwy Bregeth yr *Abostolion Santaidd*; yr honn Ffydd a ddy-

Digitized by Google

weiniwyd gyntaf i *Ynys Prydain* gann *Sioseb o Arimathia*, (FF) sef y gwr a gladdodd gorph Iesu; y pryd hynny y cafas *Beirdd Ynys Prydain* yr *Yspryd Glan*; ag ai galwasant *Awen*; a thrwy'r *Ffydd yng Nghrist* y ceir *Awen berffaith*, yr honn a amlha drwy arfer a santeiddrwydd, a dysg, a gwybodau molian nus, er *Clod i Dduw* a lles i Fyd, ag a ddiflanna drwy arfer pechodau a gwydiau.

A Barn ag Awdurdod Athrawon a gadarnhäodd y ddull ar gelfyddyd honn o ganu ar ddosparth y Gyfrinach Awenawl, yr honn Gyfrinach nis gellir ei datrin heb *Awen* sef yw hynny yr Yspryd Glan; a gwynn ei fyd fyth ai caffo.

Sef yr Awduron a'r Athrawon, ar Beirniaid a gadarnhasant yr Athrawiaeth a'r Ddosparth honn oeddynt y Derwyddon a'r Beirdd, wedi dyfod o henynt I'R FFYDD YNG NGHRIST, a hwy a ganasant ar y *Naw gorchan*, sef yw hynny, y naw cyssefin golofn cerdd dafod, ag ar y *Bann cyrch*, a *Huppynt*, a *Thribann Milwr*; y rhain a fu ganddynt yn fesurau awdurdodawl, ag wedi hynny y bu *Aneurin* a *Thaliesin*, a *Myrddin*, ag eraill yn *Brif Feirdd Ynys Prydain*, ag a wnaethant faru o gydfryd ar Gerdd; a llunio a threiglo mwy o Fesurau o'r NAW CYSSEFIN GOLOFN, nid amgen na'r *ddau Doddaid*, ag *Englyn*, a mesur o *Broest*, a *Thriban cyrch*, a *Llostawdl*, a *Chlogyrnach*, a *Chyngog*, a gwedi hynny meddylwyd yr holl fesurau eraill, onid oeddynt yn *bedwar mesur ar hugain wrth Gerdd*, ag yn tyfu bob un o neillduol ag amrafael Ansawdd, ag yn anymddwyn y naill ag anian a rhywogaeth y llall; ag nis gellir ansawdd mwy na hynny o rif ar *fesurau Cerdd*, eithr wedi i'r Bryttaniaid, achos eu pechodau, golli eu Braint a'u Brenhiniaeth a'u hawl ar Unbennaeth Prydain, a'u Tywysogaeth ar Wlad *Gymru*, a myned yn unraith a'r Saeson, y collasant hefyd yr *Awen*; a chyda hynny, hwy a gollasant gof ag arfer ar y *Prif fesurau Cerdd Dafod*; oni chawsant gan Dduw etifeirwch, a chael o hynny yr YSPRYD GLAN, sef AWEN; ag o hynny *Beirdd*, ag *Awduron*, ag *Athrawon*, *Cerdd Dafod*; nid amgen nag *Einon Offeiriad*, ag *Edcyrn Dafod Aur*, a *Gwrgan ap Rhys*, a *Thryhaearn Brydydd Mawr*, a *Dafydd Ddu o Hiraddug*, a *Sion y Cent*, y rhain Athrawon oeddent *a yr duwiol*, ag a gawsant AWEN, a gwybodaeth ar *Farddoniaeth*, ag a ddygasant ar adfer lawer o'r *Hen Fesurau Cerdd*, ag a wnaethant *Drefn* a *Dosparth* ernynt drwy *Farn Cadair a Gorsedd*, a'u gwellhau yn athrawiaethbell, a gwybodaethbwyll: ag ar ol hynny, gwnaethpwyd *Barn* a *Gwelliant* ar *Fesurau Cerdd*, a Chynghanedd, gan *Ddafydd ab Edmwnt*, yng *Ngorsedd Caerfyrddin*, a chael yno Barn Beirdd ag Awduron er trefnu *Dosparth newydd ar Gerdd*, yr

Digitized by Google

honn a elwir *Dosparth Caerfyrddin;* ag y mae ar arfer gan y rhann fwyaf o *Feirdd Ynys Prydain* yr awr honn: eithr *Gwilym Tew,* a *Ieuan ap Hywel Swrdwal,* a *Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleison,* (G) a roddasant *Nag a Gwrtheb ym Mraint Beirdd Ynys Brydain* ar y Ddosparth honno; am nad oedd yn tyfu o gyfiawn Ansawdd a Phwyll Cerdd Dafod, yn ol Pwyll rhywogaeth, a Phrif Farn ag arfer *Beirdd Ynys Prydain;* ar *Hen Athrawiaeth wrth Bwyll a Barn*: a'r Triwyr hynn oeddent *Feirdd ag Athrawon Cadeiriog* o *Forganwg;* ag am nas gallent lwyr dreiglo *Dosparth Cerdd Caerfyrddin,* nag o gyssefin Ansawdd wrth bwyll, nag o gelfydd Grebwyll a Dychymmyg o barth *Awen;* rhoddasant warafun a gwrthfarn erni: a gwedi gwneuthur felly, rhoddasant ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, *Orsedd wrth Gerdd* ar *Fynydd Garth Maelwg;* a chyda hynny hwy, a gawsant awdurdod o ddawn gwlad a'r Arlwydd Rhisiart Nefel, ag efe'n *Benn Arlwydd Morganwg;* ag yn yr Orsedd honno y rhoddasant *Feirdd Morganwg a Gwent ag Euas,* (H) warafun, a gommedd, a gwrthfarn, ym *Mraint Beirdd Ynys Prydain,* ar *Ddosparth Cerdd Caerfyrddin;* ag o hynny i maes, y cynneiliodd y *Tair Gwlad* hynn Farn yn unraith ungamp ar *Gerdd a Gorsedd wrth Gerdd:* a gwedi hynny y cafwyd Awdurdod Gorsedd ar y Teirgwlad hynn drwy ddawn y *Brenin Harri'r Seithfed;* ag yn y Gorseddau a gysseilwyd ym Mraint yr Awdurdod hynn, y rhoddwyd ar Farn a Defod y dylit gynnal yr *Hen Drefn a Dosparth a Phwyll ar Gerdd,* ag o hynny hyd ein awr y mae ym *Morganwg* lawn ymwrthod a *Dosparth Caerfyrddin;* a Deddf ernynt y *Beirdd* chwilo i maes yr *Hen Bwyll a Dosparth wrth Gerdd;* eithr nid oedd yr amser hynny agos y sydd ein awr ar arfer o Fesurau Cerdd; am nad oeddynt hyd yn hynn ar gaffaeliad ag adfer, ond ef a gafwyd wedi hynny lawer o henynt fel y gweler yn Llyfrau *Gwilym Tew,* a *William Egwad,* a nhwy'n *Feirdd o Gadair Morganwg;* wedi hynn fe 'scrifenodd *Lewys Morganwg* yn helaethach a mwy goleubwyll am y Mesurau a'r Pwyll wrth Gerdd, yn ei Lyfr Barddoniaeth, ag o hynn y gwysiwyd Beirdd y Teirgwlad yng nghyd i GASTELL CAER DYDD dan nodded o ddawn yr *Arlwydd William Herbert, Iarll Penfro,* a *Phenn Arlwydd Morganwg,* lle bu *Gorsedd wrth Gerdd,* ag yno y gwnaethpwyd Barn, a Threfn, a Dosparth ar *Gerdd Dafod, er barnu Braint ag Adfer* ar y cyssefin bwyll wrth Gerdd a'r *Hen Fesurau,* a'r *Gelfyddyd o Brydyddu,* fel y bu gynt, yr honn Farn a Dosparth ni fynnaint *Beirdd Gwynedd* ei derbyn ar arfer; eithr hwy ai galwasant o ddirmyg a senn yn *Ddosparth y Cwn,* a *Dosparth y Moch,* a *Dosparth y*

*Dommen*, a *Dosparth Morganwg*, (1) eithr er maint y senn y rhodder iddi, ef ai treigler o gyssefin Ansawdd, a chyfiawn bwyll wrth gelfyddyd a Chrebwyll, ag o Brif Arfer *Beirdd Ynys Prydain;* a gwedi hynn gwnaeth *Meuryg Dafydd* Lyfr Barddoniaeth iddei Arlwydd *Syr Edward Lewys o'r Fann*, ag ynddo y gwelir cyfiawn gelfyddyd ar Gerdd herwydd Pwyll ag Ansawdd; a'r Llyfr hwnnw a gefais i, Llywelyn Sion o Langewydd, ag o'r Llyfr hynny y tynnais i y maint oll agos y sydd yn hynn o Lyfr, oddierth rhai o'r Pennillion Addysg wrth bwyll mesur danolwg, a chasglu rheini a wnaethum hwnt ag yma mewn Llyfrau a chann Feirdd dysgedigion; ag a wnaethym rai o henynt fy hun gystal ag y medrais; ag yn hynn o Lyfr o'm eiddo y gwelir *Dosparth Morganwg* ar Gerdd Dafod a'i pherthynasau, fal y mae ein awr dann *Nawdd ag Awdurdod Beirdd Ynys Prydain*, yng *Nghadair Morganwg;* ag ar ol hynny fe geir gweled y *Gelfyddyd wrth Gerdd herwydd Dosparth Caerfyrddin*, fal ai gweler gan y sawl ai hoffo; a chyda hynn fe geir gweled ymma, gymmaint ag a ellais i grynhoi yng nghyd o'r *Hen Freiniau a Defodau*, a berthynaint gynt i *Feirdd Ynys Prydain;* a chair ymma hefyd bob Athrawiaeth wrth Gerdd a fo raid herwydd yr *Hen Bwyll ag Arfer*. Ag yr awr honn y tawaf, ag a roddaf i lawr y pethau amgen wrth raid herwydd y Gelfyddyd; gann ddymuno *lles o henynt* i bawb au caront, a'ch dwyn chwi Brydyddion ar garedigfwyn gof ag annerch o'm gwir barch tuag attoch, fal y gweddai fyth i'ch Car a'ch Cyfaill wrth Gynghrair a Chydfarn ym mhob Cyfiawnbwyll o Dduw.

LLYWELYN SION.

1601.

Digitized by Google

# YM MLAENAF O BERTHYNASAU CERDD,

SONIER AM

# Y IAITH GYMRAEG.

YR HONN IAITH yw cyssefiniaeth *Ynys Prydain*, ai *Rhag-Ynysoedd*, a *Gwlad Lydaw*, a *Gwasgwyn*; ag eraill Wledydd yn *Ffraingc*: ag yn henaf a chywiraf o Ieithoedd yr holl Fyd.

Teilyngdod y *Iaith Gymraeg* yn amgen Iaith o'r Byd, yw cyflawn a pherffaith nerth a gallu, herwydd ansawdd a phwyll ei geiriau a'i hymadroddion; i arwedd y meddwl a'r ystyr yn gydred a'r amcan; canys ynddi y mae'r geiriau yn cydfyned a'r synwyr a'r pwyll yn gyflwyr a pherffaith; ag Iaith yw yn medru dyfalu pob pwyll a chrebwyll, a phob amcan er a ddichon meddwl dyn ei selweddu ai ddarfelyddu: a hynn yn llwyr berffaith, heb na llediaith na chymmysg estroniaith, gan ei hamled, a'i helaethgyrch gyflawnder cyrhaeddbell yn ei geiriau a'i hymadroddion.

Mewn CERDD DAFOD, y Gymraeg a ddylai fod yn bur a dianaf herwydd ei threiglad, a'i thadogaeth, ag erwydd arfer yr HEN FEIRDD, a'r Awduron gynt; ys ef, e ddylai'r Iaith fod yn uniawn a chyfiawn berthynas; ys ef beth bennaf y bo'r Testyn, y Ceinmyged, a'r Amcan, a'r Crebwyll, a'r achos, herwydd ei bwyll a'i Ansawdd Naturiol; ys ef, o chaner *Mawlgerdd*, bydded y Iaith yn uchelgyrch, eonfalch, iw chyflawn ag helaethgyrch ymadrodd, heb iselwael a thrymbwl eiriau, o fasder Iaith ag ymadrodd. O chenir *Serchgerdd*, bydded y Iaith yn dirionber, finber, ystyrbell, eglurbwyll, yn llawn hynawsder, a phereiddlwys feluslais, a thiriondeg feddwl; yn lefn wastadber, gerddedlwys; yn llawn serchogrwydd a thirionbwyll ymadrodd; ag fel hynn am bob peth arall a ganer iddo, neu erddo, herwydd hanfod, ag ansodd, a phwyll.

Ni ddylai bod gair yn amhur gymraeg, sef yn wrthwyneb i Reithiad, ag iawnbwyll, ag anian, ag amcan y Iaith; rhaid ei bod, y Iaith, yn hylithr, ag yn hyliw, ag yn hylwydd, ag yn hy-



Digitized by Google

naws, ag yn hywedd, ag yn helaeth: a rhaid ei bod yn oleuglaer ysblennydd; fal y gweler drwyddi a hanner llygad, iawnbwyll ag amcan yr ymadrodd a'r synwyr yn berffaith oleuwel, heb na rhybell ystyr, na rhyfawr ymgais, yn tywyllu ymadrodd Cerdd ag Araith: a pha fwyaf godidog a chyfarddun y bo, gorau i gyd y bydd; canys godidogrwydd yw prif-ragoriaeth pob peth, cann nis gellir cynnal goleuder synwyr, pan fo'n ry gymmhleth yr amcan a'r dychymmyg, a chyda hynny, rhy gymmhleth Troellau'r ymadrodd parth y Iaith, a pharth y Ceinmyged; ag o mynner Iaith lithrigber ag eglurlwys, na ryarferer ormodd a geiriau cynghlwm, cyd bo da iawn a hywedd arfer hybwyll ernynt, ag yn hynn o beth barned y Prydydd, awenyddgamp, cann nis gellir dim a berthyn i Gerdd heb iawnawen.

Pan arferer geiriau cydnydd, (y rhain a eilw rhai Athrawon (L) geiriau cymmhleth, a geiriau cynghlwm,) mewn cerdd, cymmered y Bardd gwbl a thrylwyr ddarnod a sylw ar Ansodd y Geiriau herwydd eu gwraidd a'u tyfiant, a herwydd cyfiawn fonedd a threiglaeth, rhag bod gwyrdro a geubwyll i'r geiriau; rhaid bod y cyfryw eiriau yn gwbl berffaith eu deunyddion herwydd bonedd ag ansawdd y Gymraeg; rhaid eu bod yn gyflwyr unolwg a'r meddwl, yn cyrchu'r un nod a diben, o lwyr gydgyrch gydnod a'r deall a'r amcan, a'r dychymmyg, ag yn berffaith gydliw a'r Ystyrbwyll, a'r Crebwyll, a'r golygiad o ddamrith awen a meddwl, a gweledfodd o gyfiawn synniant a selwedd, onid e, beius y byddant; ag nis gellir o henynt iawn a chydfel ddyfaliad ar unpeth o'r Byd; rhaid eu bod yn gwreiddo yn ddilediaith yn y Gymraeg, herwydd eu treiglad a'u tadogaeth, yn berffaith eglurbwyll ystyrgyrch, fal nas gallo selwedd y meddwl, nag ymgais Awen, ddianc drostynt, ag o hynn y byddant gyfiawn.

Cyfiawn ag iawnfarn arfer ar *gylmeiriau Cymreig* a bair ardderchoglwys a chyfiawnlwydd ymadrodd, a llawndeg ystyrbwyll eglurnod ar Iaith. Cyfiawn ddeall a bair cyfiawn selwedd ar bethau, a chyfiawn selwedd a bair cyfiawn grebwyll a dychymmyg; a chyfiawn grebwyll a lunia gyfiawn Iaith; a hynn i gyd o gyfiawn Awen y dawant.

Bai yw gormodd o'r gwaelder a'r basder sathredig ar y Gymraeg, herwydd arfer Gwladaidd yr annysgedigion, a siarad y Cyffrediniaid; eithr bydded yn ardderchog ei phryd, ag yn fawrwych fwriadliw, ag yn uchelgyrch amcan, ag yn berffeithbur ei hansawdd a'i chyfeiliad ai threigladau, ag yn llawn o'i bonedd a chyfiawn wychder ei hunan; yn odidog ragori ar bob peth isélwedd disylwedd ar Iaith ag ymadrodd; rhaid ei bod

Digitized by Google

yn fawrnerth gyfrym ag eithafgyrch meddwl a selwedd Bardd; hi a ddylai fwrw ei llawn olwg ar amcan a dychymmyg a fo gann y Bardd a'r Athraw dan olwg; a lluniaw 'n oleubwyll sylfon a sylwedd y Gerdd, ag yn dwyn ei llawn nerth a'i gallu er darnodi a darlliwio pob Pwyll ag ystyr, a phob Gair yn gyflym gyfliw a pha beth bynnag ar a ddichon meddwl Dyn a deall Bardd olygu arno ag ymgyhydreg ag ef: rhaid ei bod yn amleddfawr, niferog, a lluosogrif ei geiriau; ag yn nwyfrym, arialus, wresoglais drwyddi; ag yn fuangyrch at nod a selwedd pob irnwyf ag arial-deimlad a serchiadaeth, a phob edlym olwg ar a ddelo ym meddwl a thann selwedd Dyn, ag ym mryd a Chrebwyll o gelfydd fwriad y Bardd buandrem, ag na bo un lliw ar unrhyw seldrem ar gerdd na bo lwyr liw a llun o berffeithgamp arno herwydd Iaith ag ymadrodd; a seldrem y Bardd, a chyd bo bonheddigfalch ei geiriolaeth, bydded hefyd yn dirionllais, a rhwyddwaith, a mwysber ymadrodd drwyddi, yn llawn serch a phrydferthwch, ag weddusber ymgais; a rhaid bod hyn oll o gampau a theithi, ag ednywau, a rhinweddau ar y Gymraeg, fal y bo'n oleulwys, yn harddwych, yn glaerbwyll, yn ystyrdeg, yn olyglwys a rhagorwych ei gwedd, ag yn serchus odidog lanbryd.

Y pethau a barant amlder, a gwychder, a mawrgamp ar y Gymraeg yw perffaith wybodaeth ar Ieithyddiaeth, sef ansodd ffurfiad a threiglad ar air ag ymadrodd, herwydd rheol a dosparth wyddorig ar y Iaith ai geirweddiad, herwydd ei hathroniaeth ai hedlywiad a'i gramadegaeth: ag o hynn o ddeall a gwybod, y ceir cyfiawnder o naturiolgamp gorddyfnawd ar y Gymraeg mal y siereid yn ei gwirnerth ei hunan: ag at hynn o wybyddiad, dylit darllen yr *hen Lyfrau* godidawgwych, sef yr hen Awdnron, Doethion a Dysgedigion, a'r *hen Feirdd* clodfawr, gorchestwaith, awenyddfawr, goleubwyll: a'r *hen Hanesion*, a'r *Bruttiau*, a phob llyfrau doethion a dwyfolion, a gwirbwyll; cannys ynddynt y ceir amlder ystyr, ag amlder meddwl a chrebwyll, ag amlder dychymmyg a barn, ag amlder sylwedd a selwedd, ag amlder seldrem ar Fod a Hanfod, a Phwyll a Deall; a hynn a bair amlder ar y *Gymraeg;* ag yn y llyfrau hynny y ceir ardderchog-ddychymmyg, ardderchog-ystyr, ardderchog-farn, ardderchog sylwedd a seldrem, ag ardderchog-bwyll a chrebwyll: ag o hynn y ceir *ardderchog Gymraeg;* ag ynddynt hefyd y mae godidog bwyll, a chrebwyll, a sylwedd, a seldrem, a barn, a dychymmyg, ag ystyr, a meddwl, ag o hynn *godidog-Gymraeg* a ddeillia, a *godidog-ymadrodd.*

Y pethau a barant eglur-gymraeg yw perffaith Ieithyddiaeth, a chyflawn eirweddiad, a threfnus ffurfiad, ag iawn-dreiglad ar

Digitized by Google

air ag ymadrodd; a bod y geiriau a'r ymadroddion yn gyflungyrch a seldrem a selwedd y deall a'r dychymmyg, ag yn gwirlunio moddwel y Pwyll yn union naturiolgyrch at nod yr ystyr a'r amcan; a gochel llediaith, a llettyb, a lledbwyll, a lledryw; herwydd meddwl, ag ystyr, a chrebwyll; dylai'r ymadrodd ddyfod yn anianol rywdeg o gyfiawn gynrith y deall a'r pwyll: ag anghyfiawn gynrith a seldrem a bair anghyfiawn ddeall a dychymmyg a chrebwyll, ag o hynny *anghyfiawn* GYMRAEG, ag *aneglur Iaith ag ymadrodd;* priodoldeb Iaith gyfiawn yw perffaith adrodd meddwl, a gwir lunio ystyr a phwyll a chrebwyll, a diwall ddatgan amcan bwriad a dychymmyg: a hi a gyll ei phriodoldeb pan na fytho cydfesur a chydred gair a meddwl, ag yn gydgais a phob dychymmyg a chrebwyll; ag ym mhob peth bid cydwedd a chymmhar gair a gwrthddrych, ag ymadrodd a sylfon, ag yn dwyn ëonymgyrch hyd eithafnod pwyll eglur, a deall golcuwel; ag nid pellach.

Teilyngdod a Theithi'r IAITH GYMRAEG, yn amgen Iaith o'r Byd, yw adrodd yn hyfedr, ag yn hyall, ag yn hyddysg, ag yn hynaws, pob peth er a allo'r meddwl, a'r Bryd ei ddychymmyg a'i seldremu, a'i selweddu, ai dyblunio; a hynny yn llawn Nerth a Nwyf, heb ynddi na lledryw na llediaith, yn alluog fawredd, ag yn amleddfawr geiriau ag ymadroddion; ag iddei pherffaith hunander, yn medru llunio a geirioli pob ystyrbwyll yn llwyr oleudrem, a chyfnwyd a'r sylwedd a'r sylfon; ag yn hynny 'n dryfalch odidog: ag nis gellir tremliw na gorithnod, na synniad meddwl ar unpeth o'r Byd, er a ellir ei weled, na'i glywed, na'i ddeall, nas geill y Gymraeg ei gyfiawn eirbwyll, a'i lwyr eirlunio, a'i berffaith ddyfalu, herwydd yr olwg, a'r myfyrbwyll, a'r ystyrbwyll arno, ag o hano; a'r tybliw a rydd y meddwl arno; ag nid rhaid iddi ond bwrw trem ar unpeth o'r byd; ag yna ei berffaith nodliwo, a'i eirbrydu a'i hanesu, a'i ddyfalu; ag yn ei thrylen athrylith, y mae hi'n rhagori, ag yn blaenori ar bob Iaith arall dann haul ag wybren; yn medru perffaith adrodd, perffaith ddyfalu, a pherffaith ystyrddwyn ym mhob peth; a herwydd pob sylwedd a sylfon, a phob swd a seldrem, a phob dir a digwydd, a phob pwyll a chrebwyll, a phob deddf a dychymmyg, a phob drych a gwrthddrych: ag y mae'r FARDDONIAETH GYMRAEG yn gelfyddach, ag yn berffeithach, ag yn brydferthach, ag yn felusach, na'r un a geir yn uniaith arall a fu erioed; ag y mae'r Gymraeg a'i golwg ar bob peth yn uniongyrch at y nod cyfiawn, ag at *sylwedd ai medr,** a thym-

---

* Nid hawdd deall y cynysgrif yma, achos briw ynddo.

Digitized by Google

ma wir gampau a theithi a rhagordalediwrwydd y IAITH GYMRAEG, a'r pethân hynn y sydd yn ei llwyr feddiant mewn grym a gornwyf a phrydferthwch, a llwyr berffaith hawddineb: ag nid rhaid i neb a wypo'r Gymraeg wrth Iaith arall yn y Byd er cyflawn, a chyflwyr, a chyfiawn ddyfalu, a llafaru, ag adrodd unrhyw beth a weder, a glywer, a ddealler, a feddylier, a ddioddefer ag a deimler, herwydd dir a digwydd, deddf a dychymmyg, tyb a meddwl, nwyf ag ansodd, pwyll a chrebwyll, bod a gorfod, hanfod a damwain, ba ryw bynnag.

Prif ragorgamp a rhagorwerth Iaith yw ei phurdeb; sef bod y Gymraeg yn loyw, eglurlan, a rhwydd, a thrylwydd, o bur a chyfiawn dadogaeth, a diwall dreiglad, a chysswllt, a chyfeiliad, ag ansoddiad, ag awenwedd, ag athroniaeth, a chystrawiaeth: ag yn nessaf dalwerth erni yw amlêdd, sef digon o eiriau ag ymadroddion, o rai cyfiawnwedd gweddusdrefn er dyfalu ag adrodd pob damwain a digwydd, a phob dir a deddf, a phob barn a dychymmyg, a phob pwyll a chrebwyll, a phob gwaith ag anian, a phob hanfod a deall, a phob myfyr a moes, a phob drych a gwrthddrych, a phob camp ag anian, a phob rhyw a rhann, a phob deall ag ystyr er a ddichon herwydd Bod a Damwain ymdrafod a chorph ag enaid, a byw a bywyd, a sain a synwyr, o barth teimlad, gwelediad, clyw, rhogleuaeth, blas, ag archwaeth, a nwyf, a deall: a chyda hynn i gyd, bydd cyflawn, a chyflwydd, eglurdeb: sef Iaith ag ymadrodd hawdd ag eglur ei deall; heb orfod ei mawr ystyrchwilo, dylai fod yn uniawn gyfansodd, a chyfnaws, a chyfliw, a chyflun, a'r sylfon a ganer iddo; sef seinfawr i fawrwaith, seinber i serch, galarus mewn galargan, blaenllym yn achos dysg a doethineb; byrrwaith mewn synnwyr bwyll; ag fal hynn ar bob achos; a'r modd y gwneir Iaith fal hynn yn eglur, yw llwyr ymwrthod a phob peth anghyfnaws, a phob camansawdd yn yr ymadrodd, a dewis pob cyfnaws ar Iaith a gwrthddrych, a gair a selwedd, a bydded mor ardderchog a disgleirbryd heulaidd ag y dichon ei bod o'i chadw yn gyfnaws gydfesur a'r peth a ganer iddo: ag ar y pethau hynn y saif grym a nerth Iaith; bydded ynddi hefyd y rhinweddau a'r anianbwyll hynn; sef ei bod yn seinrwydd lithriglais, heb fod ynddi y dim lleiaf yn drwsgl a gerwin, nag yn drwm a rhwystrogred, (M) a chyda'i bod yn seinber, bydded yn anwagsaw: a chyda nwyf, bydded gweddus a mwysber ar bob achos; a gwilied y Bardd nad arfero fyth a llediaith na lledryw nag estroniaith o'r Byd, megis geiriau o'r Saes'neg, nag o'r Ffrangeg, nag o un wagiaith ag oferiaith arall; cann mai casaf ar bob cas yw pob anian estroniaeth; ag o gasinebau es-

Digitized by Google

troniaeth, casaf yw estronair: ag o gof a chynnal hynn o athrawiaeth y ceir CYFIAWN GYMRAEG.

Rhai eiriau ydynt unsain unsynnwyr yn y Gymraeg a'r Saes'neg; a'r ffordd i wybod p'un ai Cymraeg ai Saes'neg y bydd gair o'r cyfryw, dealler hynn o Reithiadau.

Tair ffordd ydd adwaenir ai Cymraeg ai amgen y bydd gair; sef yn *gyntaf*, herwydd tadogaeth y Gair, fal y mae *Cottan* o'r gair*Cot*, sef Gwisg neu Bais a elwir felly gann ei thebycced i *god* neu *gwd* am gorph Dyn, ag ar ddull *cwd* neu *god*, a'i deupen yn egored, y gwnaethpwyd gyntaf hynny o ddilledyn a'i alw fyth yn *got* a *chottan*; a Chymraeg ydyw herwydd tadogaeth y Gair, ag ar yr enw Cymraeg hynn y tadogir y gair Saes'neg *Cote*. COTTAS y gelwir ty bychan, ag yn Saes'neg *Cottaige*; am fod yn yr hen amser gyfraith na chelai neb un yn YNYS PRYDAIN na fyddai berchen ar dir ym mraint a hawl ei hun, neu ym mraint ei Arlwydd, wneuthur ty ar unrhyw dir a daear amgen na hynn, sef gwneuthur rhyw swd o God fawr o wellt gweadbleth o'r maint a fynnai, a'i gosod ar ddull Llestr Gwenyn ar y Tir egored a fynnai, a thwll yn ei hochr yn lle drws; ag yno cynnal Byd a Bywyd oni chelai Rybudd undydd a blwyddyn i symmud efe a'i GOTTAS oddiyno; ag ar hynny o benn amser efe a gymmerai ei GOTTAS, ag a'i dyweiniai ymmaith lle gallai, o rann Rhyddyd, a Byd, a Bodd; ag o hynn y daethpwyd i alw Ty pob Gwr difraint yn GOTTAS, ag ar hynn y Tadogir y Gair Saes'neg *Cottaige*.

Yn ail, arfer Gwlad, fal y mae'r gair *Parc*, sef Caeadfaes, neu G*los* mwy na *Chae* a *Chlos* cyffredin, yn y Saes'neg, yn un ystyr a *Choetgae*, neu *Hyddbarc*, wrth Dy Gwr mawr; eithr yn y Gymraeg ystyr y gair *Parc* yw unrhyw G*ae*, pa un bynnag ai mawr ai bach y bo, a pha beth bynnag a wneir ag ef; a hynn yn gyffredin ystyr yng Nghymraeg Deheubarth, eithr neillduol yw'r ystyr yn y Saes'neg, a barn Doethion yw y bydd trech *cyffredin* na *neillduol*, ag am hynny Cymraeg yw'r gair *Parc*, ag arno y tadogir y gair *Parke* yn Saes'neg, gann fod yn raid i'r *cyffredin*, fal y dywedwyd eiswys, ddwyn y blaen ar yr unig a'r neillduol.

Yn drydedd, awdurdod yr hen lyfrau, gwaith Beirdd ag Athrawon dysgedigion er yn oes oesoedd, nad arferynt er un cael a chyfrif o'r Byd a gair estron; cann nad oedd nag achos nag eisiau, na rhydd iddynt, herwydd Barn doeth a dysgedig, i wneuthur hynny, mwy nag oedd yn rhaid i ddyn o berchen traed a choesau dinam ymarfer cerdded fal *Ci* neu *Fochyn* ar ei bedwar agor. Gair o'r cyfrif hynn wrth brif farn ag arfer yw'r gair *Ffres*, sef croywber, a gwyrain, neu iraidd, a newydd, fal

Digitized by Google

*dwr gwŷra neu groyw*, neu *dwf blagur a bywyll* fal *tardd dail a glaswellt*, a *balant blodau*, neu *loywber wybren foreu*, neu *ledoer awel* ar wres, neu *liw claerdeg difrychau diwywiant*, a phetheu o'r Naturiaeth hynn; ag ef a geir hynn o air yng ngwaith yr Hen Feirdd ag Awduron, cyn cael o'r Saes'neg droediant yn Ynys Prydain, a llawer wedi hynny, cynn cael o'r Saes'neg ei harfer gan y Cymry, fal y gweler y gair yn yr hen Lyfrau gorau yng Nghymru: ag am hynn o achos a barn, nid *Saes'neg* yw'r gair *Ffres*, eithr Cymraeg: a'r Saeson a ddysgasant hwnn, a llawer mwy o gannoedd, gan y Cymry Tlodion a roddasant eu hunain yn *wyr ffydd a dyled* iddynt, wedi gorfod o henynt ar y rann fwyaf o Ynys Prydain, ai dwyn o feddiant Gwyr wrth Fraint a Chyfoeth o Gymry; ag o hynn y mae bod y cyfryw debygaeth rhwng llawer o eiriau Cymraeg a rhai Saes'neg mewn sain a synnwyr.

---

## YN AIL AR BERTHYNASAU CERDD,

### SONIER AM

# DDYCHYMMYG A CHREBWYLL.

---

DYCHYMMYG, neu Grebwyll, yw *rhith a chynllun* a wna'r meddwl a'r deall a'r pwyll, ar bethau na fythont yn dwyn ernynt eu hunain, o ddir ag angen y cyfryw *rith a chynllun*: eithr Dychymmyg a Chrebwyll a fydd yn amgenu 'mhell ar Ddir ag Angen, fal ydd amgena lais Offeryn Cerdd ar lais a swn troed yn cerdded, neu chwythad anadl. Dychymmyg a Chrebwyll a wnant gyfiawn gasgl o'r pethau a fyddont hardd a rhagorwerth, a'u rhoddi'n gyfungwlm gyfungorph, ag o hynny llunio un sylfon Cerdd, a throi'r cyfan at un gwrthddrych; ag ym mhob dychymmyg dylai fod iawn-berthynas, a chyfundeb cywaith rhwng yr amryw geineiau a cholofnau o heni; fal na bo annhrefn ag angnghyttun ansodd ag amcanion yn y Gerdd; dylai fod iawnddosparth ar bob cainc o'r ddychymmyg, ys ef, pob peth yn ei le priodol a gweddus; ag o hynny y daw iawnberthynas, a chyfiawn gydseifiad a chydgeisiad ar y Gerdd; ag ym mhob rhann o heni, dylai fod per-



Digitized by Google

ffaith amcan a diben ym mhob Dychymmyg; sef fel y gallo'r Darllenydd neu'r Clywadur yn hawdd weled at ba ddiben y gwnaeth y Bardd ei Gerdd; a pheth oedd ei amcan ef o'i gwneuthur; a bydded, herwydd ei diben a'i hamcan, er lles a diddanwch yn gydwaith i'r Datceiniaid, ag i'r Darllenydd, ag i'r Clywadur; ag oni bydd y Gerdd yn dwyn erni ag ynddi hynn o deithi, ni ddaw o gyfiawn awen yr hon y sydd o Dduw. Mal y bo perffaith a cyfiawn Dychymmyg, dylai fod erni gyfiawn, a chyflawn, a chyflwyr Fyfyrdod; a bid hefyd y Myfyrdod yn drynerth, a chyflym, ag yn dwyn ag yn bwrw llawn olwg ar bob cymmal o'r Dychymmyg, fal a'i cydgymmaler yn iawndrefn a pherffaith; ag na ddoder unpeth erni, nag unrhyw beth ynddi, nas gellir ei iawn gydgymmalu a'i gydweddu a'r parthau eraill o heni; ni ddylit rhoddi gormodd amcanion ar Ddychymmyg, na gormodd deunydd ynddi, na gormodd pethau amrafael yn ei sylfon, a'i gwrthddrych, am nas gellir iawndrefn, a chydgorpholaeth perffaith, ar hynny o amrafaeliaeth: dylai fod yng Ngallu Deall ag Awen ymafael yn y sylwedd, a bwrw llwyr ag eglur seldrem ar bob rhann o Ddychymmyg y Gerdd, a'u cydymgasglu, a'u cydgorpholi yn un sylwedd a chyfunddal-nod ernynt; ag onis gellir bwrw llawn ag eglur seldrem ernynt, ag ar bob rhann a chymmal o'r Ddychymmyg, ef a'i cyffelybir i Wr ar benn Twyn yn disgwyl o'i flaen ag yn gweled y cyfan o'r tu hynny; ag ef yn chwennych gweled yr hynn sydd o'i ol, yn gorfod troi ei gefn ar ei weliad cyntaf, ag wrth hynny yn colli golwg arno, ag ni wel onid peth llwyr amgen. Dychymmyg a Chrebwyll a fyddant yn amgenu ar bob hanfod angen a damwain; fal hynn; CREBWYLL a elwir felly am waith ei hawen yn crëu pethau a fydd iddynt hanfod a digwydd herwydd ansawdd anian a phwyll, cyd na bo iddynt hanfod o ddir a gorfod; ag o wybod a gweled blaenllaw; ys ef, fal y bydd Bardd o ganu am degwch Haf yn son am bob hardd a difyr, a phob teg a thirion; eithr mewn Haf y mae llawer hagr a gerwin, a budr ag anferth, fal y bydd anferth yr olwg ar lawer peth, hagr a gerwin dywydd, anferth ysgrech adar rheipus, a phoenus ddioddefiad oddiwrth nadredd, a drain, a dynaid, a llawer mwy na hynn o bethau; eithr sonied Bardd am a fo tirion, a theg, a gwynfyd-ddwyn, fal y mae hin dirion, wybren glaer, daear flodeuog, ag adar caniadgar caniadlais; a phethau cyfryw, o dirionwch a mawr hoffder; cann y dychyn, o barth anian ag ansawdd a digwydd, i'r pethau hynn fod heb y pethau anhoff eraill yn eu plith, ag ar eu cyfair; ag wrth hynn o gyffelybiaeth, dealled y Bardd am bob peth arall; eithr ni ddylai glymmu ynghyd pethau gwrthwyneb; fal rhoi mewn

Cerdd ddyfaliad o bethau ynghyd blith draphlith, nas gallant fod herwydd nag ansawdd nag anian, na digwydd, fal son am flodau ag afalau yn yr un tymp ag amser; ag am y cyfryw anghyfnawd a gwrthwyneb ar bethau; cann nis dichon eu bod herwydd anian a digwydd; eithr gwir a chyfiawn WAITH CREBWYLL a DYCHYMMYG yw cynnull ynghyd pethau hoffion herwydd tegwch, a thirionwch, a'r diddanwch o henynt, o bethau a ddychyn bod ynghyd, ag yn gyttun a'u gilydd herwydd anian a digwydd; ag fal hynn am bob sylfon a sylwedd ar Gerdd.

Ni wedd yr un ansawdd o barth Dychymmyg i bob rhyw ar Gerdd, nid yn unrhyw y bydd Crebwyll a Dychymmyg Mawlgerdd a'r rhai a font weddus ar Alargan; ag ni bydd yr unrhyw fyfyrdod ernynt; eithr gweler ym mhellach am hynn bann sonier am yr amrafael rywiau ar Gerdd; gocheled y Bardd na bo'n gwrthladd y gwirionedd yn ei fyfyrdod ar Ddychymmyg a Chrebwyll; cann nis dylai hynny fod er un cael na chyfrif; ag yn unrhyw dealled am ansawdd ag anian, sef nas dylit eu gwrthladd a'u gwrthwynebu; ni ddylai fod unrhyw anwiredd nag annigoniant yn y Crebwyll a'r Dychymmyg, gann nad yw hynny yn iawn herwydd cyfiawn ansawdd ag iawn ddiben Cerdd; etto, cofier mai Dychymmyg a Chrebwyll a font gyfun a gwirionedd ag Anian, a Rhyw, yw halen Cerdd, a'i henaid; ag enaid Doethineb yw Gwirionedd, a chyfiawn Ryw ag Anian; a phethau ydynt y rhain nis gellir eu hepcor er cael a chyfrif o'r Byd, o bydd Awen o Dduw.

---

## YN DRYDEDD AR BERTHYNASAU CERDD,

SONIER AM EI

# HAMCAN A'I DIBEN.

---

DIBEN CERDD yw gwellhau Deall, helaethu Gwybodaeth, gwellhau Myfyrdod ag Athrylith, a llawenhau'r Galon a'r Meddwl yn ddibech feddylfryd, a diddanu'r Bryd a'r Ysprydiaeth, a sirioli'r Nwyf, a bywiogi Arial ag Ynni, ag Awen, heb fod yn achos na drwg feddwl, na drwg foes, na drygnaws, na



Digitized by Google

drygnwyf; eithr helaethu Doethineb, a Gwynfyd, a Dedwyddyd; a chyfiawnhau Barn a Brydwaith, a Myfyrbwyll; a hynn a ddaw o Fawl ar y Da, ag o Anfawl ar y Drwg; a pherffaith ddyfalu ar y pethau a font hardd, a thirion, ag ardderchog, a serchus, a daionus i Gorph ag Enaid: ag onis ceir ar Gerdd un o'r Prif-ddibenion hynn, beius herwydd ei hamcan a'i diben y bydd, ag nis teirdd o gyfiawn a Dwyfawl Awen; cann onis pair Cerdd annogiad ar ddaioni, a dedwyddyd, a gwynfyd, a gwrthladdiad ar ddrygioni, ag anwybodaeth, a gofid; nis dylit ei goddef mewn Bod nag ar Gof, rhag y mawr afles ag aflwydd o heni.

---

## YN BEDWERYDD AR BERTHYNASAU CERDD,

SONIER AM

## *Rhyw ag Ansawdd*

## CYFIAWN FYFYRDOD.

---

SEF ni ddylai Fardd fyfyrio ar unpeth gwael o'r Byd; sef yr hynn a fo bas ag aflwys, ag na fytho daionus, a hardd, a gwych, ag ardderchog, a diddan, a siriolaidd o bwyll ag ansawdd; neu fod ar y myfyrdod un o'r pethau hynn o gamp ag anian; ag ni ddylai fyfyrdod gyrchu at un peth drwg, ag anhardd, ag anweddus, ag anniddan: myfyrdod gyfiawn a ddaw o ymgais a phob doethineb, ag o ymarfer ag iawn farn, ag uniawn dyb; ag o graffu'n llwyr ar bob peth teilwng ei synnio; ag o ymarfer a moliannus, a daionus weithredoedd a meddylau; ag o lwyr ymwrthod a'u gwrthwynebiad bethau, herwydd gweithred a meddwl: ys ef a hoga'r myfyrdod yw iawn ymarfer a'r campau moliannus hynn; nid amgen na Gwirionedd, Calondid, Glewder cyfiawn, Haelioni, Eonder, Diweirdeb, Ufuddawd, Cariad perffaith, Heddwch, Gwarineb, Addfwynder, Llawenydd, Digrifwch, a phob cyfiawn weithred a meddwl; ag ymwrthod yn llwyr a'u gwrthwynebiaid; a dal craffnod ar bob peth Hardd, ag Ardderchog, a Diddan, a Llesol, yng ngwaith Duw a Dyn; a mynych bwrw seldrem arnynt;

Digitized by Google

ag nis gellir cyflawn a pherffaith Fyfyrdod heb ddysg a llenyddiaeth; cann ys o hynny y mae cael gwybodaeth ar Fam, a Phwyll, ag Athrawiaeth y Doethion; a chwedi hynn, nis gellir gwaith yn y Byd heb Awen.

## YN BUMMED AR BERTHYNASAU CERDD

SONIER AM

## *Drefn o Barth*

## YMDDWYN AR GERDD.

TREFN O BARTH YMDDWYN AR GERDD yw hynn; sef yw gosod pob peth yn ei le priodol, a'i adrodd yn gywir ag yn gywair, herwydd modd, amser, ag achos; rhaid yw bod y Gerdd yn ei chyfansoddiad yn gyfiawn ym mhob cangen o heni; er cael a chynnal hynny, ni ddylit amgen nag un Ansawdd, nag un Amcan, nag un Ymgais ar Gerdd; annhrefn a chamymddwyn ar Gerdd yw mawl ag anfawl i'r un peth, ag ar yr un Gan: ag os cenir mawl, na rodder yn y Gan honno anfawl i ddim nag i neb, o gyssefin amcan, eithr o ddigwydd i'r hynn a fo'n gwrthladd y peth a foler; cann nid dychan ag anfawl yw prif a chyssefin ddychymmyg, ag ymgais, ag amcan, a diben y Gan: bai cyffelyb yw galar a digrifwch, prudd-der ag ysmalhawch; cann y byddant y pethau hynn fal gwedyd a gwrthwedyd yr un peth, ar yr un anadl; ag mal ceisio cydgymmysgu tan a dwr; ag am hynny cadwer Cerdd wrth ei phrif a'i chyssefin amcan, a'i chyfiawn ddiben ag ymgais; heb roddi yng nghyd ynddi y pethau ni chyttunant, ag ni chydsafant mewn modd yn y byd a'u gilydd. Annhrefn a chamymddwyn ar gerdd yw ammherthynas gair ag achos, herwydd gweithred ag anian; megis adrodd rhyw gamp a gweithred fawrwych, neu ddyfalu peth hardd a rhagorwerth mewn Iaith gyffredin, sathredig, a gwladaidd; neu adrodd rhyw beth gwael a chyffredin mewn mawriaith uchelgais. Annhrefn a chamymddwyn hefyd ar gerdd yw moli'n ammherthynas; fal moli Offeiriad am ymladd a rhyfelgarwch; yr hyn nid yw'n ragor-

Digitized by Google

gamp yn y byd ar Offeiriad, eithr yn anghlod ag anurddas iddo: neu fal pei molit Rhiain fonheddig am wroldeb ag ymladd; neu foli Gwr am lendid corph ag wyneb; y rhain bethau nid ydynt gydnaws a chyfiawn fawl. Ni ddylit fyth ddarnodi Gwr bonheddig yn siarad yn wladeiddiaith, ag yn wladeiddbwyll; na Gwladeiddwas yn siarad bonheddigiaith ragorbwyll: dylai fod un gyfunwedd Athrylith yn treiddlenwi'r Gerdd; ag un Brifamcan yn dwyn oll o'r dychymmyg erni, ag oll o'r Myfyrdod; ag o hynn y cyfyd iawn drefn ar Gerdd Dafod: a chofied y Bardd! na sonied am unpeth mewn Cerdd oni ddelo achos herwydd a ddywespwyd o'r blaen: ag os chwennych Bardd son am unpeth yn arbennig yn ei Gerdd, darpared achos ynghyntaf wrth hynny o son a thraethiad yn ei Gan; a hynn fe eill yn hawdd ei ddarpar a'i drefnu, os bydd ynddo gyfiawn Awen ag Athrylith: eithr edryched na rodded achos dwyn dim i'r Gerdd na fytho'n perffeithio'r Amcan a'r Dychymmyg, ag yn cynnal Gwirionedd, ag yn iawndüedd at Brif-ddiben y Gerdd.

---

## YN CHWECHFED,

### SONIER AM

## *Y Drefn ar Gyfiawn Ddyfalu,*

### A HYNNY YN

## BRIF BERTHYNAS CERDD.

---

CYFIAWN Ddyfalu yw un o Brif-berthynasau Cerdd; cann ni bydd eglurdeb erni, na bywyd ynddi, heb ddyfaliad ar y pethau a wnant ei sylfon a'i sylwedd: a chyfiawn ddyfaliad yw goleuni'r Gerdd, wrth ba beth y gwelir ei Myfyrdodau a'i Chrebwyll, yn oleuglaer ysblennydd; dylit iawn a chywir ddyfalu ar wrthddrychau a mannau nod, a phethau nod Cerdd; ond ni ddylit ddyfalu ernynt y pethau cyffredin a fo ernynt o barth golwg ag Ansawdd; a'r hynn a fo pawb yn sylwi a synnio ernynt ag a wyr pawb am denynt, mal pei dywedit mai

Digitized by Google

clodfawr yw gwroldeb, a doethineb, a'r cyfryw rhagorgampau; yr hynn a wyr yr anghallaf o ddynion: neu pei dywedit bod llygad neu wallt gann ferch; neu am brenn ei fod yn tyfu, neu am aderyn bod iddo bluf; eithr dyfaler y lles a geir i fyd o wroldeb a doethineb, a'r cyfryw ragorau ar gamp a deall; ag am bethau, parth golwg arnynt, dyfaler eu tegwch herwydd eu rhagoriad ar bob peth o'r cyfryw; mal dyfalu llygad yn ddu, a bywiog, ag yn serchogaidd dirion olwg; ag am y gwallt dyfaler ef yn ddu, nen yn felyn, neu yn wineu, fel y bo herwydd ei liw, o bydd rhagorliw arno, ag am ei fodrwyogrwydd, a'i danniad ar groen harddwynn, a'r cyffelyb ddarnod arno: ag am brenn, dyfaler ei dwf teg, ei faint, ei frig, a tharddiad ei flagur a'i falant, a'i flodau, a'i ffrwythau; çann mai yn hynn o bethau y dichon ddwyn y rhagor ar bob prenn arall. Dyfaler aderyn am ei harddwch i'w bluf, a phereiddlais ei gan, a thymp ei ganu; ag fel hynn am bob peth a ddyfaler, sef ei ddyfalu am ddwyn rhagor a blaen ar bob unrhyw ag ef o hanfod ag anian. Ag ef a ddylit gochel dyfalu pob anhardd a gwrthun, a phob anferth ag anfodd, a phob afryw ag afraid; ag ni ddylit ddyfalu eithr yr hardd a'r rhyfedd, o wirfodd a gwirfod; a'r rhagorol rhagorddwyn, a'r moddoldeb, a'r peth, ba bynnag y bo, a ry foddlondeb meddwl a chalon, i'r Darllenydd a'r Clywadur; a dealler hynn am bob peth a ddyfaler; eithr mewn senn; ag yn hynny yn unig y dyfelir y drwg, a'r gwrthun, a'r anferth, a'r anfodd, a'r afryw, a'r afraid ar bethau; mal a'i cashaer ag a'u ffieiddier.

---

## SONIER YN Y SEITHFED LE

AM

## *Berthynasau Cerdd*

## PARTH AMLDER DEUNYDD A DYCHYMMYG.

---

RHAGORWERTH ar Gerdd Dafod yw amlder Deunydd, sef amrafael Ddychymmyg ar amrafael o Gerdd; fal y bo diddanwch newydd iddei gael ym mhob Can, heb fod yr un Myfyrdod a Dychymmyg ddwywaith yng ngwaith y Bardd;

Digitized by Google

rhag diflased y bydd hynny, a thrymmed y bod o hano i Ddarllenydd a Chlywadur; ag mewn un Cerdd, ef a ddychyn hefyd bod amlder Deunydd; a harddwch rhagorwerth yw hynn ar waith Bardd o'i iawn drefnu; ag yn amryw foddion y gwneir hynn; ys ef o drefnu a darparu pethau nod, a mannau nod yn y Gerdd, pob un yn amrafael fyfyrdod a defnydd y naill wrth y llall; eithr gwilied y Bardd bod y mannau hynny o'r Gerdd yn cangennu'n rywiog o brif amcan a sylwedd y Gerdd; ag yn cyfrannu tu ag at ei diben, o gydymgyrch a chydymgais; sef cyffelyber Cerdd a fo fal hynn i Bren ffrwyth teg yn harddfrig, a mawrfrig, ag yn llawn dail ag afalau; eithr a hanner tremiad y gwelir yn union eglur mai canghennau, a dail a ffrwythau ydynt ar gorph a chyff un prenn; a hynny yn eglur olygwel; ag mai nid i amrafael gyffon a bonau y perthynant; a Cherdd a fo anaml ei deunydd a gyffelybir i bost o brenn, yr hwn, er cymmwysed a thecced y bo, nid yw ond post, heb na dail, na brig, na ffrwyth, na phryd, na dim yn harddolwg arno. Y modd y darparer achos aml ddeunydd yw hynn, sef dyfaled y Bardd yr hynn o beth a fo ar fyfyr, a thann sylw a seldrem gantho yn berffaith eglurbwyll ag anianbwyll, yn y cyfryw fodd ag y bo'n cael ei arwain ar hyd lwybr cymmwys at achos, meddwl, a selwedd, a myfyrdod amrafael; ag fal hynny at un arall; ag yn y blaen fal hynny hyd ddiwedd y Gerdd: a bydded hynn o waith mor fynych yn y Gerdd ag y dichon ei fod gyda chyfiawn drefn ag ymddwyn, heb droi oddiar y llwybr cymmwys a fo'n arwain at ddiben y Gerdd; a mal hynn arfered a'r cyfryw gynnildeb; sef peth yw a ellir ymarfer ag ef yn hylwydd ag yn hyles; sef o chan Bardd i wydd, neu adar, nag i ryw unpeth arall, defnyddied y Gan yn y cyfryw fodd ag y bo rhaid iddo er perffeithio Dychymmyg, a Chrebwyll, a Myfyrdod. O ganu i Dduw, neu i Ferch, neu i Wr wr'i glod a mawlgamp; neu i ryw gainc ar Foes a Doethineb; neu foliannu rhyw wynfyd, neu gwyno am ryw adfyd ag anffod-ddigwydd; neu son am bethau godidogion, a rhagorddwyn, ag ardderchogion a fuant gynt, y sydd yn awr, neu a ellir eu disgwyl i ddod; neu siarad am ddoethineb, neu ryw beth bynnag arall a rotho ddibech ddiddanwch i'r meddwl, a'r galon, ag a foddhao'r deall a'r pwyll, ag a bair addurn a theghad i'r Gerdd, herwydd ei hamcan, a'i dychymmyg, a'i diben: a hynn a bair Cerddor yn debyg i impiwr yn impio afallen, sef y cais afallen wyllt, yr honn y sydd galettaf a chadarnaf ei gwraidd o'r holl rywiau efeillwydd, ag a'i planna mewn perllan; a thrin y tir yn dda i'r prenn, a'i phlannu'r afallen mewn iawn adeg, ag yn iawn-gelfyddyd, a threfnu ag arfer iawn achles, a gwrtaith, ag arall drinaeth i'r

Digitized by Google

prenn; ag ym mhen encyd impo prenn arall ar hynn o fon a gwreiddyn, ys ef afallen ber, neu amrywion rywiogaethau o afallenau per; a choledd y canghenau fagad o henynt, fal y gwelo'n orau er dwyn o henynt lawer o frig ag afalau perion yn gyttun ag iawn drefn i'r prenn; eithr eu torri y gwylltion ganghennau, heb oddef i ormodd o ganghennau a brigau dyfu ar y bon iddei ryfawr lwytho; ond torri ymmaith y gwannafon a'r afluneiddaf o henynt, a chadw a chynnal y goreuon a'r teccaf; a gwelir hyn o brenn cyd bo'n impedig arno llawer math a rhywiau afalau yn unwedd ei frigau, modd a phei baent naturiol o dwf heb y gronyn lleiaf yn amgenu ar brenn wrth nattur a gwylltineb; ag er hynny yn rhagori mewn ffrwyth ar gawd mil o goed gwylltion, yn hardd ei dwf, yn aml a theg ei golfenni, yn dwyn llawer ag amrafael ryw ffrwythau o barth blas, a lliw, a llun; a'r cyfan yn hoff i'w ddymuno. Yn unwedd y dylai Fardd impo amrafael ddychymygion, a myfyrdodau, a thardd-iadau Crebwyll, ar y brif a'r gyssefin ddychymmyg, yr hynn yw'r boncyff; a bydded cyfathrach anian a rhywogaeth ryngthynt, fal rhyng yr afallen surwyllt, a'r un ddof bereiddflas. Nid da gormodd dychymmygion a myfyrdodau, mwy na rhy fach o henynt, fal y bydd drwg gormodd, neu ynteu rhy fach, o frigau ar y prenn; sef y tebygir y Gan i'r prenn fel hynn: y Gymraeg yw'r tir tyflawr; yr achos, neu'r diben a'r amcan, yw'r cyff; y dychymmygion a'r myfyrdodau yw'r canghennau; y dyfaliadau yw'r manfrig; y ganiadaeth o barth bann, awdl, a chynghanedd, yw'r dail a'r bloden yn ei harddwisgo; a'r ystyriaeth a'r pwyll, a'r synnwyr, o barth tuedd at les a daioni, ydynt y ffrwythau.

---

## SONIER YN WYTHFED AR BERTHYNASAU CERDD

*Am Drefn ar Ganiadaeth, parth Bann, ag Awdl, a Phennill, a Chynghanedd, ag Accen; sef y bont yn dwyn ernynt y cyfryw Drefnau ag a wnelont Gerdd yn Ber Ganiadaidd i'w llafar a'i Goslef.*

---

RHAGORIAETH mawr ar Gerdd yw'r drefn ar y ganiadaeth o barth Bann, a Phennill, Cynghanedd, ag Awdl, ag Accen; sef eu trefnu yn y cyfryw fodd ag y byddont bereidd-



Digitized by Google

lais eu sain; a hynn a geir o amrafaelu Bann, neu Gynghanedd, neu Accen, yn y cyfryw fodd ag y bo amrafael ganiadaidd y llais a'r sain, cann ys diflas a gwrthun y bydd y sain a'r llafar ar Gerdd, oni wneir trefn o barth awen a cherddgar athrylith ar hynn o beth fal na ddygont y Bannau yn ryfaith yr un accen a threfn ar Accen; ag ar Gynghanedd. Llawer modd a rhyw y sydd ar Accen, ag hefyd ar Gynghanedd; a phob un yn ymrafaelu y naill ar y llall. Pumryw Gynghanedd y sydd, nid amgen Cynghanedd groes, neu gydbwys; Cynghanedd lamm, neu draws; Cynghanedd gadwynog; Cynghanedd lusg neu gymmysg; a Chynghanedd sain neu unodl; ag amrafaelu y maent ar eu gilydd lawer iawn; ag o'r pumryw Gynghanedd hynn, y mae'n aneirif moddion a rhywiau yn llwyr amrafael y naill wrth y llaill, herwydd sain ag Accen: a dylai'r Bardd awendrem, synniadfawr, golyglym, gymmysgu'r amrafaelion foddion hynn ar y Cynghaneddion, a'r amrafaelion rywiau ar bob Cynghanedd, a'r amrafaelion rywiau ar yr accenion, yn y cyfryw fodd ag y bo amrafaelber y sain a'r llafar ar y Ganiadaeth; a chael o hynn blasus Beroriaeth ar y Gerdd, er mawr hyfrydwch a diddanwch i'r Darllenyddion a'r Clywaduriaid; a melusach, a mwy cynghanedd a chanber a llafarber y bydd Cerdd o gynnal hyn o drefu erni, ag ar y pethau hynn; na phe bait yn dylud yr un gynghanedd, ar yr un accenion ar bob bann o'r Pennill; a bai mawr, fal y mae ar gamp ag arfer gan rai, yw canu a chynnal Croesgynghanedd ar bob Bann o Gywydd, neu unrhyw fesur arall; cann ys er mai honno, sef y Groesgynghanedd, yw'r un rag oraf a'r Gelfyddyd o'r holl Gynghaneddion; etto diflas yw Cerdd a phob Bann o heni yn dwyn yr un Accen a'r un Gynghanedd drwyddi draw, fal y dywespwyd eiswys; a thebyg yw i Gan y Gwccw; ys ef y bernir Cerdd ag erni awenwaith cymmysg ar Gynghaneddion ag Accenion, yn eilydd Can yr Eos, yn luosber lais a llafar, ag yn newidlwys oslef, ag amryfel gaingc ar Ganiadaeth.

Ni ddylit roddi cynghanedd sain, sef unodl moel, nag un arall o'r gwaelion Gynghaneddau, sef Cynghanedd hirlam, a Chynghanedd gymmysg a fo'n tyfu o'r traws hirlam; ar y fraich olaf ar Bennill, neu Gwpl ar Gywydd, neu Huppynt, a chyd na bo gwael Cynghanedd gymmysg o sain a chroes cydbwys a'i hawdl yn gyfansoddedig, sef yn ddesgynnedig, yn unrhyw fann ar Gerdd, amgen nag ar y fraich neu'r Bann olaf o Gwpl neu Bennill; etto, lledwael y bydd yno, er cystal ei ryw ym mhob mann arall: eithr yn od yn hynn o fann, sef ar y fraich olaf, gellir ei lledarfer yn anamlwaith wrth achos tynn, heb y mawr fai a meth: ond Cynghanedd gymmysg dda, fo'n

Digitized by Google

tyfu o'r unodl a'r groes gydbwys, ag yn dderchafedig neu'n unig ei baccen a'r awdl; ef a'i harferer bann fynner gyda rhyddlwyr eonder, ar y fraich olaf, eithr llesfawr y gwaelion gynghaneddau, o'u cyfiawn ag awenwaith gymmysgu a'r rhai eraill, a gwell na bod hebddynt.

Bai hefyd yw cynnal Pennill yn ry hir wrth unodl; a barn Beirdd awenbwyll yw, nas dylit, yn eitha pwyll ei gynnal yn unodl dros rif unarbymtheg, er gochel gormodd unsain ar Gerdd a Chaniadaeth.

Bai etton yw gormodd-gynghaneddu ar y man fannau, sef y rhain fannau a dyfont o'r byrrion gyhydeddau; sef y man a'u gelwir y rhai a ddont o'r gyhydedd bedeirsill, a'r un bumsill, a'r un chwesill, ag nid rhaid cynghanedd ar bob braich o'r cyfryw fannau a chyhydeddau mewn mesurau o Gysswllt, sef ar Lostodyn, ag eraill Fesurau, oddierth ar fraich y Brifodl, sef y Llost, gann nis gellir cadw a chynnal synnwyr ar y man golofnau gyda llawer o Gynghanedd; ag fal hynn am Lostodyn dealler am y mesurau cysswllt eraill, sef Cynghog, ag eraill, sef ni mawr ganer ar y mangolofnau o barth Pennillion ar gyssefin foddion, sef y GORCHANAU, cann nas bydd blasus a chaniadaidd Cerdd ddigynghanedd o gwbl, ag ni fydd eglur a rhwydd a chryno synwyr y Gerdd o gynnal Cynghanedd lwyrgamp erni ar y manfannau; etto caner yn ddiommedd deufann unodl, neu Gwpl, ar y Gyhydedd ferr neu ar un o'r tair byrrat, mewn Cyngog neu Glogyrnach, neu Lamgyrch.

Hefyd, mal y bont lithrigion y bannau mewn Cerdd, na fydded gormodd arfer ar eiriau a sillau lleddfon; herwydd eu sain a'u llef, trwsgl ydynt, a gerwin eu llais mewn Caniadaeth; ag am hynny bydded bychan yr arfer ernynt ag o henynt; ag odid o air trwgl o'r Byd nas ceir gair llyfn eglurlais yn unbwyll unbwys gyfystyr ag ef; ag nid oes o'r Gymraeg, braidd ungair heb air neu ddau, neu dri, a mynych llawer mwy, o eiriau yn unbwyll gyfystyr ag ef; ag yn eu plith nid rhaid fyth gwall a diffyg geiriau llafarber esmwythlais.

Wrth fydryddu Cerdd, sef trefnu a llunio mesur ar bennill, edryched y Bardd na rotho'n gwpledig y cyfryw fannau ag a font ry annhebyg, ag anwastad, ag anghydbwys, herwydd Cyhydedd; mal pei rhoddit yng nghyd yn gwpledig y bannau byrrion a'r rhai hirion; mal rhoddi bann o ddegsill neu twy, yn gwpledig ag un o bumsill neu lai, a'r cyffelyb; cann ni lithra'r Ganiadaeth yn hawdd ag yn rwyddlithr o'r un Gyhydedd i'r llall pan font yn ry anghyfartal; ag ni chydsaiant yng nghyd, yn berlef, ddeuryw gyhydedd, neu'n gwpledig, o bydd mwy rhyngthynt mewn hyd na deusill neu dri o'r mann pellaf, oddi-

erth mewn Llost; ag yno gellir chwesill yn fwy neu lai nag a fytho'n y Corphfannau; a da bod ym mhob cwpl y bannau yn ogyfartal; a phann rother cwpl arall, fel mewn Clogyrnach, ef a ellir newid y Gyhydedd yn ddau sill neu dri, mwy neu'n llai; a chofio cadw gogyfartalwch; eithr nid rhaid eu bod yn gyflwyr gyfartal; ag mewn Huppynt ef a ellir, yn ambelleuig, ychydig anghyfartaldeb rhwng bannau o sill neu ddwy; a chyd bo melus a pherlef amrafaeliant ar Gynghanedd ag Accen ar fannau; etto fe welir weithiau yr amrafaeliaeth yn drwsgl, ag yn ry anghyflais, a llwyr anghaniadaidd, ag anghyfannedd: a Bardd awenbwyll a wel hynn, ag a'i gochel; ag o synniadu fal hynn ar gyfansoddiad y Gerdd, herwydd Mydryddiad, Pennill, Bann, a Chynghanedd, a llef, ag Accen, ef a'i gwneir yn felusber llais a llafarlaeth; ag yn felus ei darllain, a'i chanu, a'i gwrando.

---

## YN NAWFED O BERTHYNASAU CERDD, A HYNN O BRIF BWYS A RHAID,

SONIER AM

## *Wirionedd,*

Yr hynn nis gellir hepcor o hano, er cael a chyfrif o'r Byd, ba rhyw bynnag.

---

TEILYNGDAWD y BEIRDD CYMREIG, yn amgen Beirdd o'r Byd, yw dywedyd cyfiawn a chyflawn WIRIONEDD yn eu Cerddi: hynn oedd arfer ddiysgog yr HEN FEIRDD; y rhain ni wnaent, er neb o'r Byd, Gelwydd a Thruth, na Hud a Thwyll yn eu Cerddi; ag nid cynn yr oes honn, y daeth yr arfer anghyfiawn, a gwrthryw, a gwrthraid, o ddywedyd Celwydd mewn Cerdd.

Godidogrwydd, a Rhagoriaeth pennaf Cerdd yw ei GWIRIONEDD ar GYFIAWN ACHOS, ag Amcan, a Diben; sef ni ddylit Cerdd i nebryw ddyn neu ar unrhyw achos, neu i unrhyw beth o'r Byd, ba ryw bynnag, heb wir a chyfiawn alw am deni, a dyled, ag achos cyfiawn; sef o moler Gwr, dyweder y gwir am dano, a moler ef am gyfiawn gamp ar air, a gweithred, a bryd,

Digitized by Google

a chynneddf: ag ni ddylai Fardd Cymbeig fyth wedyd un gair bychan o gelwydd yn ei Gerdd; cann mai pennaf o bob gwarth a eill sefyll ar Gerdd yw celwydd ag anghyfiawn fam ag addysg. Cyfiawn achos mawl i wr neu wraig yw campau moliannus, a rhinweddau mawlwiw; a phob math o ragoriaeth ar gorph, ag enaid, a gallu, ag ewyllys, o barth prydferthwch ymddwyn a'i berthynasau. Gwaith Bardd yw peri gwir a chyfiawn gof a son i'r oesoedd ar ddyfod yn dragywydd, am bob rhagorgamp a chynneddf gyrhaeddfawl: ag anghenraid yw iawn ddyfalu athrylith, ag anian, a theithi, ag ansawdd o gynryw a chynraid y dyn, neu'r peth a foler; o herwydd mai yr athrylith a'r anian yw achos pob camp a gweithred ar ddyn ag o ddyn, neu unpeth arall; ag o hènynt y henfydd y myfyrdod, a'r tueddiad, a'r serchiadaeth, yn gyflwyr anianol.

Rhodd yr Yspryd Glan yw Awen; ag nis dichon yr Yspryd Glan, ys ef y Duw Santaidd, wedyd celwydd; ag am hynny o bydd *Awen Gelwyddog*, nid o Dduw y mae, eithr o *Gythraul;* ag nid oes Awen o Dduw gann un Iaith o'r byd oddierth y Gymraeg; (m) Ieithoedd lledryw yw pob Iaith arall a geir yn awr mewn byd a bod, ag nid ydynt yn berchen bonedd o ddechreuad fel y Gymraeg; ag anurddo a diffeithio gwaith Duw y mae pawb a ddygont ar arfer, eiriau alldudiaith i'r Gymraeg.

Tair Iaith a gafwyd ag a fuant o'r dechreuad o waith Duw: un y cafas Addaf ym Mharadwys, ag ef a'i colles pann fwyttawdd yr afal drwy dwyll y Cythraul, ag a yrrwyd o Baradwys i drin y tir a'i bal, sef a phawl flaenfiniog; a phal yw'r hen air Cymreig am bawl; fal y gwelir wrth yr *Hen Lyfrau*: ag o hynny y gelwir Celfiyn at dorri tir yn Bal; cyd bytho ein awr o haearn a dur ar flaen pawl: ag o hynn o ddigwydd a chosp arno, y collwys ef Iaith Baradwys yn drylwyr; ag fe ddaeth ar lafar gantho wladeiddiaith, a'i tharddiad o ddiffyg deall a thywyllder pwyll a chrebwyll; sef pethau ydynt llwyr gyfun a phob gwaith ag arfer o *Gythraul;* ag nis gellir Doethineb ond o Dduw. Yr Ail Iaith yw'r un a gafas y Proffwyd Moesen, ag a fu gantho ef yn troi'r Mor Coch yn ei ol, onid oedd ei wal yn dir sych; a'r Iaith honn a fu gann y Proffwydi ar ei ol ef yn proffwydo Crist, dros dair mil o flynyddau; ag a geffir ein awr yn yr Ysgrythur lan, ag ar ddeall gan Ddoethion wrth ddysg a duwioldeb. Y Drydedd Iaith yw'r Gymraeg, a honn a gafas Enos, fab Sedd, fab Addaf, ag efe a fu'r gwr cyntaf wedi deol Addaf o Baradwys, a foliannodd Duw a daioni ar Gerdd Dafod. A'r Gymraeg a gynneiliwyd dros y Dwr Diliw, gann Siaffeth ab No Hen, a'i Eppil ef a'i dyg-

Digitized by Google

odd i eithafoedd Byd, pann lygrwyd Iaith y dynion a wnaethant GASTELL BABLON, yn DWR *anferth* ei faint; yr hynn a fu er anfodd yr YSPRYD GLAN; ag o hynny y daeth y meth, a'r llwgr, a'r lledryw, ar holl Ieithoedd y Byd, amgen na'r GYMRAEG; ag yn gof am y peth a'r digwydd hynn y gwelir Castell a Thwr Bablon yn beth anferth ei faint a'i lun; ag nis gellir ei ddattod mewn modd yn y byd. O'r *Tair Prifiaith,* y gyntaf a sieredir yn awr yn y Nef gan Dduw a'r Saint, a'r Angylion; a'r ail a gedwir yn yr Ysgrythur lan, fel y dywespwyd eiswys, yng *Ngwaith y Proffwydi Santaidd*: A'r drydedd yw'r GYMRAEG, yr honn a sieredir, y DYDD HEDDYW, yn ei chyfiawn ryw ag ansodd gennym ni'r CYMRY yn YNYS PRYDAIN: ag Ieithoedd lledryw, a lledach, a lledbwyll, yw pob Iaith arall dan haul; ag nis gellir yn gyfiawnryw, Cerddi a Barddoniaeth ynddynt; cann ys Ieithoedd ydynt a ddysgwyd gan *Gythraul* NHWR BABLON, (N) bann fynnai dynion ynfydbwyll ymgyhydreg a'r YSPRYD GLAN, a'r DUW HOLLALLUOG, a chann weled mai o DDUW y mae'r GYMRAEG ag AWEN BARDD, ni ddylai FARDD un amser wedyd celwydd mewn CERDD GYMRAEG; eithr bydded pob gair yn wirionedd perffaith, ag yn gyfiawn addysg a barn, herwydd ansawdd a rhyw DOETHINEB, ag athrawiaeth yr YSGRYTHUR LAN, yn gyflwyr WIRIONEDD o barth son ag adrodd; ag yn llwyr gyfiawn o barth myfyrdod ar ddoethineb a synnwyr, a barn ar bethau herwydd rhyw a daioni; ag o ganlyn gwir a chynryw ansodd a chynneddf; nis gellir ar fai mewn Cerdd herwydd doethineb; am nis gellir drwg ag anwir o bwyll wrth gynryw; eithr o gam arfer ar gamp a gweithred; ag o eufarn ag addysg o Gythraul: ag o ddeall hynn, bydded pob gair yn wirionedd perffaith; ag yn gyfiawn wrth farn anianbwyll; yn ol arfer y Prif Feirdd, nid amgen na THALIESIN, a MYRDDIN, a LLYWARCH HEN, ag ANEURIN, a GWION FARDD BACH; ag wrth hyn o Farn ar Gerdd, y canai ARTHUR AMHERODR, a'i Nai ELIFLOD; a'r PRIF FEIRDD hynn ni chenaint air yn anwir ar Gerdd: ag fel hynn y gwnelaint eraill Feirdd awenbwyll wedi amser y PRIF FEIRDD, sef o chenaint nag i WR MAWR da, nag i unpeth arall, ni ddywedaint ar Gerdd amgen na gwir am denynt.

A honn yw'r Awen a gafas ADDAF ym Mharadwys, eithr ei cholli a wnaeth ef o fwytta'r afal gwarddedig; wedi hynny ef a'i cafas ENOS AB SEDD hi, ag efe gyntaf, wedi colli Paradwys, a foliannodd Duw mewn cyfiawn Gerddoriaeth: a'r AWEN HONN a fu gann y Proffwydi yn proffwydo Crist dros amgen na thair mil o flynyddoedd, a ninnau'r CYMRY a'i cawsom ag a folianasom Dduw 'n gyfiawn ar Gan. A'r AWEN HONN oedd

Digitized by Google

gennym pann ddaethom gyntaf i'r Ynys honn; à hi a fu ar arfer gann Feirdd a Derwyddon yn moli Duw a phob daioni a doethineb; eithr wedi hirfod o amser yr anghred a'r drwg a dyfasant yn ein plith, a llygru AWEN a wnaethom, a chael ar arfer bethau ni ddylaint fod, herwydd bodd Duw a chynryw Gwir a Chyfiawnder; a phroffwydo celwydd, a moli Duw, herwydd barn wrth annoethineb, a chynnal barn anghyfiawn wrth Bwyll a Rhyw, ag o hynny colli'r AWEN O DDUW a wnaethom, a chael un o *Gythraul;* hyd oni ddaeth Crist yng nghawd; ag yna drwy wyrth ag ymbwyll yr Abostolion a Phregeth Bawl, (o) ein troswyd i'r Ffydd yng Nghrist, ag y cawsom yr Ysbryd Glan, sef AWEN O DDUW; a'r AWEN HONN sydd gennym hyd yr awr honn; a thrwy'r Ffydd yng Nghrist y ceir awen berffaith, yr honn a ddiflanna drwy arfer pechodau, ag a amlha drwy ymarfer a Santeiddrwydd, a Dysg, a Gwybodau Moliannus, er daioni Byd, a lles a'i gwypo.

Y mae rhai yn awr, yn dilyn ffordd y Saeson, ag eraill o'r lledryw a lledach genhedloedd; ag yn llunio *Celwydd* yn eu Cerddi; ag nid ydynt y *Beirdd hynny,* yn meddu'r AWEN O DDUW, eithr *Awen o Gythraul.*

Deuryw awen y sydd; sef UN O DDUW; ag *un arall o Ddiawl* a gafwyd yng *Nghastell Bablon,* pann gollwyd yr AWEN a'r IAITH oedd O DDUW, ag y cafwyd yr *Awen o Ddiawl,* a chyda hi, yr holl Ieithoedd lledryw, a phob lledbwyll; a honn yw'r awen a wed gelwydd mewn Cerdd, ag a fwyha bechodau, a gwydiau, ag annysg, ag aflenogaeth, a phob annoethineb ag annedwyddwch: drwy ymarfer a gwrthwir, a chelwydd, a gwrthfarn, a gwrthryw, a gwrthbwyll, a gwrthfodd ar bob peth; yn lleihau pob daioni, a gwybodau a champau daionus; a gwae fyth i wr yn berchen yr *Awen Honn!* a Gwynn ei Fyd fyth y gwr yn berchen yr AWEN O DDUW!

Y Bardd a fo perchen AWEN O DDUW, a esyd ei fryd bob amser ar ddylud cyfiawn fyfyrdod, ar bob achos; sef hardd, a rhywiog, ag ardderchog ag anianbwyll fyfyrdod, er perffeithio deall, fal y cano yn gyfiawnbwyll FAWL I DDUW; neu i wr clodgamp rhagorwaith; neu bann ddyfalo bethau gwychion, a hairdd, ag ardderchogion, o barth moes, a gweithred, a Phwyll, a Rhyw; y rhain bethau ydynt wrth FODD DUW; yn un a Rhyw a Phwyll: ag ni ddylai Fardd fyth fyfyrio ar bethau gweylion*, a sathredig, a chyffredin, y rhain y tery bawb wrthynt; nag ar bethau dierthon, na wypo neb am denynt; eithr bydded y my-

---

* Gweylion, felly yn y Cynysgrif yn lle Gwaelion, ag yn iawn felly.

Digitized by Google

fyrdod, a'r crebwyll, a'r dychymmyg, yn eglur ag yn iachus, ag yn fawrwych odidog, a chwbl berffaith, ag yn hardd a blasus; fal y hoffont bawb y Gerdd cygynted ag a'i clywont; drwy ddeall a serchu'r myfyrdod, a'r crebwyll, a'r dychymmyg, ag amcan y Bardd: ag edryched y Bardd na fytho un peth yn y Gerdd a wnelo gam ag anfodd i neb, nag a fo'n wrthwyneb i unpeth herwydd doethineb, ag anian, a rhyw; nag yn afles a gwrthfodd i unrhyw farn a gwybyddiaeth, herwydd Gair Duw a barn doethion. Rhodd Duw yw Awen; ag am hynny y dylai ddwyn ynddi ansawdd ddwyfol herwydd ei hathrylith, yn peri lles a bodd i bawb; yn rhywiogi bryd a meddwl; yn tirioni'r athrylith a'r anian; ag yn helaethu gwybodaeth o bob peth; ag yn cadarnhau barn wrth bwyll a doethineb ag awdurdod dysgeidiaeth; ag yn diddanu'r myfyrdod; ag yn iawnhau barn ag ystyriaeth; ag yn menu ag yn talmu ar y galon yn gyfiawn a dibech feddwl: ag o hynn o gyfiawn fyfyrdod ar bethau y cyfyd doethineb Cerdd; ag heb hynn o ddoethineb ami, ni thal hi ddim yn y Byd, er cystal y bo'r Gerdd ym mhob pwngc arall: a doethineb a dyf yn wastad o iawn farn a chyfiawn ystyriaeth a myfyrdod; a llwyr ddeall a gwybodaeth o'r hynn y sydd hardd, ag uniawn, a chyfiawn, herwydd Gair Duw a barn doethion; a'r iawn olwg a seldrem ar bethau herwydd eu hansawdd, a'u rhyw, a'u hanian.

---

### BELLACH SONIER AM RYWIAU CERDD, HERWYDD SYLFON A CHREBWYLL, AG ACHOS AG YSTYR.

*Wythryw y sydd, nid amgen; Cerdd Fawl, Cerdd Hanes, neu Hanesgerdd, Cerdd Addysg, Cerdd Annerch, Dyfalgerdd, Cerdd Alargwyn, Dychan a Senn, a Hawl ag Atteb: a hynn yn ddegfed ar Berthynasau Cerdd.*

---

MAWLGERDD yw Can yn dyfalu, ag yn son am deithi a champau a chynneddfau gwychion, a rhagoriaethau, a phriodol deledíwrwydd a daioni, ag anrhydeddus weithredoedd, ag ansawdd clodadwy y neb, a'r peth a foler; a synnier iawnadrodd y rhain; ag adrodd yn bennaf yr hynn a fo fwya moladwy arno; ag a fo'n amgen ar gampau a rhinweddau moladwy eraill ddynion a phethau; ag nid moladwy unpeth a fo cy-

ffredin a'r hynn a fo pawb, a phob, peth yn ei feddu ag yn gyf ranniadol ynddo, ag o hano; megis dwylaw, a llygaid, a deall wrth bethau cyffredinion, neu bethau a ddichonant bawb eu cael, megis cyfoeth a meddiant o gyffredin ennill; sef y pethau nis ennillir wrth gamp neu gynneddf hyglod gyrhaeddfawl; a chyd y bont y pethau rhagoraf ar holl gyffredin bethau'r Byd, eithr gann fod pawb yn berchenogion ernynt, neu a ddichonant fod, nis gellir rhagoriaeth wrth fawl ernynt neu o henynt; eithr o'u hiawn arfer, a'u cyfiawn ddaphar y ceir clod a mawl; fal nad oes dim yn y byd ragorach na'r iawn a thrybwyll ymarfer a'r deall a'r dwylaw; eithr o hynn, ag nid o'r pethau parth perchennogaeth ernynt, y cyfyd achos mawl: ag felly am gyfoeth a meddiant o gyffredin hanfod a digwydd, a chaffaeliad. O'r pethau moladwy moler a fo anghyffredinaf ernynt, cann mai ar y pethau hynny y saif y mawl yn egluraf a gloywaf; ag o'r rheini y gwneir y mannau nod ar Gerdd; a pha fwyaf anghyffredin y bont y mannau nod, gloywaf i gyd ag ardderchoccaf y byddant; ag anrhydeddusaf y mawl o henynt; ag edrycher bod gwir y mawl, ag nas gellir ei wrtheirio, nai wrthwynebu, neu ei wrthfelyddu, herwydd pwyll cyfiawnfarn; ag nis dylai Fardd roddi gair yn ei Gerdd, a ellir gwad arno a'i gelwyddo. Gwaith Cerdd Dafod yw adrodd a son am bethau ardderchogion; ag nis gellir ardderchogrwydd o gelwydd. Ni ddylid adrodd am bethau ardderchog gwr neu genedl mewn Iaith gyfrydd gyfegor; eithr mewn Cerdd gelfydd eirwir awenwaith; mal ydd elont ar ddysg ym mhlith Bonedd a Chyffredin; er tragywyddol gof am denynt: a chofier mai nid yr un mawl a wedd i bob dyn, nag i bob peth; canmoledig yw gwroldeb i ymladd, ag arwynol ymddwyn ag ymdrin yn rhyfel mewn Rhyfelwr, ag ar Frenin a phenn Gwlad; ag nid moladwy yr un campau ar offeiriad, neu wraig, neu forwyn; cann ys prifragoriaeth merch yw gwarineb, a mwynder, a serch. Canmoledig yw dur am ei galedrwydd a'i awch; nid felly'r aur. Fferyllt a folir am gywreindeb ei waith fal y bytho ei alwad; a'i saernïaeth, a'i gofaniaeth, a'i unrhyw gynnilgrefft arall; nid unfawl ag ef y bydd Offeiriad; eithr ef a folir am santeiddrwydd, a doethineb, a gwybodau wrth bwyll barn; ag nid am a wypo wrth grefft a chynnilgamp: ag ystyried Bardd ganmol pob peth herwydd yr ansodd odidog a'r rhagorau a berthynont iddo yn naturiol; ag nid herwydd yr hynn a berthyn i ddyn, neu swydd, neu amrafaeliaeth o ddigwydd; neu a fyddai o raid ag achos. Ni ddylit moli Mai am afalau, na Thachwedd am flodau; ag yn ol a ddywespwyd ymma cofied y Bardd ym mhob mawl a gano; cann ys pennaf senn ag anghlod yn y



Digitized by Google

byd yw 'geuglod a gwagfawl anwireddfod: a gwarth pennaf Bardd yw dywedyd yn ei Gerdd y peth na fytho gwir a chyfiawn, ar un achos ag amcan a ddichon fod fyth.

---

## LLYMMA DREFN WEDDUS

### *Ar ganu mawl i bob Dyn, ag i bob peth a'i dirper,*

#### AG YN OL A'I DIRPER.

---

DUW a folir yn DRINDOD, TAD, MAB, ag YSPRYD GLAN; yn Greawdr a Pheiriadur pob peth; yn Benn ar bob peth; yn Ollgyfoethog; a Hollalluog; a Hollwybodol; yn anfeidrol Allu, a Daioni, a Doethineb; ag ym mhob Priodolder arno, yn Ardderchogfawr, Enrhyfeddol, a Chyflawn; rhaid yn gyfiawn ystyried a deall ei Briodolderau; sef ei Fodoldeb dihanfod er Tragwyddoldeb; a hyd yn eithaf Tragwyddoldeb; a'i anfeidrol Ddaioni, tuag at bob Byw a Bod; yn eu cadw a'u cynnal yn gyflwyr berffaith; ei Gariad, a'i Wybodaeth, a'i Ddaioni; a phob peth hawddgar, a dymunol, a moliannus; ag am ei Lendid, a'i Burdeb, a'i Drugarogrwydd maddeugar; a'i Fawredd Uchelfraint; a'i gyflawn Ardderchogrwydd; a'i lwyr Gyfiawnder; a'i Dosturi; a'i Fawrnerth; a'i Wyrthiau, a'i Glod, a'i Ogoniant, ei Fwynder wrth oll sy'n bod; yn Dad y Byd; Amddiffynnwr, Cynheiliwr, a Gwaredwr; ag yn Brynwr yn ei ail ymarbod o barth Mab; ag oll o'r Rhinweddau, a'r Perthyniaid Briodoleddau hynn; yn ryfedd anchwiladwy eu maint a'u perffeithrwydd; yn anfeidrol anymgyffredadwy, ag yn ddiderfyn a thragwyddol; ag am bob peth a ellir ei feddwl am Dduw.

DUW DAD a folir am ei Allu, a'i Ddaioni, a'i Ddoethineb, yn gwneuthur y Byd, yn Nef a Daear, ag oll y sydd ynddynt.

DUW FAB IESU GRIST, a folir am ei Dosturi, a'i Fawr Drugaredd, yn prynu'r Byd, drwy farw ar y Groes, a dwyn ar ddioddef poen uffern er gwared dynion o'r poen tragwyddol.

DUW YSBRYD GLAN a folir am ei waith yn santeiddio'r Byd, drwy nerth a gallu, a phurdeb ewyllys; yn ei droi o ddrwg at ddaioni, a'i ddwyfoli drwy ddwyn ar feddwl i ddyn pob daioni a santeiddrwydd; a'i ddarwedd i fywyd y Ffydd

Digitized by Google

yng Nghrist, ag i gred a santeiddfryd, a Ffydd ddiffuant ym mhob ymbwyll yng Nghrist Iesu.

Dyn a folir yn ol y bytho ei gampau a'i weithredoedd, a'i gynneddfau herwydd ei alwad a'i le yn y Byd; neu am y campau moliannus a darddont o iawn ymddwyn herwydd ei alwad a'i sefyllfa, ag nid amgen am ei alwad a'i sefyllfa 'n unig: ys ef, pei gwisgit Coron am benn Twrch, ni wedd mawl i'r Twrch am hynny o ddigwydd; ag yn unwedd y bernir am Frenin. Ag yn ol hynn o gyffelybaeth, am bob dyn ym mhob rhyw gyflwr a ddichon dyn ei ddwyn a'i oddef: ag mal y molir Brenin am frenhinol gynneddf a gweithred; felly pob dyn arall yn ol ei gamp herwydd ei lefod yn y Byd, a'i radd, a'i alwad. Y mawl a berthyn i bawb yw mawl am Dduwiolder, ag am ddoethineb, a moesgarwch, a gwybodaeth, a dysg, ag haelioni, a chyfiawnder, a chywirdeb, a chariad perffaith, a serch, a thrugarogrwydd, ag ystyrbwyll, ag ammalchineb, ag ufuddbwyll, a sirioldeb, a maddeugarwch, a ffyddlondeb, a gwroldeb, ag eonder, a heddwch, a mwynder, a hawddgarwch, a gwarineb, a chynnilfryd, a chywreingais, a llawenydd, a phob bonheddigeiddgamp, a bonheddigaidd deilyngamp.

O ganu mawl, moler a'i haeddo, herwydd ei les i ddyn; neu'r daioni, neu'r harddwch, a'r rhagorwerth a fo ynddo ag arno; herwydd dysg, a doethineb, a barn; (ar a fedro farnu;) ag na foler unpeth na haeddo fawl herwydd ei brif a'i gyssefin ansodd, a champ a chynneddf; mal pei molit meddwdod, neu serch anneddfol; neu ryw annuwioldeb; neu annoethineb; neu gamp anwrol ag anweddus; neu ddull, a modd, a champ, neu deithi, anghyfiawn ag anhardd o barth syrth ag anian a dyled ar bethau: fal moli offeiriad neu wraig am ymladd, amgen nag ym mhlaid Ffydd a Bywyd, a serch o barth nattur a dyled: neu wraig am harddwch corph noeth; a'r cyfryw bethau.

Offeiriad a Chrefyddwr a folir am dduwioldeb, a santeiddrwydd; a dysg o barth Crefydd a'i pherthynasau; a'r cyfryw wybodau ag a weddant arno; a Ffydd yng Nghrist; a chariad perffaith; a bod yn faddeugar; ag am heddwch a thrugaredd, ag ufudd-dod, ag iselfryd gostyngedig; a phob cyfiawnbwyll, a ffyddlondeb; a'i gynghor i bawb, a'i ofal dros bawb, er lles corph ag enaid; a'i astudrwydd; a'i ammalchineb; a phob crefyddol a dwyfol deilyngdod: ag nis dylit fyth son am ei fonedd, a'i gyfoeth, a chywreindeb llaw, nag am lendid corph; cann ni pherthyn mawl am y fath bethau i wr wrth grefydd; eithr ei foli 'n unig am grefyddol deilyngdod.

Ysgolheigion ag Athrawon a folir am ddysg, ag ysgolheictod, a gwybodau moliannus, a duwioldeb, a phob peth a



Digitized by Google

berthyn i ddysg a doethineb, a phwyll, a barn, a chyfiawnder, a heddwch, a llonyddwch, a phob ysgolheigaidd ag athrawaidd, a bonheddigbwyll deilyngdod.

Gwr Cywraint, neu Fferyllt, a folir am gywreinrwydd a chynnildeb; a phob peth moliannus, ag ardderchog ar gywrain wybodau; a phob cynnilgamp celfyddyd a chelfyddbwyll; ag am lendid buchedd; ag am ufudd-dod; ag am fryd ymofyngais; a'i astudrwydd; a'i gyfiawnder; a'i dduwioldeb; (cann ni wedd cywreinbwyll ar wr annuwiol,) ag am bob cywreinfryd deilyngdod.

Brenin, ag Arlwydd, a Barnwr, a phob math o ddyn wrth Lywodraeth a Barn, a phob rhyw a gradd o Reolydd, a folir am Farn a Chyfiawnder, a gwybodau a dysg wrth Farn a Chyfraith, a phwyll a doethineb, a gwroldeb, ag eonder glewfryd, a chyfiawn gampau, ag amynedd, a thrugaredd, a haelioni, ag urddas, a braint, ag anrhydedd, a phob llesgarwch parth y dylai; a nerth, a chadernyd, a milwreidd-dra, a phob llywodraethbwyll deilyngdod, ag am lwyr dduwioldeb.

Gwr Ieuanc ammhriod a folir am ei lanfuchedd, a'i langampau, a phob rhinwedd glodgael, a bonheddigbwyll, a phob daionus a hardd ymddwyn, a chywirdeb, a phob camp a chynneddf hardd ar Ieuenctid, a llawenydd bonheddigfryd.

Rhiain a folir am gampau Rhieinaidd; fal am fonheddigfoes; a diweirdeb, a gwyledd; a mwynder gweryddbwyll; a gwarineb, a hawddgarwch, a haelioni, a sywder, a sirioldeb, a llawenydd, a phrydferthwch, a morwyndod; a serch, a chariad, a glendid pryd a gwedd; a glendid camp a buchedd; a phob harddgamp genaethaidd; ag iddi y perthyn Can serch a chariad.

Gwr Priod a folir am ei bwyll a'i gallineb, a'i lanfuchedd, a phob syberwyd; a'i lanbwyll-drefnydaeth; a'i ymgais a'i ddoethineb: a'i gariad at ei wraig a'i blant; a'i ofal trostynt; a'i gywreinbwyll, a'i hardd ymddwyn; a'i gymmodogeidd foes, ag arfer; a'i weithgarwch diwydbwyll; ag am bob gwroldeb, a gwir fonheddigaidd deilyngdod.

Gwraig Briod a folir am drefnydaeth; a'i gofal dros ei theulu; a'i serch at ei gwr a'i phlant; a'i gweithgarwch; a'i doethineb; a'i ffyddlondeb; a'i hufudd-dod; a'i gwybodaeth; a'i phwyll; a'i duwioldeb; a'i sirioldeb; ag am bob camp foladwy ar wraig briod fonheddig: ag ni pherthyn iddi Gan serch a gordderchgerdd; eithr ei moli am bob campau da perthynadwy i wraig briod; ag am bob rhyw wreigaidd deilyngdod.

Pob peth anweledig, megis Angel, ag eraill bethau ysprydolion, a folir herwydd yr ansawdd, a'r rhagoriant y sydd ynddynt herwydd yr Ysgrythur Lan, a barn y doethion.

Digitized by Google

POB ANIFAIL a CHREADUR, gwyllt a dof, a folir am ei les i ddyn a'r harddwch arno; a'r diddanwch a geir oddiwrtho; neu ynteu ei ryfedded; a dylit blasus ddyfalu wrth hynn o fawl.

POB DIFYWYD a folir am ei ardderchogrwydd, a'i ryfedded; a'i harddwch; a'i ragored; a'r lles a geir oddiwrtho; a'r diddanwch a geffir o hano; ag nis gellir blas ar y Gerdd heb gyfiawn ddyfalu.

II. HANESGERDD yw Can neu Gerdd Dafod yn son am ddynion a phethau anghyffredin; sef am gampau enwog, ag ardderchog, a daionus, er hyfrydwch a lles i'r byd, ar wr, neu wraig yn eu hamrafael raddau o fod a bywyd; neu am ryw ddamwain ag arfod rhyfedd a llesol, neu o dostur-afles i ddyn. Dylai ymadroddiad y Gerdd fod yn eglurbwyll berffaith parth son a hanes; eithr ni ddylit adrodd a son am bethau sathredig, eithr am bethau o fawr les; neu o ryw fawr ymbwys ag ymbwyll; herwydd deall a serchogbwyll; bydded yr adroddiad yn edlym a nwyfus; a dyfalu yn edlym a chryno; heb ormodd ymdrin ag oddiarffordd grebwyll; a hynn ar bethau a font er budd a lles, ag amlhad pwyll a deall, a gwellhad ar y cynneddfau a'r serch, a'r ardymmyr; a gochel gormodd gorllaesder parth Iaith a myfyrdod; a dewis ar bwysfawr ddigwyddiadau a myfyrdodau, er gwneuthur Mannau Nod y Gerdd; ag ar y dinod o heni, bydded Iaith yn ferr a lledgryno; cann ni orphwys bryd a myfyrdod ar y mannau dinod; eithr dwyn cyrch o un Mann Nod i'r llall; cyd y bo rhaid wrth natturiol fannau dinod; er cysylltu yn naturiol y Mannau Nod: a bydded lledfyrr ag irber myfyrdod a chrebwyll; ag oll yn gyfiawnbwyll, ag anianol; heb ormodded dychymmyg yn tywyllu 'r gwir; a dylit llwyr aweniaith ag awenbwyll ar Fannau Nod y Gerdd; a'r rhain a fyddant o'r goreuon ar ddigwyddiadau'r hanes; a cheinciau'r myfyrdod, a'r ystyrbwyll; a'r pethau hynn er amlygu'r gwir; cyweirio deall; cynnyddu doethineb; a diddanu'r galon: a gofaler na bo unrhyw grebwyll a myfyrdod ar y Gerdd heb gyflawn a chyfiawn bwyll ag achos iddo; a'r rhain sef y pwyll, y deall, y myfyrdod, a'r crebwyll yn odidog, ag yn gyfarddun; ag yn ystyrbelloleuglaer eglurbryd; a hynn a bair y Gerdd yn flasus a diddan; a dylit gynnal Iaith a nerth awen drynwyf ar bethau a wnelont o gyfiawn berthynas, amrafael rannau'r Gerdd, o barth son, a nwyf, a dyfalu; eithr cynnal yn eitha purder ag eglurder y gwirionedd diffuant, wrth roddi cyfiawn fawl i weithredyddion y Gerdd a'r Hanes: ag nis dylit Cerdd gyfryw a honn i amgen o ddigwydd nag a berthyn i genedl y Cymry, neu i Dduw a'i Saint.

CAN DDAMMEGOL a fydd ar ddull ag o rywogaeth Hanes-

Digitized by Google

gerdd; ys ef ei hamcan yw adrodd digwydd o grebwyll a dychymmyg ar gyfrith Hanes; er dysgu gwersi doethineb ag ystyrbwyll, ag er cyweirio deall, ag anwyd, a chynneddf, ag er gwellhau'r galon: ag am ei Mannau Nod a dinod, edrycher yr athrawiaeth ar Gerdd Hanes; a bod yr ungamp erni o ddysgu pwyll a doethineb; a llyfnhau'r meddwl a'r moes; ag iawnhau a thyneru'r galon; a gloywi'r deall; ag y dylai fod ar Hanesgerdd o wirddigwydd: canu ys prifamcan Cerdd Dafod o bob rhyw a syrth yw helaethu deall a phwyll, ag amlhau gwybodau doethineb, a thyneru a gwellhau'r galon, a chadarnhau'r bryd a'r meddwl o barthau serch, a glewder; a phob llesol a diddan ar ymbwyll ag ymddwyn; eithr gofaler na bo achos credu mai Hanes wirddigwydd yw Can ddammeg; rhag twyllo gwirionedd.

III. Cerdd Annerch yw Can ar ddull llythyr anfon, neu ynteu ar ddull cennadwri; ag yn y cyfryw Gerdd gellir adrodd digwyddiadau hanesol; eithr yn bennaf, serch, a chariad, a chof cyfeillach, a charedigrwydd, ag ymbwyll wrth barch; a chyda hynn rhaid gwisgo'r Gerdd ag ystyrbwyll, a chyfiawnfarn fyfyrdod, a doeth ymddwyn, a chyfiawn ddyfalu ar bob gwrthddrych a cheinmyged: eithr yn fyrr a goleufryd, gydag iawn ymddwyn ar Nod a Dinod; ag yn hynn o Gerdd dylai fod y Iaith yn rwyddber flasus ag eglurgamp ymadrodd, heb fod nag yn ry gyffredin, nag yn ry anghyffredin.

IV. Can Addysg yw Cerdd yn dysgu rhyw gainc a gwers ar ddoethineb, neu ryw wybodaeth a chelfyddyd; dylai fod yr hynn a ddysger ar Gerdd o fawr bwys ag ymbwyll i'r Byd; cann ni wedd diffrwytho awen ar waelbeth wrth bwyll a gwybodaeth; am hynny bydded y wers a ddysger yn ardderchog ragorwerth herwydd ei hanian a'i hanfod; a rhaid ei hadrodd yn athrawiaethol, a'r Iaith yn gadarn eglurbwyll; yn hawdd ei deall a'i hamgyffred; a chyfiawn ei threfn a'i gosodiad; a thrybwyll eglurnod yr ymadrodd; a chyda hynn cyfiawn fyfyrdod o barth pwyll ag addysg; a dylai'r Bardd ar ei Gerdd lwyr olrain un pwnc yn unig ar bwyll a doethineb; a gofalu rhag syrthio i'r hynn a fo gwael, ag yn sathredig a chyffredin ar bwyll a doethineb; am nid rhaid athraw i'r pethau hynny a wyr pawb; ag am unigrwydd y dychymmyg a'r wers, cofier nis gellir ar unwaith dysgu dwywers; am hynny unig bydded y pwnc dan addysg, herwydd anian a hanfod. Dylai'r Bardd ofalu bod yn eglurieithog i'r pwnc, a'i gywrain fyfyrio; a digon yw cyfiawn a gweddusbwyll addysg ar un pwnc a dychymmyg, mewn un Cerdd: ag o brif wersi pwyll a doethineb y gwneir y Mannau Nod; a gofalu am gyfunwaith drefn, a

Digitized by Google

pherthynas y rhannau; a rhwyddeglur gymmalu a dosparthu ar y myfyrdod.

V. DYFALGERDD yw Can yn dyfalu rhywbeth hardd ag ardderchog, neu rhyfedd ag anghyffredin, a weler, a glywer, a deimler, neu a ddealler. O chwennych y Bardd gann DYFALGERDD, edryched bod y peth a gano efe iddo yn hardd yr olwg arno; neu yn hardd o ryw ag anian; neu yn ardderchog ei olwg a'i bwys herwydd ei ryw a'i anian; neu yn ryfedd yn ei ddull a'i ryw, neu yn ddiddan a difyr ei wedd a'i ansodd; ag nis dylit dyfalu ar ddim eithr a fo hardd ag ardderchog, a rhyfedd, a difyr a diddan; yn boddloni golwg, a meddwl, a deall; ag a ledhelaetho bwyll a deall; ag a rotho gyflawnach deall a gwybodaeth o'r peth a ddyfaler, nag a wyddid o'r blaen: a Bardd awenyddol a ddwg i'r Gerdd drwy gyfiawn achos, lawer myfyrdod a chrebwyll o barth lles, a doethineb, a deall, a phwyll, a deddanwch; ag a'u dengys ar Gerdd yn odidog, ag anghyffredin, a ragorwedd. Ni ddylit dyfalu dim a fytho cyffredin, a sathredig yng ngolwg, a thann nod a seldrem pawb, ag ar ddeall gann bawb; cann mai un prif-ragorwerth ar Gerdd yw newydd-deb, o barth pwyll, a chrebwyll, a golwg, a sylwedd. Ni ddylit rhy hir ddyfalu ar ddim yn y Byd, rhag blino bryd a myfyrdod; a chyda'r dyfalu, dyger yn y Gerdd synwyr, a son, ag ystyr am bethau aborth deall a serch, a phwyll, a chrebwyll; eithr gofaler eu bod yn hardd a rhagorwerth eu rhyw a'u hanfod; a hynn a fydd yn y Gerdd ar gyffelybiaeth halen gyda bwyd; sef a'i gwna'n flasus a diddan: fal pei dyfalu'r Gwanwyn, dyger yn y Gerdd son a myfyrdod am serch a serchogrwydd; neu am ryw beth arall diddan i'r galon; a hynn a bair awchlymmu'r Gerdd, a'i blaseiddio. Ni ddylit ddyfalu'r anhoff a'r anhardd ar ddim, eithr mewn Cerdd senn ag anghlod; ag yna dyfaler mal a'i ffieidder; er peri llwyr ymwrthod ag ef. Mewn Dyfalgerdd dylit cyfiawngyffelybu; gweddnodi, llyfelu, cyflëo, ag amseru pob peth, herwydd hanfod ag ansawdd, a rhyw, a phwyll, a deall, ag amsel ag amser: ag er cyflawn ddyfalu edryched y Bardd ar bob hanfod ag anian, a bwrwed lawn a chyfiawn seldrem ar bob peth.

VI. GALARGERDD yw Can gwynfannus hiraethlon, a'i phrif achos ag amcan yw galar a dolurbwyll, a thosturbwyll ymadrodd; ag mewn Galargan fe ddylit cynnal cwyn herwydd cythruddnwyf a thristwch calon; a'r ymadrodd a'r myfyrdod yn llawn o'r galargwyn a'r pruddymbwyll a dyfant o ddigwydd a bryd wrth ofid ag anffod; a'r Iaith yn alluog ag awchlym; a'r dyfalu'n fyrbwyll buanfryd; ag yn natturiolbwyll-alarnwyf, ag edlym ledgyffwrdd; eithr yn oleubwyll eglurnod: a Phrif-

Digitized by Google

fannau Nod y Gerdd yw myfyrdodau galar a chwyn. Dylit adrodd yn fyrbwyll gampau a theilyngdod y dyn neu'r peth a gwyner am dano drwy hiraeth a galar; a byrr son am ragorau a champau, a'r drefn yn ledwyllt hannergamp; cann ni bydd celfydd a thrybwyll bryd wrth gwyn a galar. Ni wedd bod Cerdd alar gyhyd ag a ellir Hanesgerdd, neu Fawlgerdd, neu Ddyfalgerdd; herwydd ni char galar ormodd chwedleua ag ymadrodd. Ag o moler mewn Galargerdd, bydded yn fyrr-iaith fyrrbwyll; etto'n dwyn llawngyrch at gnywyllyn y pwyll a fytho'n llywio'r Gerdd, ag yn lwyr gyfun a'r brifamcan ag achos; a moler prifdeithi, a champau, a rhagorau'r dyn neu'r peth a fo'r galar am dano; a bid Iaith yn odidog, a blaenllym y geiriau, ag ergyd pob gair hyd adref at ei Nod; a bydded cyffröedigaeth tynernwyf yn llenwi'r Gerdd; cann ys o hynny y debydd i bawb ei hoffi. Tri achos cyffredin y sydd i alar, serch, coll, a gwrthwyneb.

Galar serch a fydd o achos caru merch, ag yn cael pall ag anghariad ganthi; neu yn ofni hynny; neu yn dwyn serch dirgel; heb allu dadannudd arno tuag etti; neu yn cwyno ymadawiad a hi; neu gwyn hiraeth am ei gweled; neu alargwyn am ei cholli, a'i o ball, a'i o briodi neu ddewis arall; neu ynteu o farw. Dylai Fardd ymarfer yn ei Gerdd a mwysber iaith, a goleurwydd ymadrodd; a byrr ddychymmyg a myfyrdod; a lledysgeulus drefn a dyfaliad; a phwyll gwraiddbell *eiriolaeth;* ag eglur synwyr ag atganniad; a phereiddlais fesur, ag accen ar awdl a chynghanedd; a chyfiawn a pherffeithgamp gyfansoddiad ar y Iaith a'r Mydryddiaeth.

Cwyn coll a fydd pan goller anwylddyn; neu ryw anwylbeth, megis tref a thrigfa, golwg, clybod, aelod, neu rym corph, a thristyd o'u colli: ag yna dyfaler yn fyrbwyll, ragorwerth y peth a gwyner am dano; y gwynfyd a'r diddanwch calon o'i feddu; a'r gwaefyd o'i golli; a gwneler hynn yn fwysber alarnwyf; a chalongyrch ymadrodd; ag esmwythdrefn a melusber gyfansoddiad ar Iaith, a mydr, a dychymmyg. Can Marwnad yw'r golofn bennaf ar alar coll: a Marwnad a ddylai fod yn berffaith alargwyn, heb ddim ar air a myfyrdod yn tyfu o ddiofalwch ag esmwythder calon; a rhoddi yn y Gerdd amrafaelion fyfyrdodau dwyfolion, ag athrawiaethau doethineb; a'r meddyliau galarbwyll a berthynont i farwolaeth a bywyd; ag i Dduw, a duwioldeb, a buchedd santaidd, a rhinweddau crefyddbwyll; fal y blaser y Gerdd gann y rhai ni charaint ag nid adwaenaint y dyn a genir ei farwnad: ag mal y bo gwell a doethach y neb a'i clywo, ag a'i darlleno.

Galargwyn Gwrthwyneb a fydd pan ddigwyddo i ddyn

Digitized by Google

ryw adfyd a thristwch, neu anffod-ddigwydd, o barth corph ag enaid; yn wrthwyneb i'r peth a farner wrth fodd calon dyn! a chwyner o hynny y gofid eneidloes; a thrybwyll adroddiad, a nwyflais fyfyrdod, a doeth ystyrbwyll, a'r waelder pob gwynfyd daearol; a'i fyrred, a'i ofered, a lleied ei bara, a'i lwyr ddifwyned; a godidocced a rhagored pob gwynfyd nefol; a dyfalu glewfryd yn ymwrthod a phob llawenydd a gwynfyd daearol; ag yn ymgais yn unig a gwynfyd nefol; a'r diddanwch a geir o ddwyfol fryd ag ymddwyn; ag mewn pwyll, a doethineb, ag ysgrythurol fyfyrdod: a melus y bydd Cerdd Alar pann a'i caner gan Fardd awenyddol; am nad oes dim mor gyflwyr gyffredin yn achos a chyflwr pob dyn o'r byd a galar ag hiraethgwyn.

VII. Gogan, neu Ddychan, neu Senn, neu Gan Gwarth, neu Gan Sathr, yw Cerdd a wneir er sathru drwg dan draed, a gwrthwynebu gwyd, a phechod, ag anfoes; ag yn gorllymmu cerydd a gwarth ar bob drwg. Gofaler rhag rhoddi yn y Gerdd gymmaint a rhith cas a chenfigen at unrhyw ddyn neu beth o'r byd; eithr llymm-gerydd ar y drwg o bob rhyw, a chwyn am dano, neu achos ei fod; a mawl ar y da, gyda chyngor iddei ddylud; a dwyn ar gof gwersi ag addysg doethineb; a chyfiawn farn ar foes ag anfoes, a drwg a da, drwy bwyll ag ystyrlwydd fyfyrdod; a thrylwyr ddyfalu ar ddaioni a'i fawl; ag ar ddrygioni a'i anfawl; a gwarthruddo'n ffieiddbwyll pob annoethineb ag annuwioldeb; a bydded Iaith yn edlymgyrch at y Nod; ag yn ergydlym ar y drwg, o wir dristwch calon am ei fod: ag nid o gas a chwerwder yn y byd parth ag at un dyn pa bynnag; nag o anfwyder a sarrugrwydd meddwl a thymmer; a dylit ymorbwyll a dynion drwg; a cheisio eu darwedd at ddaioni a doethineb, ag i ymgais a'r da, a'i ddilyn, a'i garu; ag ymwrthod a'r drwg, a'i goshau; gann faint y drwg a ddaw o ddrwg, a'r cywilydd o hano; a'r daioni a ddaw o'r daioni, a'r clod o hano; a bydded nerth a nwyf serch ag anserch yn y Iaith a'r myfyrdod; sef serch at y da, ag anserch at y drwg: a bydded aml myfyrdodau doethion, ag ystyriaethau pwyllfawr a phwysfawr, a gwersi duwioldeb yn y Gerdd; mal y bo hoff gann ddoethion, a phob gwyr da, ei gwrando a'i darllen; a lles i bawb o heni. Ag mewn Gogan gofaler rhag sennu'r hynn ni weddai senn iddo herwydd ei ryw a'i hanfod; mal pei sennid Crefydd, a Doethineb, a Dysg, a Chelfyddyd; neu unrhyw gamp neu rinwedd a ddylai glod a mawl; nag unrhyw beth a fo'n wir waith Duw, cyd y bai golwg anhardd a gwrthun arno; megis gwr du; neu wr cam; neu ffol geni; gan fod y rhain oll yn weddus, (a chyfiawn iddynt barch,) o barth hanfod a



Digitized by Google

rhyw ym Marn Duw: ag nid unfarn ym mhob peth Duw a Dyn: a dylid wrth sennu'r drwg ei dreiglo'n llwyr o galon ag arfer Dyn yn ymdryphwyll a Diawl; ag nid o amgen rhyw a hanfod: o Dduw y mae pob cyfiawn o ryw a hanfod; ag nis gellir drwg ag annóeth, ag anhardd, o'i waith ef. Gofaler bod eitha cywreindeb Iaith a Mydryddiaeth, a phob peth yn gyfiawn o barth pwyll a chrebwyll, ar Gan Senn a Gogan.

VIII. Cerdd Hawl ag Atteb, yw Can ar ddull a rhith ymddiddan rhwng dyn a dyn; neu rwng dyn ag aderyn, neu ryw greadur arall; neu rwng dyn a rhyw beth arall dychymmygfod, a'i byw a'i marw; neu rwng creadur a chreadur arall: a'r cyfryw ddull o ganu a rydd le ag achos, a chwbl ryddyd, i Fardd ddwyn i'r Gerdd amrafael rywiau ar fyfyrdodau a dychymmygion, peth ni rydd un dull arall iddo; a'r peth a ellir o hynn ar ddull arall, a geir mewn Cerdd Hawl ag Atteb yn amgenach o rann hawsineb nag mewn un modd arall o ganu a phrydyddu; ag ef a ellir canu mawl, a hanes, a galar, ag addysg, a dyfaliad, a rhyw faint o ddychan, cyd y bo gwarbwyll, ar *Gerdd Hawl ag Atteb;* a bydded ar y ffordd honn o ganu, y Iaith yn bur, a godidog, a llwybraidd, a rhwyddlithrig, ag eglur; ag yn hynn o bethau yn berffeithach nag ar un ddull arall; a'r myfyrdod a'r crebwyll, yn ber, a mwys, a thirion, a godidog, o barth synwyr, a thyb ag amcan, a phob peth perthynas; a bydded bywiog-ddychymmyg a chrebwyll. Ni ddylit ar hynn o Gerdd son am bethau gweylion a rhy gyffredin; eithr am bethau harddion a gwychion, a rhagorwerth, a fo'n helaethu ag yn gwellhau'r deall, ag yn rhywiogi'r myfyrdod, ag yn diddanu'r galon, ag yn pereiddio'r meddwl; ag ar ddull Can Hawl ag Atteb y rhoddir hawsaf amrafael farn a phwyll ar bethau a sonier am danynt, ag amrafael fyfyrdod ag ystyriaeth; ag ef a ellir yn hynn o ddull canu, yn haws bwyso'n dynn at y pwyll a'r deall o bethau nag mewn un dull arall; ag y mae yn haws ymson ag ymswydd am amrafaelion farnau, a thybiau, a chrebwylliadau, a golygiadau ar bethau, gann fod lle ag amdden i un wedyd y peth ni wedd i'r llall fynychaf; o bethau a fo gweddus ag awenfryd ei wedyd; ag ef a ellir yma lwyr a pherffaith ddyfalu ar bob peth am yr un achos; ag ef a ellir cyfiawn fawl a chyfiawn alar, sef y bydd un yn moli a'r llall yn galaru: ag un a eill adrodd yn hanesbwyll, ag arall foli a dyfalu; ag un adrodd, ag arall sennu; ag un gofyn, ag arall atteb a dysgu; ag un galaru a'r llall diddanu; ag un rhoddi barn o dyb cyffredin, a'r llall farn o bwyll a deall, herwydd rhyw, a hanfod, a gwir a chyfiawn olwg ar y peth; geill un ofyn cyngor a'r llall ei roddi; ag un yn unfarn, a'r llall yn arallfarn; ag fal

Digitized by Google

hynn dealled y Bardd awenbwyll am y ddull honn o ganu: yr honn gyda chyfiawn drefn a phwyll a deall, a chrebwyll, a myfyrdod, y sydd ffordd dda iawn, a llwybraidd, a diddan iawn o brydyddu; ag yn oreu oll ar ambell achos: eithr nid oes un ffordd yn gofyn cyflymach awen a phwyll a chrebwyll, a myfyrdod na'r ffordd honn.

A llymma'r prif foddion ar ganu, ag ar brydyddu: a dealled y Bardd awenbwyll, a barned ernynt; cann ys heb farn, a deall, ag awen, ni thal dim a draether o blegyd Cerdd Dafod. Dysgeidiaeth yw corph Barddoniaeth, ag Awen yw'r enaid: ag heb awen nid yw'r cyfan wrth Gerdd, ond corph neu ddelw heb fywyd: eithr cyfiawn ddeall a phwyll ar y gelfyddyd wrth Gerdd a bair awen, lle i bo, yn hardd a rhagorwerth, ag arddercheog, ag yn lesfawr i'r holl Fyd.

---

## LLYMMA DRIOEDD CERDD.

### A DYNNWYD I MAES O'R HEN LYFRAU BARDDONIAETH, AG YNDDYNT Y MAE LLAWER O DDYSG, AG ATHRAWIAETH, A BARN, AR GERDD A BARDDONIAETH.

---

1. TRI pheth a wnant Brydydd; Awen, Gwybodaeth, a Chynhyrfiad.
2. Tair Cynneddf Awen; hardd feddwl, priodol feddwl, ag amrywedd feddwl.
3. Tri Chyfeillion Awen; Nwyf, Callineb, a Digrifwch.
4. Tair effaith Awen; Haelioni, Gwarineb, a Charedigrwydd.
5. Tri anhepcor Awen; Deall, Ystyriaeth, ag Amynedd.
6. Tri pheth a gynnydd Awen; ei hiawn arfer, ei mynych arfer, a llwyddiant o'i harfer.
7. Tair diben Prydyddiaeth; cynnydd Daioni, cynnydd Deall, a chynnydd Diddanwch.
8. Tair Dyledswydd Bardd; iawn ganu, iawn ddysgu, ag iawn farnu.
9. Tri deunyddion Cerdd Dafod; Iaith, Crebwyll, a Chelfyddyd.
10. Tri anhepcor Iaith; purdeb, amledd ag hyweddiant.



Digitized by Google

11. Tair ffordd ydd amlhëir Iaith; amrafaelu geiriau cyfystyr, amryfodd gylmeiriau, ag amrywddull ymadrodd.
12. Tair cynneddf purdeb ar Iaith; prif ansodd, prif arfer, a phrif ddeunydd.
13. Tair caingc hyweddiant Iaith; a ddeellir, a hoffir, ag a gredir.
14. Tair Colofn Synwyr; eglurdeb, llawnder, a chyfiawnder.
15. Tair Colofn Eglurdeb; y gair a fo raid, y maint a fo raid, a'r ddull a fo raid.
16. Tair Colofn Llawnder; priodol feddwl, aml feddwl, ag amgen feddwl.
17. Tair Cynneddf cyfiawn Fyfyrdod; a ddichon fod, a ddylai fod, ag y sydd hardd ei fod.
18. Tair Cynrann Celfyddyd; anian, lles, a phriodoldeb.
19. Tri Chynnod Anian a Hanfod; lle nis gellir gwell; lle ni ellir amgen; a'r lle nid rhaid amgen.
20. Tri Chynnod Lles Celfyddyd; ei hoffi gann y Byd; ei rhinwedd yn gwellhau'r Byd; a'i pherffeithgamp yn cynnal ei hun.
21. Tri Nod priodoldeb Celfyddyd; iawn achos, iawn ymdrefn, ag iawn gyfuniad.
22. Tri amser Celfyddyd; pan fo iawn, pan fo hardd, a phan fo rhaid.
23. Tair hyweddiant Celfyddyd; ar a'i hoffo, ar a'i deallo, ag ar a'i dirper.
24. Tri harddwch Cerdd; mawl heb druth; nwyf heb anlladrwydd; a dychan heb serthyd.
25. Tri anhepcor Cerdd; Awenfryd, Celfyddbwyll, a Gwirionedd.
26. Tri theccad Cerdd; hardd Grebwyll, hardd Berthynas, a hardd Gywreingamp ar Fydryddu.
27. Tair Sail Awen; rhodd Duw, ymgais Dyn, a damwain Bywyd.
28. Tri rhyw Gerddor y sydd; Bardd, Ofydd*, a Theuluwr*.
29. Tripheth a ffrwythlona'r Awen; Diddanwch Meddwl, Coledd daionus Feddwl, a phorthi Cof.
30. Tripheth a ddephorthant Gof, ymgais a gwraidd Gwybodau, Cyfiawnder Gwybodau; a'r achos cofio Gwybodau, parth y rhaid wrthynt.
31. Tri pheth a dderchaif Awen; dysg, ymgais, a pharch.

---

* Yr un peth, a'r un parth Gradd, yw Derwydd a Theuluwr, medd Meyryg Dafydd.

Digitized by Google

32. Tri ardderchogrwydd Cerdd; godidog Iaith, godidog Ystyr, a godidog Grebwyll.
33. Tri rhaid Cerdd; godidog Amcan, godidog Synnwyr, a godidog Ddeunydd.
34. Tri harddwch Synwyr; eglurdeb, cywirdeb, a newydd-deb.
35. Tri amrywiaeth Cerdd; amrywiaeth Myfyrdod, amrywiaeth Iaith, ag amrywiaeth Colofn Cerdd.
36. Tri amrywiaeth Bann; amrywiaeth Cyhydedd, amrywiaeth Cynghanedd, ag amrywiaeth Accen.
37. Tri gwychder Cerdd; Hygaredd, Hyawdledd, ag Ehofnder.
38. Tri melusder Cerdd; hawsder deall, trynwyf Iaith, a mwythusber Fyfyrdod.
39. Tripheth blodeuog ar Gerdd; ystyrbell Iaith, goleuber Synwyr, a chywrain Gelfyddyd.
40. Tripheth a wnant flas ar Gerdd; amrafaelu Iaith, amrafaelu Myfyrdod, ag amrafael gainc ar fesur.
41. Tri chyttundeb a ddylai fod ar Gerdd; rhwng amrafaeliant a chyfundeb; rhwng rhagoriaith a chyffrediniaith; a rhwng rhyfeddol a gwir.
42. Tripheth a bair Cerdd yn dda; ei llwyr fyfyrio, ei mynych chwilo, ag ollol ymegnio.
43. Tri phriodoldeb Cerdd; ei maint, ei hamcan, a'i hachos.
44. Tair rhagoriaeth Canu; iawn fydryddu, iawn ddyfalu, ag iawn ymddwyn.
45. Tri rhagoriaeth mydr; cywreindeb, rhwyddineb, ag accenber.
46. Tri chynnorthwy Iaith; Trefn, Nwyf, a chyffelybair.
47. Tair llafarwedd y sydd ar y Gymraeg; y Wenhwyseg, y Ddeheubartheg, a'r Wyndodeg. A chyfiawn ar Gerdd ymarfer a phob un o'r tair yng nghymmysg, blith draphlith, yn ol barn ag awdurdod y Prif Feirdd.
48. Tair prif rywogaeth y sydd ar Gerdd; Mawl, Galar, a Dychan.
49. Tri anhepcor Mydryddiaeth; Colofn, Cynghanedd, ag Awdl.
50. Tri iawnder Cerdd; iawn Grebwyll, iawn Drefn, ag iawn Fydr.
51. Tri iawnder y sydd ar Iaith; iawn eirioli, iawn ymddwyn, ag iawn lafar.
52. Tair swydd Iaith; adrodd, cynhyrfu, a dyfalu.
53. Tripheth a bair iawn ddyfalu; iawn ddewis ar air, iawn Ieithyddu, ag iawn gyffelybu.
54. Tripheth y sydd ar iawn ddewis; y Iaith oreu, y Drefn oreu, a'r gwrthddrych gorau.

Digitized by Google

55. Tair prif rywogaeth y sydd ar Fesur Cerdd; Cywydd, Englyn, ag Awdl.
56. Tair Cynghanedd y sydd o brif Ansodd; Cynghanedd lusc, Cynghanedd sain, a Chynghanedd groes.
57. Tair prif amcan Bardd herwydd pwyll a dyled; boddio Duw, lleshau Dyn, a pharchu serchogrwydd.
58. Tair Ansodd Barddoniaeth; Athrylith Awen, Barn wrth Ddysg, a gwynfyd meddwl.
59. Tair Colofn Gwynfyd; goddef o foddlonrwydd, gobaith y daw, a chred y bydd.
60. Tair Colofn Dysg; gweled llawer, dioddef llawer, ag ystyried llawer.
61. Tair Colofn Barn; eon amcan, mynych arfer, a mynych gamsynied.
62. Tri pnrif orchest Bardd; celfyddyd gyrwydded ei deall, nis gellir cynnefinach o'r symledd; godidog Fyfyrdod nis gellir addasach o'r symledd, a rhagorol briodoldeb nis gellir naturiolach o'r symledd.
63. Tair Urddas Cerdd, gwired y peth y sonier am dano, godidocced y peth y sonier am dano, a chelfyddyd y dull y sonier am dano.
64. Tri hoffder Cerdd; ei godidog newyddiant, yr hawsder o'i deall, a'i chywrain Brydyddiaeth.
65. Tri chadernyd Awen; Athrylith, Cof, a Dysg.
66. Tri bonedd Awen; Nwyf, Pwyll, a Gwybodaeth.
67. Tri dyledogrwydd Cerddor; grymusder athrylith, cyflawnder dysg; a glendid ei gampau.
68. Tri Thrwyogaeth Cerdd; Trylen, Trynwyf, a Thrynaws.
69. Tri gloywineb Cerdd; gloyw Iaith, gloyw ystyr, a gloyw ddiben.
70. Tair Rhagorgamp ar Gerddor; cyflawn ddynodiant ar bob peth, cyflwyr fanegiant, a chyflwys Ganiadaeth.
71. Tri phriodoldeb Mesur; hyd y Bann, dull y Pennill, a phwys yr Accen.
72. Tair diben Cerdd; gwellhau'r Deall, gwellhau'r Galon, a diddanu'r meddwl a'r serch.
73. Tri Natturioldeb Cerdd; naturiol achos, natturiol Iaith, a nattuiol drefn ar Ddychymmyg.
74. Tri hoywder Cerdd; hoyw Iaith, hoyw Fyfyrdod, a hoyw drefn ar y Ganiadaeth.
75. Tri chyflawnder Cerdd; cyflawnder Iaith, cyflawnder Dychymmyg, a chyflawnder Celfyddyd.
76. Tri rhyw Gerddor Tafod y sydd; Bardd, ag arno y mae canu yn gelfydd ar fawl a doethineb, ag Ofydd, ag arno

Digitized by Google

y mae canu ar serch a diddanwch; a Theulüwr, ag arno y mae canu er lles a diddanwch gwaith y Bardd a'r Ofydd*.

77. Tri chynnaliaeth Awen; llwyddiant, cydnabyddiaeth, a chanmoliaeth.

78. Tripheth a ddybryn llwyddiant; priodol ymgais, hywaith ymgais, ag anghyffredin ymgais.

79. Tripheth a ddybryn cydnabyddiaeth; Caredigrwydd, Celfyddgarwch, a Chynnefinder.

80. Tripheth a ddybryn ganmoliaeth; hygar ymddwyn, hyddysg gelfyddyd, a glan-gampau.

81. Tripheth a ddybrynant barch ag urddas; bonedd, glanfoes, a glanwisg; a da j Fardd wrthynt.

82. Tri Gweinidogion Awen; Cof, Nwyf, a Dysg.

83. Tri Nod Awen; anghyffredin ddeall, anghyffredin ymddwyn, ag anghyffredin ymgais.

84. Tair Ffynnon Gwybodaeth; Crebwyll, Ystyriaeth, a Dysgeidiaeth.

85. Tair Ffynnon Deall; Eonder, Nwyf, ag Ymgais. †

---

A llyna Drioedd Cerdd a feddyliwyd, ag a drefnwyd gann yr Hen Feirdd a'r Awduron dysgedig gynt, pann oedd hylwydd y Gymraeg, a'i Barddoniaeth; a pheth bynnag elo'n eu gwrthwyneb, bai ydyw ar GERDD DAFOD.

Gweler Trioedd eraill ar ol diwedd Rheithiad a Dosparth y Mesurau.

* Amlwg yw nad oedd Awdur y Trioedd uchod yn deall yn iawn beth oedd gwir Ddefodau Beirdd Ynys Prydain. Gweler Trefn Gorsedd ar ddiwedd y Llyfr hwnn.

† Trioedd Beirdd Tir Iarll y gelwir y rhai uchod, gan ANTONI PYWEL o LWYDARTH.

Digitized by Google

## LLYMMA REITHIADUR CERDD;

*Sef Dosparth a Rheithiadau ar Golofnau a Mesurau* Cerdd Dafod, *ag ar y Cynghaneddion ag eraill Berthynasau* Cerdd, *herwydd Nod ag Ansawdd wrth* Angen *a* Braint; *a chyflawn gynnrychiaid ar y cyfan o'r pethau hynn, ag ein awr wedi bod erioed yn rhin a chynghel y Beirdd a wneir yn amlwg ar goedd i bawb o'r Byd, yn ol y dylid ar bob Dysg a Deall.*

### RHEITHIAD I.

YN gyntaf sonier am Gyhydedd. Naw Cyhydedd y sydd; ag ynddynt y gwreiddant holl Golofnau Cerdd Dafod; ys ef yw Cyhydedd, y rhif o Sillau a rodder mewn Bann, neu Fraich o Bennill, er gwneuthur ei hyd; a hynn a fydd o bedair Sill i ddeuddeg o'r cyssefin Gyhydeddau. Y mae heblaw hynn yr ofer Gyhydedd, sef yr un deirsill, ag ym marn rhai 'r un ddwysill; eithr o'r ofergyhydedd nis gellir Colofn, a Phennill ar Gerdd rhag ei gwaeled. Ys ef o'r Naw Cyhydedd y daw'r Colofnau oll, ag am hynny cyntaf peth parth Colofn a Mesur iddei ddysgu, yw hydiau ag ansawdd y Naw Cyhydedd.

Yn gyntaf, y Gyhydedd Ferr, yn bedeirsill.
Yn ail, y Gyhydedd Gaeth, yn bumsill.
Yn drydedd, y Gyhydedd Drosgl, yn chwesill.
Yn bedwaredd, y Gyhydedd Lefn, yn seithsill.
Yn bummed, y Gyhydedd Wastad, yn wythsill.
Yn chweched, y Gyhydedd Draws, yn nawsill.
Yn seithfed, y Gyhydedd Wenn, yn ddegsill.
Yn wythfed, y Gyhydedd Laes, yn unsillarddeg.
Yn nawfed, y Gyhydedd Hir, yn ddeuddegsill. *

---

* Naw Cyhydedd, fal y mae yn awr ym Morganwg, oedd yng nghylch hanner mil o flynyddau yn ol, gann Feirdd Gwynedd; fal y mae'n amlwg wrth a ganlyn yn nechreu Awdl a gant Cynddelw Brydydd Mawr i Fadawg Mab Maredudd. (Gweler Myfyr-Arch, tu dalen 210.)

Arddwyreaf Naf o Nawran fy Ngherdd,
O Nawrif Angerdd, o Nawryw Fann;
I foli Gwron gwryd Ogyrfan.

(Gweler ym mhellach am hynn cynn diwedd y Llyfr.)

Digitized by Google

# RHEITHIAD II.

YN ail, sonier am y GOGOLOFNAU, sef o henynt y mae PYMTHEG, ag a elwir gan rai yr ADLAWIAID GOLOFNAU, cann mai o henynt y dawant yr holl ADLAWIAID FESURAU; fal yn brigo oddewrth y CYSSEFINIAID GOLOFNAU.

Yn gyntaf, BANN CYRCH, neu GYHYDEDD GYRCH. †
Yn ail, TODDAID, *o ddeurywr, ys sef* HIR a BYRR. ‡
Yn drydedd, TRIBAN MILWR, *ar a fynner o'r Naw Cyhydedd.*
Yn bedwaredd, TRIBAN CYRCH, neu DRIBAN MORGANWG.
Yn bummed, ENGLYN, *o rywiau amrafaelion.*
Yn chwechedd, PROEST CYFNEWIDIOG, *ar y gyhydedd a fynner.* ‖
Yn seithfed, PROEST CADWYNODL.
Yn wythfed, HUPPYNT, neu LOSTODYN, neu'r GOLOFN FRAITH.
Yn nawfed, CADWYNGYRCH. *Hir a Byrr* yn Llyfr EINION OFFEIRIAD.
Yn ddegfed, CLOGYRNACH. ¶
Yn unfedarddeg, CYNGHOG.
Yn ddeuddegfed, LLAMGYRCH, neu AWDL DDWYBIG.
Yn drydedd ar ddeg, TRAETHODYN.
Yn bedwareddarddeg, CYWYDD.
Yn bymthegfed, DYRI, neu GAROL, [neu GAN ARWEST. I. B.] §

---

Rhyfedd fal y mae Beirdd Gwynedd wedi anghofio'r hen GELFYDDYD WRTH GERDD DAFOD a fu gynt ar ddeall a gwybod gantlrynt; a rhyfeddach fyth eu bod mor gadarn yn ymbengammu yn eu hanwybodaeth, ni fynnant fod amgen na SAITH CYHYDEDD, er a ddangoswyd iddynt er ys mwy nag ugain mlynedd yn ol; ac er bod nattur ag ymbwyll yn dangos yn amlwg yr un peth iddynt.

† Colofn Prydain y geilw EINION OFFEIRIAD, ag eraill, y BANN CYRCH; am mae yn YNYS PRYDAIN y cawd y deall arno gyntaf. (medd ef)

‡ TODDAID TALIESIN y geilw IEUAN FAWR AP Y DIWLITH y TODDAID BYRR, sef TODDAID ENGLYN; a THODDAID Y BARDD GLAS y geilw ef y TODDAID HIR.

‖ Ys ef a'i gelwir Profest am y sefaint gynt ym mraint gosteg yn rhagarwain yr Awdl, (medd Dafydd Llwyd Mathew); Proest a'u gelwir gan Feirdd Gwynedd; Prost gan Feirdd Cadair Dinefwr, sef Cadair Penndaran Dyfed. (Medd Ieuan Fawr )

¶ Dull Cynddelw, neu Golofn Cynddelw, a'i gelwir gann rai yn eu Llyfrau, achos mai Cynddelw, meddir, a'i dychymmygodd: eithr gwelir Mesurau neu Bennillion Clogyrnach yng Ngwaith Beirdd a fuant bump neu chwech caut o flynyddau o flaen Cynddelw.

§ Cerdd Deulu, neu Gerdd Deuluaidd, a Chan Arwest yr un peth ydynt; enwau gwahanred i'r un rhywogaeth ar Gerdd Dafod, herwydd arferion amrafaelion yr amrafaelion barthau Gwlad Gymru: sef a'i gelwir Can Arwest am ei bod ag erddigan megis gwisg neu arwest am deni.



Digitized by Google

A chyda hynn, y mae'r *ofergolofnau*, a elwir gan rai y *gwangolofnau*, cann nis gellir cyfiawn golofn a pherffaith fesur o henynt, rhag eu gwaeled; eithr yng nglyn, ag yng nghymmysg a'r cyfiawn a'r cedeirn golofnau ydd arferir hwynt mewn MESURAU ADLAWIAID, lle byddant ar brydiau yn hardd a phereiddlais, yn enwedig mewn Ynglynion a Chyngogion; ag o'r Gwangolofnau y mae y rhai hynn, sef *yn gyntaf*,

TODDAID CWTTA, neu DODDAID ENGLYN, a'i arfer mewn Mesurau Englynaidd, lle gwneir Cadernyd arno. (c) *Yn ail*,

CYHYDEDD ORLLAES, neu HWY NA HIR, ag arfer honn mewn TRAETHODYN ar brydiau, yn brinwaith; ag mewn CLOGYRNACH, wrth achos, ag mewn CYNGOG; a'i hyd o sillau yn fwy na rhif deuddeg; sef yn dair neu bedair ar ddeg: a rhylaes a rhy anghryno a throsgl y bydd er llunio Pennill yn gyfangwbl erni; ag am hynny yn anghadarn ag ammherffaith a'i bernir. (d) *Yn drydedd*, y

GYHYDEDD GOTTA, sef yr un *deirsill*, a gwann ag anghadarn ydyw, ag nis gellir Pennill erni rhag ei gwaeled; eithr ef a'i harferir gann rai mewn adlawiaid fesurau, sef Cynghogion, Clogyrnach ag eraill.

## RHEITHIAD III.

YN drydedd, sonier am Awdl; yn un o brif berthynasau COLOFN A MESUR. AWDL yw sain unllef y geiriau gobennydd, ys ef y geiriau diweddaf ar y Bannau: ag ar AWDL y mae deg rhyw ag ansodd.

Yn gyntaf *Unodl*, lle bo'r geiriau gobennydd yn unllef unsain herwydd llafar a chydsain fal hynn:

UNODL DERCHAFEDIG.

**Un yw Duw a'i enau'n dan;**
**A hir gledd yw ei air glan;**
**Ar ddrwg mae'n dwyn gwg, a gwan,**
**Tros ddaear glawr, mawr a man.**

**Edward Dafydd o Fargam a'i cant.**

Digitized by Google

UNODL DISGYNNEDIG, fal hynn:

Ein Ior ydwyd iawn waredog;
Ein Cun aerfaidd Siencyn arfog;
Wyr Feredydd, Arf Rhiwaedog;
Aer arfodau ŵrwyr Fadog.

Ni wyddis pwy a'i cant.

Yn ail, *Cywyddawdl.* Ansodd Angen yr Awdl honn yw un o'r geiriau gobennydd yn dderchafedig parth Accen, a'r llall yn ddisgynedig, fal hynn:

Y fraich gyntaf yn ddisgynedig, a'r ail yn dderchafedig, fal hynn:

Cu adardy Coed irdeg,
Cwfert hardd mewn Cyfar teg.

Y fraich gyntaf yn dderchafedig, a'r ail yn ddisgynnedig, fal hynn:

Y gwn a gaid gann y gwr
Fal gwin o afal gainwr.

CYWYDDAWDL a wna'n bennaf, Ansawdd Angen y Mesur Cerdd a elwir Cywydd; a'r Mesur a elwir Englyn; a'r Awdl honn (sef ynghymmysg, yr Unodl derchafedig a'r Unodl disgynnedig,) a welir yn fynych mewn llawer eraill o'r Mesurau; ond nid oes Angen iddi ond ar Gywydd ag Englyn.

Yn drydedd, *Brithodl.* BRITHODL yw newidiad Awdl ar bob dwyfraich o Gerdd, fal y bydd mewn CYWYDD, ag yn mewn TRAETHODYN, ag mewn Dyrif.

Mewn Cywydd, fal hynn:

Crynedig i'm croen ydwyf,
Cryniad dalen aethnen wyf;
Gwr oerach nag Eryri,
A Berwyn wyf i'm barn i;
Ni thymn na chlydwr na than,
Na dillad, f'anwyd allan.

Ieuan Brydydd Hir a'i cant, cylch 1480.

Mewn Traethodyn, fal hynn: ag fal hynn newid yr Odl ar bob deufann neu gwpl:

Prydydd wyf yn godde clwyfau,
A dial oer a doluran;



Digitized by Google

**Oer yw'm llais herwydd trais traserch,**
**Cur Gwanfardd yn caru Gwenferch.**

Mewn Dyrif, fal hynn:

**Cyfrifais fy Ngwenn yn wiw seren y sir,**
**Ar gan ag ar gywydd, drwy'r hafddydd yn hir;**
**Y gaeaf a'm oerodd, fe surodd fy serch,**
**Fe ddarfu'r fath hud—'ddwyf yn fud am y ferch;**
**Ni theimlaf yn awr i'm pwyll dirfawr wr doeth,**
**Y cur a wnai'r cariad a'n bwriad yn boeth.**

**Dafydd Lewys a'i cant.**

Yn bedwaredd, *Llostodl.* Llostodl, neu Lostodyn, a fydd pan fo'r drydedd neu'r bedwarydd Bann o'r Pennill yn unodli a'r chweched neu'r wythfed Bann; a'r holl fannau eraill yn amrafaelodl, ag am hynn yn gyflawnach, edrycher yn Nosbarth Huppynt.

Pennill Llostodl fal hynn:

**Y mae gorhoff Em a garaf**
**O gof aelaw, ag a folaf,**
**A choeliaf gael ei chalon;**
**Am na welais i myn Elien**
**O Lannurfyl i lann Aerfén**
**Wawr mor wenn o'r Morwynion.**

**Dafydd ap Edmwnt a'i cant.**

Yn bummed, *Fforchodl;* yr honn a fydd pann fo'r Bann cyntaf a'r olaf ar Bennill yn unodl; eithr y Bannau canologion yn amrafaelu ar y rhai hynny fal hynn:

PENNILL FFORCHODL.

**Dau Helir calonnog hy enwog eu hanian;**
**Dau chwarwr pel cefnog dro bywiog a buan;**
**Dau geiliog glan di giliaw,**
**Dau'n lewaidd medrusaidd draw;**
**Dau hylaw da eu helynt,**
**Dau enwog iawn dinag y'nt;**
**Dau faeddwr y gwynt fal rhyw gorwynt y gyrran.**

*Cadwynodl* yw'r chweched; yr honn a fydd ar fannau Pennill fal hynn, sef y Bann cyntaf yn cyfodli a'r trydydd, a'r ail yn unodl a'r pedwerydd; a modd gorchestol iawn a fydd hynn ar odli a phennillio, o gyfiawn ddeall yr Ansodd. Gweler mwy am hynn yn Nosbarth Cadwyngyrch.

Digitized by Google

Pennill CADWYNODL fal hynn:

**Culwas wyf yn celu serch,**
**Cario min y cur i'm ais;**
**Curio mawr yn caru merch,**
**Canu'm llid a'm cwyn i'm llais.**

**Charles Bwttwn a'i cant.**

**Gweler hynn yn fwy gorchestol yn y Dosparth, fal y dywespwyd o'r blaen.**

*Cyfnewidbroest* yw'r SEITHFED MODD AR AWDL; a'r wedd honn ar Awdl a wna un o Brifgolofnau Cerdd; a'r Awdl honn a fydd ar Bennill o dair Braich i saith, gann gynnal cydseiniaid yr Awdl yn un drwy'r Pennill, eithr newid y llafariaid godidogion, a'r lleddf-lafariaid, ym mhob gobennydd Bann fal hynn; heb fod un deufann yn unwedd o barth llafariaid drwy'r Pennill.

**IESU fal y bu a'i bwys**
**Ar graig cyn myned i'r groes;**
**Ei lun a'i boen, a'i lan bais;**
**Un llun yw fo yn Llann Faes.**

**William Egwad a'i cant.**

Yn wythfed, *Cadwynbroest,* a fydd o gadw y Bann cyntaf a'r trydydd o Bennill yn Unodl; a'r ail a'r pedwerydd hefyd yn Unodl; eithr yn proestodli ar y cyntaf a'r trydydd o'r Bannau; yn ol a wespwyd am lafar a chydsain yn y son am Broest Cyfnewidiog.

Pennill PROEST CADWYNOG fal hynn:

**Y mae'r son am wr y sydd**
**Occo'n y llawr, Canwyll Hedd,**
**Achwyn dilyth hyd fyth fydd**
**Baun Clod o'i fod yn ei Fedd.**

**Meuryg Dafydd a'i cant.**

Nawfed yw *Cyfochrodl;* sef yw hynny Awdl ddwysill, yn cynnal Unodl cyfiawn o barth cydsain a llafariad, ar y ddwysill ddiweddaf o'r geiriau cyfodledig, fal hynn:

Huppynt, ar y Manfannau'n Gyfochrawdl, fal hynn:

**Can fawl Telyn,**
**Nad i'n gelyn,**
**'Cythraul melyn,**
**Caethrol moelau**

**Ein dybwyllaw,**
**Na'n godwyllaw,**
**Er cyrbwyllaw**
**I'r corr byllau.**

**Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd a'i cant.**

A'r wedd honn ar Awdl a arferir ar y Mangolofnau'n cynghaneddu ar brydiau.

Digitized by Google

Yn ddegfed y bydd *Awdl Gymmysg*; sef cymmysg o Broest ag Unodl, sef dwyn Odl ar ddeusill olaf y Bann a'r sill olaf oll yn Unodl, a'r sill o'r blaen yn Broestodl wrth ei sill cymmhar ar y Bann nesaf atti, fal hynn:

Cyfochrawdl Proest ag Unòdl fal hynn:

**Llyfn yw'm sain i'm cain amcanion;**
**Hardd y Bannau'n aur ddibenion;**
**Geiriau'r heniaith gywair union**
**Ir i'w bywnerth ar eu bonion,**
**Hawdd y breiniant yn ddibrinion,**
**Medr yng nglanwaith mydr Englynion.**

**Morgan Gruffudd a'i cant. 1660.***

Ag nis gellir Awdl ar amgen ansawdd a dull na'r deg uchod; ag nis dylid canu Cerdd Gymraeg yn ddiodl, fal y mae arfer rhai Gwledydd ac Ieithoedd.

---

## RHEITHIAD IV.

**Llymma draethu bellach am y Cynghaneddion, a Rhaith a Dosparth arnynt.**

---

Y MAE, er yn ddiweddar oesoedd, mawr arfer ar y Cynghaneddion ar Gerdd Gymraeg; ag ni fernir Cerdd yn rywiog, a chelfydd, a blasus, hebddynt; eithr yn yr hen amser, nid oedd Cynghanedd onid o ddamwain; eithr ar lafar ag Accen ag Awdl, ar briodol Gyhydedd, y rhoddid pwys y Ganiadaeth; ag yn amser y BARDD GLAS y gwnaethpwyd gyntaf Farn ag Awdurdod ar y Cynghaneddion: a'r Beirdd ar ei ol ef a'u cyweiriasant gann eu gwellhau a'u diwygio dann nawdd Tywysogion Cymru, a'r Pendefigion a ddaethant o waed y Tywysogion, hyd yn amser IFOR AB IFOR AB LLYWELYN o FAESHALEG, yr hwnn a elwid IFOR HAEL; ag efe a roddes NODDED GORSEDD A CHADAIR I FEIRDD CYMRU yn y

---

* Clywais gann hen wr pedwar ugain oed, yng nghylch y flwyddyn 1768, mai gwr o SANDUNWYD oedd MORGAN GRUFFUDD a Bardd Teulu'r YSTRADLINIAID, (Tylwyth y Castell yno). Yr oeddynt, hyd y diweddaf o honynt yno yng nghylch y flwyddyn 1730, yn cadw BARDD a THELYNWR yn y Teulu.

Digitized by Google

WENNALLT, lle gwnaethant RAITH A DOSPARTH AR Y CYNGHANEDDION, fal y maent yn awr; eithr yng NGORSEDD CAERFYRDDIN y gwaharddwyd y GYNGHANEDD BENGOLL ym mhob mann, eithr mewn PALADR ENGLYN neu DODDAID CWTTA; ag am hynn o beth y ceir son ym mhellach mewn lle cyfaddas; ag amgen na hynn ni wnaethpwyd o Farn ar GYNGHANEDD y pryd hynny yng NGHAERFYRDDIN.

Tair cyssefin ansawdd y sydd ar gynghanedd, sef,

I. *Cynghanedd Gydsain*, neu'r *Gynghanedd Groes*; a'i phwys pennaf a fydd ar y *Cydseiniaid*.

II. *Cynghanedd Unodl*, neu'r *Gynghanedd Sain*; a'i phwys pennaf ar *lef unodl* o *gydsain a llafariad*.

III. *Cynghanedd Gymmysg*, neu'r *Gynghanedd Lusg*, a elwir felly o'i bod a'i phwys pennaf yn sefyll ar *Gymmysg* o'r *Gynghanedd Gydsain* a'r un *Unodl*; ag hefyd am ei bod yn unrhyw Gynghanedd yn ymlusgo at arall; neu un yn llusgo un arall ar ei hol. Yn gyntaf

O'r *Gynghanedd Gydsain* y mae hynn o Rywiau; sef,

1. Croes rywiog dderchafedig, ag ynddi mae'r orphwysfa'n rhannu'r Bann yn y canol; a'r holl gydseiniaid o flaen yr orphwysfa'n cyflwyr atteb i'r unrhyw gydseiniaid ar ol yr orphwysfa; heb un gydsain goll, nag ym mlaen nag yn ol, oddierth yng ngobennydd yr awdl a gobennydd yr orphwysfa; ag yno rhaid eu bod yn amrafael; neu ynteu llafariad yn un, a chydsain yn y llall; neu fal hynn:

Y sillau o flaen yr orphwysfa yn atteb un ag un; dwy a dwy; tair a thair; (ag felly am y maint a fo o flaen yr orphwysfa,) i'r rhai ar eu hol; ag yn y sillau hynny y CYDSEINIAID yn gyfiawndrefn; y gydsain gyntaf o flaen yr orphwysfa yn cyflwyr atteb i'r gyntaf ar ei hol; a'r ail o'r blaen i'r ail ar ol; ag felly am y nifer a fo ym mlaen ag yn ol; sef yr holl gydseiniaid ym mlaen yn atteb i'r holl rai ar ol yr orphwysfa; oddierth y rhai fo'n llwyr ddiweddu gair yr orphwysfa a gair yr awdl; ag yno rhaid eu bod yn amrafael; neu ynteu'n gydsain yn un, a llafariad yn y llall: eithr am y llafariaid ym mlaen ag yn ol yr orphwysfa; rhaid eu bod yn amrafael; sef lle bont gyferbyniaid; rhag bod llef y sillau yn rydebyg; neu rhaid eu bod agos oll felly; yn enwedig llafariaid yr odl a'r orphwysfa.

1. Croes rywiog derchafedig, gweler nod yr orphwysfa fal hynn, | eithr ni wneir y nod mewn corph pennill, eithr yman, er dysgu'r Gynghanedd.

A'm cur | i'm cais.——Yr un | erioed.

Arall.

**Accen ber | yw can y Bardd.——Arwain y gras | ar un a gred.**

2. Croes rywiog ddisgynnedig.

**Breudeg | Brydydd.**

**Yn gywrain | honn a garaf.——Llonn Brydydd | llawen breudeg.**

Arall.

**Dau hylaw | da eu helynt.——Doe y mynnodd | Duw meinwen.**

Eraill.

**Oer yw dylud | oriau dolur.——Un a cheiniaith | yn ei chaniad.**

3. Croes anghydbwys a fydd pan fo'r orphwysfa'n ddercha-fedig, a'r awdl yn ddisgynnedig accen, fal hynn:

**I dy fin | o dy fynwes.——Un a'i Gerdd | yn y gwyrddail.**

4. Croes o gysswllt a fydd pann orffòer o un sill gyrchu cyd-sain o sill arall er cael cynghanedd, fal hynn:

**Duw Ion biau | dwyn bywyd.——Dod rann | o'r da a drinych.**

Arall.

**Pwy'n farchog | pennaf orchest.——Car llawlwm | Ciryll olwg.**

Arall.

**Tant tynn iawn | tu hwnt i neb.——Poeth-ddyn dig | pa waeth nad el.**

Arall.

**Cariad a drig | rhodia draw. neu fal hynn, Cariad a dri | g rhodia draw.**

5. Croes goleddf a fydd pann fo mwy na rhyw a rhif o sillau un tu o'r orphwysfa na'r tu arall, neu ynteu dwysill yn cyng-haneddu ag un; fal ymma:

**Egin glwys | gwaun yn glasu.——Call llawen wyd | colli nerth.**

Arall.

**Tant tew | nid da i'n tuedd.——Morgan nid teg | margen ty.**

6. Croes N wreiddgoll, ag nid bai yw, fal hynn:

**Yn geiliog doeth | a'i glog du.——Yno cefais | y cyfoeth.**

Arall.

**Ni welais Ione | ail i Siencyn.**

7. Cynghanedd Groes Ganolgoll a fydd pann fo rywfaint o sillau llai na hanner rhif y Bann o flaen yr orphwysfa, yn atteb i'r un rhif, neu fwy neu lai o sillau, a fout ar ol yr orphwysfa ar ddiwedd y Bann, ag yn llai na hanner y rhif, a geiriau yn y canol heb ddim yn atteb iddynt; ag ymma bydd yr orphwysfa

Digitized by Google

ar ddiwedd yr hanner cyntaf o'r gynghanedd, ag nid ar hanner rhlf y Bann; a rhaid i'r sillau cyntaf lammu neu drosi dros y sillau canol i gyrchu Cynghanedd at sillau a gydleisiont a nhwy yn niwedd y Bann; neu fal hynn:

Cynghanedd groes gauolgoll neu groes droslam, a eilw rhai yn draws gynghanedd, a fydd pann fo sill neu fwy o flaen yr orphwysfa, yn atteb i sill neu ddwy yn ddiweddaf ar y Bann ar ol yr orphwysfa; a geiriau coll yn y canol heb ddim yn atteb iddynt, eithr trosi drostynt i gyrchu Cynghanedd, fal hynn:

**Duw | sydd alluog a | doeth——Gras | ydyw'r sail ar y | graig.**

Dwy wrth ddwy, fal hyn:

**Milwr | yn haeddu | moliant.——A honn ar accen ddisgynnedig.**

**Y gwr | a laddodd ei | gi.——Honn ar accen ddercbafedig.**

Un wrth ddwy, fal hynn: Arall.

**Cnoi | fal a dannedd | cwn wyd.——Can | yn fy mryd am | cenais.**

Dwy wrth dair, fal hynn: —— Dwy wrth un, fal hynn:

**Trafod | y byd | trwy ofal.——Dewr wyf | milwraidd a | dryd.**

Tair wrth ddwy, fal hynn: Arall.

**Gwae afar | trwm a | gefais.——Deunaw dawn | ar y | dyn doeth.**

Tair wrth dair, fal hynn: Arall.

**Rheola | bob | rhyw aelwyd.——Digrifwch | yw | dy grefydd.**

Arall. Arall.

**Byw'n ry ffals | yn | baun rhy ffol.——Cariad merch | fal | cryd im' ais.**

Ag fal hynn ar bob Cyhydedd.

8. [Cynghanedd gadwynog a fydd pann fo'r groes ar unodl yn ymgadwyno y naill yn y llall, ys ef y gair o flaen gair yr orphwysfa yn unodli a'r gair o flaen y gair diwedd, ys ef y brifodl, heb fod y geiriau unodl yn rhoi dim yn y byd yn eu cydseiniaid, o'r cyntaf i'r olaf tuag at wneuthur y croes gynghaneddu rhwng gair yr orphwysfa a'r gair diwedd, yr hwn yw gair y brifodl; a'r geiriau unodl yn nechreuad yr hanner bann cyntaf a dechreu'r ail hanner bann sef yr olaf, yn cymmeryd lle'r cydseiniaid a fysai'n cyfatteb iddeu gilydd yn y mannau hynny pei heb y geiriau unodl; a chynghanedd warantedig yw honn, ag fal hynn y mae:

**Twyll dyn yw awen pwyll diawl.——** { **Gwynfyd nef i'n bywyd ni**<br>**Yw ir ddawn gwir ddaioni.** }

**William Evans o Landaf a'i cant.**



Digitized by Google

Ag ar hwnn y mae gorchest, sef y fraich gyntaf yn gynghanedd gadwynog. GWYNFYD o flaen yr orphwysfa yn unodli a BYWYD o flaen y sill prifodl. Yn yr ail fraich y mae y gair IR o flaen yr orphwysfa yn unodli a GWIR o flaen gair y prifodl, a hwnnw ar accen ddisgynnedig, a chyda hyn o unodli yn gymmodd a geiriau cyfunodl y fraich gyntaf, y mae'r fraich o benn bygilydd yn gynghanedd groes gwbl-berffaith.] *

9. Croes cadwyngyrch a fydd pann fo'r gair, neu'r sill, neu fwy nag unsill, ar ddiwedd braich yn bengoll herwydd prif gynghanedd y fraich honno, eithr yn croesgynghaneddu a'r un rhif sillau neu eiriau yn nechreu'r fraich nesaf; a hynn a bair ymgydiad rhwng un braich a'r llall yn gadwynog un yn y llall, ag un yn ei gilydd; ag o ganu'r gynghanedd honn ar bob bann o bennill, nis gellir gosod un braich o'i lle priodol, am y tyrr hynny ar y gynghanedd, oni fydd anghyffredin ymorchestu ar y bannau, y peth a welir weithiau; eithr yn amlaf arferir y gynghanedd honn yng nghymmysg a'r rhai eraill mewn Cerdd; ag ni fu hyd yn hynn gyfiawn ddeall ar y gynghanedd honn, eithr yng Nghadair Morganwg; a gorau ydyw o'r holl gynghaneddion er cynnal synwyr a gwychber ganiadaeth; a thawddgyrch cadwynog y gelwir honn; a rhai a wnant ansawdd mesur o heni; eithr nid cyfiawnfarn hynny; am y gellir yn unwedd ansawdd o bob cynghanedd arall yr un gyrwydded.

CROES GADWYNGYRCH AR Y GYHYDEDD LEFN.

'R wy'n dwyn cwyn cur AM ANNA,
MWYNED oedd gair ei MIN DA.

*A hynn yn ddi fai.*

Lewys y Glynn a'i cant.

Arall.

Cerais ferch a'm croesai fyth
A gyrr traws ei gair TRASYTH;
TRWSIAIS gerdd is gwydd IRDDAIL,
ERDDI fy Ngwenn Elen AIL,
EILIAIS ei mawl yn lais mad
Y lwys gun hwylus ganiad.

Thomas Carn a'i cant. 1598.

Ni saif y gynghanedd honn, fal y gwna eraill, ar un bann yn

---

* Yr hynn a welir ymma rhwng nodau cynghlo [fal hynn] ag mewn mannau eraill, geiriau EDWARD DAFYDD ydynt, a'u cynnysgrif mewn inge coch. I. B.

unig; eithr ar ddwy fraich o leiaf, ag yn fynych ar dair: fal a'i gwelir ymma; sef y gair TRASYTH yn niwedd yr ail fraich yn croesgynghaneddu a'r gair TRWSIAIS yn nechreu'r drydedd fraich; ag yn yr un fraich sef y drydedd, y mae cynghanedd groes rhwng y gair GERDD a'r gair GWYDD; ag yn ol hynny a'r gair IRDDAIL yn bengoll o barth cynghanedd dryred y fraich honn; eithr yn cyrchu ar ddull a rhyw CYRCH TODDAID cynghanedd groes at y gair ERDDI yn nechreu'r bedweredd fraich; ag wrth hynn gwelir bod TEIR BRAICH, sef yr AIL, y DRYDEDD, a'r BEDWEREDD, yn ymafaelu un yn y llall ag yn ymgadwyno'n un a'u gilydd; sef oddiwrth bod y cyrch ar ddull CYRCH TODDAID yn gafaelu mewn braich arall, y gelwir y gynghanedd honn yn DAWDDGYRCH CADWYNOG; ag o hynn y ceir perffaith-gynghanedd. Ef a ellir croes-gadwyn rhwng bannau cyd y bo cynghaneddion o rywiau eraill ernynt, fel y gwelir ymma rhwng y gair diweddaf o'r bedweredd fraich a'r gair cyntaf o'r bummed; ar hynn o fannau cywydd, ag wrth hynn dëellir ansodd y gynghanedd honn yng nghymmysg ag eraill gynghaneddion.

Gweler gynnrych arall ar y gynghanedd honn yng nghymmysg ag eraill rywiau cynghaneddion, yn y pennill ymma a ganwyd er ei dysgu:

Clywais adlais odlau CYNNAR
CANAU odiaeth cywion ADAR,
NODAIS glasliw glwyslwyn HYGAR
AGWEDD hoywerdd hug y DDAEAR,
OEDD AWEN lifaidd win-lafar
Gann y Fronfraith awenwaith wâr,
IRIAITH harddwaith hirddydd CLAEAR
CLYWAF bob dydd ar wydd tir ar
A glyw droiadau'r gloyw drydar,
Oll o'i galon cyll y galar.

Charles Bwttwn a'i cant, [er dangos modd y gellir ymarfer a'r gynghanedd honn. Ebe IEUAN TIR IARLL.]

[Ag er dysgu'r gynghanedd honn y canodd DAFYDD O'R NANT yr awdl honn a ganlyn; lle gwelir erni'n gyfiwyr, ansodd *Tawddgyrch Cadwynog*, neu *Groesgyrch Cadwynog*, ag fel hynn y dywaid ef a'i cant.]

[Tawddgyrch Cadwynog yw math o gynghanedd groes-gydseiniog, lle bydd gair ar ddiwedd y fraich gyntaf yn bengoll herwydd cyssefin gynghanedd y fraich, eithr y gair hynny ar ddull CYRCH TODDAID yn croesgynghaneddu yn gydseiniog a gair cyntaf yr ail fann; a thrwy hynny'n cadwyno'r ddeufann

hynny yng nghyd; ag ar ol hynn y bydd ar ganol yr ail fraich y geiriau yn croesgynghaneddu; eithr ar eu hol ar ddiwedd y fraich, fal ar ddiwedd yr un o'r blaen, y bydd gair pengoll; a hwnnw yn dwyn cyrch cydseiniog at ddechreu'r fraich nesaf; ag fel hynn am holl fannau'r pennill; a chadwynog bydd y bannau, un yn y llall, fal nas gellir hebcor bann na'i newid o'i le, heb golli'r gynghanedd; a honn yw'r unig ffordd o ganu cynghanedd bengoll yn ddi fai; ag nid hynny yn unig; eithr o'i chynnil ymarfer y bydd yn oreu oll o'r cynghaneddion; ag a geidw yn ddi newid, a di fraen, y pennill a'r mesur; ag y mae deall cyfiawn ar y gynghanedd honn, wedi bod ar goll yn hir o amser; a cham farn ar gerdd yw galw Tawddgyrch Cadwynog yn fesur pennill, cann nid yw ond cynghanedd.]

1.

TEG fore 'm mis Ebrill yn ebrwydd y codais,
I'r coedydd ar ofronn tir hyfryd ymdeithais;
I'm dethol fyfyrdod oferdyb ni luniais
Ar lennyrch y glasgoed, ond glwysgerdd a brydais,
Bwriadau gwir awen, goreuwaith fy nyfais,
A nwyfau'n y galon ag alaeth i'm dwyais
A diwyd accennion i'm caniad erlynais
Lawenydd diofal i'm cynnal amcenais.

2.

Ystyriais y byd ag heb oedi meddyliau
Trwm ddolur llaweroedd, a llwyred eu poenau,
Nid pennod y llawen yw lliwo bwriadau
A brydwaith ystyrbwyll, naws durbwynt damweiniau,
Dymunais holl anian llawenydd i'm genau
A gwiniaith yr awen, a'i rhywiog wëadau;
Ag adwyth i'm mynwes er mwyned ei chwedlau
Och! adlais bronn glaf, ag ni chwarddaf o'i cherddau.

3.

Meddyliau gwyr Iefaingc digrefydd ewch ymmaith,
A'ch ammhwyll diofal a'ch difudd oferwaith,
O fwriad y galon hawdd gweled yr effaith,
Er hoffed un dydd ennyd oer a ddaw eilwaith,
Hir ddolur yw diwedd a dïal ynfydwaith,
Ni fedir y gwenith ar ganol tir diffaith,
Traed hoffion amunedd sy'n myned at obaith,
A'r tybiau'n tawelu'n llonyddu'n llawn heddiaith.

Dafydd o'r Nant a'i cant.

Gwelir yn yr awdl honn gyrch unodl rhwng y gair diweddaf o un pennill, a'r gair cyntaf o'r pennill nesaf.

Angen oedd son fal hynn yn drylawn am y gynghanedd

Digitized by Google

honn, yn amgen nag am y rhai eraill; gann nad yw honn, fal cynghaneddion eraill, ar gyffredin arfer a deall; a thann hynn o ddigwydd y mae er ys llawer oes.

Llymma eraill gynghaneddion o rywiau croes cydseiniog yn driphlyg ymgaingc; ys ef tri mann ar y gynghanedd yn atteb iddeu gilydd; ag un i'r lleill o henynt.

1.

**Gair clod, a gwir clywch dros y byd i'r gwr clau,**

2.

**Iawn a fydd itti'n fawl, ganiadau gann filoedd,**

3.

**Rhai dethol o'r doethion yw gwyr ei gymdeithas,**

4.

**Beunydd dann boenau, pob awr yn benyd.**

5.

**A dyn mewn daioni yn flaenor pob dynion,**

6.

**Y dyn ym mhob dim gwna gyngor mab doeth,**

7.

**Dal wr dy law pann fo'n fawr dy lid.**

8.

**Y gwarth mawr a gair i'r amcanion gorau.**

9.

**Y gwr er dy gariad na chwennych rwysg arwr,**
**Nag awdurdod o drais ariangais ar ungwr.**

Nid oes fawr arfer ar y rhywiau hynn o gynghanedd ar lai cyhydedd na nawsill, a bai bydd y canu ar y gyhydedd hefn ar wastad: fal hynn,

1. **Y gwarth a gair ar y gorau.**——2. **Gwarth a gair ar y gorau.**

Y mae gorphwysfa o ryw ag ansodd ar y gair *gwarth;* sef yr ail sill yn cyrchu at orphwysfa'r odl; ag o'r achos hynny pendoll fydd y gynghanedd rhwng *gwarth* a *gorau;* a choll-edig o drawsair cyferbyn y bydd y sill *gair,* fal y bydd *trawsi*

Digitized by Google

mewn *cynghanedd droslam* canolgoll: eithr fal hynn y cenir yn gyfiawn:

**E geir gair gwarth ar y gorau.——Neu, E GEIR gwarth ar y GORAU.**

Ag mewn cynghanedd unodl lusg fal hynn:

**Gwarthair a gair ar y gorau.**

(Gweler am y gynghanedd unodl.)

**Y gwarth mawr a GEIR i'r amcanion GORAU.**

Ag nid oes ymma orphwysfa'n cyrchu gorphwys at yr odl cyn dyfod at y sill *gair;* ag ar hynny o air y mae'r geiriau oll o'i flaen yn sefyll am gynghanedd ar ddull croesgynghanedd, a rhwng hynny a'r gair *gorau* trawsgoll y byddant y geiriau, eithr y gair *gorau* a saif am gynghanedd ar y gair *gair* yn unig, heb ymarddelw ag un gair arall.

Yr ail ansodd ar gynghanedd yw UNODL; a elwir CYNGHANEDD SAIN, gann rai; a honn a fydd pan fo sill yn rhywle ar y fraich o flaen y ddwy ddiwethaf yn unodli a'r sill ddiweddaf ond un, yn un llafar a chydsain: a rhwng y gair neu'r sill hynny sef rhwng yr olaf, ond un, a'r olaf oll, ni wna bod cydsain na fo ag un gyfatteb iddi yn y gair, neu'r sill gyntaf o'r ddeuair unodl; a'r gair cyntaf hynn a ddylai fod y naill ai gair unig unsill; neu'r sill olaf o air deusill neu fwy.

Neu fel hymn,

Cynghanedd unodl a fydd pan fo'r gair neu'r sill olaf yn rhywle ar y fraich yn unodli a'r sill nesaf i'r olaf; neu'r nesaf at sill yr odl; (a gair yr odl yn ddisgynnedig,) sef yn unodli'n un, llafar a chydsain; ag ni ddylai cydsain fod yn nechreu'r sill olaf o air yr awdl, yn amgen nag a fo yng ngeiriau neu sillau'r unodlaeth; a'r gynghanedd fal hynn:

| 1. | 2. |
|---|---|
| **SON am y mawr ddaioNI.** | **——Mae BARDD fynycha'n WARDDyn.** |
| 3. | 4. |
| **HoffER y teg lefERydd.** | **——Odid MERCH nas annERCHwn.** |
| 5. | 6. |
| **DigyfrITH yw'th fendiTHion.** | **——Arfer MorgAN yw CANu.** |
| 7. | 8. *Unodl o Gysswllt.* |
| **Pendefig gwlAD i'th ADwyd.** | **——Y mann lle'dd A'R angHARiad.** |

Digitized by Google

## 9. *Eraill o Gysswllt.* 10.

**Tywyn golAU LIW hAULwen.——ArfER ddiffaith ar gERddau.**

Ag fal hynn ar bob cyhydedd arall; eithr ar un a fo hwy nag wythsill, ni ddylit gosod y sill gyntaf o'r unodlaeth yn nesaf o flaen yr ail rhag bod y rhann fwyaf o'r fraich yn ddigynghanedd.

Ni ddylai'r gynghanedd honn fod ar y fraich ddiweddaf o bennill neu gwpl o gywydd; ag nis dylai fod dwywaith yng nghyd nag yn nesaf at eu gilydd ar bennill; nag yn ry aml yn unman; cann mae gwaelaf o'r cynghaneddion ydyw; etto y mae arfer cyfaddas a'r gynghanedd honn yn harddu rhai fesurau.

Y drydedd ansawdd ar gynghanedd yw'r un gymmysg; neu, fal y geilw rhai hi, y gynghanedd lusg; honn a fydd pann fo deuair yn y fraich yn unodli, a'r olaf o'r ddeuair hynny yn croes-gynghaneddu'n gydseiniog a'r gair olaf o'r fraich; neu ynteu yn traws-gynghaneddu ag ef.

Yn y gynghanedd honn y cyntaf o'r ddeuair unodl a elwir y *gwant*, a'r ail y *rhagwant;* a'r rhann ddiweddaf o'r fraich a fo'n gydsain gynghanedd a'r ail o'r geiriau unodl, sef y *rhagwant*, a elwir y *gobennydd:* a phann na bo geiriau canolgoll rhwng y *rhagwant* a'r *gobennydd*, y gelwir y gynghanedd honno yn *lusg rhywiog*, neu *groeslusg;* a phann fo geiriau canolgoll, *llamlusg* a'u gelwir, neu'n *drawslusg*. Mewn *toddaid* rhaid bod y *rhagwant* ar y bummed sill, a'r *gwant* ar yr un a weddo'n orau o'r pedeirsill cyntaf. Mewn *llusg huppynt*, bydded y *gwant* ar y bedwaredd sill, a'r *rhagwant* ar yr wythfed; a'r *gobennydd* yn croes-gynghaneddu a'r *rhagwant*: a'r achos ó alw honn y *gynghanedd lusg* yw am ei bod, o achos diffyg yr unodlaeth, yn ymlusgo at y *gobennydd* er cyrchu cynghanedd o gydsain; eithr ei chyfiawn enw yw y *gynghanedd gymmysg;* am mai cymmysg o'r unodl a'r gynghanedd gydsain ydyw; neu'r *gwant* a *rhagwant*. Mewn *toddaid*, a *llusg huppynt*, bydded y *gwant* a'r *rhagwant* fal y dywespwyd; eithr ar fannau cyffredin ni waeth pa le bont, cyd bo rhywiog y ganiadaeth herwydd yr accen a'r gorphwyslëoedd a wnant ar y bannau.

Digitized by Google

*Croeslusg.*

1.

YDWYD WR ar bob GWR GWYCH.

2.

Ydwyd y SON hyd FON FAITH.

3.

Dysg diadfAIL yw SAIL SWYDD.

4.

Yn gorfOD dwyn TRALLOD TRI.

5.

A'i SERCH ar FERCH yr wyf FI.

6.

Can MAWL i DDWYFAWL DDOFYDD.

7.

Can MAWL gwaith DWYFAWL DAFYDD.

8.

TORRIAD y CARIAD CYWRAIN.

9.

CERDD o GAEADWERDD GOEDWIG.

10.

Trwy'r WLAD yn SIARAD SURIAITH.

11.

YnfyDION DYLION DILES.

12.

GLAN y gwnai GAN yn y GWYDD.

13.

BRWNT yw'r GWR HWNT, a'r GWARR HYLL.

14.

HUD yw GOLUD a GELYN.

*Llusg Cadwynog.*

1.

O irBER LWYN dyNER LAIS.

2.

Nid gLAN FYTH un AMCAN FALCH.

DAFYDD LLEDWAG BRYDYDD LLWYD.*

Ag yn gyfochr unodlaeth fal hynn:

CLYWIR FYTH ei GYWIR FAWL.*

L. L.

Ni wedd aml arfer a'r llusgiaid ar y fraich olaf o bennill, neu gwpl, os byddant o'r rhain a fo'n odli ar accen ddisgynnedig; eithr eu harfer ambell-waith wrth raid, er achub synwyr rhagorbwyll; etto melus y bernir aml arfer ernynt ar gerdd ym mhob mann arall yng nghymmysg a'r cydsain-gynghaneddion.

*Cynghanedd Lamlusg, neu Drawslusg.*

1.

CAN adar MAN ym mhob MAES.

2.

LLWYN ar DWYN uwch tawelgwr DOL.

3.

A THECCED MERCHED tir MON.

4.

AWENGLOD PAROD i'm PAUN.

5.

Llef HOYW CAN LOYW hoff yw'r ACCEN LWYS.

6.

A THIRION eu TON dros wyneb y TIR.

7.

Ym mhob GWEDD RHYFEDD bu'm RHANN.

---

** O Gyfysgrif Llanbaran.

Digitized by Google

Soniér bellach am y wedd neilldüol ar drefnu cynghanedd ar ail fann neu gangen *Toddaid Englyn*, neu *Doddaid Cwtta*; am nis gellir cyflawn wybodaeth o'r hynn a ddywespwyd eiswys; y *gwant*, fal y nodwyd, a fydd ar y cyntaf, neu'r ail, neu'r drydedd, neu'r bedwaredd sill; a'r *rhagwant* ar y bummed; a'r *gobennydd* yn unsill; neu yn ddwysill; neu'n deirsill; neu'n bedeirsill; a'r ddiwedd yn gyssefin o'r *brifodl*, a'r gair *toddaid* yn deirsill; neu'n ddwysill; neu'n unsill; fal y galler herwydd hyd y *gobennydd*; ag ni ddyly bod y cyfan ddim yn hwy na degsill; a'r gair *toddaid* yn dwyn cyrch at yr ail fann neu gangen o'r *toddaid*; yr honn fann a fydd yn chwesill, heb na mwy na llai; ag mewn deufodd y bydd y y gynghanedd hynn; y modd cyntaf yw gwneuthur y gair *toddaid* yn unodl a gorphwysfa'r ail fann; a honno yn groesgydsain gynghanedd; fal hynn:

**Y ffydd o newydd i ni—a roddwyd,**
**Da unwyd daioni;**
**Ffydd yr uchel Dduw Celi;**
**Gwir ffydd hardd, goreuffydd hi.**

## Arall.

**F'aeth Dwyrain Prydain heb ryd—morgymmlawdd,**
**Rhyfoddawdd arfeddyd;**
**F'aeth i orwedd fyth wryd,**
**Echdoe i'r bedd wychder byd.**

**Llewelyn Sion a'i cant.**

Arall, a'r ail fann ar gynghanedd lusg, eithr yr orpywysfa hefyd yn unodl a'r gair Toddaid.

**Dosparth Deheubarth dy hun,—mor deilwng**
**Yw darostwng drostyn;**
**Dy Far chwyrn, dy fraich arnyn,**
**Dy rymm oedd i dri am un.**

**William Egwad a'i cant.**

## Arall.

**Crist Coron a bronn lle braenwyd—yn glaf**
**Croywaf braffaf broffwyd;**
**Croes Duw ddelw Crist addolwyd;**
**Cor llawn nerth, Caerlleon wyd.**

**William Egwad a'i cant.**

Yr ail modd yw gwneuthur y rhann gyntaf o'r ail fann yn groesgynghanedd gydsain a'r gair *toddaid*, a'r rhann olaf yn bengoll, ag ni chadwyna'r pengoll hynny, o raid ag angen, ag un



Digitized by Google

gair o fann a ddelo ar ol hynny; ag amgen nag yn hynn o le ni oddefir ar un mesur y cyfryw bengollair.

Fal hynn y bydd o groes rywiog:

Goleuber nifer nefoedd—i'w glwysder
Gloyw ysdod niferoedd;
Gwawl iddynt yw eu gwleddoedd
Goleuni'r gair glan ar goedd.

Samuel Jones a'i cant.

Arall.

Duw'n Arglwydd gwiwrwydd gwared—dy weision,
Duw Iesu rho nodded;
Di weli faint ein dyled,
Duw tal hwnn yn grwnn dros gred.

Arall.

Ystyriais gwelais gywilydd—ym myd
Ymadael a chrefydd;
A ffol ymwrthod a ffydd
A'i dibennion da beunydd.

Thomas Llywelyn a'i cant.

Arall, a gair canolgoll yn y groes-gynghanedd yn y cyrch:

Ysgawnder syber a seibiant—y gerdd;
A llwyn gwyrddail coedbant,
A meinwen, a phob mwyniant
A gerais i fal gwir Sant.

Dafydd o'r Nant a'i cant.

## RHEITHIAD V.

TRAETHER y waith honn am *Gymmeriad*, a dosparther ei hamrafaelion rywiau.

CYMMERIAD yw yr un gydsain ar ddechreu pob braich o'r gerdd, neu'r pennill, neu ar fagad o henynt, neu gadw llafariadau ar ddechreu'r bannau.

Fal hynn ar gydsain gymmeriad:

Llenwis gwlad a'i ganiadau;
Llith gwirddysg, llwyth ei gerddau;

Digitized by Google

Llaweroedd o gall eiriau;
Llu rhinwedd llwyr o'i enau;
Lluaws yn hardd eu lliwiau;
Llewyrch gwir hir i barhau.

Llywelyn Sion ym Marwnad Dafydd Bedwyn.

Nid torr cymmeriad yw bann yn dechreu a llafariad, ym mhlith eraill ar gydsain; fal hynn:

Gyrru mae'r gwyntoedd gerwin,
Gwylltio ar goedd a bloedd blin;
Gwingo'n y cwm yn drwm draw,
A'n rhwystraw a'u mawr ystrin.

Siams Thomas a'i cant.

Nid torr cymmeriad yw H yn dechreu bann, yn amrafael ar lythyren ddechreu y bannau eraill.

Fal hynn: (lle gwelir hefyd arfer ar lafariad ar ddechreu bann ym mhlith bannau yn dechreu a chydsain)

Cywir yw Duw, cared dyn
Iach* ammod ei orchymmyn;
Ceisied ei eiriau cysson,
Carthed Wyd o'i fryd a'i fronn;
Cymmered bwyll didwyll da
Yn em i'w feddiant ymma;
Cofied mai ffydd yw'r cyfoeth;
Hoenus fydd bob dydd, a doeth;
Cyweiriad fawl, cared fyth
Addoliad i Dduw'n ddilyth.

[* Arch. Ll. Ll.

Ef a ellir newid y cymmeriad ar bob cwpl os mynner, heb fod bai; eithr anghelfydd y bernir dwy amrafael gydsain yn dechreu'r cwpl; cann y gweddai'n well (onis gellir cynnal yr un gydsain ernynt) arfer cydsain a llafariad, neu gydsain ag *H*.

Cymmeriad llafariaid; gellir newid y rhain fal y mynner; a gellir ymarfer a'r un a fynner o'r wyth llafariad, fal y mynner, a phann fynner; fal hynn:

Am gyfarch ei bummarcholl
Wrth ei ras ein nerthir oll;
Erchi'r Iesu, arch rasawl,
Archaf arch i'r ucha'i fawl;
Erchi, er ei weliau,
O afiach haint fy iachau;
Erchi nerth i'r ucha wnaf,
Er ei erchyll yr archaf;
Erchais ras, erchi sy raid,
Archaf un arch i f' enaid.

Lewys Morganwg a'i cant.



Digitized by Google

Nid torr cymmeriad, pann fo'r bannau yn dechreu a llafariaid, yw bod bann yn eu plith ambellwaith yn dechreu a chydsain neu ag H, fal hynn:

**Hydref oes, hud ar fy iad**
**A lwydai fy ngwelediad;**
**Ef a ddaw gaeaf i ddyn,**
**Daw'n wayw anwyd a newyn;**
**Os diriaid nad ystyrir**
**O chaf gynhaeaf gwynn hir,**
**I'm enaid i bum annerth,**
**Mynnaf ras, mae nef ar werth.**

**Llywelyn ap Howell ap Ieuan ap Gronwy a'i cant.**

Cymmeriad cynghaneddol a fydd pann fo'r geiriau cyntaf ar fannau pennill, neu gwpl, yn croesgynghaneddu; fal hynn:

C Z/S6... )/1 b8

**Bronn a'i deil brynn y dolur,**
**Braidd na'm hyllt ar gorwyllt gur;**
**O nythlwyth calon bronn brid.**
**Yn ethlych o annoethlid;**
**Cyfyd rhyw son o honof,**
**Cyfing cawdd o uthring cof;**
**Cynnwrf mynwes diles dwyll,**
**Cynnar ddiffodiad canwyll;**
**Cawad yw o flaen cywydd**
**Cae nifwl hir feddwl fydd**
**Rhiain fy nghof a'm gofyn,**
**Rhuad tost am yr hud hynn.**
**Pawb a debig pann ddigiwyf,**
**Pe bai ddysg, mai Pibydd wyf;**
**Uthr yw'm swydd er ys blwyddyn;**
**Eithr Morfudd ni'm dyhudd dyn.**

**Dafydd ap Gwilym a'i cant.**

Cyrch Gymmeriad a fydd pann fo'r gair fo'n diweddu pennill yn dechreu y nesaf atto, yn air cyntaf, neu'n eilair y fraich gyntaf; a hynn a wneir er cadwyno'r pennillion yn eu cyfiawn leoedd, a'u cynnal yn ei hiawn drefn; fal hynn:

**1.**

**O gnawd eneidwawd i gwnaf—adail wydd**
**Odl weddi a buraf,**
**O'm diau nerth i'm Duw Naf,**
**A dawn iach, gair Duw'n UCHAF.**

**2.**

**UCHAF Brenin llin pob llwydd—Duw Eurnaf**
**Ior haelaf air hylwydd;**
**Uchaf T'wysog rhywiog rhwydd,**
**Ofwy eurglod yw f' ARGLWYDD.**

Digitized by Google

3.

**Nid Arglwydd hylwydd nod hoywlu—eurglod**
**Nid Arglwydd y gallu;**
**Nid Amherawdr Llywiawdr llu,**
**Nid Twysog ond Duw Iesu.**

4.

**Iesu Naf haelaf hylaw,—dda wychryw,**
**Oedd heb ddechreu arnaw;**
**Iesu fydd Llywydd rhag llaw,**
**A'i ddydd heb ddiwedd iddaw.**

5.

**Iddaw'n wir gyfiawn Ior gofiad,—credaf**
**Cariadus un mab rhad;**
**Iesu gadarn sy geidwad,**
**I enaid dyn oen y Tad.**

**Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llywelyn a'i cant.**

Y mae hefyd dull o gadwyn-gymmeriad rhwng bannau a wneir drwy fod y gair cyntaf o bennill yn unodl a'r gair diweddaf o'r pennill o'i flaen; a hynn hefyd er cadarnhau'r penillion yn eu cyfiawn leoedd; gwelwyd hynn eiswys yn y pennillion addysg ar Dawddgyrch Cadwynog. Tu Dal. 60.

Ni ofelir cymmaint y dyddiau hynn am gymmeriad ag y buad yn yr oesoedd gynt; ag nis bernir yn awr yn un o anhepcorion Cerdd Dafod; am ei bod yn cyfingbau'r synwyr a'r myfyrdod.

## CYNN PELLACH,

ANGHENRHAID yw gosod ar lawr amrafaelion gymhwylliadau ar bethau a berthynant yn o gyffredin ar y colofnau a'r mesurau; neu ar aml un o henynt o gyfiawn ymbwyll a sylwedd ernynt.

### CYMMHWYLLIADAU AR Y GORCHANAU.

*Cyfurddolion* o gyssefin a chyffredin neu o gydgyfrann ansawdd, y bernir y *Naw Gorchan;* cann nid oes ond un *brif angen* ernynt; sef yw hynny Cyhydedd ar Unodl: ag o hynn ef a'u gelwir yn *Arddunogion,* am yr *under ansawdd* y sydd ernynt; ag *un* yw'r cyntaf ar bob nifer a rhyw; am hynny goruwch o rann Bonedd yw'r peth a saif ar *under hanfod,* ag *ansawdd,* ar bob cymmhleth hanfod ag ansawdd: am hynn

Digitized by Google

bonheddiccaf ar yr holl fesurau ydynt y *Naw Gorchan*; am fod colofnau *arddun a godidog* yn blaenori ar y rhai *cymmhleth*; ag hwy a fuant gyntaf dann ymdrin celfyddyd wrth gerdd: sef o flaen yr adlawiaid golofnau.

*Gogyfurddolion* ydynt y *Naw Gorchan*: sef cydgyfuwch o rann bonedd ydynt, ag o dywedir fod ar y ferr gyhydedd fonedd o flaenoriaeth rhif sillau, ar gyhydedd a fo hwy na hi; dywedir yn atteb i hynny mai o ddamwain a digwydd y cafwyd bannau yn cyfodli; ag unhyd coel eu cael o ddamwain gyntaf ar y gyhydedd hir, ag ar yr un ferr; a damwain a fu yn y mann cyntaf ar bob celfyddyd; am hynny blaenori y mae digwydd a damwain, ar drefn a dosparth; ag am hynny cann nas gwyddys ar ba un o'r *Naw Gorchan* y bu'r syrth a'r digwydd cyntaf ar bennill, neu gwpl, yn cyfodli; dywedir mae *gogyfurddion cydhawl* ydynt y *Naw Gorchan*; a chyfunhawl ydynt oll herwydd eu braint a'u bonedd; am rifedi bannau ar *Bennill Gorchan*; sef eu bernir o *bedwar* i *unarbymtheg*; a diflas a diles y bydd hwy na hynny.

*A chyssefinogion* ydynt y *Naw Gorchan* o arddun ddull ag ansodd; sef eu colofnau; ag er cynnal yr arddduniant hynny unodl y byddant; cann y gwna brithodli amgenhad ansawdd, ag o'r amgenhad hynny, y cyfyd ansawdd neillduol a gwahanredol ar Gerdd Dafod; ys ef Traethodyn.

*Cyssefinddull* odl yw *unodlaeth*, ag erni y mae cyflwyr *ardduniant*; am nad yw ond unllef unllais; yr hynn nis gellir ei wedyd am unrhyw ddull arall ar awdl; ag o achos *hynn o arduniant*, neu *under* unigryw unodl; y perthyn unodl o gyfiawnbwyll i'r gorchanau; ag nis gellir pennill heb awdl: ag unodl yw prif a chyssefin ansawdd arddun awdl; ag *adlaw* yw *Brithodl* a *Phroestodl;* a phob modd arall ar awdl, amgen nag *unodl.*

Harddwch ar bennill gorchan y bernir diweddu'r pennill yn gywyddawdl y ddeufann diweddaf; a rhai a farnant ledangen o hynny ar bennillion y man golofnau; ys ef yw y rheini y tair cyhydedd ferraf, o bedair, o bump, ag o chwech sill; eithr nid llwyr anhepcor hynn ernynt; eithr tlysder a rhagorwerth, ag nid bai bod hebddo.

Weithiau fe ddiweddir pennillion *gorchan* a chwpl o *doddaid;* ag weithiau a bann cyrch o gyfartal golofn ag unrhyw gyhydedd a'r pennill; ag weithiau hefyd a bann o huppynt o'r man golofnau, a'i brifodl yn unodl a phrifodl y pennill; eithr fe fydd y pennill o hynn yn gyfrannog o ansawdd cynghog.

Rhai Feirdd deallus a farnant yn gyfiawn ganu brithodli'r *Naw Gorchan*; a dywedir i *Daliessin,* ag eraill o'r Prifeirdd

Digitized by Google

wneuthur hynny; ag o hynn fe fydd ar y *gorchanau* ddau fodd braint; sef unodl a brithodl: eithr nid barn o bwyll ag ansawdd angen yw hynn; gann fod pennill brithodl yn gyfrannog o ansawdd cyngog; a chyngog yi bernir ef.

Ni fawr arferir pennillion gorchan ar y tair gyhydedd ferraf; gann amled yr odlau; ag anhawdded cynnal pwyll a synwyr ernynt; a chynnal mesur a chynghanedd a chyfiawn awdl ar bennillion a ddelont o'r cyfryw golofnau, gann eu byrred: a phy bei hawdd, nid blasus a cherddber ganiadaeth y cyfryw bennillion; eithr caner ar y man golofnau, sef y tair berraf, fynychaf mewn mesurau *adlawiaid;* sef *huppynt* ag eraill fesurau adlaw; a blasber ganiadaeth y byddant felly; a gweler wrth hynn er cuwch eu bonedd y man golofnau, nid ynt ond gweylion eu caniadaeth mewn arddun a godidogion bennillion; a gweler wrth hynn, er rhagored arddunant yn y rhann fwyaf o bethau, gwael y bydd mewn rhai bethau; ag o waelder arddunant y tyf pob celfyddyd; ag o gelfydd wellhad ar arddun ag arddunant, y cafwyd gyntaf ddeall ar *adlawiaid* a *chymmhlyg* fesurau *Cerdd Dafod*; a melusaf ydynt gann mwyaf yr *adlawiaid* ar holl fesurau neu bennillion Cerdd; gann eu hamrylef ganiadaeth o awen ragorbwyll; cyd na bo cyfuwch eu bonedd; a hynn o anffawd a fydd syrth mynych y bonedd o fonedd arddun.

*Y Man Golofnau*, ys ef y rhai a guddir yn yr hir golofnau, sef dwy o'r man dann ymwasg mewn un o'r rhai hirion; sef dwy o'r *ferr* mewn un o'r *wastad*, a dwy o'r *gaeth* mewn un o'r *wenn*, a dwy o'r *drosgl* yn gyfymwasg mewn un o'r *hir*. A hynn o gymmhwylliadau ar y *gorchanau*, a'r arddun a chyssefin golofnau, sef gorau gann fwyaf ydynt; ond nid gorau ar oll.

CYMMHWYLLIADAU AR YR

# ADLAWIAID.

ADLAWIAID y gelwir y pennillion, neu'r mesurau cymmhleth; ys ef y tyfant o gymmysg amrafaelion golofnau, gann lunio o hynny un pennill neu ansawdd ar fesur; neu ynteu o neillduoldeb awdl; ag amryw o'r *adlawiaid* a dyfant o ddull gosodiad bannau; ag eraill o osodiad awdl; a *brithgolofnau* y geilw rhai'r *adlawiaid golofnau;* sef achos eu gwneuthur a dwy, neu dair, neu ragor, o'r cyssefin golofnau; ag

Digitized by Google

wrth hynn gweler fod o'r *adlawiaid* amrafaelion rywiau; rhai ydynt o ansawdd cymmhleth, fal y mae *Huppynt,* neu *Lostodyn;* a *Chadwyngyrch;* ag *Englynion;* a *Chynghogion;* a *Thribann Cyrch;* a *Bann Cyrch;* a *Chlogyrnach;* ag eraill bennillion; ag *Adlawiaid Cymmhlyg,* y geilw rhai hwynt; a'r Rhaggolofnau a'u gelwir gann eraill.

*Adlawiaid* o *ansawdd a cholofn ammhlyg* y geilw rhai y pennillion hynn; sef *Traethodyn, Cywydd, Tribann Milwr,* a'r *Proestiaid;* a *Thoddaid;* a *Dyri* [*neu Gan Arwest;*] a *Thribann Morganwg;* ag ammhlyg a'u gelwir, am nad o gymmhlyg neu gymmhleth ar fannau y dawant; eithr o neillduol gainc ar awdl, neu accen y tyfant; a'r rhai hynn a elwir yn *gyfurddolion;* a mesurau o gyssefin ag anghyffredin ansawdd; a neillduoldeb arddunmiant ydynt; cann nid oes ar bob un o raint ond un *brif ansawdd angen;* eithr yn ansawdd anghyfrann ag arall o fesur; ag yn gyflwyr neillduol.

Cyfurddolion o gymmhleth ansawdd y gelwir yr holl *adlawiaid* eraill; am fod yn raid iddynt gymmhleth cyfunwasg o'r bannau a'r colofnau a dyfont o amrafaelion gyhydeddau; neu o gymmhleth ar y bannau a dyfont o'r un brifgolofn, gyda chymmhleth osodiad ar yr odlau: ag o'r pethau hynn y tyfant y *cymmhleth adlawiaid;* a phymtheg rhyw pennill *adlaw* sydd.

Yr adlawiaid a ddawant oll o golofnau'r *Naw Gorchan;* ag am hynny y gelwir y *gorchanau* yn ddyledogion gogyfurdd; am fod yr *adlawiaid* fal gweision dyled iddynt.

Llawer iawn o ddulliau a moddau y sydd ar y rann fwyaf o'r *adlawiaid,* herwydd hyd a gosodiad pennill; yn enwedig y *Cymmhleth Adlawiaid;* fal y gwelir wrth y cynnrychau a'r cynfeliadau yn nosparth pob un o henynt; a llawer mwy hefyd nag a welir yno sydd ar lawer un o henynt; sef *Huppynt. Cadwyngyrch, Clogyrnach;* *Cyngog,* ag eraill; ag nis gellir dosparth a rheithiad ar oll o'r pennillion a ddichoner ar y mesurau hynn; yn amgen na barn a sylwedd a darwel Bardd awenbwyll, ystyrbell, wrth ddeall ag athrylith awengraff.

Tair Gogolofn y sydd a berthynant yn unig i'r *adlawiaid,* sef yr ofergolofnau, un o deirsill, a rhyfyrr ydyw er llunio erni gyssefin ag arddun bennill; a hi a elwir y gyhydedd gotta gann rai; ag arferir hi weithiau mewn *Cyngog* a *Chlogyrnach,* ag eraill *adlawiaid,* yng nghymmysg a'r mangolofnau cedyrn.

Yr ail ofer-golofn yw'r gyhydedd orllaes, sef bann o dair neu bedair sill ar ddeg; a hi a genir mewn *Traethodyn,* a *Chyngog,* a *Chlogyrnach,* ar brydiau wrth raid ag achos, ym mysg yr hir golofnau rhywiog; a hynny yn ddi fai:

Digitized by Google

Fal hynn:

**Cael hedd o wyn diriaid mewn enaid mae'n anhawdd,**
**Ag oer iawn dwyn y beichiau, gwae'r undyn a bechawdd.**
**Thomas Lewys o Lechau a'i cant.**

Eithr er y gellir hynn yn ddifai a digon rhywiog; etto, rhy drwsgl ag anghryno y bydd pennill cyfan erni, ag o hynn ei bernir yn ofergolofn.

Y drydedd ofergolofn yw *toddaid cwtta,* ag a elwir felly am nas gellir pennill arddun erni, rhag dieithred ei llais wrth bob cyfiawn ganiadaeth; eithr yng nglyn ag eraill golofnau a darnau colofnau hi a wna rai o'r mesurau melusaf eu caniadaeth yn y byd; sef Englynion; gweler mwy am hynn yn Nosparth Englyn.

---

# CYMMHWYLLIADAU

## AR ANSAWDD PENNILLION A CHANIADAETH.

MEWN Cerdd Bennilliog caner pob pennill o'r gerdd yn gynnifer bannau; ag yn gyfunhyd bannau; ag yn gyfosod bann ag awdl; ag yn gyflwyr gyfansawdd, herwydd colofn, ag awdl, a gosodiad.

Yr Hen Feirdd a genaint yn foelawdl, sef yn ddigynghanedd; a rhoddi pwys y ganiadaeth ar yr erddigan a'r accenion; sef ar eu bod yn rywiog amrafaeldon a rhwyddlef; fal y gwelir yng ngwaith y Prifeirdd; nid amgen na *Thaliesin*, a *Myrddin*, ag *Aneurin*, a *Llywarch Hen*, ag eraill; ag nid oedd ganddynt gynghanedd ond o ddamwain; a rhai o'r oes honn a ganant fal hynny; a'u galw y pennillion yn foelodl; am eu llunio a bannau moelion; a rhywiog y bydd y canu gydag awenbwyll gamp ar yr erddiganau ar y bannau.

Mewn pennillion adlawiaid gofaler na bo rhyswrth yr ymsymud o fann hir i fann byrr; neu o fann byrr i fann hir; ag nid mynych y bydd rhywiog y symud o un bann i'r llall os byddant fwy anghyfunhyd na theirsill; a gofaler bod rhywiogber a llithrig y ganiadaeth ar y bannau, o barth dull a gosodiad bann ag awdl; sef y dylaint fod yr odlau ym mhob mann yn



Digitized by Google

hyglyw; a gloywamlwg eu llafar; a gosodiad y pennill yn annhrwsgl a rhwydd ganiadlais; un o brifgolofnau trysgleidd-rwydd a fydd mawr anghyfartalwch ar y bannau; ag un arall a fydd bannau rhy anghydbwys; sef yr orphwysfa herwydd y gynghanedd yn rhy bell oddiwrth y canol ag eraill o lëoedd rhywiog gorphwysfa; talgrwnn a rhywiog y bydd cyfiawn orphwysfa; ag anghryno, a goleddf, a gwyrlef y bydd ambell gorphwysfa; ag er gochel trysgleiddrwydd, cadwer y brif orphwysfa yng nghanol y bann, neu yn lledagos at y canol, a bydded dau hanner y bann yn lledgydbwys, herwydd llef ag erddigan; ag am bob gorphwys-fann arall ar fann, gofaler am rywiog ganiadaeth herwydd rhwyddineb llef ag erddigan; eithr gyda hynn, rhaid amrafaelu'r erddigan yn aml, a gwneler hynny yn hynaws ganiadlais; ag hefyd, y mae'n rhaid gofalu na bo rygyfaccen y bannau; eithr gwaeth yw hynn ar rhai gyhydeddau nag eraill; ag yn benna dim, gofaler na bo rygyfaccen bannau disgynnedig ar y gyhydedd lefn, yn anad un peth, neu un arall.

Arferant rai o'r oes honn gadw a chynnal gerllaw'r un drefn ar accen ag erddigan ar y bannau a'r pennillion, sef canu'n lledwastod erddigan, ag o hynny haws yw i ddarllenwyr cyffredin ag anghywraint, ochel cam a'r Prydydd; ond y Beirdd dysgedigion a flasant yn well yr hen drefn ar accennion y gerdd, sef amrafaelion accennion ag erddiganau, blith draphlith, fal y digwyddont, eithr da gochel accen drosgl ni safo ar gyfiawn a rhywiog orphwysfa.

Cynghanedd gydbwys rywiog a fydd pann na bo raid ymlafurio am accen amgen na'r accen naturiol a fo erni o barth pwys erddigan naturiol y geiriau ar eu pennau'u hunain, a lle naturiol yr ymadrodd mewn iaith gyffredin, gyfrydd, gyfollwng; ag ni ddylai bod gorfod lleddfu gormodd at yr erddigan er cael craff ar gynghanedd, fal y gwelir yn aml ar rhai gynghaneddion; lle maent mor anghydbwys a lleddf, fal mai ofraidd-gyffwrdd y ceir cynghanedd ernynt; a mwy trwsgl y bannau lle bont, na phei cenid bann moelodl rhywiog.

Arferant rai ganu croesgynghanedd yn unig ar yr holl fannau mewn cerdd, a chyfrif hynny'n orchest bennigamp; eithr bai ydyw hynny, ag afrywiog, a gormodd cloffi synwyr, a dychymmyg, a chrebwyll; gwell yw rhywiog ag awenbwyll gymmysg ar yr holl gynghaneddion blith draphlith; a'r un peth a wedir am yr accennion; a hynn a wna drefnadau Cerdd Dafod yn ail ag y byddant ar oslef Cerdd Dant; ag amlach y bydd newyddlais accen a sain y ganiadaeth; a mwy difyr a blasus clywed y gerdd; etto, mewn ambell un o'r mesurau *cadwyngyrch* y bydd

Digitized by Google

goreu'r gynghanedd groes; a rhoi'r orphwysfa ar hanner y bann, fal y bo cydbwys ag anoleddf y fraich, a'r gynghanedd, a'r erddigan, sef o barth deupenn y fraich, neu'r ddeuhanner i'r orphwysfa.

Gofaler nas caner cynghanedd wael ar y fraich olaf o bennill neu o gwpl cywydd neu draethodyn, a gweylion y gelwir ag y bernir y sain neu'r unodl, a rhai o'r llusgiaid ar accen ddisgynnedig, a'r draws hirlam, ag oll o'r rhai gwyrleddfon, a bydded y fann ddiweddaf bob amser yn ogydbwys o barth yr orphwysfa a'r gynghanedd.

Nid oes un mesur yn gofyn cynnilach amrafaeliant ar yr accenion a'r erddigan na'r gyhydedd lefn, yn enwedig y rhai ar accen ddisgynnedig; nag un yn gofyn hynn lai na'r gyhydedd wastad. [Am ba beth a'i henwir felly.]

O deirffordd y gwneir bann o gysswllt a chymmysg gyhydedd yn hwy na'r hwyaf o'r cyssefin fannau; sef o huppynt neu lostodyn, ag o doddaid cwtta, ag o fann cyrch, ag o gadwyngyrch; a'r tair colofn cymmhleth y gelwir y rhain, am fod trefn reolbwyll ernynt.

Brithgolofnau y gelwir Cyngog, a Chlogyrnach, a Llamodl, gann nas gellir trefn reolbwyll ernynt.

Godidogion adlawiaid golofnau y gelwir y rhai eraill o'r adlawiaid, am fod ernynt odidog ryw ag ansodd amhleth o barth bann, cyd bo cymhleth gosodiad ar rhai o henynt, eithr morfrithryw ag nis gellir trefn a rheolbwyll ernynt.

Ag fal hynn wrth addysg eraill Athrawon.

O'r *Naw cyssefin Golofn,* a'r *pymtheg Adlawiaid* y gwneir pedair ansawdd ar hugain ar *fesurau Cerdd Dafod,* herwydd mesur a mydryddiaeth; ag nis gellir amgen ansawdd na hynny ar gerdd gymraeg; a phob rhyw fesurau ar a ddichon fod ar gerdd a chaniadaeth a dyfant o un o'r *pedwar ansawdd ar hugain* hynn, ag eu gelwir yn gyffredin y *pedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod.*

Rhai o'r *pedwar mesur ar hugain* ydynt gyssefinogion o ansawdd herwydd cyhydedd yn unig, fal y mae pennillion ar y *Naw Gorchan;* sef y *Naw cyssefin Golofn;* a hwy a elwir yn *Gyfurddolion o gyssefin* a *chyffredin,* a *chryfrannogaeth arddunaint;* cann nid oes onid un prif ansawdd ernynt oll, un ag arall.

Rhai ydynt gyssefinogion ansawdd herwydd dull a ffurfiad eu pennillion fal y mae *Huppynt, Bann cyrch, a Chadwyngyrch, Toddaid, Englyn, Clogyrnach, Llamodl,* a *Chyngog:* a hwy a elwir yn *Cyfurddolion o gymhleth Ansawdd;* a rhaid iddynt wrth gymhleth bannau neu odlau; ag nid o un prifansawdd yn unig y tyfant.

Rhai ydynt *gyssefinogion herwydd dull ag ansawdd a gosodiad eu hodlau;* fal y mae *traethodyn*, a *chywydd*, a *phroest cyfnewidiog*, a *phroest cadwynodl*, a *thriban milwr*, a *thriban Morganwg*, a *chyfurddolion o gyssefin a godidog, ag o anghyffredin a neillduol ansawdd* y gelwir y rhai hynn; gann fod yn *unigryw* a *neillduol*, ag *anghymmhleth*, ag *anghyfrann*, y brifansawdd ernynt.

[Yn Nosparth *Rheithiadur Cerdd, Ceraint Fardd Glas*, ni wneir ond *deg prif ansawdd;* sef *naw gorchan a chyngog*, a threiglo pob rhyw a rhith ar bennill o un o'r *deg ansawdd* hynny; eithr o fanol ymbwyll cafwyd wedi hynny ar ddeall bod *pedwar ansawdd ar hugain* ar y mesurau; fal a'u dangoser wrth *Rheithiadur Llywelyn Sion*; a *Gwyddor Cerdd Meyryg Dafydd.*]

*Taliesin*, meddir, a gafodd gyntaf ar ddeall *toddaid* a *hupsynt*, ag *englyn*, a *phroest cyfnewidiog*, a *chlogyrnach*, a *chyngog*, a *thriban Morganwg*, ag eraill fesurau, a rhywiau mesurau.

Mesurau cyn cof, y bernir y *gorchanau* a *thriban milwr*, a *thraethodyn;* sef yr oeddent er yn oes oesoedd.

Wedi amser *Taliesin*, y cawsant Feirdd deallus y mesurau hynn, sef y *bann cyrch*, a *chywydd*, a *dyri*, a *phroest cadwynodl*, a *llamodl*, a *chadwyngyrch*, a *llostodyn;* ag yn amser *Tryhaearn Brydydd Mawr* y cafwyd y deall cyntaf ar *gywydd;* ag ar ei ol ef y daeth *Dafydd Ddu o Hiraddug*, ag a wnaeth y mawr wellhad ar hynn o fesur gann roddi arno gynghanedd gyfiawn; ag ar ei ol y daeth *Dafydd ap Gwilym, a Sion Cent;* ag a ganasant erni yn oreuon o'r holl Feirdd ar a fuant erioed; a melusaf mesur yw *cywydd* o'r holl fesurau Cymreig; a mwy o gann y sydd arno nag ar un mesur arall.

Mesur cyn cof yw *Dyri*, [neu gan arwest] er ei fod wedi bod ar gamddeall yn hirfod oesoedd; ag a ddygwyd yr oes honn, neu oes neu ddwy o flaen honn, ar arfer ag iawn ddeall; ag un yw o'r pedwar ansawdd ar hugain.

Ag o'r mesurau a'r ansoddau hynn y treiglir pob mesur arall o'r byd ar gerdd Gymraeg, er eithaf gallu dychymmyg; ag wrth hynny eu treigler o gyfiawn ryw ag ansawdd; ag ef a'i cair y *Ddosparth* a welir ymma yn gyfiawn ryw, herwydd yr Hen-Feirdd a'r dysgedigion awduron gynt; a herwydd Hanfod, a Nattur, a Pwyll.

Ym mhellach am gynghanedd; cofier y gellir arfer ernynt fal y mynner; sef y gynghanedd a fynner ar y mesur a fynner, heb na nag na gommedd; eithr gochel gwael gynghanedd ar y fraich ddiwedd o bennill neu gwpl.

Digitized by Google

Ym mhellach am odl, cenir cyfochrodl ar y man fannau yn lle cynghanedd mewn *Adlawiaid fesurau;* ag, er barn Beirdd *y gwagorchestion*, nid da gormodd arfer ernynt ar bennillion cyfain, rhag eu tebycced yn eu cyfunllef i *gan y Gwccwg.*

# CYMMHWYLLIADAU

**Ar nodau, ag angen, a braint, a nerth, pob un o'r mesurau; a'u huaniaeth a'u harddnniant, o'neillduoldeb ansawdd.**

Y MAE ar bob un o'r mesurau *Ansawdd Angen*, ag *Ansawdd Braint;* ag nis gellir hebcor na gochel y rhain bethau ar gyfiawn fesur Cerdd; cann mai wrth hynn o bethau yr adwaenir y mesur;. ag ar hynn o bethau y saif ei hanfod: ag o gyfiawn ddeall ar angenion a breintiau'r mesurau, yr adweinir yr holl fesurau; ag y gwybyddir ym mha beth yr amrafaela un mesur wrth fesur arall; ag a ddëellir y pethau a ddylaint fod ar fesur, rhag syrthio o hanaw i amgen ansawdd; neu i wag ag ofer ansawdd; a cholli ei gyfiawn ryw a phriodolder; a myned yn ddiffrwyth.

Ansawdd angen yn bennaf o ddim a bair i bob peth, arddnniant a neillduoldeb, a phrif a chyssefin hunanryw; ag anhebcor yw angen ar bob rhyw beth; ag heb ansawdd o angen mewn rhann, neu ledrann, ni fydd i ddim cysscfin a neillduol ansawdd; a chyflwyr wahaniaeth, mewn un peth o leiaf, ryngtho a rhyw beth arall.

Angen y bernir pob modd a dull ar unrhyw beth nis geill arallbeth ymafaelyd nag ynddo nag arno; na bod ychwaith yn gyfrannog o hano; heb i'r peth hynny golli ei brif ansawdd neillduol ei hunan. Neu angen a fydd yr hynn nis gellir ei orfod ar unrhyw beth; heb wrth hynny orfod ar hanfod y peth hynny; a'i lwyr ddeddymmu; a'i ddwyn ar ddifod; ag am hynny, y pwnc cyntaf ar wybodaeth yw gwir ddeall ansawdd angen y peth y chwilier ei wybod.

Ansawdd angen ar fesur Cerdd Dafod yw'r hyn nis gellir ei hebcor arno, herwydd hanfod ag anian; fal y mae rhif sillau, ag arddunddull pennill ar fannau'r *Naw Gorchan;* neu ddull gosodiad amrafaelryw fannau ar rhai o'r *Adlawiaid;* fel y bydd *Englyn*, a *Huppynt*, a *Chyngog*, ag eraill; neu osodiad awdl, fal

Digitized by Google

y bydd *Huppynt*, a *llamodl*, a *chadwyngyrch*, ag eraill; neu o neillduoldeb awdl, fal y bydd y *Proestiaid*, ag eraill; neu o ryw beth arall neillduol ryw; fal y bydd *Bann cyrch*, a *Thoddaid*, a'r *Tribannau*, ag eraill, yn gwahanu rhag eraill fannau a cholofnau o wir hunangamp, na fytho mesur arall yn cael o hano gyfrann, neu yn gyfungamp ag ef; a'r pethau hynn ni ddichonant fod yn amgen nag y maent; heb golli'r mesur, o lwyr ddifodiad, a deddymmiant; ag nis gellir cyfiawn fesur neillduol heb *Ansodd Angen* arno, yn amgen ar bob mesur arall, mewn un peth o leiaf; cyd bo mewn llawer peth arall, neu f'allai ym mhob peth arall, yn dwyn cyfrann ar fesur arall o'i ansawdd; neu ar fagad o amrafaelion fesurau; ag o hynn o angen y bydd cyflwyr neillduolgamp un mesur rhag pob un arall.

Angen hefyd a gyfyd o'r hynn nis gellir ar y mesur ag na fyddo mewn modd yn y byd yn alluadwy arno; fal Brithodli Tribann ag eraill fesurau; cann ni saif ar Dribann, eithr Unodlaeth a'i Proestodlaeth, a'i cymmysg o'r ddeuryw, ag nis gellir ei frithodli, fal y gellir ar y *gorchanau*, ag eraill, os mynner.

Ansawdd nerth a fydd ar rhai fesurau; a chyfrannog yw *Nerth* ag Angen; gann y pair hynny lwyr unig neillduoldeb gwrth y mesur a fo perchen y nerth, ag unrhyw fesur arall; a nerth arbennig ar unrhyw fesur yw'r hynn nis gellir ar arall; ag o hebcor angen unrhyw fesur; ag o hebcor nerth rhai fesurau, y syrthiant y cyfryw fesurau o'u cyssefin hunaniaeth a neillduol ansawdd, i ryw ansawdd amgen, neu i wag ag ofer ansawdd; a phob rhyw gyssefin fesur a fydd, mewn un peth o leiaf, yn llwyr anghyfrannog a phob mesur arall; herwydd rhyw ag ansawdd; os amgen, nis gellir prif a chyssefin fesur o hano.

Angen cyhydedd y sydd ar y *Gorchanau*, a *Chywydd*, a *Thribann Morganwg*, ag *Englynion*, a *Thraethodyn*; eraill fesurau ydynt *Anghenogion* o ddull Bann, fal *Huppynt*, ag eraill: a rhai o osodiad awdl fal y bydd *Cadwyngyrch*; rhai eraill o neillduolryw awdl, fal y bydd *Proest*, ag eraill; a rhai a safant ar ddyblyg a chynnulledig ansawdd; fal *Tribann Morganwg*, a *Chyngog*; sef o fagad o fesurau cyfain mewn pennill; neu o ddarnau mesurau cyfain.

Ansawdd braint, yw'r priodol amrafaelwedd a ddichon fod ar unrhyw beth rhag eraill bethau; ag yn hynn yn neillduoli; ag a fydd fal nas coller dim, drwy ymarfer a braint, o'i brif ansawdd angen; a deuryw fraint y sydd; sef braint o nerth unigfodd neillduolgamp; yr hynn beth a bair cyssefin ansawdd i rai o'r mesurau cerdd; a pheth fydd *Nerth* y gellir ymarfer ag

Digitized by Google

ef neu beido; fal y mynner; heb golli o hynny'r mesur ei brif ansawdd angen; ag os amgen na hynn y bydd nerth yn anhebcor mesur; angen, ag nid braint, y bydd hynny. Braint Nerth yw'r peth ar fesur nas dychyn un mesur arall ymaelyd ag ef, ag am hynn y syrth *Braint Nerth* yn fynych i ryw a nattur *angen.* Gann fod hynn o *Nerth unigfodd* ar unrhyw beth yn peri cyssefinder amrafaelryw arno rhag pob peth arall; ag, fel y dywespwyd eiswys, o hynn y cyfyd cyssefin ansawdd rhai o'r mesurau.

Yr ail rhyw ansawdd yw braint o gyfrann; yr honn fraint a berthyn ar fagad o fesuron; fal y mae amrafaelrif bannau, o bedair braich i unarbymtheg, neu fwy os mynner, ar bennill *Gorchan;* neu fal y bydd rhif y bannau aelodol mewn *Huppynt* neu *Lostodyn*; ag eraill freiniau a fyddant gyffredin i liosogrif o fesurau.

Ansawdd braint a wna gyssefin ansawdd ar rhai o'r mesurau, a gwahanryw y bydd mesur a allo unpeth rhag mesur nas gallo hynny, er ei debyceed ym mhob peth arall; fal y bydd *Traethodyn* cywyddodl; sef er ei gywyddodliad, nid yw'n gyfun ansodd a *Chywydd*; am y geill *Traethodyn* o iawn fraint, ymarfer a dwyodl yn y cwpl yn dderchafedig neu ynteu'n ddisgynnedig, fal y mynner; ag nis geill *Cywydd* hynny: a *Thraethodyn* a eill ymarfer a'r *chweech hwyaf o'r Cyhydeddau;* ag nis geill *Cywydd* eithr ag *un,* sef y *Lefn;* ag o wir awenbwyll y deellir mwy o'r pethau hynn nag a ddywespwyd ymma.

A llymma nodau neillduolder a hunanaeth pob mesur herwydd *Ansawdd Angen,* ag *Ansawdd Nerth,* ag *Ansawdd Braint*; er iawn sylweddu ar y mesurau; fal y gweler y modd y mae un mesur yn amgenu ar fesur arall; ag ym mha beth y saif neillduoldeb hanfod a rhyw ernynt y *Colofnau Cerdd Dafod.*

---

Digitized by Google

## LLYMMA RHEITHIADAU'R MESURAU.

# RHEITHIAD I.

### GORCHAN Y GYHYDEDD FERR.

ANGEN y gyhydedd ferr yw bod y fraich yn bedrysill, sef hyd y bann; ag o bedwar bann i wyth yn y pennill; a'r odl, o gyssefin hanfod a rhyw, yw 'r unodl; a bai rhoddi mwy nag wythbann mewn pennill ar y mangyhydeddau, rhag cloffi a blino synnwyr, a blino clust; a chann amled yr odlau, caeth y bydd mesur er cynnal rhyddyd synnwyr a myfyrdod. Braint y mesur yw dewis ar rifedi'r bannau o bedwar i wyth, neu'r rhif a fynner; eithr o barth caniadaeth rywiog a synnwyr, y caether rhif y bannau wrth wyth bann; a braint ym mann rhai yw'r un a fynner a'i unodl a'i brithodl ar hwnn, a phob un arall o'r *Gorchanau*: [eithr amheubwyll eraill yn amgen.]

#### GORCHAN Y GYHYDEDD FERR, PENNILL PEDRYSILL.

1.
F'anwyl Feinir,
Gwael a'm gwelir,
Yn dwyn poen dir,
A gwaew yn gywir.

2.
Gwenferch geinfwyn
Gwiwne gwanwyn,
I fi bydd fwyn
F'iraidd forwyn.

3.
Ferch mi'th serchais
Gwir mi'th gerais,
A'mhoen i'm hais
Beunydd boenais.

4.
Gwrando'm Graender,
Oesdawl ddwysder,
A saf liw ser
Dyn yn dyner.

5.
Tyner gerais
F'anwyl feinais,
A'm cur i'm cais
Yn nwyf nofiais.

6.
Minia meinwen,
Hoywliw haulwen,
Iaith ber o'th benn
Leiswar lwyswen.

7.
Iaith faith foethawl
Winwyf winawl,
Gair teg er tawl
Aethrwyn uthrawl.

8.
**Mynn fi'n briod,**
**Eneth wiwnod,**
**Yn nawdd a nod,**
**Rhwymau'r ammod.**

9.
**Ammod nodawl,**
**I'r oes rasawl,**
**A'm hedd i'm hawl**
**A dyn doniawl.**

**Dafydd Llwyd Matthew a'i cant.**

### Arall, wythbann.

**Breudeg brydydd,**
**Ethol ieithydd,**
**Gwëaist gywydd,**
**Llawn llawenydd;**
**Can ei cynnydd,**
**Iawn awenydd,**
**A'th ddysg i'th ddydd,**
**Fedrus fydrydd.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

[Y mae ar Ddosparth Caerfyrddin fesur a elwir Cywydd deu-air fyrrion; a mesur diffrwyth yw, eithr yng nghysswllt a rhyw golofn arall; neu a bannau eraill o'r unrhyw golofn yn unodl. A thymma'r mesur:

**Gair teg yw'r tau**
**Gwiwryw gorau.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Ag nis gellir amgen ar y golofn honn na cherdd bennilliog unodl.]

---

## RHEITHIAD II.

### GORCHAN Y GYHYDEDD GAETH.

ANGEN y Gyhydedd gaeth, yw bann pumsill, a rhoi yn y pennill o bedwar bann i wyth; a braint gyffredin y *Gorchanau,* fal hynn:

I. Pedryfann.
**Yn hen anhoenus,**
**Methu 'n drwm aethus,**
**Y ffriw fal y ffrus,**
**A chaen grychiannus.**

2.
**Anghyfan ddannedd,**
**Croen yn llawn crinedd,**

ARALL, CHWEBANN.
**Lluniais mewn llannerch**
**Wttresaeth traserch,**
**A thon i'th annerch,**
**Eglurfain glaerferch;**
**Can yn dwyn swyn serch**
**I winfoeth wenferch.**

**Dafydd Edward ai cant.**



Digitized by Google

Rhyw ddelw, gwelw i'm gwedd
Yn llawn irlonedd.

3.

Y nos yn yssig,
A'nad gwenwynig,
I'm cwyn yn dwyn dig
Y peswch pwysig.

Dafydd ap Syr William
Mathew a'i cant.

ARALL WYTHBANN.

Cannaid le cymmes
Ael twyn ym mol Tes,
I'ngwyl angyles,
Y goreu gerais;
F'enaid war fynwes
Unbennaidd Beunes,
Cell bid rhag gwrid gwres,
I gain fachgennes.

Siams Tomas a'i cant.

---

# RHEITHTAD III.

## GORCHAN Y GYHYDEDD DROSGL.

ANGEN y Gyhydedd drosgl yw bann chwesill; a hyd pennill o bedwar bann i wyth; a braint gyffredin y Gorchanau fal hynn, yn wyth bann:

Gwanwyn ar dwyn ir do,
Diën yw'n blodeuo;
Y gwair yn blaguro,
Dolydd gwlad yn deilio;
Adar yn cain udò,
Llwysed ynt yn lleisio;
Gwisg las ar y fras fro;
Harddwch Mai 'n eu hurddo.

Edward Dafydd a'i cant.

{Ar tair gyhydedd hynn, sef yr un bedeirsill, a'r un bumsill, a'r un chwesill}, a elwir y mangolofnau; ag nid da bod y pennillion yn unodl ar lai na phedwar bann; rhag i'r odlau *(gan eu buaned yn dilyn ag yn mynd heibio)* lithro oddiar y clyw a'r clust; ag nis gellir yn iawn na *Thraethodyn* na *Chywydd* ernynt; gyda bod da'r ganiadaeth; ag nid da mwy nag wythbann yn unodl, rhag i'r clyw a'r clust flino gan oddef gormodd ymarfer a'r odlau gann eu hamled wrth rif y sillau; yr hynn beth a flina'r clust; ag nis gellir cynnal synnwyr yn hir mewn odl gyfannedd hirfaith unodl, ar y mangolofnau; gann fynyched y daw'r odl i dorri'r synnwyr a'r ystyriaeth; ag i gaethu'r myfyrdod; ag nis gellir amrylef caniadaeth ernynt, gann byrred y bannau; am nas dioddefant, gann ddiffyg lle,

Digitized by Google

orphwysfaoedd caniadaidd ernynt; nag amrylais cynghanedd; a thymma'r achos, mae'n debyg, ydd arferwyd cyleied canu ernynt yn yr oesoedd diweddar, wedi llunio ag awdurdodi cyfiawn gynghanedd; gann nis gellir rhagorgamp synnwyr gyda chyfiawn gynghanedd ernynt; eithr mewn adlawiaid fesurau, lle nid rhaid wrth gymmaint cynghanedd ernynt, na chyhyd unodli cyn syrthio i amgen o golofn ag odl, y mae'r arfer o henynt yn ganiadaidd ag yn amrafaelu goslef mydryddiaeth y gerdd; ag o hynn y daw bod cyleied canu ernynt o barth *Pennillion* ar gyssefin ddull *Gorchan*; cann mai gwaelaf eu caniadaeth ydynt o'r holl fesurau Cerdd Cymreig; y mae aml ganu pennrimpan ar y mangolofnau, ar ddull *Traethodyn* ag yn ddigynghanedd; eithr gwaelbethau ydynt, fal canu *Biwbo*; neu lef y Gwccwg; ond nid agos cystal: a chyfiawn fyddai eu galw yn golofnau'r diogi ag oferawen; ag ni wedd i Fardd wrth ddysg a chyfiawnder awen ymdrin ag hwynt.]*

---

# RHEITHIAD IV.

## GORCHAN Y GYHYDEDD LEFN.

ANSAWDD angen y Gyhydedd lefn yw bann saith sill; a rhif bannau mewn pennill o bedwar i ddeuddeg; neu'r rhif a fynner; eithr o barth amrylef caniadaeth ei gaethu o bedwar i ddeuddeg, rhag blino clust, *(a gormodd cyfunllef odlau;)* ag ar y *Gyhydedd Lefn*, yn anad un arall, gofaler amrafaelu accenion y bannau, yn enwedig ar fannau disgynnedig; rhag diflased y bydd llawer o henynt ynghyd yn gyfaccen; a chydag accen ganiadaidd amrafaelbwys, melusaf yw

---

* Rheffyn penn bawd y gelwir y cyfryw fesur digynghanedd a brithodl ym Morganwg, lle bu ymarfer ag ef yn lledlynych rhai oesoedd yn ol; ag y mae, mae'n debyg fyth ar arfer yng Ngwynedd, neu o leiaf wedi bod felly hyd yn ddiweddar; fal y gwelir wrth gan neu ddwy ym MLODEUGERDD DAFYDD JONES O DREFRIW; un o henynt yn dechreu fal hynn.

Dymma wirod, Mair yn dyfod;
Er mwyn Mair wenn byddwch lawen, &c.

Ni waeth pwy ai cant, os gwyddys.

honn o'r holl golofnau: ag y mae mwy o ganu erni mewn *adlawiaid* fesurau nag ar un arall o'r colofnau; fal y mae mewn Englynion, y *Proestiaid*, y *Tribannau*, a *Chywydd*; ag amlach yw *Bann Cyrch* ar y *golofn honn* nag ar un arall; etto nis gellir yn rhywiog *Traethodyn* ar y *golofn honn*. *Braint y golofn honn* yw *braint cyffredin y Gorchanau*, ar bennill *Gorchan*; ag o barth *adlawiaid* y mae y *gwreiddiad* amrafaelion fesurau ynddi; fal y mae *Cywydd*, a *Thriban Morganwg* ag eraill; ag o'r golofn honn o gwbl, neu mewn rhann, y mae'r Cyngog yn dyfod a elwir ar *Ddosparth Caerfyrddin Cyrch a Chwtta*, sef pennill chwebann *Gorchan* a *Bann Cyrch* ar ei ddiwedd; ys ef o'r golofn honn yn unig y treigler agos hanner pennillion *Dosparth Caerfyrddin*.

PENNILL GORCHAN AR Y GYHYDEDD LEFN, FAL HYNN YN BEDRYFAN DISGYNNEDIG.

**Y Gwr doeth a'r gair dethawl**
**Sy'h arwedd iaith synnwyrawl,**
**Cyrdd ugeinmyrdd i'th ganmawl**
**Clod yw o Feirdd; clyw dy fawl.**

Llywelyn Sion a'i cant (i'r Athraw Rhagorbwyll Sion Dafydd Rhys,)

Arall, pedryfann derchafedi.

**Un yw Duw a'i enau 'n dan,**
**A hir gledd yw ei air glan,**
**Ar ddrwg yn dwyn gwg a gwan,**
**Dros daear glawr, mawr a man.**

Edward Dafydd a'i cant.

Arall, chwebann.

**Anturiaist, berchen teiriaith,**
**Diriaist ar Ffraine a dewriaith,**
**Teulu naw ugain talaith,**
**Llawer iawn, llu ar unwaith,**
**Yt a ganant ugeiniaith,**
**Anian mel yn eu mawliaith.**

Thomas Lewys o Lechau a'i cant,

Arall wythbann.

**Ydwyd wr ar bob gwr gwych,**
**Awdur y glewder ydych;**
**Cai'n ddi gel ffordd yr elych**
**Air moliant yn wr mawlwych;**

Digitized by Google

Beiddiwr y gad lle byddych;
Llwyr filwr lle rhyfelych;
Cai urddas ffordd y cerddych
Hyd dwr sawdd a daear sych.

Edward Dafydd a'i cant, i Syr
Rhisiart Bassed o'r Bewpyr.

Arall, chwebann, a chydsain gymmeriad.

Llenwis gwlad a'i ganiadau,
Llith gwirddysg llwyth ei gerddau,
Llaweroedd ei gall eiriau
Llu rhinwedd llwyr o'i enau;
Lliaws yn hardd en lliwiau,
Llewyrch gwir i hir barhau.

Llywelyn Sion, ym Marwnad
Dafydd Benwyn a'i cant.

Arall, deuddegbann fal hynn:

Syr Edward, penn sir odiaeth,
Un yn baun inni 'n bennaeth;
Mawr ei glod am wybodaeth,
Yn hwylio awen helaeth;
Ef a wŷl i'n fywiolaeth
Roi nawdd i'r awenyddiaeth;
Arglwyddwalch pob rhyglyddiaeth,
Ior a gar ddwyn rhagoriaeth;
A nodir yng nghaniadaeth
Ugain mil ei ganmoliaeth;
Perchen pob mawl ffrwythawl ffraeth,
A chyfiawn oruchafiaeth.

Meyryg Dafydd a'i cant, 'i Syr Edward
Stradling o Gastell St. Dunwyd.

# RHEITHIAD V.

## GOCRHAN Y GYHYDEDD WASTAD.

ANGEN y Gyhydedd wastad yw bann wythsill; a hyd y pennill o bedwar bann i unarbymtheg; a braint cyffredin y *Gorchanau;* a cholofn rywiog iawn yw honn, a gwell nag un yn ymddwyn a chyfaccen-fannau, ag accen wastad ar y

Digitized by Google

bannau; a cholofn addas iawn ydyw mewn cerdd serch a galar; ag amlach ei barfer nag un arall, oddieithr y *Lefn* mewn *adlawiaid.*

Pennill pedryfann fal hynn yn ddisgynnedig:

**Cerais irddyn, curiais erddi,**
**Ag oer gwyn 'ddwyn dwyn am deni,**
**Un cul ydwyf i'm caledi,**
**Am y baunes yn ymboeni.**

**Thomas Lewys a'i cant.**

Arall, derchafedig, pedryfann.

**Fe wel y call y gwall fal gwedd,**
**A char ddawiolder lanber wledd,**
**Trammwya'n hardd lle try mewn hedd,**
**I' dir y byw â drwy dy'r bedd.**

**Morgan ab Ifan a'i cant.**

Arall chwebann, a gorchest arno, sef cyfochrodl; y sill gyntaf yn proestodli, a'r olaf yn unodli a'r aceen wastad.

**Llyfn yw'm sain i'm cain amcanion,**
**Hardd y bannau'n aurddibennion,**
**Geiriau'r heniaith gywair union,**
**Ir yw bywnerth ar ei bonion,**
**Hawdd y breiniant yn ddibrinion,**
**Medr yng nglanwaith mydr Englynion.**

**Morgan Gruffudd a'i cant.**

Arall degbann ag arno gynghanedd Groes Gadwynog, neu fannau yn Dawddgyrch Cadwynog.

**Clywais adlais odlau cynnar**
**Canau odiaeth cywion adar,**
**Nodais glasliw glwyslwyn hygar,**
**Agwedd hoyw-werdd hug y ddaear;**
**Oedd awen lifaidd winlafar**
**Gann y fronnfraith awenwaith war;**
**Iriaith harddwaith hirddydd claiar**
**Clywer bob dydd ar wydd tir ar;**
**A glyw dröadau'r gloyw drydar,**
**Oll o'i galon cyll y galar.**

**Charles Bwttwn, Esq. [o'r Dyffryn Olwg] a'i cant.**

Digitized by Google

Arall, degbann.

Clywais ar frig gerdd ystig ddoeth,
Ag ynni balch ag awen boeth;
Mwyalch len diasgen dwysgoeth;
Edn y manddail a'r don mwynddoeth;
Llonn yw ar brenn ag awengoeth,
A'i gan yn gyfan o'i gyfoeth;
Hyfryd eurbwncc o'i fryd irboeth
Mewn gwaun werdd yw'r gerdd gywirddoeth;
Can o lasgoed accen lwysgoeth,
Ag ar dwyn i'r mynydd-dir noeth.

Dafydd Williams o Benn Llin a'i cant.

---

# RHEITHIAD VI.

## GORCHAN Y GYHYDEDD DRAWS.

(NEU'R GYHYDEDD LAS, MEDD IEUAN BRADFORD.)

ANGEN y Gyhydedd draws (neu'r Gyhydedd las) yw bann nawsill; a hyd y pennill o bedwar i un bann ar bymtheg; a cholofn yw honn, yn nesaf at y wastadgyhydedd, a fernir yn oreu at gerdd serch a galar; ag ym marn rhai yn oreu oll at gerdd alar; am ei harafwch a'i chaniadaeth dwysbwyll; ag aml yw'r arfer y sydd erni mewn adlawiaid fesurau.

Pennill pedryfann fal hynn:

Cwrs hwyl einioes cerais lawenydd,
Accen iach awen, can a chywydd,
Amcanu bywnerth i'm cau beunydd
Gyda'r hoyw gog ag adar y gwydd.

Dafydd Williams o Benn Llin a'i cant.

Arall, deuddegbann.

Hoff gann yr wyn, ar ael twyn le teg,
Bori meillion y glasdon glwysdeg;
Hoff gann fynnyn gwar hydyn rhedeg
I bori brig i'r llwyndir llawndeg;
Ar gain areulbarth hoff gann wartheg

Digitized by Google

Y gleision weynydd glwysion waneg;
Hoff gann innau dorriadau rhywdeg
Yr awen eurdon i'w rhin wardeg;
A'i llef eglurdon a'i llif glaerdeg
Y gan radol fal gwin i redeg;
Iaith awen hydardd a'i thon hoywdeg,
O chaf, ni chwynaf am ychwaneg.

Dafydd Williams o Benn Llin a'i cant.

# RHEITHIAD VII.

## GORCHAN Y GYHYDEDD WENN.

ANGEN y Gyhydedd wenn yw bann degsill; hyd y pennill o bedwar i un ar bymtheg, a braint gyffredin y *Gorchanau*, ag aml arfer y sydd ar honn mewn cerddi galar a gwrhydri; ag o'r golofn honn y daw Toddaid hir, ag eraill *adlawiaid*, yn fynych; a mynych y cenir y golofn honn gyd a'r draws bob yn eilfann; a hefyd cenir hi'n fynych bob yn eilfann ar Gyhydedd laes; ag ar honn ag eraill o'r hir-golofnau, y bydd bannau Cynghanedd lusg neu'r un gymmysg yn amrafaelach eu caniadaeth na'r gydseiniog; a gwaelach yw cynghanedd sain, neu unodl moel, ar yr hirgolofnau nag ar y rhai byrrion; gann ei bod yn rylaes ar yr hirion.

Pennill pedryfann fal hynn:

Cerais gael gwanwyn mewn llwyn a llannerch;
Cerais gael can adar man i'm annerch;
Cael oed dydd hyfryd gwynfyd a gwenferch,
A'n cyflw medrusaidd cyflym draserch.

Thomas Lewys a'i cant.

Arall, deuddegbann, fal hynn:

Y Fun a gerais dan faen y gorwedd;
Peraidd ei mynwes pur oedd ei mwynedd;
Cynneddfau cain addfwyn mwyn amynedd
I'w bryd a rannwyd, a bwriad rhinwedd;
Cywir ei chalon carai wirionedd;
Brau iawn y rhodiai lwybrau anrhydedd;
Deall oedd iddi, goleuni glanwedd;
A synnwyr hylaw'n seiniaw cyssonedd;

Digitized by Google

Yn awr yr un bert, mae'n oer yn ei bedd,
A mi am dani dann guli gwaeledd;
Hiraeth a galar, Duw o'i drugaredd,
A'm rhotho foddlonfryd o hyd a hedd.

Thomas Lewys a'i cant.

# RHEITHIAD VIII.

### GORCHAN Y GYHYDEDD LAES.

[A ELWIR GANN RAI Y GYHYDEDD YSGAFN. I. B.]

ANGEN y Gyhydedd laes yw bann unsill ar ddeg; a phennill o bedwar bann i un ar bymtheg; neu o hynny i ugain; ys ef y gellir hwy bennillion ar yr hwyaf o'r cyhydeddau nag ar y rhai font fyrrach, am nas daw yr odlau mor aml wrth rif y sillau mewn cerdd. Ag unfraint yw'r golofn honn ag eraill o'r *Gorchanau.*

Pennill pedryfann, fal hynn:

Mawr y rhyfeddais a synniais er's ennyd,
Maint pob rhyw ddrygwaith dro rhullfaith drwy'r hollfyd;
Murnwae a galar a blaenfar y blinfyd,
Heb enw gwir heddwch, heb un yw gyrhaeddyd.

Thomas Lewys a'i cant.

Arall, chwebann.

Ci gwych ei rediad da'i hwyliad a'i helynt,
Ci laddai bryfaid, ie, bleiddiaid lle'i bloeddynt;
Ci a dry eirth o benn geirth yn eu gwrth-hynt,
Cnoi llewod difraw, a'u beiddiaw lle'i byddynt;
Ci hynod a hardd occo'n hoywnad i'w hynt;
Ci'n orn i daerion, mwy cynnar na dewrwynt.

Edward Dafydd a'i cant, i Fleiddgi Gwyddelig Syr Rhisiart Bassed o'r Bewpyr.



Digitized by Google

# RHEITHIAD IX.

### GORCHAN Y GYHYDEDD HIR.

ANGEN y Gyhydedd hir yw bann deuddegsill; a hyd y pennill o bedwar bann i unarbymtheg, deunaw, ag ugain; a braint cyffredin *Gorchanau;* colofn ragorol iawn yw honn, felly'r laes, er cynnal eglurdeb synnwyr; ag er adrodd yn loyw-iaith, pethau hanesiol ag athrawiaethol; ag er datgan pethau mawrfryd uchelbwyll. A honn, gyda'r golofn laes, a genir, weithiau bob yn eilfann; a maith amrylef caniadaeth a ellir yn hawdd ar yr hirion golofnau, yn amgen nag ar a fo byrrach; a hardd-lafar y byddant yr hir golofnau ym mhobryw gerdd; ag ar bobryw achos: a phwyso pob pwyll, y ddwy golofn hwyaf yw'r goreuon o'r holl golofnau; [*gann fod helaethach lle synwyr ynddynt. I. B.*]

Pennill pedryfann fal hynn:

Yn iach fy mab anwyl yn d'arwyl e dorred
Holl wynfyd y ddaear, a'm galar yn galed;
Pob rhai a dosturiant, a gwaelant o'm gweled,
Yn gaethwas y blinwasg, ag aethus y blaned.

Thomas Lewys a'i cant, ym Marwnad ei Fab.

Arall, wythbann.

Oer wylais gann ddolur, mawr waelais gann dduloes,
A chalon i'm erlid a cholyn y mawrloes;
Annedwydd yw'm llamlef a nodwydd yw'm llymloes,
A gwŷn oer i'ngwaelu ag ynni'r angeuloes;
Aeth pob cyssur a llwyddiant a mwyniant o'm oes,
A chollais em anwyl erchyllais i'm einioes;
Hiraethaf i'm oerlef, a grwythaf i'm hirloes,
A mwyned ei chariad, ne manod a cheirioes.

Dafydd Williams o Benn Llin a'i cant.

Arall, sef awdl *Gorchan* ar y *Gyhydedd hir*, a gant *Dafydd o'r Nant* er dysgu Cynghanedd dawddgyrch gadwynog.

I.

Er ffrill adar Ebrill yn ebrwydd y CODAIS,
I'R COEDYDD ar ofron tir hyfryd YMDEITHAIS,

Digitized by Google

I'M DETHOL fyfyrdod oferdyb ni LUNIAIS
AR LENNYRCH y glascoed, ond glwysgerdd a BRYDAIS;
BWRIADAU gwir awen, goreuwaith FY NYFAIS,
A NWYFAU'N y galon; ag alaeth i'm DWYAIS;
A DIWYD accenion i'm caniad ERLYNAIS
LAWENYDD diofal i'm cynnal amcenais.

2.

Ystyriais y byd o'm gwybodus FEDDYLIAU;
EIDDILWCH llaweroedd, llu arall mewn POENAU;
NID PENNOD y llawen yw lliwo BWRIADAU
A BRYDWAITH ystyrbwyll naws durbwynt DAMWEINIAU;
DYMUNAIS holl anian llawenydd i'm GENAU,
A GWINIAITH yr awen, a'i rhywiog wëADAU;
AG ADWYTH i'm mynwes, er mwyned EI CHWEDLAU;
OCH! ADLAIS bronn glaf, ag ni chwarddaf o'i cherddau.

3.

Meddyliau gwyr ifainc digrefydd EWCH YMMAITH,
A'CH AMHWYLL diofal, a'ch difudd OFERWAITH;
O FWRIAD y galon hawdd gweled YR EFFAITH,
ER HOFFED un dydd ennyd oer a DDAW EILWAITH,
HIR DDOLUR yw diwedd a dïal YNFYDWAITH,
NI FEDIR y gwenith ar ganol TIR DIFFAITH;
TRAED HOFFION amynedd sy'n myned AT OBAITH,
A'R TYBIAU'n tawelu'n llonyddu'n llawn heddiaith.

Dafydd o'r Nant a'i cant.

[*Gweler yn yr awdl honn fod y cyrch toddaid, neu'r tawddgyrch, rhwng y bannau, sef geiriau diwedd un bann o'r pennill yn croesgynghaneddu a geiriau dechreu'r bann a ganlyn, a thrwy hynny yn cadwyno'r bannau blaen ag ol fal nas gellir symmud un bann o'i le heb golli'r gynghanedd, nag ychwaith ei adael i maes. Y mae llinellau dan ddiwedd un bann a than ddechre'r nesa atto, yn dangos y modd y maent yn cyrchgynghaneddu y naill at, ag yn, y llall.*

*Gweler hefyd y cymmeriadgyrch unodl rhwng prifawdl y pennill o'r blaen a'r geiriau yn nechreu'r bann cyntaf o'r pennill a ganlyn.*]

[A hynn y sydd o brif a chyssefin golofnau cerdd, ys ef y *Naw Gorchan*; ag o henynt y treigler yr holl golofnau adlawiaid. Bernir yr unodl yn *gyssefinodl gorchan*, cyd ydd ymarferir yr oes honn a brithodl erni; a hynn o gyfranniad ansawdd a *Thraethodyn*. Yn yr hen amseroedd ni fernid, heblaw'r *gorchanau*, eithr un ansawdd arall ar gerdd o barth mesur, sef *Cyngog*, neu ansawdd o gymmysg bannau a cholofnau; eithr o lwyr a chynnil ymbwyll ag ystyriaeth y cafwyd ar ddeall bymtheg modd ag ansawdd neillduol ar gymmysgu'r co



Digitized by Google

lofnau (P); a rhithio, a gosod bannau ag odlau; a bod neillduoldeb ansawdd o lwyr angen ar bob un o'r moddion hynn; ag felly rhwng y *Naw Gorchan*, a'r *pymtheg colofn adlaw*, y mae *pedwar ansawdd ar hugain ar gerdd Gymraeg* herwydd colofn messur a mydryddiaeth; mewn perthynas i'r hynn a ddywespwyd am rif y bannau *pennillion* y *Gorchanau*, dealler nad oes ansawdd hyd yn hynn, dan ddeall, ar drefn o raid, yn y byd ar hynny; a geill Bardd eu canu'n unodl ar y rhif a fynno o fannau; eithr o barth rhywiogrwydd a goslef cerdd, bernir y ganiadaeth yn well o led ddilyn y farn a roddwyd.]

---

# RHEITHIAD X.

## COLOFN ADLAW I.

### Y GYHYDEDD GYRCH.

(NEU GOLOFN PRYDAIN. I. B.)

CYHYDEDD Gyrch *(a elwir gan rai Colofn Prydain)* a wneir o gysswllt dwy golofn, neu ddwy fraich o'r un golofn; a honn a wneir a phob un o'r *cyhydeddau* o'r *Lefn* i'r *Hir*; a dwy gangen a fydd ar y golofn honn; a gair, neu sill, diweddaf y gangen gyntaf yn dwyn cyrch unodl at orphwysfa'r ail gangen; ag ar ddiwedd yr ail gangen y bydd y brifodl; a dau o'r colofnau cymmhlyg hynn a wnant bennill; a'r maint a fynner yn yr un modd dros hynny; eithr barn gyffredin yw na ddylit trosi unarbymtheg, neu ugain o'r pellaf yn unodl; er gochel gormodd unsain, yr hynn a flina'r clust; ag nid rhaid bod y ddwy gangen yn dyfod o'r un colofnau, eithr rhaid eu bod yn agos berthynas; sef na bo'r anghyfunhyd rhyngddynt fwy na dwysill, neu deirsill o'r eithaf, os gellir hynny; a hynn o ddull ar ffurfiad y bann yw *angen* y golofn; a'i *braint*, yr un a fynner o'r chwech gyhydedd hwyaf, ar y cangheni, a'i o'r un golofnau, a'i o amrafaelion, dann y farn a roddwyd eiswys; ag hefyd dewis yr un a fynner a'i unodli a'i brithodli; da cadw lledwastad accen ar hynn o fesur; eithr nid rhaid ei bod yn rywastad, gwell amgen ychydig; a chyd na bo'n gwbl cystal y golofn honn o barth caniadaeth a llawer un arall; y mae yn

Digitized by Google

oreu oll er cynnal rhagorgamp synnwyr a myfyrdod; *(gyda chynnal cynghanedd. I. B.)*

Pennill o'r gyhydedd lefn.

Yn y ty draw ger llaw'r llann,
 Ty gwiwlan teg a welaf;
Yn boen i gant, mae bun gain,
 Yn gywrain honn a garaf.

Llywelyn Sion a'i cant.

Arall ar y Gyhydedd wastad, fal hynn:

Mwyn y dail yr haf mewn dolydd,
 Glessin gweynydd glwys yn gynnar;
A nod hwylus ednod tewlwyn
 Ucho'n loywfwyn a chan lafar.

Dafydd Llwyd Matthew a'i cant.

Arall, y gangen gyntaf o'r *Gyhydedd wastad*, a'r ail o'r *Lefn*, a Phennillion brithodl.

1.

Ti sydd ryfelwr, lladdwr llu,
 Yn gyrru fel gwynt gerwin;
A deifiwr hyll yn difa'r hedd;
 A gorwedd mewn gwaed gwerin.

2.

Er maint dy fost awr dost sy'n dod,
 I'th orfod gwnn i'th yrfa;
A thost yw'r hawl i'r sawl y sydd
 Heb ffydd y dydd diwedda.

3.

Gwir ffydd y sydd yn cynnu serch;
 Ie, gwirserch mewn glew gwarsyth;
Iw droi'n ei gais o'i drais rhy drwch,
 I'r ffwch dawelwch dilyth.

4.

Bydd wâr, bydd hawddgar, a llawn hedd;
 Yn unwedd a'r mwyn oenyn;
Gelynaidd wg er drwg oer drais
 O Ddiawl na chais ei ddilyn,

Antoni Powel a'i cant.

Arall, o'r *Draws Gyhydedd*.

Yn Arlwydd Rhismwnt aur hwnt i rhed,
 Yn Arlwydd Swmrsed a'r gred i'r grog;

Digitized by Google

Yn farchog urddol i detholwn,
   Yn eurllew a wnn, yn Iarll enwog;
Yn Ddug i gwelwn newydd goler;
   Yny dewiser yn Dywysog;
Yn Frenin y Gorllewin, Llywiawdr,
   Ag yn Amherawdr yi gwna Mwrog.

Dafydd Nanmor a'i cant i'r Brenin
Harri'r Wythfed.

Arall o'r *Wenn Gyhydedd,* degbann.

Marw yw Angharad, mawr yw ing hiraeth,
   Ochain ag alaeth a chwyno gweli;
Ai marwnad ar goedd gann luoedd lawer,
   Wylaw em dyner yn wael am deni;
Lle canai Brydydd yn gelfydd ei gân
   Y gerdd, em wiwlan, a gwrdd iw moli;
Yr awr honn y can ei drystan dristyd,
   Cwyno gwaelfyd mewn penyd yn poeni;
Aed o dy'r gwaenwyf i dy'r gogoned,
   Aed, liwdeg luned, i wlad goleuni.

Morgan Powel a'i cant.

Arall, o'r Gyhydedd Laes, wyth bann, fal hynn:

Mae'r wybren rewlyd yn adfyd penydfawr,
   A thrwch eira mawr ar hyd oerlawr yn do;
Mae'r gwynt ym mhob parth yn flîn arth a nerthol,
   Ai waedd anguriol drwy'r hëol yn rhüo;
Gwnewch dân, gwnewch e'n oddaith, wenn lanwaith yn lwys;
   A gwnewch le gorphwys i'n cynnwys rhag cwyno;
Daeth hen auaf pygddu i'n gwaelu gwelwn,
   E'n rhynn, oni synniwn, a'i reynos heno.

Dafydd o'r Nant a'i cant.

Arall o'r *Gyhydedd hir,* deuddegbann, fal hyn:

Un ydwyd y Bassed a nodwyd i'w bwysau
   Yn berchen glangampau o forau 'marferiad;
Nid oes anwr gwagsaw yn beiddiaw lle byddych,
   Rhyw lew cadarn ydych yn fawrwych ei fwriad;
Lle cyrch y byddinoedd, a'r lluoedd, a'u llewiaith,
   A'u dewr amcan hirfaith yn drwm iw cynhyrfiad,
Y tynni dy gledd, a dy fawredd arferi
   Yn ffair y trueni, a pheri trywaniad;
Fel hen arth ysgeler, neu deiger fai'n digio,
   Y byddi di'n rhuthro iw darnio 'rwy'n dirnad,
Rhyfelwr gledd llymddur, wyd Arthur yn d' wyrthiau;
   Yn gawr ar hir gadau yn gyrru'r ergydiad.

Dafydd o'r Nant a'i cant,
I Syr Rhisiart Bassed o'r Bewpyr.

Digitized by Google

# RHEITHIAD XI.

## COLOFN ADLAW II.

### TODDAID.*

TODDAID a wneir o gysswllt dwyfraich o'r *gyhydedd wenn* mewn modd neillduol; neu fann o'r *Gyhydedd wenn* ag un o'r *Draws* yn yr un modd; a llymma'r ffordd y bydd y bannau; y bann cyntaf a fydd o'r *Gyhydedd wenn,* fal hynn; sef o bedair rhann, Gwant, Rhagwant, Gobennydd, a gair Toddaid; rhaid bod y rhagwant yn wastad ar y bummed sill, a'r gwant yn unodl a'r rhagwant ar yr un a fynner o'r pedair sill cynteifion, a'r gobennydd, fal y gweddo'n oreu o barth synnwyr, a ddigwydd ar y seithfed sill; neu'r wythfed; neu'r nawfed, ag yn arwain y brifodl; pann fo'n y seithfed, bydd y gair *Toddaid* ar ei ol yn deirsill; os yn yr wythfed y bydd, yna'r gair *Toddaid* yn ddwysill; ag os ar y nawfed y bydd, yna'r gair *Toddaid* yn unsill: a diwedd y gobennydd yn arwain y brifawdl; a'r gair *Toddaid* yn dwyn cyrch unodl at orphwysfa'r ail fann; yr bonn fann a fydd weithau o'r *Draws* ag weithiau o'r *wenn Gyhydedd:* ag ar yr un a fynner, a'i cynghanedd gytsain, ai'r lusg gynghanedd; ag yn unodl a gobennydd y bann cyntaf: ag yn y pennill o leiaf dau gwpl o doddaid; ag o hynny hyd un ar bymtheg, neu ugain o fannau; neu hanner hynny o gyplau; ag yn unodl oll: ag nis gellir mewn modd yn y byd eu brithodli, nag amgen nag unodl pennill o *Doddaid*: a hynn o bethau o barth bann ag odl yw ei ansawdd angen; a'i fraint yr un a fynner ai'r *wenn* ai'r *draws Gyhydedd* ar ei eilfann; eithr pa un bynnag o henynt a ddewiser, ymarfer a honno drwy'r holl gerdd: a hyd y pennill o ddau gwpl i wyth, neu ddeg: rhoddir weithiau ar y bann cyntaf o'r cwpl, yn lle *Gwant* a *Rhagwant, Gynghanedd groes gydbwys;* neu'r *Groes droslum;* neu'r *Sain;* sef yr *Unodl moel;* eithr yr un oreu yw *gwant* a *rhagwant*: a mesur da mewn cerdd glod a

---

* TODDAID HIR a'i gelwir yn gyffredin. TODDAID Y BARDD GLAS a'i gelwir yn Llyfr IEUAN FAWR AP Y DIWLITH. Yn wahanred a THODDAID TALIESIN, a elwir yn gyffredin TODDAID BYRR a THODDAID ENGLYN.

Digitized by Google

mawl yw *Toddaid*: a *chwpl o Doddaid* a roddir yn fynych ar ddiwedd *gorchanau'r Gyhydedd wastad,* a'r *Draws,* a'r *Wenn,* yn unodl a'r pennill.

*Toddaid* a'r eilfann ar y *Draws Gyhydedd,* fal hynn:

**Can o wir anian rhinwedd a welais;**
**Yn ei meluslais cefais gyfedd;**
**Gwnaeth Forgan y gan deg iawnwedd yn fad,**
**Gwëad ag eiliad heb naws gwaeledd;**
**Morgan iaith fuan a fedd awen faith;**
**Anian llen hywaith yn llawn hoywedd;**
**Caf yn ei gan lan ber wledd hoyw brydiad,**
**A da wiw fwriad dioferedd;**
**Bardd ydyw 'n beraidd adwedd yr hen Feirdd,**
**Aceennau'r hoywfeirdd a'u can ryfedd;**
**Hoywed ei awen hywedd, i'w ganiad;**
**Bwriad goleuad bryd y gloywedd;**
**Eiliad ber heb oferedd i'w nattur,**
**Nag awen ammhur, mesur maswedd;**
**A nod pwyll parod purwedd ym mhob gair,**
**A thrwyddi'n ddisglair gwarair gwiredd;**
**Mawrwaith ag iriaith rhagorwedd awen**
**A ddaw o'i benn, y gerdd i'w bonedd;**
**Gwna Forgan, am gan geinwedd, benn amlwg**
**Y war Forganwg ar fro Gwynedd.**

**Dafydd o'r Nant a'i cant i Forgan**
**Gruffudd o Lantrisaint.**

*Toddaid* a'r ail fann o'r *wenn Gyhydedd.*

**Gwladwr rhyfelwr mawr foliant, gwr nod,**
**Gwiwgenir dy glod a thafod a thant;**
**Lluoedd, gannmiloedd, a'th ganmolant fyth,**
**Mawl yt tra bo chwyth dilyth a dalant;**
**Enwir pann genir gogoniant dy glod,**
**Y Bassed hynod; ei bwys adwaenant;**
**Ag union y datganant Feirdd gwiwryw,**
**Dy fawl i bob clyw heddyw cyhoeddant.**

**Dafydd o'r Nant a'i cant, i Syr Rhisiart**
**Bassed o'r Bewpyr.**

Pennill *Toddaid* a'r gair *Cyrch,* neu'r gair *Toddaid* yn unodl a'r rhagwant *(ai gyfrif yn orchest ragorwaith.)*

**Gwae'r wlad ddwyn ceidwad rhag cadoedd trymgad,**
**Rhag brad, rhag bwriad o'r aberoedd;**
**Gwae gywiriaid blaid, a bloedd gwirioniaid,**
**Gweiniaid, gwae'r deiliaid, gwae'r ardaloedd.**

A'i gynnal fal hyn drwy'r gerdd.

**Lewis Morganwg a'i cant, ym Marwnad**
**Syr William Mathan.**

Digitized by Google

[Gwagorchest yw hynn yn difwyno 'r ansawdag yn gorfod ar wir anian hanfod ag angen y mesur, ag yn ei ddwyn i ansawdd huppynt, fal hynn:

> **Gwae'r wlad ddwyn ceidwad**
> **Rhag cadoedd trymgad,**
> **Rhag brad, rhag bwriad**
> **O'r aberoedd,**
> **Gwae gywiriaid blaid**
> **A bloedd gwirioniaid,**
> **Gweiniaid, gwae'r deiliaid,**
> **Gwae'r ardaloedd.**

A hynn yw cyfiawn *ansawdd angen* y mesur fal ag y mae ymma, cyd bo bai gormodd odlau ar y ganiadaeth; onis gweler yn well y farn honn, sef mai difwyno dau fesnr yw hynn.*]

---

# RHEITHIAD XII.

## COLOFN ADLAW III.

### TRIBAN MILWR.

TRIBAN MILWR yw mesur a wneir a thri bann o'r *Lefn*, neu'r *Wastad*, neu'r *Draws Gyhydedd*, yr un a fynner ai ymarfer ag un o henynt yn unig, neu a chymmysg o henynt yn fannau brithgolofn neu anghyfunhydfann yn ol barn ag arfer yr hen Feirdd, a hynn yn unodl neu'n broestodl, neu'n gymmysg o unodl a phroest, sef y ddwyfraich gyntaf yn proestio a'u gilydd, eithr yr ail o henynt yn unodl a'r fraich ddiweddaf, a hynn wrth farn hen Feirdd ag Athrawon; eithr gyda hynn, Beirdd yr oesoedd diweddar a genaint Driban Milwr yn unodl ar y *Wenn* a'r *Laes,* a'r *Hir Gyhydedd,* eithr gan nas gellir ar y rhain yn iawn a rhywiog gynnal braint nerth y mesur o barth ei amrafaelwedd odli, nis bernir hynn yn iawn herwydd ansawdd y mesur; ni ddylit ganu'r Pennillion oll yn unodl ai gilydd, rhag eu syrthio i ansawdd *Gorchan,* rhai a farnant y dylit, banu bo cymmysg yr odl, ganu'r cwpl unodl yn gywyddodl; nid *angen* hynn, ond harddwch a rhyw-

---

[* Gellit barnu mai hwnn sydd orau fal Toddaid, am fod yr holl rannau yn ymgadwyno'n doddeidgyrch neu'n odlgyrch y naill a'r llall. J. B.]



Digitized by Google

iogrwydd caniadaeth; uchaf ei fonedd o barth Pennill yw Tribann Milwr, cann nis gellir pennill ar lai na thair braich; ag nis gellir amgen na cherdd gyfungorph cyfanwasg, sef Traethodyn ar gyplau unodl, ag yn brithodli ar eu gilydd. Braint y Mesur yw canu ar yr un a fynner o dair ffordd ar odl, fal y soniwyd eiswys, ag ymarfer a bannau o'r *Lefn* a'r *Wastad* a'r *Draws Gyhydedd* yn anghyfunhyd; a braint nerth o *Barth odl* y sydd ar *Driban Milwr* a *Thriban Morganwg*, ag o hynn y daw'n bennaf neillduoldeb y mesur, a'i arddduniant wrth eraill fesurau.

Mwyaf cyfarddun o'r holl fesurau a'r holl bennillion yw *Tribann Milwr unodl*, gann fod arno arddduniant Bann, ag arddduniant Odl, ag arddduniant Pennill, cann mai cyntaf Pennill yw *Tribann*, am mai cyntaf bannau pennill yw Tri, a chyntaf-ryw ar awdl yw unawdl, lle nis gellir brithodl, fal y mae ar *Dribann*, ag eraill golofnau, lle nis gellir amgen nag unodl ernynt; a bernir wrth hynn mai bonheddiccaf ar gerdd bennilliog yw *Tribann Milwr*, am mai'r cyntaf yw'r bonheddiccaf ar bob peth, a chyntaf o bennill yw *Tribann Milwr*, ag nis gellir ei rannu yn ddau hanner.

*Tribann Milwr ar y Gyhydedd Lefn.*

1.

Y llew gwrdd, perchen llu gwych,
Goreu 'rioed o'r gwŷr ydych,
Rheola'r ffordd yr elych.

2.

Y llew mawr a'r cledd llym wyd,
Gann naw mil e'th ganmolwyd,
Rheola 'mhob rhyw aelwyd.

3.

Derfid anrhydedd dirfawr
Ag urddas yt gan gerddawr,
Y llew mwyn a'r gallu mawr.

Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.

Arall.

Ir yw glyndir a glandeg,
A glas wyd, gulwys adeg,
A hywen dydd, a hin deg.*

Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.

---

* Y mae hwnn, odid nad o wallofal, ym mhlith y Prorstiaid cyfnewidiog yn Ysgrif J. Bradford, dymma ei le ef yn Ysgrif Llanharan.

Digitized by Google

## Arall ar y Gyhydedd Wastad.

1.

Ynod Iesu, oen dewisawl,
Y mae'n hawddfyd Ior mwyn haeddfawl,
Ag iawnwaith i Feirdd ganu'th fawl.

2.

Ynod Iesu, Ion dywysawg,
Y cwyn chaith cainwynebawg,
A gras a ffydd yn rydd yr hawg.

3.

Dioddefaist a rhoddaist ni'n rhydd,
Darnio dy gnawd yw'n ffawd drwy ffydd,
Dy fawl o heb chwyth byth y bydd.

4.

Bardd wyf itti 'th foli'n felus
A thon dyner i'th enw dawnus,
Iawn yw d' enwi'n Ion daionus.

## Arall ar y Gyhydedd Draws.

1.

Ni welir unwaith eilliw'r hinon
Ail i angharad ddifrad ddwyfron,
Yn fun wych wyl, yn fwyn ei chalon.

2.

Glanwedd oedd i'r galon oedd eiddi,
Gall ail luned, yn gell haelioni;
Gwreu dyn wenn dan haulwen oedd hi.

3.

Hi aeth i'r nef lle mae'n cartrefu,
At wiw Dywysog y Tad Iesu,
Yn hyfawl enaid iw foliannu.

4.

Gwynn ei byd bellach darfu achwyn,
A phob egwanniaith a phob gwenwyn,
J. B. Ni phrawf fyth, wenn bur, na chur na chwyn.

Morgan Powel a'i cant.

## Arall, ar y Gyhydedd Wenn.

1.

Hir yw fy ngalaeth oer yw fy nghalon,
A gwŷn anhyfryd yn gwanu 'nwyfronn,
Torriadau cleddyfau blaenau blinion.



Digitized by Google

2.

**Ni'm car ail Luned, ni'm cair y leni,**
**A mesur eiliad can' i'm sirioli;**
**Ochain yw'm dunad a chwyn am deni.**

3.

**Nid wyf fi gydwaith od af i goedydd**
**Ag adar hylaw'n lluniaw llawenydd,**
**Oer yw 'm nad truan a chân achwynydd.**

**Morgan Gruffydd a'i cant,**

## Arall ar y Gyhydedd Laes.

1.

**Bardd wyf i wennferch bereiddaf awenfaeth**
**Brodiwr cain wawdiau, bwriadwr oan odiaeth;**
**Brwd er f' aur ddynan yw bryd ar Farddoniaeth.**

2.

**Molais wiw feingorph a melusaf iawngerdd,**
**Mi a chog gynnil o goedgil yn gydgerdd,**
**A blys ar y wingamp, a blasu'r awengerdd.**

**Morgan Gruffydd a'i cant,**

## Arall ar y Gyhydedd hir,

1.

**Mae mintai rhy fyddar a'u maint i'w ryfeddu,**
**Ni chredant yn ddwyfol y grasol gwir Iesu,**
**Na'i berchi fal Ynad iw barch a'i foliannu.**

2.

**Ni chredir athrawiaeth Ion odiaeth eneidiau;**
**Ni choelir ei wir, ag ni chwilir ei eiriau;**
**Na'i gain iawnedd haeddfawr a gawn yn ei ddeddfau.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

A hyn yw barn athrawon diweddar, sef y gellir canu'r mesur hynn ar yr un a fynner o'r chwe' Gyhydedd hwyaf, cann mai nid o Gyhydedd eithr o Dribanniaeth ai fiaint o awdl ai frith fann, y tyf ei *ansawdd angen*. E ganai'r hen Feirdd y mesur hynn yn frithfann, sef ar fannau anghyfunhyd; eithr nid da bod mwy na dwysill yr anghyfunhyd rhwng y bannau.

## Pennillion Triban Milwr anghyfunhydfann, fal hynn:

1.

**E gilia bob rhai ai gwelant,**
**Cwn ym mhob parth a'u cyfarthant,**
**Dial blin i'r Diawl a'i blant.**

Digitized by Google

2.

**Rhyw eppil yw 'rhai'n fal brain i'n bro,**
**A blaenaf ar bawb i'n blino,**
**Pwnn adwyth i'n penydio.**

**Dafydd Ifan Sion a'i cant.**

Pennill Proestodl fal hyn:

**Accen ber yw can y bardd,**
**Gyda'r gog ergydia'r gerdd,**
**Hyd lwyndir a gweindir gwyrdd.**

**Ni wn i pwy a'i cant.**

Arall, cymmysg Proest ag Unodl.

**Cwyraidd gainc yw cerdd y gog,**
**Awen Mai dien a'i dwg**
**I ganu 'nghoed Morganwg.**

Yn hyn o fodd bydded y ddeufann ddiweddaf yn unodl, ac nid y rhai cyntaf.

[Gellir ymarfer a'r amrafaelion foddion hynn ar odli ar amrafael bennillion o'r un gerdd, blith draphlith, a hynn a rydd i'r Bardd ryddyd mawr.]

# RHEITHIAD XIII.

## COLOFN ADLAW IV.

### TRIBANN CYRCH, NEU TRIBANN MORGANWG.

TRIBANN MORGANWG, yn gyffredinaf y gelwir y mesur hynn am ei fod er cyn cof yn un o brif *adlawiaid Cerdd gadair Morganwg,* a thann wrthodiad yng Nghadeiriau *Gwynedd* a *Phowys,* a *Deheubarth* hyd yn ddiweddar oesoedd pann a'i derbyniwyd ar *Ddosparth Caerfyrddin,* a'i enwi'n *Unodl Cyrch.*

Y mesur hynn a wneir fal hynn, deufann unodl o'r *Gyhydedd lefn* yn y dechreu, ag ar ei ddiwedd Bann Cyrch cydbwys, sef a'i ddwy gangen yn gyfunhyd o'r un gyhydedd a'i brifodl yn unodl a'r ddeufann cyntaf, neu'r drydedd fann yn amrafaelodl

Digitized by Google

wrth y ddeufann cyntaf o'r breichiau, a'i ddiwedd yn unodl cyrch a gair gonphwysfa'r pedwerydd bann, yr hwnn a fydd yn unodl a'r ddwyfraich gyntaf: neu fe ellir proestio os mynner ar y bannau, sef y ddau cyntaf a'r pedwerydd; neu ynteu cymmysg o broest ag unodl, sef y ddwy fraich gyntaf yn proestodli, a'r bedweredd yn unodli, a'r ail fraich: eithr yn hynn o fodd sef y cymmysgodl, bydded y ddeufann cyntaf yn broest ar accen dderchafedig, a'r pedwerydd yn ddisgynnedig gywyddol, yn unodl a'r ail fann; ag angen cyhydedd y sydd ar y mesur hwnn, am na wna un oddierth y lefn yn rywiog; a braint neith o barth odli'n gyd-gyfrann a *Thribann Milwr* y sydd i'r mesur hynn, sef ei unodlaeth, a'i broestodlaeth, a'i gymmysgodlaeth; ag o'r pethau hynn y tyf *neillduol ansawdd y mesur*, a'i amgenaeth o hanfod a rhyw ar bob mesur arall. Dau fodd o barth accen y sydd ar y mesur hynn, sef *un modd* pann fo'n unodl, rhaid bod y ddwyfraich gyntaf yn gywyddodl, a'r fraich olaf yn unodl a'r ddwy gyntaf, ag ar yr un a fynner ai'n dderchafedig ai'n ddisgynnedig yr accen. Yr ail modd o barth accen yw canu'r ddeufann cyntaf yn gyfunbwys neillduol accen y ddwyfraich, ag yn ddisgynnedig a'r drydydd yn gyfunbwys accen dderchafedig, a'r bedwerydd yn gyd-gyfunbwys accen a'r ddwyfraich gyntaf ag amgen na hynn o foddion herwydd accen nis gellir ar y mesur yn gyfiawn a rhywiog, parth ei ganiadaeth, cyd y barnant rai'n amgen.

Triban Cyrch ar y modd cyntaf herwydd accen ar unodl, ag nid oes amgen na'r ddull honn ar Ddosparth Caerfyrddin.

Gyrru mae'r gwyntoedd gerwin,
Gwylltu ar goedd a bloedd blin;
  Gwingo'n y cwm yn drwm draw
I'm rhwystro a mawr ystrin.

Dafydd William Dafydd a'i cant.

Arall.

Oer yw galar a gwaelaidd,
Wb o'r brath, a byw o'r braidd;
  Y neb a'i dygo'n ubain
A'i wŷn lefain wylofaidd.

Arall.

Aeth ffwrdd pob gobaith a ffawd,
I mi'n awchdorr mae nychdawd;
  A deufrath neidr i'm dwyfronn,
Cledd i'mronn oedd claddu 'mrawd.

Morgan Gruffudd a'i cant.

Digitized by Google

Pennill herwydd yr ail modd o barth accen, herwydd Dosparth a Barn Cadair Morganwg. Fal hynn:

Anhyfryd beth yw methu,
A ffwyl ar ddyn i'w ffaelu;
  Ni wel fwynder glwysber glân
Nag un awr can a gwenu.

Sion William Lewys a'i cant.

Er hynn o'r farn a roddwyd, y mae rhai'n dala y gellir canu'r ddeufann cyntaf a'r olaf i gyd yn ddisgynnedig ar anghyfun accen fal hynn:

1.

Goreu 'mhob dim hawddgarwch,
Angen oedd yngan heddwch;
  Coeliaf o araf eriau,
Y daw dyddiau dedwyddwch.

2.

Hoff yw gweled gweithredon
O degwch rhwng cym'dogion;
  Y mae llawn barch y ddaear,
A Duw'n gar i'r dyn gwirion.

3.

Nid oes un lle daw synniaeth
Ar stori gwir ystyriaeth;
  Na wel gynghyd a bryd bronn
Y gwirion yn ragoriaeth.

4.

Goreu fydd rhann y gwirion
Ar dir ei gydfrodorion;
  Iddaw y mae hedd ym myd
A llawen fryd llanw ei fronn.

5.

Ni ddaw rhyfel na gelyn
Yn irboeth yn ei erbyn;
  Cyd bo bychan gann annoeth
Y gwr doeth a gar y dyn.

Morgan Gruffudd a'i cant.

[Ag nis gwelir achos herwydd pwyll ag ansawdd o'r byd, y dylit barnu hynn yn afrywiog ar ganu, ffordd yw a fu ar arfer gann yr *Hen Feirdd*, ag a farnwyd yn gyfiawn yng *Ngorsedd Llwydarth*, a gynheilwyd yno gann *Antoni Pywel*, ag er nad oedd i'r orsedd honno AWDURDOD GWLAD AG ARLWYDD, yr oedd etto ynddi'r BEIRDD GOREU YM MORGANWG, ag yn honno y dangoswyd o waith yr *Hen Feirdd* y pethau goreu a welir o barth barn ag ansawdd ar y Ddosparth honn.]

Digitized by Google

Tribann Cyrch Proestodl fal hynn:

O'r llwynau gorau eu gwydd
Y Wyry Fair a'u harferodd,
  Yn iawn weddus winwydden
Brenin hen y brenhinedd.

Gwilym Tew a'i cant.

Arall.

Y mab rhad yw fy mhader,
A'm credo ef a'm credir,
  A'r Wyry Fair ni nacoair call
Yw deall nef a daear.

Gwilym Tew a'i cant.

Arall, a'r bannau oll yn dderchafedig accen *(ar ddull y canai Tudur Aled.)*

Castell cog a deiliog do,
Caer ddiddos cerdd ëos dda,
  Cell bronfraith lan a'r gan goeth,
Neu geiliog doeth a'i glog du.

Edward Dafydd a'i cant.

Tribann Cyrch ar awdl gymmysg, sef o Broest ag unodl, fal hynn:

Darniodd ar ffysg ym mysg mil,
Dyna bor yn dwyn y bel,
  Dwyn cyrch y gwynt drwyddynt draw,
Dewr rwyfaw 'nghad a rhyfel.

Gwilym Tew a'i cant.

---

# RHEITHIAD XIV.

## COLOFN ADLAW V.

### CYWYDD.

CYWYDD a wneir a dwyfraich o'r *Gyhydedd Lefn*, yn odli'n gywyddodl, sef yw Cywyddodl, un o'r bannau'n odli'n dderchafedig accen, a'r llall yn ddisgynnedig; ag yn unodl a'u gilydd: ag ni waeth p'un ai'r cyntaf ai'r olaf o'r

Digitized by Google

ddeufann, fo'r un derchafedig, na ph'un y disgynnedig; eithr ar y cyplau bydded weithiau'n un ffordd ag weithiau'r ffordd arall, cann mai rhywioccach y bydd y ganiadaeth felly, a mwy amrafaelgainc yr erddigan a'r oslef; a rhaid newid yr odl ar bob cwpl, ag fel hynny bydd brithodl y gerdd drwyddi draw fal *Traethodyn*, ag yn ail hynny o fesur yn gyfungorph gyfungwlm ammhennilliog, ag nid rhywiog Cywydd ar amgen Gyhydedd na'r *Lefn;* a hynn gyda dull anhepcor ei awdl, a wna'r ansawdd angen arno, a'i neillduoldeb a'i lwyr amgeniad rhag pob mesur arall; da yw cynnil amrafaeliant ar accennion y bannau herwydd y llall, (*sef yn hynn un yn amrafaelu ar y llall*) ag nid oes braint yn y byd ar hynn o fesur amgen nag a geir o'r peth a ddywespwyd. Bernir *Cywydd* yn felusaf o'r holl fesurau; ag o hynn y mae bod mwy o ganu arno nag ar un mesur amgen gann ei rywiocced. Yr oedd gynt aml ganu *Traethodyn* ar y *Gyhydedd lefn;* ond gadael hynny a wnaethpwyd wedi dyfod deall ar *Gywyddodl* a *Chywydd*: gann waeled *Traethodyn* wrth *Gywydd*, ar y *Gyhydedd lefn;* yng *Ngwynedd* cenir cyplau Cywydd yn broestodl; eithr nid rhywiog hynny o ganu: ym mhob mesur agos ar y *Gyhydedd lefn,* dylit gymmaint ag a ellir amgenu ag amrafaelu pwys yr accen ar y bannau, ag mor aml ag a ellir, gann ni wedd gormodd bannau cydbwys eu haccenion ar nemmor o fesurau'r gyhydedd honn.

Cywydd fal hynn:

PWY'n farchog pennaf orchest?
Pwy'n ail LAWNSLOD ffonnod ffest?
Hyrr wyd i wyr, hir dy wart,
Hiroesog fych Syr Rhisart;
Urddedig o wraidd ydwyd
A bwysi dalm BASSED wyd;
Llin MAWNSEL, cannsel i caid,
Llin URIEN o'r llwyn euraid;
Ergyd trwm irgoed tramawr
Ar frynn a fych o'r FRAN FAWR.
Mwyn wyd o'u blaen mewn dy blaid,
Mor gynnes o'r MORGANNAID;
Llin IESTYN meddyn i mi,
Llin EINION oll i'n enwi,
A'ch DEWDWR uchod ydwyd,
O RODRI MAWR draw i'm wyd,
CYMRO er hwylio helynt,
Crair o gorph cwncwerwyr gynt;
Eryr y BEWPYR euraid
Yn dy blas Duw yn dy blaid,
A'th Arlwyddes Santes sir,
Ail ANNA a foliennir;



Digitized by Google

**Merch ydyw mawrwych awdur**
**Meistr Edward Vann darian dur.**
**O fonedd o gofynnir**
**Er treio swm o'r tair sir,**
**Bun a serch yw'r Beunes honn;**
**Bun a ddug bonheddigion,**
**Yn feibion aeron irwedd,**
**Yn ferched gwyched eu gwedd:**
**Teiroes i chwi'n naturiol**
**Dros y wlad a'ch had i'ch hol.**

**Edward Dafydd a'i cant i Syr Rhisiart Bassed o'r Bewpyr.**

# RHEITHIAD XV.

## COLOFN ADLAW VI.

### TRAETHODYN.

TRAETHODYN neu *Draethodl* a wneir o'r un a fynner o'r *pump Golofn* neu *Gyhydedd hwyaf,* yn gyplau deufann unodl, a'r cyplau'n frithodl fal *Cywydd,* sef pob cwpl neu ddeufann yn amgen ei odl wrth y lleill nesaf atto, blaen ag ol, o barth awdl; a'r gerdd yn gyfungorph gyfanwedd ammhennilliog, fal *Cywydd;* eithr amrafael nag ar Gywydd yn hyn; sef y cenir *Traethodyn* ar yr un a fynner o'r pumgyhydedd hwyaf ar ddeufann neu gwpl unodl, a'r Accen yn dderchafedig neu'n ddisgynnedig, neu'n gywyddodl, fal y digwyddo yn oreu; yr hynn nis gellir ar Gywydd; ag o frithodl a chyfanneddrwydd, gyda chyfunhyd bannau y tyf *ansawdd angen* y mesur hyn. *Braint* y mesur yw'r un a fynner o'r pumgyhydedd hwyaf; ag wrth raid ag achos, ambell bann yn anaml, o Gyhydedd a fo sill neu ddwy yn fwy neu'n llai na Chyssefin Gyhydedd y gerdd; ag ambell bann hefyd wrth raid (er achub synnwyr gwiwbwyll) o'r *Gyhydedd hwy na hir,* neu'r un *orllaes,* sef o dair neu bedair sill ar ddeg; ag wrth hynn gweler bod *Traethodyn* yn tyfu o fannau *Gorchan,* ag yn gyfun golofn a'r *Gorchanau,* ym mhob peth oddierth yr *angen brithodl* ar y mesur hynn, sef *Traethodyn.*

Barn rhai yw y gellir yn rywiog ganu ar ddwy gyhydedd amrafael, bob yn eilfann, a font yn anghyfunhyd sill neu ddwy, ag nid mwy, fel pei bai'r cwpl ag un bann ar y *Gyhydedd wastad,* a'r

Digitized by Google

llall ar y *Gyhydedd draws*, ag felly gwers tra gwers drwy'r gerdd; a hynn ar y ddwy a fynner o'r *Cyhydeddau* a berthynant i *Draethodyn*.

Rhai a ganasant math ar *Draethodyn clogyrnachaidd*, sef amrafaelu bannau'n anghyfunhyd, blith draphlith yn ddidrefn fal y gweddaint, eithr yn gyfanwedd ammhennilliog; a chydag awenbwyll o barth rhywiogrwydd; fe ellir hynny yn ddidrwsglganiadaeth, a chyda hynn o fodd, hawdd iawn yw cadw a chynnal synnwyr a chrebwyll a myfyrdod.

Rhai a farnant *Draethodyn* yn fonheddiccaf o'r holl fesurau, sef nis gellir nad oedd cwpl neu ddeufann unodl cynn bod *tribann* a hwy o bennill; a rhaid bod dau cyn bod mwy rhif, ag hefyd haws canu cerdd frithodl nag un unodl, ag am hynny bernir bod yr hawsaf o bob peth o flaen yr anhawsaf; y mae Digwydd o flaen Celfyddyd, a nesaf at *Ddigwydd* yw *Brithodl*, a hefyd y nesaf at Gais a Chelfyddyd (a phellach ymgyrch at Gelfyddyd) yw *unodl;* yr anghynnilaf a fu o flaen y cynnilaf, ag anghynnilaf yw *Traethodyn* o'r holl fesurau; y nesaf at hynn yw *Tribann Milwr*, ag am hynny y beirn rhai *Traethodyn* a *Thribann Milwr* unodl, ym mhlith y *Gorchanau*, sef eu bod yn ogyfuwch, neu yn oruwch eu bonedd ar y *naw Gorchan unodl*.

Lle saif prif ragoriaeth cerdd mewn rhwydd ag eglur adroddiad parth damweiniau, ag ymbwylliadau, a synnwyr, ag athrawiaeth, a byrder ymadroddion, goreu o'r holl fesurau yw *Traethodyn*, a chyd na bo'r ganiadaeth mor gynnilgamp ag eraill fesurau, hi a ddichon fod mor lafar-ber a'r rhann fwyaf o henynt.

*Traethodyn* ar y *Gyhydedd Wastad*, fal hynn:

**Prydydd wyf yn godde clwyfau**
**A dial oer a doluriau,**
**Oer yw'm llais herwydd trais traserch,**
**Cur Gwanfardd yn caru Gwenferch.**
**Er colled hoen a mawr boeni,**
**Er im achwyn a thrwm ochi,**
**Ni chred meinwar mai o'i charu**
**'N oer fynychaf 'rwyf yn nychu;**
**Och! na chawn er dawn daioni**
**Y fwyalch esgud falch wisgi**
**I fyn'd drosof heb arofyn**
**Yn fuanddwys at y feinddyn,**
**Ag i faneg i'r deg feinwar,**
**'Mod i'n wael yma dan alar;**
**Ag yn ochain gwnn o'i hachos,**
**Oeri'n waegael, marw yn agos,**

Ag felly hyd ddiwedd y Gerdd.

**Thomas Lewys a'i cant.**



Digitized by Google

*Traethodyn* ar y *Draws Gyhydedd* fal hynn:

[A BERNIR HONN YN WELL NA'R WASTAD AT DRAETHODYN.]

Y chwi'r cyfeillion dewrion diras
Glewion sydd un galon a suddas;
Cynllwynwyr, bradwyr i'ch bar ydych,
Yn mynnu'r aelwyd mann yr elych;
Och ini! trawsion 'ddych chwi'n treisio
Dynion astrus ych chwi'n dinistro,
Tannu mawr frad drwy'n gwlad yw'ch glewder,
Dunych tristwch yw dwyn eich trawsder,
Ni roddwch gyfrif ar amddifad,
Na gwaeddwyn oer y gweddwon irad,
Ond dwyn eu cyfoeth, dwyn eu cyfan,
Moethau gwynfyd i chwi'r maith gwynfan,
Amherchi'r Eglwys wiwlwys olau,
Oer och! e frethir ei chyfreithau;
Mawr iawn yw 'ch anghlod am ddifrodi,
Trais yw'r alwad o'n trawsreoli,
Treisio 'n rhol y faenol a fynnoch
Yn hy anweddus, hynn a wyddoch,
Lladd llaweroedd cannoedd i'ch cynnen,
Ag ewn fygwth o fawr genfigen.
Tost yw 'ch gweled, y llu anedwydd,
Yn rhodio'n gludair 'rhyd ein gwledydd,
A thostach y budd rhyw ddydd a ddaw
I chwi y gwaelion gellwch goeliaw.

Edward Dafydd a'i cant, i wŷr CRWMWEL.

*Traethodyn* ar y *Gyhydedd Wenn*, yr honn a'r *Draws* a fernir gan rai yn oreuon ar golofnau *Traethodyn* mewn cerdd ar ddwysbrudd fyfyrdod, herwydd eu harafwch parth accen a llef.

Gwelais aderyn ar y llynn llonydd,
A gwynlliw hynod fal manod mynydd;
Lliw ewyn y donn, pann fo'n creuloni
Y mawr rhuolwynt ar y môr heli,
Lliw blodau dol hyd ganol y gweynydd,
Neu wyngalch ar fain rhyw gywrain geyrydd,
Lliw bronnau meinwen glaerwenn eglurwedd,
Yn unlliw a'r haf, yn wynlliw rhyfedd.

Edward Dafydd a'i cant, i alarch.

*Traethodyn* ar y *Laes Gyhydedd*, yr honn ar amrafaelion achosion, gyda'r *Hir*, a fernir yn oreuon ar *golofnau Traethodyn* gann rai.

Daeth imi'r feinwen hygarwen a gerais,
Ei chael, fy Nyn wych, do mynych dymunais,
Heddyw priodais y feinais ddyn fanol,
A gwr wyf tra llawen i'm seren drem siriol;

Digitized by Google

**Cefais hoyw wynfyd ys cefais y wenferch,**
**A rhodd wych a thrysor heddwch a thraserch,**
**Mi gefais wir warant mwyniant i'm einoes,**
**Adwodd im' eurlwydd a diwedd y mawrloes.**

**Dafydd William Dafydd a'i cant.**

### *Traethodyn* ar y *Gyhydedd Hir.*

**O Iesu mi'th ddigiais, mi bechais i'm buchedd,**
**Drwy ddilyn mor hywaith rhyw fawrwaith oferedd;**
**Mi fum yn fab cyndyn yn dilyn hudoliaeth,**
**Ag ynnof ni châd awr o fwriad difariaeth;**
**Bum hir yn gwageddu a chredu'n echrydus,**
**Hen SATAN a'i weision y lladron twyllodrus,**
**Y cnawd a'i gynnheddfau, ym moesau pob maswedd,**
**Ammhwyllwr yn aros ym mhwll yr anwiredd.**
**Y byd 'r hwn a'm twyllodd addefodd yn ddwyfawl**
**Bob gwynfyd i'm calon yn gyfion a gwiwfawl,**
**Gwae fi o'r tri gelyn, anhydyn i'm nodi**
**A nod y mawr ddial i gynnal drygioni.**

Ag felly trwy'r Gerdd.

**Dafydd William Dafydd a'i cant.**

[Bai mewn *Traethodyn* a *Chywydd* yw canu pedair braich, neu ddau gwpl, yn unodl, lle delont yng nghyd, cann ys os y clust a gaiff graff ar hynny o bennill, ef a ofyn ychwaneg, a chraffiad ag erfyniad y clust yw'r cyfan ar beroriaeth odl, o ba ryw bynnag y bo, ag am hynny dylit, ym marn rhai, mewn proest osod yr odlau herwydd trefn arferol y bogeiliaid, y naill ai yng ngwyneb ai yn ngwrthwyneb,] *(fel y gwypo'r clust yr odl a ganlyn cyn y bo ar lafar.)*

# RHEITHIAD XVI.

## COLOFN ADLAW VII.

### PROEST CYFNEWIDIOG.

PROEST *Cyfnewidiog* yw rhyw neillduol o fesur lle bydd ei *gynheuid angen* yn yr odl yn bennaf; sef yn sill yr odl, rhaid newid y *llafariaid*, a chadw yr un *gydsain*, neu *gydseiniaid*, o bydd rhai o henynt, ar ol y *llafariaid*, y pennill a fydd o bedair i saith braich heb yr unrhyw *lafariad* yn sill yr

Digitized by Google

odl yn un o'r breichiau a fo yn y llall, neu'r llaill; sef y bydd o hynn yn yr odlau gynnifer amrafael *llafariad* a chynnifer braich, sef o barth *llafariaid* y newidir y sain, ag nid o barth *cydseiniaid*, pann fo'nt *gydseiniaid*, neu *gydsain* ar ol y *llafariad*.

Rhaid cadw sillau'r odlau yn unrhyw a'u gilydd herwydd eu pwys, sef oll yn drwm neu oll yn ysgawn; oll yn lleddf neu oll yn dalgrwnn, sef fal y bo un bydded y llall, a'r llaill, yn hynn o beth. (Gweler mwy o hynn yn nosparth y sillau.)

O ryw'r awdl y daw'n bennaf *gynhenid ansawdd* hynn o fesur, ag *angen* hefyd, er rhywiogrwydd, caethu'r mesur o fewn i'r *tair gyhydedd hynn*, sef y *Lefn*, y *Wastad*, a'r *Draws*, am nas goddef caniadaeth rywiog osod y cyfryw odlau yn ry bell oddiwrth eu gilydd; o barth acen yr odlau, byddent weithiau'n dderchafedig, weithiau'n ddisgynnedig, ag weithiau'n gymmysg o bob un o'r ddeuryw, fal y digwyddo'n oreu.

Rhai a farnant nas dylit ymarfer yn odlau'r un pennill y ddwy *lafariad*, sef U ag Y gan eu tebycced yn eu sain a'u llafar iddeu gilydd, yn unodli yn hyttrach nag yn proestodli, ag wrth hynn nis gellir amgen na chweban mewn pennill, eithr aml arfer yng ngwrthwyneb i hynn, a phann y caner pennill seithbann, bydded y ddwy *lafariad* hynn ym mhell oddiwrth eu gilydd.

Gorenddull ar *Broestodlau* yw trefn gwalystawd y llafariaid, y naill ai yn wyneb, ai yng ngwrthwyneb, sef y naill ai yn y drefn honn nid amgen a, e, i, o, u, w, y, neu ynteu yn y drefn honn, y, w, u, o, i, e, a, sef o hyn fe gaiff clust gyflawn graff o erfynniad a dymuniad ar yr odlau yr hynn beth yw'r cyfan ar bersain odlau.

Gellir, os mynnir, ar yr un pennill ganu bannau gwers tra gwers yn anghyfunhyd, mal pei cenid y Gyhydedd *Wastad* a'r *Lefn* bob yn ail; ar y pennill, ag nis diffyd hynn *Ansawdd Angen* y mesur, yr hynn a saif yn unig yn neillduoldeb yr odlau, ag nid oes *angen cynhenid* amgen na hynn ar y mesur; yr un wedd y cenir y *draws* a'r *wastad*, a'r *wastad* a'r *lefn* yng nghyd bob yn ail.

Nis gellir hanneru *proest* a rhoi'r hanner ar gysswllt a mesur, neu ddarn o fesur, arall; er gwneuthur *Cyngog* neu arall o fesur, a chyda hynny cadw a chynnal cyssefin ryw a chynhenid ansawdd y mesur, sef y *Proest;* eithr rhaid i bob hanner o'r ddeuryw *broest* wrth eu eraill hannerau, ag o hynn y tyf *angen* ag *urddas cynhenid* iddynt, sef eu bod yn sefyll ar eu pennau eu hunain yn neillduolgamp.

Pann fo pennill ar y *gyhydedd lefn* yn ddisgynnedig y bannau oll, ni ddyleint fod yn ry gydbwys y bannau o barth llef ag erddigan.

Digitized by Google

Pennill proest cyfnewidiog ar y lefn gyhydedd, ag accen dderchafedig, a sill yr odl yn dalgronn drom.

Ar ferch rhois fy serch yn synn,
Bum ful, gwnaeth fi'n gul a gwann,
Y mae brath ei serch i'm bronn,
Irad gur o gariad Gwenn.

Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.

Pennill ar accen ddisgynnedig, fal hynn:

Cawsom wres i'n cynnesu,
Hirianddydd a llwyr hindda,
Awyr ber hwyr a bore,
A'i nawa araf i'n sirio.

Thomas Derllysg a'i cant.

Pennill ar accen gymmysg ar yr odlau, sef peth o'r bannau'n dderchafedig, a pheth yn ddisgynnedig.

Wyf hen, aeth f'awen ar feth,
A'r gorhoen yn ry gyrrith,
Gwelais ddydd ag ni fydd fyth
Eiddo fi, Och! ddydd o'i fath.

Morgan Pywel a'i cant.

Arall.

Ystyr y dyn yn oestad
Pann dyrr d' amser byrr mewn byd,
P'le'n ddilyth y cai fyth fod
Ystori drom i'w 'styried.

Thomas Llywelyn o Regoes a'i cant.

Arall.

Amser sy'n awr i ymswyn
Ymarbed rhag y mawrboen,
Cyn el y corph yn gelain
I orwedd i fedd dann faen.

Thomas Llywelyn o Regoes a'i cant.

Arall, y bannau oll yn dderchafedig.

Mae'i ffriw a'i lliw yn fy lladd;
Gwael wy' byth am gael ei bodd;
Am Wenn bert im' iawn ni bydd
Oer bwys ond myned i'r bedd.

Llywelyn Sion a'i cant.

Digitized by Google

[Proest cyfnewidiog Tribann.

Accen ber yw can y Bardd
Gyda'r gog ergydia'r gerdd,
Hyd lwyndir a gweyndir gwyrdd.]

Ni wn i pwy a'i cant, gweler tu dalen 132, ysgrif hen, a 88, ysgrif y gwasg.

Arall.

[Y tywydd brwnt oedd o'u bronn,
Gwynt a glaw hyd gerllaw'r llann,
Dann nawdd a'u gwelawdd Duw gwynn.]

Dafydd Edward o Fargam a'i cant, am frawd a chwaer gafellod dan deirblwydd oed yn dianc o'u gwely liw nos yn y Pil, ag yn myned i fynwent Llangynwyd i ymofyn am eu mam a gladdesid yno,* [pum milltir o ffordd dros fynyddau geirwon.]

Pennill chwebann, a chymmeriad cynghaneddol arno.

Caraf y mab a'r corun,
Cared pawb lle cai arian,
Ceir ei fwrdd, car oferddyn,
Corf urddol, car i Feirddion
Cor fawrddysg tapr cwyr fyrddiwn, [neu fwrddwn]
Cryf urddas tir Caerfyrddin.

Gutto'r Glynn a'i cant i Abad Ystrad Fflur.

Arall.

Abad corph y wlad Caer Fflur,
Aberth nef a byrth nifer
A'i byrth heb glo neu borthor,
I borth deau aberthwyr;
Berthog a thlawd a borthir,
Ar barthau yr aberthwr.

Yr un a'i cant i'r un.

Arall, chwebann.

Cefais Fardd teg, d'anreg, do;
Dy gywydd, gwaith dedwydd da;
Ag eitha cais yw'r gwaith cu;
A'i synnwyr llwyr ymhob lle;
Gwnawn Feirdd yn gyfiawn lawn lw
Ar goedd gwlad mai'n tad wyt ti.

Dafydd Williams a'i cant i Edward Dafydd.

---

* Hwnn a'r un o'i flaen o Ysgrif LLANHARAN.

Digitized by Google

Arall, seithbann.

Myfyr ag ystyr gwastad
A doethineb daith hynod,
Da'u gwaith ymhob brydwaith brwd;
Yn deilwng iawn eu dylud;
Y rhain ar fyrr a dyrr did
Y caeth, a'i droi'n benmaeth byd.
Ef a gair yn benn crair cred.

Edward Dafydd a'i cant.

Pennill Proest cyfnewidiog ar y Gyhydedd Wastad.

Y bottel fawr ryglyddfawr glod;
Pottel falch folfawr a'r glawr gwlad;
Nid oes a wel bottel o'r byd,
A rydd i ddyn byw'r gyfryw ged.

Edward Dafydd, i bottel fawr fyr Rhisiart Bassed o'r Bewpyr.

Arall, ar y Gyhydedd Draws.

Lluniais y gerdd mewn llwyn is gwyrddail,
I wenddyn harddlun, hoyw fun feinael;
Ba Fardd o'n gwlad im caniad a'm coel,
Maint berw 'y mhenn am Wenn anwyl.

Llywelyn Sion a'i cant.

Ar bob un o'r tair Colofn hynn, y cenir y Pennillion yn bedryfann, yn bummann, yn chwebann, ag yn seithbann.

Rhai a ganasant Dribannau cyrch ag Englynion yn broestodl, fal hynn:

Tribann Proest.

Castell cog a deiliog do;
Caer ddiddos, cerdd eos dda;
  Cell bronfraith lan ar gan goeth,
Neu geiliog doeth a'i glog du.

Edward Dafydd a'i cant.

Triban Toddaid Proestodl, fal hynn:

Of call gwna fwyall i Fardd, a dorro,
  A'i duriawg fin agwrdd,
  Diwael ei gwaith cai'n dal gerdd.

Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.

Englyn byrr a Thoddaid Proestodl, fal hynn:

Curiais gann alar caru, alaw'r haf
    Eilw'r haul ar fore,
  Collais y dydd dedwydd da,
    Du yw 'mhenyd am honno.

Ni wn i pwy a'i cant.



Digitized by Google

A chymmysg ansawdd y sydd ar y rhywiau hynn o Bennillion ag Englynion, eithr gann fod yn amlyccach yr awdl na'r ansawdd o fann, ef a'i cyfrifir gyda'r proest cyfnewidiog ym marn rhai, eraill a farnant yr ansawdd o fann yn fwy amlwg na'r ansawdd o awdl.

# RHEITHIAD XVII.

## COLOFN ADLAW VIII.

### PROEST CADWYNODL.

PROEST *Cadwynodl*, neu *Gadwynog*, a genir ar yr un *Prifgolofnau* o *Gyhydedd* a'r cyfnewidiog, ag a wneit a dau gwpl cyfnewidiog yn unodli a'u gilydd, sef y bydd y bann cyntaf o'r cwpl cyntaf yn unodli a'r cyntaf a'r ail gwpl; a'r ail fann o'r cwpl cyntaf yn unodli a'r ail fann o'r ail gwpl, ag weithiau fe gyssylltir dau dribann proest cyfnewidiog yng nghyd yn yr un modd, gan eu hunodli a'u gilydd bann wrth fann, yr hwn ddull a elwir *dull Morganwg*, a dull arall ar *broest Cadwynog* y sydd ar arfer yng *Nghadair Morganwg*, sef yn ol canu pennill pedryfann, cymharer ag ef bennill pedryfann arall yn y modd hynn, gwneir y bann cyntaf a'r ail bennill yn unodl a'r un diweddaf o'r pennill cyntaf, ag ar ol hynn cynnal ar yr ail bennill yr un proestodlau ag a fu ar yr un cyntaf. Eithr bydd eu trefn yr odlau ar yr ail bennill yn wrthwyneb o *angen* ar eu trefn yn y pennill cyntaf, scf yr odl a fu gyntaf ar y pennill cyntaf a fydd yn ail ar yr ail bennill; ag fal hynn am danynt oll y bannau a'r odlau; ag wrth hynn y gwelir bod tri modd ar bennill *Proest Cadwynodl*, sef yn bedryfann yn chwebann, ag yn wythbann. O barth nattur sillau'r odlau, yr un fyddant ag ar *Broest Cyfnewidiog* (sef newid llafariaid a chadw cydseiniaid.)

*Proest Cadwynog pedryfann*, sef deufann *Proest Cyfnewidiog* yn unodli wrth ddeufann arall yn gadwynog derchafedig accen, ar y *Gyhydedd Lefn*.

Os glan gwlad o drwsiad draw,
Os glan faeth, rhywogaeth rhyw;
O chawn wîn llawn ym mhob llaw;
O cheir nef, uwch aeron yw.

William Egwad a'i cant, i Gaerlleon Gawr.

Digitized by Google

Arall, ar y *Gyhydedd Wastad* ag accen ddisgynnedig:

Y pann dewr o'r pennaduriaid,
Ym mro'th hynaif mawr a'th enwyd;
Eurbenn ethol ar bennaethiaid,
A glew didwyll i'n gwlad ydwyd.

Dafydd Williams, i Syr Rhisiard Bassed o'r Bewpyr, a'i cant.

Arall, ar y *Gyhydedd Draws:*

Gwynt gwyllt, cadarnwyllt sy'n cadw oernad;
Gerwin iw rym yn ieithlym aethlyd;
Gwyn fyd a fedd yn rydd anneddiad,
Gartref i'w fro, tan glo, a'r ty'n glyd.

Dafydd Williams a'i cant.

Pennill herwydd dull Morganwg ar *Broest Cadwynodl,* sef tair bruich wrth dair, ag ar accen dderchafedig.

Wyd wr ffel os gochel gwg,
Anian y Diawl a wnai'n deg;
A chwith-droion dynion dig;
Cai oes rwydd heb dramgwydd drwg;
Cai fryd llonn i'th fronn ddi freg;
Hedd y nef i'th dref a drig.

Dafydd Williams a'i cant, i William Sion Lewys o Lancarfan.

Arall, o'r un rhyw:

Minarf yw'r cof im' mynwes,
Darfu'r awch dirfawr iachus,
A lywiai gan fel eos;
Oer a dwl, wyf wr diles,
Gwae fod fy nydd gofidus
Oll yn awr yn dywyll nos.

Morgan Pywel a'i cant.

Pennill arall wythbann, yn ol arfer *Beirdd Cadair Morganwg.*

Gwelir fy mun ail luned,
Yn fain eneth fwyn wiwnod;
Gwylan deg iawn iw gweled;
Em wenn, a'i lliw fal manod;
Un yw honn fy nyn hynod
Yn wych lawen iw chlywed,
Pann dyrr o'i dyfyr dafod
Awen fraf yn afrifed.

Morgan Gruffudd a'i cant,

Arall, gyda chwanegiad bann ar y diwedd yn unodl a bann diweddaf y *Cadwynbroest,* hwnn hefyd ar *ddull Morganwg.*



Digitized by Google

**Clywer llais trwch, tristwch trwm,**
**Ar led yn afrifad fram,**
**Dychryn gerllaw'n rhuaw rhwm,**
**Adar a'u cri'n ofni nam;**
**Pob un yn wael yn cael cam,**
**Mewn gwŷn mawr ar y llawr llwm;**
**Llef blinder a llawer llam;**
**Rhwng eu pluf mae'r angau plwm,**
**A rhull eu gwae drwy'r holl gwm.**

**Morgan Gruffudd a'i cant, i'r Dryll.**

[Ag fal hynn y canai'r Hen Feirdd *Broest Cadwynodl* ar y *lefn, y wastad,* a'r draws *gyhydedd;* ag nid ar nebrai eraill: eithr Beirdd lled ddiweddar a'u cenaint ar bob un o'r chwech gyhydedd hwyaf; ag nis gwelaf lai nad yw hynny'n deg, nat-turiol, a rhywiog; er dim a ddeellais i hyd yn hynn, herwydd pwyll ag ansawdd ar fesur Cerdd Dafod; gwir yw, ni wna'n iawn a rhywiog y *tair gyhydedd hwyaf* ar *Broest Cyfnewid-iog.*]

# RHEITHIAD XVIII.

## COLOFN ADLAW IX.

### CLOGYRNACH.

CLOGYRNACH a elwir felly am ei anwastadrwydd yn debyg i glogwrn neu darren, a'i fannau a fyddant yn anghyfunhyd anghyfartal o barth rhif sillau, a'r bannau oll yn unodl mewn pennill, ag o'r amrafaeliant hynn parth hyd cyhydeddau y naill wrth y lleill o henynt y daw ansawdd braint y mesur, ag nid unsill neu ddwy weithiau yn anghyfunhyd ar fannau, a wnant ansawdd clogyrnach, cann ni wna'r ychydigyn hynny anghof ar lef, a llafar, a chaniadaeth pennill *gorchan;* a chymmaint amrafaeliant ag y bo wrth *orchan* yn lwyr newyddlef, sef yr arferir weithiau ar yr un pennill holl gyhydeddau Cerdd Dafod; ag heb gyfiawn awenbwyll, ag athrylith, a chrebwyll, ni fydd onid o ddall ddigwydd glogyrnach rhywiog, ag amgen na hynny nis gellir dosparth ar *glogyrnach;* ag nid oes na diben ar foddion ei bennillion, ar a ddichon Bardd cynnilbwyll eu llunio, gofaler bod y pennillion yn rywiog eu caniadaeth, a

bod y llithrad o'r naill bann a chyhydedd i'r llall yn hawdd parth hyd ag accen; gellir canu ar *glogyrnach* y ddwy wanngolofn, sef y *Gyhydedd gotta,* a'r un *Orllaes.*

Nid rhaid bod holl bennillion *Clogyrnach* o *angen* yn gyfunbwys gyfunddull, herwydd bann a gosodiad, eithr eu canu'n amgen os mynner, sef y gellir gwneuthur yn hynn o beth yr un a fynner o'r ddeubeth, sef canu'r holl bennillion yn gyfunryw, ynteu'n amrafaelryw.

Clogyrnach a Chyngog a fernir yn isaf eu bonedd o'r holl golofnau, am nad hawdd Trefn a Dosparth ernynt, herwydd rheol a gwyddbwyll.

Pennill Clogyrnach.

**Croesaw ystig**
**Drwy barch caredig**
**I hynod wyl y nadolig,**
**Y dydd iawn dedwydd nodedig,**
**Y ganed fendigedig**
**A dwyfol Bendefig,**
**Mab Duw mwyn i'n dwyn o'n dig.**

**Dafydd Edward a'i cant.**

**Arall.**

**Un wyf i'm iselnwyf sydd**
**Yn udaw'n dost annedwydd;**
**Rhodio'r dydd**
**Yn y gwydd,**
**Neu rod yr hydd**
**Ar fann rhyw fynydd,**
**Yn wr gwael a'm ffael i'm ffydd,**
**Yn ymboeni'n drwm beunydd.**

**Sion Padam a'i cant.**

Arall.

**Fal Hydd am afonydd 'rwyf fi**
**Yn galed yn d'ymofyn Geli;**
**Iesu pur o'th dosturi**
**Erglyw tost lefain fy ochain i,**
**Bydd borth a chymhorth gwych imi;**
**Tro Ion dy was o'r trueni;**
**Fy Nuw wyd, rhaid yt fy nodi,**
**Ag eilchwyl rhaid yw'm golchi,**
**Yn y gwaed, paid Ion ag oedi;**
**A ddaeth o'th Fronn dirion di.**

**Thomas Lewys a'i cant.**

Arall.

**Erchi'r wyryf arch yr awrhon**
**I UN DUW fry'n waed o'i fronn,**
**Eiriol oes hir i Leision,**

Digitized by Google

Dethol doethion,
Hydr dysgydron;
O grefyddwyr gwar ufuddolon;
Noddfa'n hiaith, nawdd Dduw fo'n hoan,
Glaslwys glwyslon,
Glosydd gleision.

Lewys Morganwg a'i cant, i Leision Abad, Monachlog-Nedd, (YN AMSER HARRI'R SEITHFED, BRENIN LLOEGR.)

Arall.

Cefais ferch, cofiais, a fu
O boen a chur bwnn o'i charu;
Llawer ofalais, llwyr rhyfelu,
Athrodwyr fal cwn a naws annwn i'm sennu;
Mi gefais fawr erlid a'r llid yn tralledu;
Celwydd dyn traws a'i surnaws i'm sarnu;
Goddef a wneuthum a gweddu;
Er bod drwy 'mronn drwm gŵynion i'm gwanu;
Er lladd y gofal cynnal canu;
Parod oeddwn yn prydyddu;
Ymgais a'r ferch a'i serchu;
Yn ddidawl fythawl heb fethu,
Er gwaetha'r cyfan daeth awr i'm diddanu;
Pob gelyn yn awr aed i lawr i alaru;
Tŷ'r ffol ei benn sy'n cenfigenu,
Hai! dyred im gweled a phaid a gwaelu;
Gwnaf odiaeth gan i'm gwynfydu,
Agor hoyw flocdd a gorfoleddu;
Druan! 'rwyt ti'n cwynfannu;
Yn flin fal golau'n diflannu;
Priodais! clyw fi'n prydu!
Teg ei gwedd loyw osgedd lwysgu;
Maeddais dy gas; 'rwy'n meddu,
Blodau'r wlad mewn cariad cu.

Dafydd Williams o Benn Llin a'i cant.

# RHEITHIAD XIX.

## COLOFN ADLAW X.

### HYPPYNT, NEU LOSTODYN, NEU'R GOLOFN FRAITH, NEU AWDL LOSGYRNIOG.

HYPPYNT neu *Lostodyn,* yw un o'r mesurau gorau a mwya caniadaidd yn yr Iaith Gymraeg, ag yn amlach ei rywiau na nemmor o fesur ar gyfiawn drefn a phendant ddos-

Digitized by Google

parth; ef a wneir fal hynn, sef y bydd y naill a'i dwy fraich neu dair ar y gyhydedd a fynner o'r ferr i'r hîr, yn unodl, a'r rhain a elwir y Boniaid, neu'r Bonfannau; ag ar ol y rhain y bydd bann arall yn amrafaelodl ar y boniad, ag yn arwain y brifodl, a hwn a elwir y *Llost*, neu'r *Llostwrn*, a'r gair diweddaf neu'r gair odl, yn y diweddaf o'r boniaid, yn dwyn cyrch unodl at orphwysfa'r *Llost*, yn enwedig yn y chwe gyhydedd hwyaf, (lle nis gellir ei hebcor) ag yn fynych yn y tair ferraf; eithr ar y mangolofnau, bydd yn aml iawn yn lle'r cyrch unodl, y diweddaf o'r boniaid yn croesgynghanddu a'r *llost*, ag a fernir o'r ddwy 'n oreu ffordd, a hynn a wna fann *hyppynt*, a rhaid bann arall o'r fath hynn yn gymmar iddo, ag yn unodl ag ef parth y *llost*, ag nid o barth boniaid, a hynn wna *bennill*, sef y deufann yng nghyd; weithiau fe fydd y *llost* o'r un gyhydedd a'r boniaid; weithiau o hwy gyhydedd, o sill neu ddau, neu chwaneg, ag weithiau o fyrrach; ag weithiau bydd y boniaid yn gyfunhyd a'u gilydd eu bannau; ag weithiau'n anghyfunhyd; fal y bo'n orau gan y Prydydd, cann y gallant fod yn anghyfunhyd os mynner; ag nis diffyd hynny *ansawdd angen* y mesur; yr hynn a sait yng ngosodiad y bannau a'r odlau, ag nid yng nghyhydedd y bannau o barth cyfartalwch. Dau o'r bannau cymmhlyg hynn a wna bennill, a gellir cadw y pennillion oll wrth yr un brifodl, neu'n amgen fal y mynner, ag ni flina hir unodlaeth ar y mesur hynn, am fod y bon-fannau, gann eu hamled wrth y *llostiaid* lle mae'r *brifodl*, a'u brithodlaeth, y naill gangen wrth y llall, (a'r naill wrth y llaill trwy'r holl awdl) yn amrafaelu cymmaint ar y ganiadaeth, ag yn torri drwy gyfunsain y brifodl gymmaint (oddierth ar y mangolofnau) fel y gellir cynnal unodlaeth ar y prifodlau cyhyd ag y mynner heb ormodd blino clust, yn enwedig ar y chwe chyhydedd hwyaf; er hynny gellir, os mynner, newid yr odl ar bob pennill; etto ar bennillion deufann foniaid ar y mangolofnau, rhaid newid y brifodl yn fynychach nag ar yr hir golofnau boniaid.

Nid oes ond unrhyw ddull ar bennill ar yr hir fannau o'r mesur hynn ar Ddosparth Caerfyrddin, a thri rhyw ar y manfannau; a chantryw a ellir arno herwydd Dosparth Morganwg.

Pennill deufann foniaid ar y Gyhydedd ferr.

| | |
|---|---|
| **Af i benn Rhys** | **Ag ar fy nglin** |
| **Yn fy uncrys,** | **Oed pererin** |
| **Rhag ofn encryd,** | **Dapr o wrhyd.** |

**Gwilym Tew a'i cant, a'i gynnal fal hynn, wrth brifodl yn unodl, wyth neu ddeg, neu'n fwy o fannau.**

Arall, a bonfannau cyfochr odl, fal hynn:

Iawn o'i berchi,
I bawb erchi,
O bob eirchiad.

Ar y diben,
Oes anniben,
I Sion Abad;

Arall, Tribann foniaid.

Canaf feinir,
Blethau goldwir,
Canmil i'n tir,
Canmolynt honn;

Iddi cenir
Tra fo prenn ir,
Na haul ar dir
Na hwyl ar donn.

Meredydd ap Rhoser a'i cant.

Arall, cyfochrodl bonfannau.

Mair urddedig,
Fendigedig,
Etholedig,
I'th aelodau;

Mam Grist wledig,
Difethedig,
Iôr genedig
O'r gwiw nodau,

Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd a'i cant.

Arall. Pennill cyfochrodl bonfannau o ryw arall.

Dwg Brydyddion
Yn wyr rhyddion
Awenyddion
I wiw noddau;

Cair yn llawen
Gair gorawen,
O gain awen,
Wiw ganüau.

Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd a'i cant.

Arall, Pedryfann boniaid.

Goror Maendwr,
Gwir benydiwr;
Gwael fy nghyflwr,
Gwae ryfelwr;
Gwir ofalu:

Gwawnwedd neut teu;
Gwynbryd tegeu;
Gwann a'th faddeu;
Gwenn a goleu,
Gwnn ei gelu.

Gronwy Ddu, ap Tudur, ap Heilyn a'i cant.

Arall.—Pennill deufann foniaid ar y Gyhydedd gaeth, a Llost ar y Gyhydedd ferr.

Ar hyd mynyddfryn
Cyrrau y rhedyn
Caru rhodio,

A heddwch pen llad
Imi o fwriad
A myfyrio.

Dafydd Williams (sef Dafydd o'r Nant) a'i cant.

Arall.—Pennill Tribann hyppynt ar y Gyhydedd gaeth, a Llost ar y Gyhydedd ferr.

1.

Codais foreddydd,
Gyda'r ehedydd,
I rodio'r gweynydd
Dolydd deiliog;

A merch a glywais
Yn canu perlais,
Yn gerdd arianllais
Gydlais a'r gog.

Digitized by Google

2.

Daeth gwres i'm dwyfron
A serch i'm calon,
Ar eiliw'r hinon,
    Warloer enwog;
A theimlo galaeth
A chwyn ys sywaeth,
Awenddal hiraeth
    Yn doluriog.

3.

Brysiais i'w gweled,
Lluniais wrth fyned,
Hi'n deg ail Luned
    O gred greidiog;
Ond och! pann welais
Y ferch eoslais,
Iawn y rhyfeddais
    Yn orfoddog.

4.

Cloben anhyfryd,
A chas wynebpryd;
Lliw y gwaed hefyd,
    Llygaid difiog;
Fe ddarfu'r cariad
A wnaeth im oernad
A'i wae mor irad,
    A mawreiriog.

5.

Teimlais fy nghalon
Yn rydd i'm dwyfronn;
A'm holl flinderon
    Llymion llammog,
Yn ffoi fal niwlen
Ar godiad haulwen,
A'i wenau llawen
    Yn allüog.

Morgan Gruffydd a'i cant.

Penuill a'r bann Llost yn gyfunhyd, a'r bannau Hyppynt, neu'r Boniaid.

Chwilio'n y maesydd
A'r dyrys goedydd
    Am yr hydd mae 'rhain,
Trwynau'n y ddaear
Yn iach eu llafar,
    Yn wych eu llefain..

Edward Dafydd, i gwn Margam

Arall, ar y Gyhydedd drosgl, deufann Hyppynt.

1.

Fe ddaeth y dorf adar
I'r coedydd a'u llafar
    Yn gynnar y gwanwyn,
A minneu'n cydganu
A'r hyfryd awenllu,
    Mwyn gerddlu, mewn gwyrdd-lwyn.

2.

Hyfryded edrycher!
Yw'r coed yn eu gwychder,
    A glwysder y glasdwyn;
Mae Mai yn ei heulwisg,
Yn rhoddi blodeuwisg,
    A deilwisg ar dewlwyn.

Dafydd Williams o Ben Llin, sef Dafydd o'r Nant, a'i cant.

Arall, ar yr un Gyhydedd, Tribann Hyppynt a Llost yn croesgynghaneddu ar drydedd fann Hyppynt, yn lle ymddal ar gyrch unodl.

Ail Luned ar Lannerch
Yw'm trysor a'm traserch;
Un araf yw 'ngwennferch
    Yn euro fy ngwynfyd;
Aml iawn ei moliannu
A chur o'i thracharu;
Y mab, er anialu,
    Mi biau'r anwylyd.

Dafydd Williams o'r Nant a'i cant, yn atteb i senn a gawsai am ei lwyddiant yn caru merch.

Arall, Pedryfann Hyppynt ar y Drosgl Gyhydedd a Llost ar y Gyhydedd Lefn.



Digitized by Google

O Dduw mawr maddeu i mi,
Duw agwrdd bendigi,
Duw parod y peri
Dy wyneb tywyni.
Neud atton ni nid wyt Naf.

Pobloedd miloedd molant,
Eilwaith Duw addolant,
A mawlair a moliant,
Cenhedloedd cain odlant,
O drachwant Duw Ior uchaf.

Diau holl bobloedd daear,
Yn llawen Gwen rhai gwâr,
Cyfiawn farn cefnau fâr,
A llywodraeth gaeth gâr
Digyfar Duw a gofiaf.

Y Capten Gwilym Ganoldref, neu William Middleton a'i cant yn Salm 67.

Pennill ar y *Gyhydedd Lefn* deufann Hyppynt a Llost.

1.

Arthur ni wnelai wyrthiau
Hyfawl iw tardd fel y tau,
Dy ddoniau yw'n diddanwch;
Daw'th fryd fal tywynbryd tes
I dy fîn o dy fynwes;
A gorhoff les y gwir ffwch.

2.

Gwir ffwch o argelwch gwâr,
Hywir enaid yw'r heiniar,
O'th lafar ethawl ofydd;
Ni welir i'n tir un teg
Yn chwennych rhinwedd 'chwaneg,
Na'm Ior chweg iw ddi-freg ddydd.

Dafydd o'r Nant, i Syr Rhisiart Bassed o'r Bewpyr, a'i cant.

Arall, Pennill Deufann Hyppynt ar y Lefn Gyhydedd, a Llost ar y Gyhydedd ferr.

Pwy yn nail y Pannelau*
A gan mor ber ei genau,
Pyngciau pencerdd,
Ni cheir llef dan nef un aingc
Na chan gyffelyb i'w chaingc
Purgaingc pengerdd.

Meyryg Dafydd a'i cant, i'r Eos.

Llyma ddull arbennig ar bennill, sef Tribann boniaid ar y *Gyhydedd Lefn,* ag yn ymddal ar Accen Wastad ddisgynnedig,

---

* Pannelau, LLEOEDD gobant lled isel, oddiwrth y gair Pant.
Iolo Morganwg.

Digitized by Google

a Llost ar y Gyhydedd Drosgl ag Accen Wastad dderchafedig, fal hynn:

Mae'r gog yn ber laferydd
A'i miwsig yn y meysydd,
A gwenu y mae'r gweynydd
    Dann dywydd hirddydd hâf,
A'r gerdd yng nghaerau gwyrddion
Y tir, gann fwyeilch taerion,
Llawenydd pyngciau llawnion
    Y don hyfrydlon fraf.

Charles Dafydd Meredydd.

[Rhyw ddull a hynn ar bennill a elwir yn gyffredin Mesur Can Calanmai, ag aml a'i arferir.]

Pennill Deufann Hyppynt ar y *Gyhydedd Lefn*, yn gywydd-odl, a Llost ar y *Gyhydedd Draws*.

Y cneuwydd occo'n hoywon,
Irliw frig ar ael y fronn;
    Ag adar mwynion lwysion leisiau;
Tes hyd ganol y dolydd,
Pob llwyn a phob gwasgwyn gwydd
    A glyw lawenydd gloyw o lwynau.

Morgan Gruffudd a'i cant.

Pennill ar y *Gyhydedd Wastad* a Llost ar yr *un gyhydedd*, pob bann yn ddisgynnedig.

Elor gulwys eiliw'r golau,
Un a gwiniaith yn ei genau,
    Rhy fwyseiriau ar fesuriaeth;
Can eoslais mewn cynneslwyn
Sy'n ei gwynwaith, sain y gwanwyn,
    Eön addwyn awenyddiaeth.

Rhisiart Ionwerth a'i cant, i Elor goch [Farddes. I. B.]

Arall, Deufann Hyppynt ar y Gyhydedd Wastad, a Llost ar y Gyhydedd Lefn.

Y mae gorhoff Em a garaf
O gof aelaw ag a folaf,
    O choeliaf gael ei chalon:
Am na welais i mynn Elien,
O Lann Urfyl i Lyn Aerfen,
    Wawr mor wenn o'r morwynion.

Dafydd ap Edmund a'i cant.

Arall, Tribann Hyppynt ar y *Wastad Gyhydedd*, a Llost y *Gyhydedd Lefn*.

Serch y rhoddais ar chwaer addwyn
Y wenn Fair neu Anna forwyn,
Un a gwarllais yn ei gorllwyn,
    Wenn fwyn, yr wyf yn fynych;



Digitized by Google

Hoywdwf irwenn tro dy fwriad,
Oer yw 'nghwyn, ystyria 'nghaniad,
Rho cyn bo hir, a gwir gariad,
Imi dyniad o'm dunych.

Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.

Arall, Pedryfann Hyppynt ar y Wastad Gyhydedd, a Llost ar y Gyhydedd Lefn.

Y Bardd odiaeth; ebrwydd ydoedd,
Ucha'i fawl yn ddrych i filoedd;
Y blaen oedd yn ein blynyddoedd,
Iawn olreiniai'n fanol rinoedd
Hen oesoedd, a'u hanesion;
Doeth ei fin, da iaith ei fannau,
Yn hyawdlaidd e wnai odlau,
A gwin ydoedd ei ganiadau;
Enwog oedd yn ei gywyddau,
Am leisiau tra melusion.

Edward Dafydd a'i cant, ym Marwnad Llywelyn Sion o Langewydd; ag yn unddull a hwnn y gellir ar bob cyhydedd arall, a deallir yr un peth am bob rhyw arall o bennill Hyppynt.

Arall, ar y Gyhydedd Draws, Tribann Hyppynt, a Llost.

Perach na mel oedd cainc y delyn
A'i sywgan loywlais gann Lywelyn;
Cwrs oedd ddilesg, cerais ei ddilyn,
A'i hynod erfyn yn y dyrfa;
Yn awr o'i golli blin yw'r gwallon;
Dwys yw'r oerwaedd, nid oes yr awrhon,
Un lledrith mwyniant, na thant na thôn,
Ym myd o ddynion a'm diddana.

Siams Tomas, ym Marwnad Llywelyn ab Hopcin, delynwr.

Arall, Deufann Hyppynt a Llost ar y Gyhydedd Wenn.

Rhagorodd ef y gwiw hygar Ddafydd;
I'w geinwych awen gwnai gan a chywydd;
Hoffai lawenydd diffael iw einioes;
Diwall y cydiai a'r deall cadarn;
Cyweirgof winfardd carai gyfiawnfarn;
Yn fwyn ddiwagfarn ei fonheddigfoes.

Siams Tomas a'i cant, ym Marwnad Dafydd Llwyd Mathew.

Arall, Pennill Deufann Hyppynt ar y Gyhydedd Wenn a Llost ar y Draws Gyhydedd.

Y Dyn tra gwrol wyt un trugarog,
Gwiliadur ini, a gwladwr enwog,
Ag un ardderchog iawn hardd orchwyl;
Hynod o iawnlwyth wyd yn dy wennwlad,
Yn eurlyw cywrain yn arail cariad,
A goreu Ynad y gwir Anwyl.

Meyrig Dafydd a'i cant, i Syr Edward Lewys o'r Fann.

Digitized by Google

Pennill ar y *Gyhydedd Laes,* deufann Hyppynt a Llost.

**Rhoddais fy nghas ar iaith Henwas chwerthinog,**
**Ymrennais erioed a morwyn siaradog,**
**A gwr celwyddog, un twyllgar cywilyddus.**
**Gwaetha cyfeillach fal bustach yw Bostiwr,**
**A ffiaidd i'w thradwyll yw ffydd Athrodwr,**
**Draig yw a noddwr y drygau anweddus.**

**Bleddyn Sion o Lancarfan a'i cant.**

Pennill Tribann Hyppynt ar y Gyhydedd Laes, a Llost ar y Gaeth.

**Teccaf rhag arall yw'm diwall flodeuyn,**
**Balchder pob Llannerch yw'r hyserch wiw Rosyn,**
**Rhywfwyn yi gwelaf yr haf yn ei galyn,**
**Gemmyn digymmar.**

**Yngngardd Gwenrïain lle'n gywrain agorodd;**
**Ei arogl o'i lwyn yn fwyn a'm nwyfiannodd;**
**Hwylai'm cain arfaeth, ei fawl a'm cynhyrfodd;**
**Llifodd i'm llafar.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, deufann boniaid a Llost ar y Gyhydedd Hir.

**Mae dynion dann awyr disynnwyr a sennant**
**Y gwr iawn ei fywyd, y gwirion hwy feiant,**
**Eu llid a dywalltant, a gyrrant eu gorau:**
**Y mae rhynn i'w cylla, ie mawr iawn eu colled,**
**Bod rhydd yn un wedd i'r dyn hywedd diniwed**
**Yr heol i gerdded a gweled y golau.**

**Dafydd Williams, sef Dafydd o'r Nant, a'i cant.**

Arall, Tribann Hyppynt ar y Gyhydedd Hir, a Llost ar y Gyhydedd Drosgl.

**Llawenydd fy llonaid i'm enaid dymunais,**
**Awenydd ei geiriau tra gwinaidd a gerais,**
**Hoff erddi drwy 'mywyd ei ffyrdd a dramwyais,**
**Bwriadais ei brydwaith;**

**Mi wëaf yn gysson Iaith honn yn waith hynod,**
**A minnau'n dda ddewrfardd a'm enw yn ddiddarfod;**
**Cael olrhain yn fflwch ei dirgelwch o'r gwaelod**
**A'i gwybod yw'm gobaith.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

[Llyma rywiau amrafaelion ag arbennigion ar *Hyppynt* neu *Lostodyn,* herwydd Barn a Defod *Beirdd ag Athrawon wrth Gerdd Morganwg.*]

Digitized by Google

**Pennill deufann Hyppynt ar y *Gyhydedd Hir*, a'r Llost cyntaf yn dderchafedig accen o barth odl ar y Gyhydedd Wastad, a'r Llost arall ar y Gyhydedd Draws, ag accen yr awdl yn ddisgynnedig.**

**O dere fy Meinwen, briw dur yw fy mynwes;**
**Nad immi'n hir gwynfan fy ngwiwlan angyles,**
**Gwna les im' liw tes am ael twyn;**
**Gwel eurwawr hynawsder, galaru 'rwy'n wastad,**
**Can boenaidd o'm dunych, cwyn beunydd am danad,**
**Rho gariad yn daliad adolwyn.**

**Morgan Gruffudd a'i cant.**

Arall, amrafaelryw herwydd y Llostau.

**E ddarfu'r llawenu, bu ddirfawr y llynedd,**
**Yn oeri mewn heiniau, 'ddwy'n awr i'm anhunedd,**
**Rhaid gyrru pob maswedd o'r diwedd ar daith;**
**I'm rhynniant 'wy'n egwan, mae'r henaint yn agos,**
**Rhaid delwi'n ei oernych, rhaid wylo'n ei hirnos,**
**Och! ddunos! ag aros ei guriaith.**

**Morgan Gruffudd a'i cant.**

Arall, amrafaelwedd.

**Yn rhwydd y mwyn Dduw, bu'n ei rodd i mi'n ddiwg**
**Ag aros a ges ym Mro gynnes Morganwg,**
**Lle bach yn fy ngolwg yw drwg yn ei drais;**
**Mi ofnais yn fawr fyn'd yn gurfawr o'm gorfod**
**I wlad gas y Saeson, hudolion diwaelod;**
**I dwrr y du waeboen, i dir y diwybod;**
**Plant athrod a milod y malais.**

Arall, amrafaelryw.

1.

**Mae miwsig mewn gwigau,**
**Mae dail am y dolau,**
**A llwysion yw'r llysiau,**
**Ail gemmau'n ael gwaen,**
**Ceir tes i'n cynnesu,**
**A Gwanwyn yn gwenu,**
**O beutu**
**Mae'n glasu mewn glwyswaen.**

2.

**Cawn eos mewn closydd**
**Yn fawrwych laferydd,**
**Fal gwin ym min mynydd**
**Yw'r hedydd yr haf,**
**Cawn dywydd cain dawel,**
**Nid tawch, na gwynt uchel,**
**Nag oerfel,**
**Nag awel y gaeaf.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

Digitized by Google

Ag fal hynn yn gyfochrodl, heb gynnal cynghanedd ar y bon fannau.

**Duw par ini ddynion**
**Iawnddeall d' ofynion**
**A chadw dy orch'mynion—(yn dynion a doeth,)**
**Fal byddom rinweddol**
**Drwy garu'n fucheddol**
**Bryd heddol——(a gweddol dyb gwiwddoeth.)**

**Samuel Jones a'i cant.**

Arall ar yr un ddosparth, *(a'r pennillion a ddangoswyd diweddaf)* a'r bonfannau yn ddigynghanedd anghyfochrodl, ag nid bai y cyfryw ganu ar unrhyw fesur adlaw a ddelo'n gyfoll neu mewn rhann fawr o'r *mangyhydeddau,* gann amled y dychwelant yr odlau ernynt, ag nis craffa'r clust nemmor ar gynghanedd gyda gwrando aml odlau; ag hefyd, nid hawdd cynnal synnwyr a dychymmyg rywiog ar y man-fannau, sef y rhai ar y *gyhydedd ferr,* a'r *gaeth,* a'r *drosgl,* gyda chynnal cynghanedd *(ar yr holl fan golofnau)* ag am hynny digon yw cynghaneddu'r llostfannau sy'n arwain y brifodl fal hynn:

**Y gog o las Ddyffryn,**
**Y fwyalch o'r Coedfryn,**
**A'r Eos o'i llwynyn yn syddyn y serch;**
**Cai rhain yn Latteion**
**Pob un a fydd foddlon,**
**A rhadlon yt anfon at Wennferch.**

Arall, a'r bonfannau'n *Broest cadwynodl.* Chwilied y Celfydd.

**Duw o'r nef wyd Ior i ni,**
**Da'th gawn yn llawn ym mhob lle,**
**Heb unlle nad wyd Bennllwydd;**
**Carwr rhad a'n Tad wyt Ti,**
**Canaf dy glod wiwnod we,**
**Yn fore'r gerdd gyfarwydd.**

**Dafydd Edward a'i cant.**

Arall, amrafaelryw'n Gadwynbroest fonfannau.

**Mann lle chwardd y Bardd yn ber**
**I'w iawn barch a'i awen bur,**
**Mewn gwlad adeilad ar dir**
**Ni welir gwnn o'i olwg:**
**Nid ail, nid un Sail dan ser,**
**A'r Plas gwyngalch i'w falch fur,**
**I loywdy'r serch blodau'r sir,**
**Mawr genir ym Morganwg.**

**Dafydd Llwyd Mathew a'i cant i Blas y Fann.**

Arall, a Chadwynodl ar y drydydd fann a'r ddwy gangen, yn arbennigryw osodiad. *(Chwilied y Cynnilfardd.)*

Digitized by Google

**Mae hardd annedd i'm awr ddinych**
**Hoywfwyn fann lle'dd af yn fynych;**
**Goreule gwych, gorel Gwydd.**
**A dedwydd le godidog;**
**Ar amseroedd gwau'r mesuron**
**Wyf hyd lonydd glosydd gleision**
**I'r eilio'r don treulio'r dydd**
**Mewn dolydd mannau deiliog.**

**Thomas Lewys a'i cant.**

Arall, Cadwyngyrch foniaid. Arbennigryw amrafael.

**Hoff yw irwawd a phraff araith**
**Y mro gain, y Gymraeg winiaith;**
**Ei llif euriaith, a'i lleferydd,**
**Haelwych Awen Odl a Chywydd,**
**A'r-deunydd o fryd hynaws:**
**Ag o'i lliaws yn gall hywaith**
**Gwëa'n burffawd y gan berffaith,**
**Aml eonwaith mal awenydd**
**Hygar bennill a geir beunydd**
**Ar hoywydd gann yr Eos.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

Arall, Cadwyngyrch Ganghenau'n amrafaelryw,

**Ni wasgerais ond naws cariad**
**A gwar ganiad gwir ogoniant**
**Neued berais nad a'i bwriad**
**Senn i'm eiliad ond sain moliant**
**Y mwyniant sy' ddymunawl,**
**Geiriau siriawl hygar siarad**
**O fawl diwad a flodeuant,**
**Can y dwyfawl i'w cain dyfiad**
**A chall goeliad serch lle'i gwelant**
**A garant yn ragorawl.***

**Dafydd Williams a'i cant.**

[Llymma ddangos triarddegryw ddull ar hugain, ar fesur *Llostodyn* neu Hyppynt, herwydd Cyhydedd, Odl, a gosodiad, ag eraill bethau; a llawer hyd at aneirifder mwy a ellir o foddion a rhywiau pennill neu fesur ar y golofn honn. Gwelir wrth hynn cynnrych eglur o'r peth a ellir ar lawer iawn o'r colofnau eraill o barth pennill; ag o'r ffolineb digymmar a welir yn y rhai a baerant yn oferfarn a diddysg, y dylit caethu'r Farddoniaeth Gymraeg yng ngharchargylch pedwar unigfodd ar hugain ar Bennillion Cerdd, er cyfiawn ganiadaeth, ag wrth

---

* Gellir dodi hwnn ym mhlith y Cynghogion yn hyttrach na than Ansawdd Llostodyn, am ei fod yn dwyn ynddo'n gyfun Ansawdd Llostodyn a Chadwyngyrch, a phob un o henynt yn gwbl a pherffaith yn y pennill hwnn. IOLO MORGANWG.

Digitized by Google

hynny yn llwyr ymwrthod a chanoedd o'r rhywiau a'r moddion mwya caniadaidd ag awenllais ar a ddichon fod ar Gerdd mewn un iaith. A hynn yw ffolineb y rhai a lwyr lynant wrth ddosparth ofersarn Caerfyrddin ar Gerdd Dafod.]

# RHEITHIAD XX.

## COLOFN ADLAW XI.

### LLAMGYRCH, NEU AWDL DDWYBIG, NEU FFORCHAWDL.

LLAMGYRCH, neu *Awdl Ddwybig*, yw mesur a dull ar Bennill a wneir a thair cangen; ag o'r tair, bernir y gyntaf a'r drydedd yn Bennogiaid; a rhai a'u galwant y ddwy *Asgell;* a'r ail gangen sef yr un ganol a elwir y *Llam;* sef y bydd yr *asgell* gyntaf a'r olaf yn unodli a'u gilydd, ag yn arwain y brifawdl; a'r un gyntaf o'r ddwy *asgell* yn llammu, mal pei dywedid, dros y gangen ganol i gyrchu'r brifodl ar yr *asgell olaf:* a'r Llam, sef y rann neu'r gangen ganol, a fydd yn amrafaelodl ar y *ddwy asgell;* ag ar hynn o ddull ar bennill ag odl y saif ansawdd angen y mesur, a'i fraint yw canu ar yr un a fynner o'r *naw Cyhydedd;* etto bernir y tair Cyhydedd byrreifion yn afrywioccach na'r chwech eraill; bannau'r *Llam*, sef y rhann ganol, a fyddant ddau o leiaf, ag aid mwy na chwech, a'u cynnal ar yr un a fynner ai'n unodl au gilydd ai'n frithodl: a chyrch a fydd rhwng yr asgell gyntaf a'r Llam, a rhwng y Llam a'r ail asgell, neu'r diweddrann; eithr gwelir ar rai brydiau esgeuluso hynn yng ngwaith Beirdd awdurdodol. Cenir weithau'r gyhydedd gotta ar hynn o fesur yn y rann ganol, a'r orlhaes yn yr un rann, a hefyd, o bydd achos, yn yr Esgyll; ag o arfer y tair cyhydedd fferraf, rhaid ei bod gann fwyaf yn y canol, neu'r *Llam*. Bydd weithiau'r Pennill i gyd ar fannau cyfunhyd; ag weithiau ar rai anghyfunhyd; eithr gofaler cynnal rhywiog lithrad ar hynn o fesur, (ag ar bob rhyw fesur arall,) o un gyhydedd i'r llall; sef i arall amrafael; ag na bo gormodd yr anghyfartalwch rhyngddynt: ag yn y rhai'n bethau y saif *angen* a *braint* y mesur.



Digitized by Google

*Pennill cyfunhyd-fannau,* fal hyn:

I'n Duw Iesu oen dewisawl
Y gwnewn Feirdd gan fo urddawl
Ag iawn yw mawl genau melus
I'n Ior nefol yn air nwyfus,
A sain weddus awenyddawl,
O fwriad ffydd bob dydd heb dawl.

Thomas Lewys a'i cant.

Arall, *anghyfunhydfann.*

Y ty mawr a'r to mirain,
Ty tegwedd a'r cyntedd cain;
Cywrain yw caerau
Y Plas, mawrblas mau,
A'i dyrau'n haul y dwyrain;
A grym dur yn y mur main.

Hywel Dafydd ap Ieuan ap Rhys a'i cant, i Blas Rhaglann.

Arall.

Rhiain o Lundain landeg,
Llawena dyn a'i lliw'n deg;
Gwae o'm breg im bronn
O'i gweled, blin yw'r galon,
Lliw'r ewyndonn, lloer wenndeg,
Ei gwen y sydd fal gwin seg.

Sion Padam a'i cant.

Arall.

Milwr wyd a mawlair hedodd
Yd trwy fyd, pawb a'i trafododd;
Mawl dwyfawl dyfiant,
Y gerdd ar draed gant,
Trwy foliant trafaelodd.

Dafydd Williams a'i cant, i Syr Rhisiart Bassett, o'r Bewpyr.

Arall.

Ni bu adeilad bywydolion,
Na tho muriau, na thai mawrion,
Ni bu ryw seilwydd, bu o ras haelion,
O dderi o'u byd ar y ddaear honn;
Ni bu ag ni bydd
Y rhyw waith ar wydd.
Yr hwnn ni dderfydd na'r dydd na'r donn.

Lewys Morganwg a'i cant, i Fonachlog Glynn Nedd, (amser Harri'r Seithfed.)

Arall.

O dos yn gennad hyserch
Sywiaeth Linos o'th Lannerch;

Digitized by Google

Hed yn fwyn
O dy lwyn,
Ar draws y tir dros y twyn,
At addfwyn bert hyweddferch,
Eurfoes wiw lle mawr fy serch.

Lleision Ifan a'i cant.

Arall.

Y gog draw'r wyt ti'n llawen,
A gwingi ar flaen y gangen,
Dann wên haulwen mewn helig,
Yn mesur ceinciau miwsig;
Ag eurddoeth big, rhoi gerdd o'th benn
Yn gywydd serchog awen,
Ar dwr dy blas, briglas brenn.

Slon Dafydd Morys o Went a'i cant.

Arall.

O mynni ystorio mynwes dwyrain,
A'r arfer a wyr Eryr ar Frain;
Tro wayw at yr ais
O'th ddwrn a'th harnais,
Trech yw na malais Trychann Milain.

Gwilym Tew a'i cant i Edmwnt Malffawnt (yn amser Owain Glyndyfrdwy.)

Arall, a'r canoliaid fannau yn brithodli.

Dau heliwr calonnog hy enwog eu hanian;
Dau chwarwr pel cefnog dro bywiog a buan;
Dau geiliog glan di giliaw,
Dau llewaidd medrusaidd draw,
Dau hylaw da eu helynt,
Dau enwog iawn, dinag ynt;
Dau faeddwr y gwynt fal rhyw gorwynt y gyrran'.

Dafydd Williams a'i cant i ddau fab Mr. Sion Bwttwn,

[Ag aneirif iawn yw rhywiau, o barth gosodiad, ag eraill bethau, ar fesur *Llamgyrch*; ag nis gellir pellach addysg na hynn, eithr gadael i farn awenbwyll y Bardd dysgedig mewn perthynas i amgen amrafaelwedd foddion na hynn o rai dangosiedig.]



Digitized by Google

# RHEITHIAD XXI.

## COLOFN ADLAW XII.

### CADWYNGYRCH.

CADWYNGYRCH yw mesur a wneir â phedair braich yn hynn o fodd, ysef rhaid iddynt gadwynodli y fraich gyntaf yn unodl a'r drydedd; a'r ail yn unodl a'r bedwaredd; yr ail a'r bedwaredd fraich yn amrafaelodl ar y fraich gyntaf a'r drydedd; ag yn arwain y brifodl; a chyda hynn rhaid yw bod cyrch unodl rhwng bann a bann; sef y bydd yr orphwysfa ar yr ail fann yn unodl a gobennydd y bann cyntaf; a gorphwysfa'r bedwaredd fraich yn unodl a gobennydd y drydedd; a hynn a gwblha'r mesur; a bydd o hynn, o barth cyrch ag o barth odl, yn cydymgadwyno; ag o hynn y tyf ansodd y mesur o gyssefin angen a rheidioldeb; a'i fraint yw canu'n rydd-bwyll ar y gyhydedd a fynner o'r *lefn* i'r *hir*. Barn rhai yw nas dylit ymarfer ag amgen o gynghanedd na'r groes rywiog a'r gadwyngyrch; eraill yn Feirdd dysgedigion ystyrbwyll ag awenfarn a farnant y gellir canu, ag ymarfer a phob rhyw gynghanedd ar gadwyngyrch.

[Llymma bethau iddeu hystyried a'u cofio ar gadwyngyrch.

1. Gocheler ar odlau gobennydd y bannau rhag eu bod yn proestodli ar wedd Cadwynbroest, am y per hynn dwyll gynghanedd o broestiad, a bai yw.

2. Rhaid bod yr accen yn lledwastad, eithr nid felly'n llwyr, ar y bannau, er cynnal caniadaeth rywiog.

3. Nid rhaid cynnal cyfochrad ar yr odlau, fal y beirn *Dafydd ap Edmwnt*, ag eraill, herwydd defod a barn Gorsedd Caerfyrddin; eithr rhydd yw ymarfer ag odlau cyffredinion, a goreu ydynt ar hynn o fesur, gann fod cyfochrodlau gann eu hamled ar y mesur hwnn, yn trallenwi'r clust ag unsain, ar wedd can y Gwccwg, ag felly'n gorflino'r clyw ag yn camarwain y gwrandawiaeth; etto, lle bo dewis cyfochrodli, nis gellir ei farnu yn fai gann ei orchestoled parth celfyddyd.

4. Rhai'n Feirdd celfyddbwyll a wnant orphwysfa'r drydedd fraich ar gadwyngyrch yn unodl a gorphwysfa'r fraich gyntaf yn lle cynnal cyrch unodl rhwng gobennydd yr ail fraich a gorphwysfa'r drydedd; ag wrth hynn, meddir, y gochelir gor-

modd odlau yn ymsathr eu gilydd, yn anfoddhau clust a chlyw ar y mesur, a hynn a gadwyna'r bannau yn eu lleoedd priodol, yr un cystal; ag unfarn wyf a'r Beirdd hynny.

5. Barnant *Feirdd wrth addysg Gorsedd Caerfyrddin* y dylai fod y sill cyntaf o'r fraich gyntaf a'r gadwyngyrch yn unodl a phrifodl y pennill; eithr gwagorchest oferbwyll yw hynn o beth, o wannbwyll celfyddyd, ag ofer ddyehymyg, a diffrwyth grebwyll; am hynny nid ymgeisiant FEIRDD MORGANWG a'r cyfryw ddistadledd o waelgamp celfyddyd, *(neu o leiaf nis cyfrifant yn beth anhepcor.)*

6. Nid oes aml ganu ar gadwyngyrch gann gaethed lle'r synnwyr a'r crebwyll ynddo herwydd amled odlau, ag eraill bynciau arno.

7. Pennill Cadwyngyrch a fydd weithiau'n gyfunhyd y bannau, ag weithiau'n anghyfunhyd: ag nid barn ar hynn o beth, eithr o barth awen a chrebwyll, a theimlad clust ar y ganiadaeth.

Pennill anghyfunhydfann ar y gyhydedd lefn a'r gyhydedd wastad cyflwyr gadwyngyrch.

**Aeth y gerdd ar feth i gyd**
**Yn y gweryd y mae'n gorwedd;**
**Mae'n y bedd, nid mwy'n y byd,**
**Un a gyfyd can o'i gwaefedd.**

**Dafydd Williams a'i cant ym Marwnad Morgan Gruffudd.**

Arall, cyfunhydfann ar y gyhydedd wastad, a'r unrhyw a'r un o'r blaen o barth cyrch.

**Oer yw dylud oriau dolur,**
**A thrwm echur, uthr yw'm achwyn;**
**Yma'n llamddwyn min y llymddur,**
**Anaf oergur a wna fawrgwyn.**

**Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.**

Arall, a'r Gorphwysfäodd ar y fraich gyntaf a'r trydedd yn unodl, a'r sill gyntaf o'r fraich gyntaf yn unodl a'r Brifodl.

**Onnen wyra dann wn Urael**
**Yn derchafael yn dra chyfiawn,**
**Ar lun Adda, wawr lunieiddael,**
**Y bu'r wasael i'r brywysion.**

**Gwilym Tew a'i cant, i Fair o Benn Rhys, (Dull Gwilym Tew y gelwir hwnn, a Dull Penn Rhys, am mai efe yno a'i cenis gyntaf.)**

Arall.

**Ym marwolaeth mae mawr elwant,**
**Goreu ffynniant yw gorphennu**

Digitized by Google

Einioes alaeth, lle nis seiliant
Neb ar foddiant a'i bur feddu.

Dafydd Williams a'i cant, ar garreg bedd.

Arall, ar y *Gyhydedd hir.*

Anffeled y sorriaith, a ffoled y siarad,
Yw'r geiriau anynad a'r gerwin awenu
A welaf o'r canu yn waelfai'r Acceniad;
Ias anfwyn y triniad, y senn fo'n trywanu.

Samuel Jones, Offeiriad, (o Frynn Llywarch,) a'i cant.

Arall, Amrafaelfodd, a'r Gorphwysfäoedd ar y fraich gyntaf a'r drydedd yn unodl.

Diweddan au dylud y dyddiau'n dawelion,
Yn gywair a mwynion o garu amunedd,
A hynn ydyw golud tra hynod y galon,
Y moethau ciwaelion sy'n maethu duwioledd.

Dafydd Williams a'i cant.

Arall, Cyfochrodl, o wir wanbwyll gorchest, a gormodd odlau ynddo, chwilied y cynnil.

Naf ysgolion Nef wisg heiliawdr,
Erdda Seiliawdr urddasolion;
Oen urddolion yn aur Ddeiliawdr,
I Fair Seiliawdr fu rasolion.

Lewys Morganwg a'i cant, i Leision Abad Glynn Nedd. [Yng nghylch y flwyddyn 1500, neu'n ebrwyddach rywfaint, f'allai. E. W.]

*Llymma Bennill Cadwyngyrch ar wedd a dull newydd, a ddychymmygwyd gann Feirdd Morganwg, sef Pennill chwebann, y fraich gyntaf yn unodl ei obennydd; a'r bedwaredd a'r ail yn unodl a'r bummed; a'r drydedd yn unodl a'r chwechfed; ag yn arwain y brifodl: ag yn hwnn gwelir fod yr orphwysfa yn y bedwaredd fraich yn unodl a gorphwysfa'r fraich gyntaf, fal hynn:*

Wyd y siarad 'rhyd y siroedd,
Ior niferoedd Eurnaif arail;
Doeth o wirsail wyd i'th orsedd;
Irair Ynad ar werinoedd,
A'i weithredoedd yn uthr adail;
Un a gynnail iawn ogonedd.

Dafydd Williams a'i cant, i Syr Rhissiart Bassed o'r Bewpyr.

(Gweler bod nid yn unig gorphwysfa'r cyntaf a'r pedwerydd o'r bannau yn cyfodli, ond bod yr un cyfodli rhwng yr ail a'r bummed, a'r trydydd a'r chwechfed ar eu gorphwysfäoedd. Ieuan Tir Iarll.)

Arall, deublyg, ar wedd newydd Beirdd Morganwg, chwilied y celfyddgar, trech gorchest na gorchwyl,

(Medd Edward Dafydd, am a gant ef ei hunan.)

Digitized by Google

**Mwyn ei nwydau, Meinwen ydwyd**
**A wir garwyd am ragorau,**
**Ag awenau y da ganwyd,**
**Wir a nyddwyd i'th rinweddau;**
**E'th enseiliwyd, a thann selau**
**Haulwen olau, 'th ail ni welwyd;**
**Do! f'addolwyd dy feddyliau**
**A'th fèl enau'n faith foliannwyd.**

**Edward Dafydd a'i cant i'r Arglwyddes Mansel o Fargam, a gormodd odlau yn fai arno, ag nis gellir amgen (gyda'r cyfryw ymorchestu.)**

Llymma ddull ar Gadwyngyrch, lle bydd yr ail hanner o'r Pennill yn tyfu o ansawdd Hyppynt neu Lostodyn, parth dull gosodiad, eithr yn tyfu hefyd o ryw Cadwyngyrch drwy fod y bonfannau yn y ddwy asgell, neu'r ddwy gangen yn cadwynodli, sef y bonfannau yn yr ail gangen yn unodli a'r bonfannau yn y gangen gyntaf, a'r Llost yn gyfun a phrifodl y Pennill, ag ar y pennill ymma gweler hefyd ffordd o ganu'n gyfochrodl; yr hynn y sydd o gyfrifaeth yn un o briforchestion caniadaeth.

**Ti wiw noddaist awenyddion**
**A defnyddion ei dwfn addysg;**
**A da rhoddaist radau rhyddion**
**I gilyddion y goleuddysg.**

**Dy garyddion**
**Yw Prydyddion**
**Aur Ieithyddion**
**Irwaith hoywddysg;**
**Cai'n newyddion**
**Gan d'ofyddion**
**Fel gywyddion**
**Yn fawl gwiwddysg.**

**Edward Dafydd a'i cant, i Syr Rhissiart Bassed o'r Bewpyr.**

Arall o'r unrhyw agos parth gosodiad y bannau, eithr yn amrafaelu ychydig parth trefn yr odlau cadwynog, sef nad ydynt yn unrhyw ar fonodlau canghenau'r ail hanner o'r pennill, ag odlau'r cyrchgadwyn ar yr hanner cyntaf; ag ar hynn o bennill gweler bod y sill cyntaf o'r fraich gyntaf yn unodli a phrifodl y pennill; yr hynn beth ym marn rhai a ddylai fod; eithr barn oferwag yw hynny, ag nid oes un peth anhepcor ar unrhyw fesur o'r byd ond a dyfo'n wreiddiedig o wir angen y mesur; yr hynn beth, o fod hebddo, a wnelai'r mesur yn ddiffrwyth, o'i fod heb ddwyn arno nod ei briodol ryw parth angen a neillduoldeb arbennig, wrth fesur arall.

**Onid rhyfedd, blin eu trafod,**
**Och! anafod a chynnifion;**
**Drygau cyfedd drwg yw cafod**
**Geiriau 'i dafod i'r gwyr dofion;**

Digitized by Google

E bair fradau
Ag oernadau
Ymlanwadau
Aml anudon;
Ffol siaradau,
A'i rethiadau
Ar fwriadau
Yr afreidion.

Edward Dafydd a'i cant (achos clywed dadwrdd mawr myrwyllt uch benn diod yn y Bewpyr, amser yr Eisteddfod fawr yno. J. B.)

Llymma ddau bennill a ddangoswyd o'r blaen ar gynnrych yn Nosparth *Hyppynt*, ag ef a'u rhoddir ar glawr ymma am eu bod yn ymgyfrannogi yn ansawdd angen *Cadwyngyrch*, fal y gwel y Celfydd o'u chwilio.

Heff yw irwawd a phraff araith
'Y mro gain, y Gymraeg winiaith;
Ei llif eiriaith a'i lleferydd,
Haelwych Awen Odl a Chywydd,
A'r deunydd o fryd hynaws;
Ag o'i lliaws yn gall hywaith
Gwëa'n burffawd y gan berffaith;
Aml eonwaith mal awenydd
Hygar bennill a geir beunydd
Ar hoyw-wydd gann yr Eaws.

Dafydd Williams a'i cant.

## Y llall.

Ni wasgerais ond naws cariad
A gwar ganiad gwir ogoniant,
Neued berais nid a'i bwriad
Senn i'm eiliad ond sain moliant,
Y mwyniant sy'n ddymunol;
Geiriau siriol hygar siarad
O fawl diwad a flodeuant
Can y dwyfawl i'w cain dyfiad
A chall goeliad serch lle'i gwelant
A garant yn ragorol.

Dafydd Williams a'i cant.

---

# RHEITHIAD XXII.

## COLOFN ADLAW XIII.

### ENGLYN.

ENGLYN yw un o'r mesurau mwyaf ar arfer o'r holl rai Cymreig, ag ef a wneir drwy ossod banni neu fannau ar yr un a fynner o'r *ddwy Gyhydedd* hynn, ys ef y *Lefn* a'r *Wastad*,

Digitized by Google

yng nglyn a *Thoddaid Cwttu*: a *Thoddaid Cwtta* a fydd fal hynn; ys ef y bydd o ddeufann anghyfuwhyd; y Bann cyntaf ym mhob peth yn unrhyw a'r cyntaf ar y *Toddaid Hir*, sef yn ddegsill, ag arno y bydd *Gwant* a *Rhagwant*, a *Gobennydd* yn arwain *Prifodl*, a *Gair Cyrch;* a'r *Gwant* a fydd ar yr un a fynner, neu a weddo'n oreu, o'r pedwar sill cyntaf, o'r bann, a'r *Rhagwant* a fydd yn wastad ar y *bummed sill;* a'r *odl* a fydd yn yr un a fynner, ai'r *seithfed*, ai'r *wythfed*, ai'r *nawfed sill;* a'r *Gair Cyrch* a gwblha'r bann; yn diweddu yn y *ddegfed sill;* ag a fydd, yn ol y bo lle'r *Prifodl* o'i flaen, yn *drisill*, yn *ddeusill*, neu yn *unsill;* ag fel hynn y dosperthir y bann cyntaf, a'r ail fann a fydd yn chwesill ei hyd; a'r cyrch at ei orphwysfa o'r bann cyntaf; a hynn a fydd o ddeufodd; un modd yw *cyrch unodl;* sef y bydd gorphwysfa, neu orphwysair, yr ail fann yn unodli a'r gair cyrch yn y bann cyntaf, ag yna rhaid bod croesgynghanedd ar yr ail fann; a modd arall ar y cyrch a fydd, pann fo'r *gair cyrch* yn *croesgynghaneddu* a'r rhann gyntaf o'r ail fann, ag yna bydd yr ail fann yn bengoll gynghanedd yn ei rann olaf; ag nid bai hynn ar *Doddaid Cwtta*: a bai yw *Cynghanedd Bengoll* ym mhob mann arall, ar ba ryw bynnag arall o fesur y bo: rhaid i'r ail fann o *Doddaid Cwtta* ddiweddu'n unodl a'r bann cyntaf. Ag o'r *Wenn Gyhydedd* y daw'r bann cyntaf, a'r ail a ddaw o'r *Gyhydedd Drosgl.* Ag ammherffaith a diffrwyth yw *Toddaid Cwtta*, ar ei benn ei hunan, ag nis gellir mesur neu bennill o hano ei hunan, eithr o rhoddi eraill golofnau ar y *Gyhydedd Lefn*, neu'r *Wastad* yng nglyn ag ef, y gwneir y rhyw fesurau a elwir oddiwrth hynn o hanfod yn *Englynion* neu *Ynglynion.* Ag nis gellir cyssylltu yng nglyn ag ef amgen fannau na'r rhai a ddelont o'r *Gyhydedd Lefn* neu'r *Wastad*, gann afrywiocced y byddant bob un arall. A hynn o rywiau parth dull a gosod, y sydd ar *Ynglynion.* Ys ef,

Yn gyntaf, TRIBANN TODDAID.
Yn ail, BYRR A THODDAID.
Yn drydydd, HIR A THODDAID.
Yn bedwaredd, CYRCH A THODDAID.
A rhai a'i galwant CYRCH A CHWTTA.
Yn bummed, ENGLYN GARR HIR.

Ag nis gellir amgen na'r arbennigryw foddion a hynn ernynt yr Englynion. Ag o hynn y tyf *Ansawdd Angen* y mesur, a'i fraint a gyfyd o'r amrafael foddion ar ganu *Englyn* ar y rhain golofnau, fel y dangosir ym mlaen; nis gellir gosod dau *Doddaid Cwttu* yng nghyd mewn *Englyn* nag mewn unrhyw fesur



Digitized by Google

arall: ag nis gellir brithodli *Englynion.* Rhai a farnasant *Englyn* o barth *ansawdd angen* yn gyfunryw a *Chyngog,* eithr nid cyfiawn hynn o farn, am nas gellir cyssylltu y colofnau a fynner a *Thoddaid Cwtta,* nag unrhyw golofnau yn amgen nag yn yr arbennigryw foddion a ddangosir; eithr cyssyllter ar *Gyngog* y colofneu a fynner yng nghyd; p'un bynnag y bont ai cyssefinogion ai *adlawiaid golofnau;* ag o'r arbennigrwydd hynn ar *Englyn,* y tyf ei *angen* a'i *reidioldeb;* ag am ei *freintiau,* nid unrhyw ydynt nag unrhif a *Breintiau Cyngog;* am hynny y mae *neillduoldeb* o *wreiddiedig angen* rhwng Englyn a *Chyngog,* rhai a farnant proestodli yn *fraint* ar *Englyn;* ag nis gellir hynny ar *Gyngog.**

[*Tribann Toddaid,* a fydd pann fo bann ar y *Gyhydedd Lefn* yng nglyn a'r *Toddaid Cwtta,* ag yn unodl ag ef; fel y gwelir wrth y pedwar Englyn yma'n gynnrychiaid; a'r dull hynaf ar Englyn ydyw.

1.

**Ni chred ail Luned y leni—'y mod**
**Yn y mawr drueni,**
**Och! liw haul am ei chael hi.**

2.

**Ni rydd im undydd air mwynder—gwylaidd**
**Na golwg lled syber;**
**Eithr ystig yw'n ei thrawsder.**

3.

**Rhaid grwgnach bellach gann ballu—goddef**
**Gwae addoer o'i charu;**
**Y mae'n arth pwyll i'm nerthu.**

4.

**Canaf yn iach bach yw'r budd—a gefais**
**O'm gofal a'm cystudd;**
**Pall i nghan, a'm pwyll yng nghudd.**

**Dafydd William Dafydd a'i cant.**

Yr eilryw *Englyn* yw *Byrr a Thoddaid,* ag ef a wneir drwy gyssylltu deufann o'r *Gyhydedd lefn* ag ef, ag yn unodl ag ef; a'r ddeufann hynn a fyddant, o'u parth eu hunain, yn cywyddodli, neu'n *gwpl Cywydd;* a dull melusgerdd iawn ar Englyn yw hynn; ag ar hynn o ryw *Englyn* y mae dau ddull parth

---

* Nid iawn hynn o farn fel y dangosir mewn lle priodol. Gweler Llythyr Dafydd o'r Nant. IOLO MORGANWG.

Gosodiad bannau: 'un modd a elwir *Unodl union*, a'r *Toddaid* yn y *mann cyntaf* arno; a'r modd arall a elwir *Unodl crwcca*; ag yn hwnnw bydd'y *Toddaid* yn *niwedd* yr *Englyn*:

*Unodl Union* fal hyn; a'r *Cyrch* ar y *Groes Bengoll Gynghanedd*; fal hyn:

**Nodiad cylch cariad calch caerydd, yw Gwenn,**
**Ne ganniad ysblennydd;**
**Ne'r manod gwyn eiry mynydd;**
**Ne ffres win yn ei ffriw sydd.**

**Ioraeth Hen a'i cant.**

Arall, ar *Cyrch* ar y *Gyghanedd unodl.*

**Blinais, ynfydais yn faith, hyd fynydd,**
**Annedwydd fu'r nwydwaith;**
**Ar ol llwynog 'n wr llawnwaith;**
**Ofer a gwyllt, gwae fi'r gwaith.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, a'r *Gwant* a'r *Rhagwant* yn dderchafedig accen.

**Drwg Siaen yw dy raen fal dreinach—dy fod**
**Ar dy farch cyfeddach;**
**Dwl, bwl boen, dal y bal bach;**
**Dos gann bwyll; disgyn bellach.**

**Dafydd Llwyd Mathew a'i cant, i wraig feddw.**

Arall, a'r *Gwant* a'r *Rhagwant* ar accen ddisgynnedig.

**Trachwantu meddu gormoddion—yw'r trwch,**
**Gortrechu'r rhai gweinion;**
**A nodau pob anudon,**
**Oer wae y sydd i'r oes honn.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, a'r *Gwant* yn dderchafedig accen, a'r *Rhagwant* yn ddisgynnedig.

**Duw! rho ffydd lonydd lanwych—a fo raid**
**I'm enaid Iôr mwynwych;**
**A gobaith beriaith burwych;**
**A chred gwir, a chariad gwych.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, a'r *Gwant* yn ddisgynnedig accen, a'r *Rhagwant* yn dderchafedig.

**Llawer cywir gwir a gaiff gas—ym myd,**
**A mawr anghymmwynas;**
**Y fforddol a gaiff urddas;**
**Llawer brwnt fo'n llwyr heb ras.**

**Edward Dafydd a'i cant.**



Digitized by Google

Cynnrych a gair *Cyrch* unsill, a *Chyrch* unodl, a'r *Groes gynghanedd.*

**Dedwydd yw gwirffydd a ddwg eurffawd hedd,**
**A buchedd ddibechawd;**
**A dwyfol iaith o dafawd,**
**Gwirion galon, a bronn brawd.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, ar air *Cyrch deusill*, derchafedig.

**Tân y gwyllt anian a'm tynnodd—o'm lle,**
**A grym llid a'm gwyrodd;**
**Ynfyd mewn rhann o'm anfodd;**
**A bum edifar o'm bodd.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, ar air *Cyrch trisill*, disgynnedig.

**Mae'r Mai glwys ar bwys y berth—yn laswyrdd,**
**Yn lesawl a phrydferth;**
**Ag awen braff mewn trafferth**
**Inni'n awr a gân a'i nerth.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Rhai a ganant Groes a Thraws Gynghanedd ar baladr *Toddaid Englyn;* Cynnrych ar y Groes rywiog fal hynn:

**Prydydd wyf parod ei ddysg—i'w fwriad,**
**A'i fariaith at annysg;**
**A dirfawr y gwnaf derfysg**
**Feirdd ffol, awch marwol i'ch mysg.**

**Morgan Gruffudd a'i cant.**

Arall, Amrafaelryw.

**Llawer un lliw Eiry hynod a gerais,**
**I'm gorwyllt fyfyrdod,**
**Dewr ellyll, imi'n drallod**
**Yw serch; gwae ar ferch ei fod.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

Cynnrych ar y Drawsgynghanedd yn rannedig accen, fal hynn:

**Mae'n rhaid ufuddhau mewn rhith—dann dewi,**
**A chwerwi'n dra chyrrith;**
**I falldorf, plant y felldith,**
**Sydd yma'n dâg, plag i'n plith.**

**Edward Dafydd a'i cant, i bleidyddion Crwmwel.**

Arall, yn gyfansoddedig accen, fal hynn:

**Ceisiais ymadrodd cyson—i ganu**
**Gogoniant yn ffyddlon**

Digitized by Google

**I'r Iesu, (Car ei weision,)**
**Mawl iasdog a melus don.**

**Morgan Gruffudd a'i cant.**

## Arall, ar Draws Gynghanedd.

**O'r pridd y daethum wr pruddaf,—pridd wyf;**
**I'r pridd oer dychwelaf;**
**Prudd o feddwl, pridd fyddaf;**
**Prudd o ddyn i'r pridd ydd af.**

**Ni wn i pwy a'i cant.**

**(Thomas Llywelyn o Regoes, medd hen ysgrif yn fy meddiant i.**
**IOLO MORGANWG.)**

Rhai a ganant gynghanedd sain (neu unodl) ar baladr y *Toddaid* fal hynn:

**Blinder yw goddef cerydd—y meddwl**
**Yn ein maeddu beunydd:**
**Cydwybod, nod annedwydd,**
**Yn dynn a'n dilyn i'n dydd.**

**Jenkin Richards a'i cant,**
**(O LanfairCilgydyn, ym Mlaenau Gwent. I. M.)**

## Arall.

**Galar am ferch a serchais—heb wyriant**
**A barodd im' oerlais;**
**Mae mawr ddolur, trymgur trais,**
**A'm diwedd, gwnn, i'm dwyais.**

**Dafydd ap Gwilym a'i cant.**

## Eraill, amrafaelion gynnrychau cymmysgryw.

1.

**Croeso Gwanwyn mwyn a Mai—gemmogwlith**
**Wyd liwfrith dy lifrai;**
**Cael awr brudd, a'i lludd yn llai**
**Yw d' edrych i'th wen didrai.**

2.

**Cawn awel dawel a diwg—wybren,**
**Ag acen y Gwccwg,**
**Ag Eos, diendlos dwg**
**Ei gwiniaith i Forganwg.**

3.

**Cawn des yn gynnes i ganu—y Gerdd**
**Lle bo gwaen yn glasu;**
**Ag awen lawen gan lu**
**Difariaith i'n difyrru.**

4.

**Cawn yr haf rhadlawn ar hyd—y Meysydd**
**Can miwsig yn hyfryd;**

Digitized by Google

**Ar lwyn a phrenn bob ennyd**
**Gwenau'n ber, a gwynn ein byd.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

Ag ar a ddangoswyd o Englynion Cynnrych y gwelir agos pob dull a modd a ddichon fod ar gyfeiliad *Englyn Toddaid* parth *Gwant* a *Rhagwant*, a *Gair Cyrch*, ag eraill bethau a berthynant i hynn o fesur: ag ni nemmor waeth ba un o'r ffyrdd a ddangoswyd y caner *Englyn*.

Rhodder yn awr ar gynnrych, yr eilryw fodd a dull parth gosodiad ar Englyn *Byrr a Thoddaid*, sef y dull a elwir *Unodl Crwcca*; lle rhoddir y Toddaid ar ddiwedd yr *Englyn* yn lle bod ar ei ddechreu: ag ymma rhaid bod y *Cyrch* at eilfann y *Toddaid* yn *Unodl* fal y galler cynnal *Cynghanedd groes rywiog* ar yr hwnn eilfann; gann nad yw'n rywiog y gynghanedd bengoll ar y fraich ddiweddaf o'r *Englyn*, gann ei noethed yno.

Englyn o'r ail ddull gosodiad, sef *Unodl Crwcca*.

**Cefais gosp, cofiais ei gur,**
**Ag oes yn llwyr ddigysur;**
**Trallod a'i ddyrnod yn ddur—min ellyn,**
**I'm dilyn i'm dolur.**

**Edward Dafydd a'i cant.**

Arall, ag accen dderchafedig ar y fraich olaf. [A'r ffordd oreu yw honn ar y cyfryw Englyn a hwnn. I. B.]

**Cyrchaist benn craig fal draig draw;**
**Maluriaist yn milwriaw;**
**Llew certh a dewrnerth yn darniaw—i'th wrid,**
**A dy lid yn dy law.**

**Edward Dafydd a'i cant i'r Cadlyw Mwnc.**

[Ag fal hynn y cenaint yr *Hen Feirdd* hynn o ryw ar *Ynglyn Toddaid*; eithr gann farnu'n lled wael y ganiadaeth o ddiweddu'r *Englyn* a *Thoddaid Cwtta* noeth, y dygasant *Feirdd Morganwg* ar arfer rhoddi bann diweddbwnc ar y gyhydedd lefn i gloi'r mesur ar ol y *Toddaid*, ag er llenwi *llafarbwys* y *Gerdd*; a hynn a fydd ar ddull cwpl *Cywydd* yng Nghysswllt a *Thribann Toddaid*; fal hynn o gynnrychiad:]

**Wy'n wr gwael dann argoelion**
**Awch oer y brath, a chur bronn;**
**I'm cyflwr wy'n dwrr blinderon—am gael**
**Y Fun hael irfain honn,**
**Iach hwyl o fodd ei chalon.**

**Ni wn i pwy a'i cant.**

**[Thomas Carn a'i cant. I. B.]**

Digitized by Google

[Rhai, bydded a fynno ym *Morganwg* ag eraill fannau, a farnant yr hen ffordd ar hynn o ryw Englyn yn oreu.]

Arall, o'r un ddull.

**Wyf glaf, beth a wnaf, liw Nonn,**
**A chwyn adwyth och'neidion;**
**Mae braw'n eiddilaw'r meddylon—i'm bryd,**
**A gwaelyd yw'r galon,**
**Am danad y leuad lonn.**

**Yr un a'i cant.***

Rhodder ymma gynnrychiaid ar y rhyw ar *Englyn* a elwir *Hir a Thoddaid*; a hwnn a wneir o ddeufann i wyth ar y *Gyhydedd Wastad* yng nglyn a *Thoddaid Cwtta* yn unodl; a deuryw fodd y sydd ar hynn; ys ef un yn *Unodl Union*, ag arall yn *Unodl Crwcca*, a doder, yn hynn o gyssefinryw foddion ar *Hir a Thoddaid*, dim llai na phedwar bann yng nglyn a'r *Toddaid*; eithr o bydd achos, gellir dodi chwebann, neu wyth-

---

* Y mae Meyryg Dafydd yn y Llyfr a eilw ef "Dosparth Mesurau Cerdd Dafod," yn rhoi ar glawr yr Englyn a ganlyn, dan enw "Englyn Saethfesur," a elwir felly (medd ef) am ei fod a'r Toddaid yn y canol yn ail i Saeth mewn bwa ar ei lawn annel; lle bydd y saeth yn y canol yn hwy nag a welir o'r bwa ar un neu arall o'r ddau du iddo, ag fal hynn y mae:

**Aurdrassau Ieirll, aer dros Iaith,**
**A meibion Rhys am obaith;**
**Yn wyr dri Eryr draw eurwaith—ffynniant,**
**Adeiliant y Dalaith;**
**Aed son, ag am ferched saith,**
**Yn ddoniog yn ddiweniaith.**

**Dafydd Benwyn a'i cant i Rys Meyryg o'r Cottrel. (1607.)**

Yng Ngwaith ambell un o hen Feirdd Gwynedd gwelir paladr Englyn weithiau a'r brifodl yn y chweched sill o'r fraich gyntaf, ys ef y sill nesaf ar ol y rhagwant; ag yno bydd y gair cyrch yn bedrysill; fal yr Englyn a ganlyn:

**Aur a main coelfain cael—y cae melyn**
**Dau efyn diafael;**
**Arwyddion mad i adael**
**O'i fodd, dawn hoywfodd dyn hael.**

Y mae y Dr. Sion Dafydd Rhys yn rhoi cynnrych ar y cyfryw Englyn; ond un trwsgl ofnadwy ydyw; fal hynn y mae:

**Bronn braenwasg nos basg bu—dydd brawd Duwsul**
**Marw Tywysog Cymru.**
**Bwrw Arthur fab, aruthr fu!**
**Bwrw'n Cronigl; wybr yn crynu.**

**Pwy a'i cant?**

Ag nid beius canu Englyn fal hynn, lle cadwer trefn lithrig ar y Corfannau.
Iolo Morganwg.

Digitized by Google

bann. Modd arall o gymmhleth a fydd ar *Hir a Thoddaid;* ys ef rhoddi yn yr *Englyn* dau *Doddaid Cwtta,* un yn y dechre ag arall yn y diwedd; fal y ceir gweled ar gynnrych rhagllaw; ag yn hynn o fodd cymmhlethryw difai y cenir deufann yn unig yn unodl ar y Gyhydedd wastad, rhwng y ddau *Doddaid;* a phann y bo ar ddiwedd hynn o *Englyn,* pa un bynnag ai ar y dull cyssefinrhyw godidog y bydd, neu ynteu yn y modd cymmhleth: arfer newydd *Beirdd Morganwg* yw rhoi'n glo-gwlm ar ddiwedd yr *Englyn,* ar ol y *Toddaid,* bann ar y *Gyhydedd lefn* yn unodl a'r holl bennillion eraill, yn gwblhad i'r *Englyn Hir a Thoddaid,* am yr achos y sonwyd am dano yn Nosparth Byrr a Thoddaid Unodl Crwcca: eraill a ddodant Fyrr a Thoddaid i ddiweddu'r pennill, a rhywiog y bydd y canu, ag nid oes lle beio arno.

Hir a Thoddaid Unodl Union fal hynn:

**Cydwybod dda i nod gann Dduw Ner—o chaf,**
**A chyfiawn foddlonder;**
**Nid rhaid golud diriaid gweler;**
**Iawn yw'r ymswyn unrhyw amser,**
**Duw i ddoeth yw'r cyfoeth, cofier!**
**Ynddo rhodia'n ddewr ei hyder.**

**Samuel Jones Offeiriad a'i cant.**

[A rhoi herwydd achos neu herwydd a fynner, bedwar, neu chwech, neu wyth bann unodl ar y gyhydedd wastad yng nghysswllt a'r Toddaid.]

Hir a Thoddaid Unodl Crwcca fal hynn:

**Hoff o'i min yw Iaith doethineb,**
**Heddgar iawn ei hawddgar wyneb;**
**Arwain iawndardd yr uniondeb**
**A gar honn i'w theg warineb;**
**A mel diwaelder duwioldeb—a'i pyrth**
**A llawnwyrth callineb.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

[Ag ar hynn o fodd, am rif y bannau yng nghysswllt a'r Toddaid, fal y soniwyd o'r blaen, o bedwar i wyth bann.]

Arall, a dau Doddaid; sef un yn nechrau, ag arall yn niwedd yr Englyn; fal hynn:

**Canwn, adeiliwn i'r Nadolig—Gerdd,**
**Yn ragorddoeth fiwsig;**
**I'n cariadus Ion caredig**
**A melusdon ein mawl ystig;**

Digitized by Google

A gloyw wiriaith yn galennig
Burnod addas i'r Oen diddig
A'n prynawdd o fawdd drefeddig—y diawl,
Uffernawl dan ffyrnig.

Dafydd Edward a'i cant.

## Arall, unrhyw.

Afallen mae'n brenn breiniawl—ei hanian,
I'w henwi'n ddewisawl;
Ym mhob goror mae'n flaenorawl
Ar y coedydd amryw cedawl,
Blodau hardd yn wiwblaid urddawl,
Rhywiog aeron, rhai rhagorawl;
Gwinoedd i'r miloedd a'i mawl—y dyrydd
O'i dedwydd hoen didawl.

Hopcin Llywelyn a'i cant.

[A doder fal y bo achos, neu ddewis, chwech neu wyth bann rhwng y ddau Doddaid, fal hynn:]

## A chwebann yn y canol rhwng y ddau Doddaid.

Teg Fedwen, mae'n benn beunydd—i'w glwysder
Ar bob glasdwf coedydd;
Saif yn lew'n ei mantell newydd
Yn y Gwanwyn i'w llawn gynnydd;
Cyrch serchogion am oed lonydd,
Dann eu dail, sy'n dew'n y dolydd;
Difer y gwin ym min mynydd
O'i chorph gwynn, yn llynn llawenydd;
Dann glaernod hoyw glod y gwledydd—a'i caf,
A glwysaf o'r glaswydd.

Sion Roberts a'i cant.

## Arall, ag wythbann canol rhwng y ddau Doddaid.

Rhai 'ganant hëant o'u hawen—foliant
I fywlwyn Celynen;
Un a'i lafar can i lwyfen;
Ail i'w ffydd a fawl Ffawydden;
E gan arall i'r afallen;
Neu ddyryniad i wenn Ddraenen;
Un a'i loywawd i'w gan lawen;
A wna fadwaith, lan i Fedwen;
Ond o bob deiliog brigog brenn
Cadarnaf dewraf yw Derwen;
Gwreiddgraff yn hoenbraff Brenhinbrenn,—penn byd,
Pab glwysbryd pob glasbrenn.

Edward Dafydd a'i cant.

Arall, Amrafaelryw, a deufann rhwng y ddau *Doddaid*, a bann ar y *Gyhydedd Lefn* yn diweddu'r *Englyn*, ar arfer *Beirdd Morganwg*.



Digitized by Google

Canu, prydydu, diddan a glywais,
A gloywed yr amcan,
Rhwng deufardd digri'n gweini'r gan,
Iw mawrgais, Dafydd a Morgan;
Odlau, llyseiriau llais arian serchog,
Cerdd gangog hardd gyngan,
Yn hoywiaith glaer yn waith glan.

Edward Dafydd a'i cant.

[Arall, Cyfunryw, a'r gair Cyrch yn unodli a'r bummed sill, sef y *rhagwant;* a hynn a fernir yn orchest.]

Miloedd yw geiriau moliant—o'm genau,
Mi ganaf ogoniant
Yn ddwys syber, yn ddiseibiant,
I 'Nuw mwyn, fal mae 'nymuniant;
Nefolion gwynnion a ganant—ber dôn,
A chyfion dderchafant
Ion y Gwir, hwnn a garant.

Thomas Lewys a'i cant.

Arall, yn *unrhyw ddiweddiad, a phedwar bann canol.*

Hardd-brenn yw llwyfen da'i lliw yn hoywbryd,
Yn ebrwydd wanhwynlliw;
Yn dewfrig ei changau difriw,
Yn iraidd ffres, yn wyrdd ei ffriw;
Eiliaf gynghanedd iw gwedd gwiw,
Ni welir prenn un eiliw;
Uchelfain gywrain min goriw yw honn,
Mae'n hoenus fywiogliw;
Gwydden gain i'w gwedd yn giw.

Charles Bwttwn, Ysw. a'i cant, a chanu chwech neu wyth bann, fal y mynner.

Llymma Englyn ar drefn a gwedd Hir a Thoddaid, eithr ymarfer a'r Gyhydedd Lefn yn lle'r Wastad ar y bannau a gyssylltir a'r Toddaid.

Y Duw mawr, tro di 'mwriad
I'r iawn ystyr yn wastad,
Wyf wann, bydd o'm rhann yn rhad;
Naf etto tynn fi attad;
Fy Ner, i'm gwaelder na'm gad,
I'm serthedd lle mae'm syrthiad.
Rhoi llef hyd Eurnef arnad yw'm gorchwyl
Duw anwyl am danad,
Clafed wyf, clyw fi O Dad!

Samuel Jones o Frynn Llywarch, a'i cant.

Arall, Amrafaelryw, o'r un *colofnau:*

Gwaelddyn yn goegyn a'i gogor yn gliw,
A [illegible]wais mewn 'scubor,

Digitized by Google

**Ar dybiau llesg yn esgor,**
**Un a gwing yn ei gyngor;**
**A'i rwth geg ynn ymegor,**
**Ynn ei ddadwrdd ynn ddidor;**
**Oedd gwrdd y damdwrdd diymdor a gad**
**O'i fwriad yn farwor,**
**Anfad gainc i'r ynfyd gor.**

**Ni wn i pwy a'i cant,**
**i'r pengrwnn o Bregethwr.***

[A chanu ar y rhain golofnau yn yr holl Amrafaelion rywiau a moddion parth dull a gosodiad Pennill, ag a welwyd o'r blaen, lle dangoswyd canu ar HIR a THODDAID ar y Gyhydedd Wastad yng nghysswllt a Thoddaid Cwtta: a barn rhai yw y gellir ymarfer a'r un a fynner ai'r GYHYDEDD LEFN ai'r WASTAD mewn HIR a THODDAID gyda THODDAID CWTTA: ag mai'r cyfiawn wahaniaeth y sydd rhwng Byrr a Thoddaid a Hir a Thoddaid, yw dull ffurfiad yr ENGLYN, ag nid naws o beth arall yn y byd; sef wrth hynny yn unig y bydd hir neu ynteu byrr yr ENGLYN neu'r PENNILL: Nis gellir dywedyd cysswllt o ddau a'r unrhyw beth lle na bo deurann a safant yn sylweddol yn rannedig ar eu pennau eu hunain; ys ef nis gellir o dribann Toddaid y cyfryw ddeurann sylweddol yn rannedig, un fal arall, ar ei benn ei hunan; cann ys cyd bo sylweddol y TODDAID parth ei gyssefin ansawdd, nid felly y bernir y bann unigfod ar y GYHYDEDD LEFN a rodder yng nghyd ar TODDAID, mewn TRIBANN TODDAID, ag ni ŵyr neb rhann o beth ydyw, ag nis geill ymddangos ar ei benn ei hun yn ei lwyr hanfod, parth rhyw a mesur, amgen na THODDAID; eithr ymddengys TODDAID yn ei ryw ar hanner golwg arno; a'r un peth a wna'r deufann ar y GYHYDEDD LEFN mewn BYRR a THODDAID sef mai cwpl o Gywydd ydyw; a chwpl neu ddeufann unodl yw'r rhann leiaf a ellir ei feddwl ar bennill. Am hynny BYRR a THODDAID y gelwir y mesur, a HIR a THODDAID a fydd hwy o fodd a ffurf a'r ENGLYN o barth rhif bannau fal y dangoswyd ar gynnrych, yn hyttrach nag o barth hyd bannau. Ag yn ol hynn o farn y canai DALIESIN HIR a THODDAID, sef o *Doddaid Cwtta*, ar y Gyhydedd Lefn: Dull arbennig yw Tribann nis gellir ei rannu'n ddau, a chael o hynny deurann sylweddol, sef a chyfiawn sylwedd i bob un o'r ddeurann, un gystal a'r llall; fal y cymmhwyllwyd o'r blaen; ag o hynn o beth ar ansawdd TRIBANN y tyf mewn rhann ei gyssefindod neillduolryw, mesur cyfan yw TRIBANN ag nis gellir ei rannu'n

---

* Dafydd o'r Nant, medd Traddodiad. I. M.

Digitized by Google

ddau, ag am hynny yn arbennig ar bob rhif arall; ag am hynn, barn rhai yw y dylit dosparthu *Tribann Toddaid* yn rywogaeth ar DRIBANN MILWR, a CHYRCH a CHWTTA, sef y *rhyw ar Englynion* a roddir y weithon ger ymbwyll yn rywogaeth ar *Dribann Morganwg*.]

CYRCH a CHWTTA, ENGLYN yw a elwir felly am y gwneir ef a BANN CYRCH o'r *Gyhydedd Lefn* yng nghysswllt a *Thoddaid Cwtta* ag yn unodli ag ef: sef lle bydd y BANN, CYRCH yn rann diweddaf yr *Englyn; Cyrch a Thoddaid* y geilw rhai ef; a'r pedwerydd ryw ar *Englyn* ydyw.

A llymma'r Cynnrych arno:

1.

Clywais, llawenais, o'r llwyni—adar
Yn odiaeth gyfodli;
Yn Chwefror, can iach hyfryd,
Gwyrdd 'y myd, da'r gan i mi.

2.

Caf awen lawen oleuwaith cyn Mai,
Can i'm min yn winiaith,
Cerddoriaeth hoen ffraeth yn ffres,
Cwyraidd gynnes cerdd geiniaith.

3.

Tra thanaf yr haf o'm rhyfedd awen
I feinwen o fonedd;
Nef ar ddaear fydd caru
Ail Elen gu lan ei gwedd.

Morgan Gruffudd a'i cant.

Y PUMMED RHYW ar ENGLYN yw GARRHIR, neu ENGLYN GARRHIR, sef y bydd y rhann gyntaf yn *Dribann Toddaid*, a'r ail rann yn fann o *Hyppynt* neu *Lostodyn* yng nghysswllt ag ef; a'r *bann Hyppynt* a dyf y naill nai o'r *Gyhydedd Ferr*, nai'r *Gaeth*; ag ni ddaw o hwy gyhydedd; a hynn o rann olaf iddo a elwir y Garr; a math ar *Englyn* o ryw *Cynghogaidd* yw.

*Englyn Garr Hir*, a'r Garr o'r *Ferr Gyhydedd*, a'r Bann-diwedd o'r *Gyhydedd Lefn*, fal hynn:

Gweirwr, yn dorrwr dewrwych y gwyran,
A gyrrwr bwriadwych;
Yn un serth, a'i enau'n sych;
Echdoe'n waddwr;
Doe'n yspaddwr;
Iawn wr, y foru'n euryoh.

Thomas Sion Lewys o Lanwynno a'i cant.

Digitized by Google

### Arall, a'r Bann diwedd ar y *Gyhydedd Wastad.*

Diod no manod dymunais ei gael,
Ag er galw nis cefais;
Tra chaled y sychedais;
Gad a'th oerfel,
Bydd ar ddychwel
Imi'n dawel, main ei dwyais.

Dafydd Llwyd Mathew a'i cant.

### Arall, a'r Bann diwedd ar y *Gyhydedd Lefn.*

Mor a thir gloywsir goleusych, mynydd,
Mwynwel croywddwr berwgrych;
Meinin dai yn y mynnych;
Marldir, yttir,
Mwyndir, glodir,
Maesdir, coettir, gweirdir gwych.

Gruffudd Hiraethog a'i cant, i Degeingl.

### Arall, Amrafaelryw.

Mae ffoliaid brithiaid yn brathu caswaith,
Yn ceisio prydyddu;
Sain gwrach bengam yn bramu;
Anfedrus fudrwaith;
Difywyd fawiaith;
Cethin acceniaith cathau'n canu.

Edward Dafydd a'i cant,

[A hynn y sydd o rywiau ar *Englynion;* ag o henynt oll goreuryw *Byrr a Thoddaid unodl union;* ag yn ail, *Tribann Toddaid;* gann eu bod o barth eu melusber lafar, a'u goramlwg gyssefindod, a neillduolder ansawdd, yn arbennig ragorol ar eraill; a'r gwaelaf o'r Englynion yw'r *Garr hir:* rhai a'i cyfrifant ym mhlith y *Cynghogion.*

Llymma ddangosiad barn amrafaelion Awduron a Beirdd am Englynion, yn amgen nag a welwyd yn y Ddosparth a roddwyd gynneu ar lawr; nid wyf yn enwi neb, a gadawaf y cwbl o barth dewis a gwrthod, a chydfarn ag anghydfarn, i bwyll a barn ag athrylith a ddarlleno hynn.

1. Rhai a ddywedant nad oes ond un *Englyn* o *gyssefin ansawdd,* sef yw hwnnw *Tribann Toddaid,* am nad yw hwnnw'n fesur *o gynghog,* neu gysswllt mesurau, neu ddarnau o fesurau eraill yng nglyn a'u gilydd; eithr o golofnau diffrwyth ar eu pennau eu hunain y gwneir y mesur, sef o Doddaid Cwtta, a bann unig ar y *Gyhydedd Lefn.*

Digitized by Google

2. Rhai eraill, yn ogydfarn, a wedant fod dan ryw ar *Englyn*, sef y *Tribann Toddaid*, a'r *Cyrch a Thoddaid*, sef y gwneir hefyd y *Cyrch a Thoddaid* a *Cholofnau*, pa rai a fyddant ddiffrwyth ar eu pennau eu hunain, sef *Toddaid cwtta* a *Bann cyrch*.

3. Pob rhyw eraill ar *Englynion* a wneir a *cholofnau* perffaith yng nglyn a'r *Toddaid*; ys ef y *Byrr a Thoddaid* a wneir a chwpl o *Gywydd* yng nglyn ag ef; a'r *Hir a Thoddaid* a chwpl neu bennill *Gorchan*, y naill nai ar y *Gyhydedd lefn* nai ar y *wastad*, yng nglyn a'r TODDAID; pa rai a fyddant berffaith a sylweddol ar eu pennau eu hunain; am hynny y cyfryw *Englynion* a dyfant o ansawdd *Cynghog*.

4. Ag am *Englyn garr hir*, ef a'i gwneir ag *Englyn cwbl berffaith*, sef TRIBANN TODDAID yn gyssylltedig a *bann ó Lostodyn*; ag am hynny *Cyngog* yw, (*tu hwnt i bob amheu*. I.B.)

5. Yn wrthwyneb i hynn y barnant eraill mai o'r TODDAID CWTTA'n unig y tyf cyssefin ansawdd pob rhyw *Englyn*; a chann mai diffrwyth yw'r TODDAID ar ei benn ei hunan, rhydd iddo gymmeryd atto y cyfryw *golofnau* a gydweddant ag ef; a chann nas cydwedd ag ef y colofnau a fynner, rhaid ymarfer a'r cyfryw a ellir eu hymgyssylltu ag ef, ag a rheiny yn y cyfryw foddion arbennigion a chorpholaeth ag y rhywiog weddont: eithr yn ol cael *Englyn* cwbl berffeith, beth bynnag wedi hynny a roddir atto'n ychwaneg a wna *gyngog* o'r pennill.

6. Rhai a wedant i'r *Hen Feirdd* ganu'r *Toddaid cwtta* fal hynn, sef bann *pumsill* yn diweddu yn y *prifodl*; a bann arall *pumsill* yn diweddu yn *amrafaelodl* wrth y bann cyntaf, a *chyrch* unodl o'r odl ar y bann cyntaf at orphwysfa'r ail fann, ag yna'r drydedd bann yn chwesill yn diweddu yn y *brifodl*; a *chyrch* unodl at orphwysfa'r drydedd bann o ddiwedd yr ail fann; a chwedi hynny rhoddi'r pedwerydd bann yn seithsill, a'i ddiweddu yn y *brifodl*, fal hynn:

**Mae'n deg ceg cogan—wiw organ irgoed—da maesgoed o'i mwysgan;**
**A goreu 'i gwaith yw gwau'r gan.**

Neu ei ddosparthu fal hynn:

**Mae'n deg ceg cogan**
**Hoyw organ irgoed,**
**Da maesgoed o'i mwysgan;**
**A goreu 'i gwaith yw gwau'r gan.**

Arall, Amrafaelhyd.

**Daeth rhew glew i'n gwlad i'n irad oeri, a chwithni'n ei chwythnad;**
**Ag ia dros ddwr yn gaead; a daiar syth fal dur sad.**

Digitized by Google

Neu fal hynn ei ddospartlu:

**Daeth rhew glew i'n gwlad, i'n irad oeri,**
**A chwithni ei chwythnad;**
**Ag ia dros ddwr yn gaead;**
**A daear syth fal dur sad.**

Dosparth arall:

**Daeth rhew glew i'n gwlad**
**I'n irad oeri,**
**A chwithni'n ei chwythnad;**
**Ag ia dros ddwr yn gaead;**
**A daear syth fal dur sad.**

A hynn yw barn rhai a chwiliasant yr hen fesuron; eithr rhai a farnant y dylit cyfrif hynn o ddull ar bennill yn fath o *Lamgyrch neu Gyngog*; yn hyttrach nag *Englyn Toddaid.* Y mae rhywiau Hengerdd yn Llyfr *Sion Dafydd Rhys* o'r cyfryw rywogaeth ag ydynt y rhain bennillion.

7. Pann na bo amgen nag un *Toddaid* mewn *Englyn Hir a Thoddaid,* a hwnnw yn ei ddechreu, cadwer pennillion y Gerdd oll wrth *Unodl;* sef y pair hynny bod y *Toddaid* yn nechreu yr ail *Englyn* yn gwasanaethu yn lle ail Doddaid, neu Doddaid gorphen i'r pennill o'r blaen: *(a hynn a weryd rhag dyfod dau Doddaid yng nghyd un ar gefn y llall; sef yr ail yn y pennill cyntaf, ar gefn y cyntaf yn yr ail bennill neu Englyn. I. M.)* ag fal hynn y canai yr hen Brydyddion; pann na bo *Toddaid* ar ddechreu pennill, eithr ar ei ddiwedd, nid rhaid wrth y cyfryw gyfochel a hynn, gann fod y *Toddaid* yn cwblhau'r *Gerdd,* a'r *Gerdd* herwydd cwrs a damred canu * *

8. Rhai a ganant Englynion yn *Ostegau,* sef llawer o henynt, neu oll o henynt a fo'n y Gerdd, i gyd yn *unodl;* eraill a farnant mai gwell yw amrafaelu yr *Odl* ar bob *Englyn,* neu bennill, o'r Gerdd; a bod y Gerdd fal hynny yn fwy meluslef, na'i bod oll yn unodl.†

9. Ar *Ddosparth Caerfyrddin* (neu *Ddosparth Gwynedd fal dann gamsynniad a'i gelwir. I. B.)* bernir y ddau *Broest* yn *Englynion,* eithr gwagfarn a bai yw hynny; ag ar y *Ddosparth* honno, gelwir y *Triban Cyrch,* sef *Triban Morganwg,* yn *Englyn;* a rhai a farnant hynny yn gyfiawnfarn; sef ei gwneir a *Chwpl o Gywydd* a *Bann Cyrch* yng nglyn a'u gilydd; a'i

---

* Rhyw-faint ar goll yma gan friw dalen. I. M.
† Gwel y Nodau. I. M.

Digitized by Google

ansawdd neillduol yn wahanred arbennig ar bob mesur arall yw dull ei bennill; rhif y bannau; a'i gyhydedd arbennig a neillduol.‡

10. Barn yw, ag nid oes dadl yn ei herbyn, y dylit yn wastad ymarfer a'r *Cyrch Unodl* ar *Doddaid* a fo'n diweddu *Englyn*, fal y bo *Croesgynghanedd rywiog ar fann terfyn yr Englyn;* cans anferth y bydd pengoll y Gynghanedd ar ddiwedd pennill, lle dylai bod y Gynghanedd yn oreu oll: eithr os rhodder y bann seithsill, fal y mae arfer newydd *Beirdd Morganwg*, ar ol y *Toddaid* yn derfyniad i'r pennill neu'r *Englyn;* yna gellir canu'r ail fann o'r *Toddaid* a fo'n diweddu'r *Englyn*, yn gystal ag ar yr un a fo'n ei ddechreu, ar y Cyrch groes gytsain a'r bengoll Gynghanedd.

11. Bernir yr *Englynion*, neu rai rhywiau o henynt, o byddant gelfyddwaith o barth mesur, ag accen eu caniadaeth, yn rai o'r mesurau melusaf o'r byd; yn enwedig y BYRR A THODDAID UNODL UNION; eithr rhai o'r *Englynion*, a llawer o'r mesuron eraill, a dyfant yn fwy o wag a diffrwyth ddychymmyg a chrebwyll, nag o bereiddlef cyfiawn gerddoriaeth.§

---

# RHEITHIAD XXIII.

## COLOFN ADLAW XIV.

### CYNGOG.

CYNGOG yw rhyw arbennig ar fessur, a wneir o gynghlwm amrafaelryw golofnau mesuron a darnau mesuron yng nghyd, yn gyssylltedig gyfungorph; ag a elwir felly am ei de-

---

‡ Dyma ddull neillduol ar DRIBANN MORGANWG a elwir TRIBAN Y MYNAICH a THRYBEDD Y MYNAICH gan rai:

> Dyma ddwr drwg, amlwg ym,
> Ag un a'n lladd, gwenwyn llym;
> Arno'r gwyrddni'n drewi'n drwch,
> Edrychwch, gwelwch, Gwilym!
>
> Dafydd Llwyd Mathew a'i cant i bwll o ddwr
> a chrofen werdd dros ei wyneb.

§ Dim yn fwy gwir yn hynn o fyd; a da iawn fyddai rhoi pennau cyfiawnbwyll yng nghyd yn awel awen oleuserch, er bwrw ar esgyll holl wyntoedd yr wybren yr

bycced i gwlm o'r *Cynghaw*, a gydymgydiant y naill yn y llall, oni byddont yn un ffasgell gadarngorph: ag ar *Gyngog* bydd mwy o gymmysg ansoddau nag ar unrhyw fesur arall; oddierth barnu yr un faint ar [*Gerdd Arwest, a elwir*] Dyri: ag *Ansodd Angen Cyngog* a saif yn yr arbennigrwydd o roddi dau neu ychwaneg o fesuron, neu ddarnau o fesuron, fal y dywespwyd, yng nghyd yn gyfungorph mewn un pennill, a'i *fraint* yn amgenu ar *Englyn* yw ymarfer a'r *colofnau* a fynner i ba un bynnag o'r holl rywieu eraill ar fesuron, y perthynont, o gyssefin ansawdd a lle. Ag wrth lunio pennill *Cyngog*, gofaler bod yr amrafael rannau a cholofnau a gymmerir erddo yn llithro'n rywiog y naill i'r llall, ag yn esmwyth gydsawf a'u gilydd; ag amgen na hynn nid oes na rhif, na rhyw, na rheol, ar fesuron a phennillion *Cyngog*. Rhodder ar glawr ymma gynnrychiaid o'r enwoccaf a'r goreuon o'r *Hen Ganiad*, a chwedi hynny rhai rywiau mwy newydd ernynt: cynneilir prifodl ar *Gyngog*.

Llymma ryw ar Gyngog a elwir *Gwawdodyn byrr;* sef pennill o ddau, neu bedwar, neu chwech o fannau ar y Gyhydedd Draws, a Thoddaid Hir ar eu hol yn diweddu'r mesur, ag oll yn *Unodl.*

Deufann a Thoddaid, fal hynn:

**Yr wyf yn gorwedd ar Fain geirwon,**
**Yn wr a chas iawn yr achosion,**
**Mae clefyd i'm bryd a'm bronn, a'm asau,**
**Am briodasau 'm bwriadyson.**

**Bedo Brwynllys a'i cant.**

Pedryfann a Thoddaid, fal hynn:

**Y nenn fawr uchel yn y nef wreichion,**
**Goruwch yng ngolwg archangylion,**
**Y llawr i bobloedd hollwyr Bablon,**
**Obry a weithiwyd a main brithion,**
**Y Clych, a'r Menych. a'r mwynion foliant,**
**Mynych ogoniant Meneich gwynnion.**

**Lewys Morganwg a'i cant i Fonachlog Glynn Nedd.**

---

holl goeg-fesurau, a chyda nhwy Gorchest Beirdd Deio Pwll gweppra, a'i Gadwyn tyrr hefyd, fal a'u chwythit ymaith, dros fyth, gyda phob oferdod arall, i eithafoedd coll ag anghof, lle bydd enw Dafydd ap Edmund ac enwau pob un o'i Faccwyon eibddeillion, cyn bo hir. Iolo Morganwg.



Digitized by Google

Chwebann a Thoddaid, fal hynn:

**Llefain yw'm swydd er's mwy na blwyddyn,**
**A mwyfwy'n waelddwys am f'anwylddyn;**
**Gwyniau gwaegar, galar y gelyn,**
**A'm bwrw i dywyll am bryd ewyn;**
**Wylaw a garaf, liw eiry gorwyn,**
**Dan lwyth, mae'n adwyth, bob munudyn;**
**Arf dur y dolur a'm dilyn yn daer**
**O goll anwyl chwaer loer glaer ar ael Glynn.**
**Mr. Thomas Carn a'i cant.**

Rhyw arall ar Gyngog yw Gwawdodyn Hir, sef a'i gwneir a dau, neu bedwar, neu chwech bann, ar y Wenn Gyhydedd yng nghyd a Thoddaid Hir yn y diwedd; ag oll yn unodl, fal hynn:

Deufann a Thoddaid.

**Y mae porth aruthr heb ddim portherion,**
**A'i dai'n egored i bob dyn gwirion;**
**An Neuadd o radd arwyddion calchwaith**
**Bu ynddi wythiaith yn rhoi bendithion.**
**Rhys Brychan a'i cant i Gastell Sandunwyd.**

Pedryfann a Thoddaid, fal hynn:

**Och! am y marchog pan y marchoger;**
**Och! am yr urddas pann y deyrnaser;**
**Och! bann fuon' neb uwch y bu fy ner,**
**Och! na bai nofio uwch benn y nifer;**
**Och! bod iau gwynau pann ganer bob cloch,**
**Och! etto gannoch ddyfod Dyw Gwener.**
**Gwilym Tew a'i cant.**

Chwebann a Thoddaid, fal hyun:

**Niwl ydyw balchedd gwagedd o goegiaith,**
**Y' marn y sobr a gobr o gau obaith;**
**Cyd bydde heddyw yn fyw ag yn faith,**
**Oer yw'r damwain y fory rhed ymmaith;**
**Dalla drea awr a'i dwyllodrus araith;**
**A gwedyn ein gadael pand gwael y gwaith;**
**Da'i ochel rhag cael dychwaith o'i ffug llwyr**
**I ddyn Duw a'i gwyr ni fedd synnwyr saith.**
**Thomas Llywelyn o Regoes a'i cant,**
**[yn gyngor iddei fab Llywelyn Thomas. I. B.]**

Cyngog o gysswllt Hyppynt a Thoddaid.

**Yn ei mynwes**
**Iarll a borthes**
**Eurllew berthyd;**
**Oddiar y grog**
**Y bu feichiog**
**Heb afiechyd;**

Digitized by Google

Iaith Gabriel dawel diwyd fu amerch,
Am eni Gwenfferch y mae'n gwynfyd.

Gwilym Tew a'i cant.

### Arall, cysswllt Hyppynt a chwpl Cywydd.

Cur yw cariad,
Yn y bwriad
Y mae'n berwi;
Hoedfawr adfyd
Y mae penyd,
Trwm i'm poeni;
Ail Elen ddenliw'r lili,
Clafaidd wyf, a'm clwyfodd i.

Thomas Lewys a'i cant.

### Arall, cysswllt Bann Cyrch a chwpl Cywydd.

Wylais am dad difrad doeth,
Un geirddoeth, mwyn gywirddyn;
Un o fil heb arno fai
A ddylai pawb ei ddilyn;
Wylais i'm swydd er's blwyddyn,
O alar tost dolur tynn.

Thomas William Sion a'i cant.

### Arall, cysswllt Llostodyn a chwpl Cywydd.

Melin gadarn, mal yn gydwedd
Ini'r yd i'w mawr anrhydedd,
A rhyfedd gwnn ei rhifir;
Tra bo neb yn trin melinau,
A dewr gynnull bwyd i'r genau
A'r ydau i honn y rhedir;
I floedd fe iawn felir
Yn honn, tra phair tonn y tir.

Edward Dafydd a'i cant i Felin Llanfair.

### Arall, cysswllt Gorchan a Bann Cyrch, ar y Gyhydedd Drosgl.

Melus yw rhoi moliant
I'r Iesu goreusant.
Meibion dynion dunant
Yn ddilesg addolant,
A mawl nefawl nwyfiant
Gwiwner y gogoniant,
Rhoed pobloedd filoedd fawl
I'w ddoniawl ardduniant.

Thomas Lewys a'i cant.

### Arall unrhyw ar y Gyhydedd Lefn.

Erfai yw'r Llys ar for llonn,
Hynn o les a wnai Leision;



Digitized by Google

E geir gwres yn y gaer gronn,
E geir seigiau gwresogion;
Y ceirw fry o barcau'r fronn,
A'r eogiaid o'r eigion;
Y gwenith, a phob gwinoedd
O'r tiroedd a'r mor tirion.

Lewis Morganwg a'i cant, i Leision Abad Glynn Nedd.

## Arall o'r unrhyw.

Lloer ddeddfol llariaidd aeddfed;
Llawen oedd ei llunieidded;
Llawn glod ferw llonn glodfored;
Llymm orchest, haul llu merched;
Llys tirion drem llesteiried,
Lludd fi farw lleddf fyfyried;
Llyna son mewn llwyn o'i serch;
Llais f' annerch lles a fyned.

Pwy a'i cant?

## Arall, Cadwyngyrch a chwpl *Gorchan* yng nghyd.

Mair yw'n golwg ym mronn gelyn,
Mair yw'n telyn am rentolion,
Morwyn dirion ym marn Derwyn,
Ag annherwyn rhag anhhirion;
Mae rhwym difriw Mair i'm dwyfronn;
Mwy argelwch Mair y galon.

Gwilym Tew a'i cant, i Fair o Benn Rhys (cyn, ond pa faint cyn dadymchwel Monachlog Penn Rhys yn y flwyddyn 1414, nis gwnn. I. B )

## Arall, cysswllt *Toddaid, Gorchan,* a *Chywydd.*

Gwroldeb heb naws gorwaelder a'i nodai
Lle 'dd elai gorchfygai erfai arfer;
Ni chaid o'i gadarnwych hyder,
Ei ddyrnod gref ef yn ofer;
Nid diogel y mann ai digier,
I neb ddangos wyneb; synnier!
Nid oes ail, lle dwys holer,
Na dyn o'i swd dann y ser.

Harri Hir a'i cant.

## Arall, cysswllt, y ddau Doddaid, Bann cyrch, a Chywydd.

Y pwyll da didwyll dedwydd—a gerais
Yn gywrain arweinydd;
Gwych y cawn ei ddawn a'i ddeunydd—odiaeth
Yn faeth yn bennaeth i mi beunydd;
Yn ddysg rhydd er cynnydd can,
O gywir anian gwir awenydd;

Digitized by Google

A dewr yw'r nerth y dyrydd
Yn sail y ffawd, yn sel ffydd.

Dr. Sion Dafydd Rhys a'i cant.*

Llymma'r weithon gynnrychiaid ar Gynghogion ar ddulliau newyddion, yn ol barn Beirdd diweddar Morganwg; sef eu barn hwy y gellir canu Cyngog Brithodl am fod Brithodl yn brifnod neillduol ansawdd ar gerdd; a bod Cyngog yn ryw ar fesur a phennill, yn tyfu o gymmysg amrafael ansoddau a rodder yn gymmhleth gyfnydd mewn pennill; a'r un cynrydded rhoddi un ansawdd ag arall yn y cyfryw bennill.

Cyngog Brithodl, Hyppynt, Llamgyrch, a deugwpl o Draethodyn yng nghysswllt a'u gilydd.

Prydydd wyf parod i'w ddyfyn,
A gar eich ammod a'ch gorchymmyn,
Fal y bo gofyn, y dyn doeth;
Ag ni cherais, i'm cais cysson,
Amlwaith wann fod ym mhlith ynfydion
A dynon diglod annoeth;
A chan goeth dra chain ei gwedd
A wnai ffoledd yr anffelwas
A'i anfad eiriau yn fwy diras;
Yn beth cas heb harddflas hedd:
Ond i rinwedd gwnaf dirionwaith,
Yn fawl euraid yn fel araith;
Awch llaweniaith a challineb
Odiaeth iawn i bob doethineb
A gar o neb y gwir noeth.

Charles Dafydd Meredydd a'i cant.

[Ag yn y pennill hwnn gwelir cwlwm Cyrch unodl rhwng yr amryw golofnau, ag yn diweddu yn unodl a'r golofn gyntaf, sef Hyppynt, ag yn hynn yn cynnal prifodl drwy'r pennill; ag yn cadwyno'r bannau bob un yn ei le terfynnedig. J. B.]

Arall, sef math ar Glogyrnach Brithodl a Chyrch o un cwpl at y llall, a diweddu'r Pennill a braich o'r Gyhydedd Gyrch.

Wyf wr hen, gwae fi yr hawg,
Yn dirwyn oes flinderawg;
Bum enwawg a phawb i'm annerch;
Yn garwr Bun fwyn mewn llwyn a llannerch;

* A'r Pennill hynn a dynnwyd o'r Llyfr a wnaeth ef wedi printio'r Gramadeg, er dysgu a dangos y modd y gwneir Mesurau Newyddion, ag y cymharer amrafaelion fesurau yng nghyd; ag efe ei hun a gant y Cynnrychiaid oll; eithr nid oedd ganddo gyflawn ddeall ar ansawdd a rhyw o angen a hanfod, ar fesur Cerdd. Ed. Dafydd.

Digitized by Google

Ond darfu'r serch ar ferch fain,
A'r awydd mawr am Riain; (hawo, AL. I. B.)
Dyn gain a gywrain gerais;
Un hardd ail Luned a hir ddilynais;
Darfu cais a llais y Llên,
A rhywiog gampau'r awen;
Ag awr lawen i'w gwir lewych,
A fo'n fwyn ni chaf yn fynych;
Oedd gwych y fawlgerdd ag uchel,
Fal gwin yn fy min a mel;
Gwae ni ddychwel y gan ddichwith
Imi yr hawg na dim o'i rhith;
Aeth synnwyr yn llwyr o'm llaw,
A threulaw mae'r athrylith.

Thomas Hywel Sion o Gelli-gaer a'i cant.

Arall, cysswllt pennill Traethodyn, Bann Hyppynt, Bann Cyrch, a phennill Cywydd, ag yn frithodl, fal hynn:

Clyw fy nghyngor a gwna doraeth
Yn ddwys gydwedd ar ddysgeidiaeth;
Ofna Ddofydd, cais fyw'n ddwyfawl;
Yn was taer, am farn ystyriawl;
Yn wiwfawl dy gynnefod;
Fal nas del tyb uchel byd
A therfysg bryd i'th orfod;
Ag ynod, a'i deg anian,
Y trig hedd, pob glwysedd glan.

Llywelyn Pywel a'i cant.

Arall, sef Marwnad Hwch, a laddodd merch drwy ei tharo ar ei phenn a morthwyl.

Porthwr Moch, clywch bawb ei ochain,
Sy'n codi galar llafar llefain;
Bu farw ei Hwch, gweiddwch i gyd;
Y mae'n dorr-ympryd i goegfryd gigfrain;
Un hoyw a chain, ei Hwch anwyl;
Hi dyrfai ardd yn dra hardd ei hwyl;
Hi gafodd yn drenn ar ei phenn y ffwyl;
Hyll oedd Martha am ei lladd a morthwyl;
Yn drwm iawn a gwyl yna draw mae'n gelain;
Mawr aeth i fil a wnaeth Martha fain;
A phob anobaith, a phawb yn ubain;
A'i pherchen bob dydd y sydd i'w sain
Yn wr musgrell, yn oer ymosgrain;
Druan mae'n wylaw draw mewn drain,
Och o'i gur! am ei Hwch gywrain.

Charles Dafydd Meredydd a'i cant.

[Y mae'r pennill hwnn gyda bod yn Gyngog o ansawdd, yn Lamgyrch hefyd; am ei fod yn dwyn prifodl arno ar yr un

Digitized by Google

egwyddor a Phrifodl Llamgyrch, sef yn llammu o'r penn cyntaf at ei gyfodl yn y penn diwedd. I. B.]

Ag wrth a ddangoswyd dealler yr aneirif rywiau a moddion o barth dull, a gosodiad, a chymmhlyg ansawdd a ellir ar bennill *Cyngog*.

Mewn *Cyngog* rhydd yw ymarfer ar GOLOFN GOTTA sef yr un deirsill, a'r un orllaes sef yr un deirsill ar ddeg, y rhain a elwir yr *ofergolofnau a'r gogolofnau*, a'r gwanngolofnau, a'u galw felly am nas gellir pennill cyfarddun ernynt; ys ef rhag distadled o'i rhann ei hunan a'i hanghaniadaeth; a rhag trysgled [ag anghrynodeb] y *Gyhydedd Orllaes*; ag nis gellir rhywiog ansawdd cyfarddun ernynt, nag o henynt; eithr hwy a genir yng nghymmysg ar rhywiog golofnau mewn *Cyngog* a *Chlogyrnach*, ag eraill o'r *adlawiaid fesurau*.

Rhai a farnant y dylid cyfrif yr holl *Englynion* a *Thriban Morganwg*, a *Chlogyrnach*, a *Llamgyrch* ym mhlith y *Cynghogion*, ag mae mesurau o gymmysg a chymmhleth ansawdd ydynt i gyd: eraill a farnant amgen, a rhydd barn i bawb; fal y mae yn ddiarhebol; eithr y mae rhai ansoddau ar brydiau, megis yn llithro am bennau'u gilydd, neu un i'r llall, fal nas gweler yn hawdd p'un yw p'un o henynt; ag o chwilio'n rhy lwyr i waelodion celfyddyd cair weithiau mwy o laid nag o'r dwr gloyw; a llawer celfyddyd y sydd nis gellir llwyr amlwg a llwyr gyfiawn ddosparth ar ei changhenau; ag etto, pob peth, un gyda'r llall, a'r lleill, yn ddigon eglur a hawdd eu deall.

---

# RHEITHIAD XXIV.

## COLOFN ADLAW XV.

### DYRIF, NEU GAROL.

(Neu GERDD ARWEST, fal a'i gelwid gann yr Hen Feirdd; ag eraill a'i galwaint CAN DEULUAIDD. I. B.)

DYRIF, neu Garol, yw'r *pedwerydd ansawdd ar hugain ar Gerdd Dafod;* a'i *hangen* yw accen wastad ar y bannau a'r pennillion; sef y dylai bob pennill fod yn gyfaccen, gyfun-

llais, gydred, gydbwys a'u gilydd; ag os o golofn adlaw y daw, a rhai o'r bannau o hynny yn neilliogi ar eraill; cofier cynnal yr cyfryw neilliogaeth yn yr un mannau ym mhob un arall o'r pennillion; gann eu cadw, mann a chydfann, yn gyflafar gyfundon a'u gilydd; fel y bo drwy hynny yr holl bennillion yn y gerdd yn gyfunrhyw parth ton ag accen; fal y delont, un gystal a'r llall, ar yr unrhyw don a chainc arwest; cann mai mesur ton a chainc yn arbennig yw Dyrif; *(neu Gan Arwest)* fal y bo rhugl a rhywioglef y Gymraeg parth sain ag accen gyfiawn ar y Gerdd; gann nas gellir newid accen ton a chainc i gydweddu ag accen bann a phennill fal y mynner; ag ni oddef ton oslef y cyfryw newidiad ar lafarlais ei bannau a'i gorphwysfaoedd; a thrwy newid accen a llafar yr ymadroddion a'r geiriau, i gydweddu a goslef y gainc, y bydd ammhur a throsgl y Gymraeg; ag anhardd, ag anghyfiawn, ag annaturiawl y geiriau a'r ymadroddion; achos accen a llafar ddieithrol, estronlais, ag afrywiog; ag am hynny rhaid yw cynnal accen wastad ar yr holl bennillion a'r bannau, lle ydd attebont y naill i'r llaill, a'r nall i'r llall; ag o hynn o angen o barth accen, y cyfyd ag y daw'n darddedig neillduolaeth ag arbennigrwydd ansawdd Dyrif, yn amgen ar bob mesur ag ansawdd arall; ag nis gellir hebcor, hynn o beth, ar gerdd cainc oslef, heb afrywiog a thrwsgl ymarfer a'r Gymraeg; ag wrth hynn y gwelir arbennig a neillduol ansawdd o wir a gwreiddiol *angen* ar *Ddyrif*; ys ef o gyfunwedd accen parth pwys gair a gorphwysfa, ym mhob mann a fytho'n cyfatteb i fann arall, cyfunsawf ag ef, ar bennill.

Braint *Dyrif* yw tynnu'r pennill o'r holl fesurau eraill, p'un ai *Gorchan* ai *Adlaw* y bythont y *colofnau*; a'r awdl a fydd fwyaf cyffredin ar *Ddyrif* yw *Brithodl*, yn nessaf at hynny Cadwynodl, ag heb law y rhain, arferir uuodl weithiau, a phrydiau eraill y bydd pennill *Dyri* ar ddull *Hyppynt*, neu *Gyngog*, neu ryw *fessur adlaw* arall; a phann bo felly, ymarferer ar odleu a berthynont i'r cyfryw *fesur adlaw*.

Os cenir unrhyw fessur pa bynnag o'r pedwar ar hugain ar accen wastad, drwy gadw yn gyfundrefn gyfunbwys yr holl fannau a phennillion herwydd pwys, accen, gair, ymadrodd, a gorphwysfa, yn ol y dylit ei wneuthur ar *Ddyrif*; yna syrth y cyfryw fesur pa unrhyw bynnag y bo i ansawdd ag arbennigrwydd *Dyrif*; a hynn a welir ar lawer can wrth don a goslef ar hyd y wlad; fal y mae'n amlwg ar *Dribann Morganwg*; ag ar amrafaelion rywiau *Hyppynt* neu *Lostodyn*; ag yn aml hefyd a'r *Gyngog*.

Digitized by Google

Aneirif yw rhywiau penhillion *Dyrif*, a gwaith diddarfod a fyddai eu dangos ar glawr ymma i gyd; eithr wrth a welir, barned y Bardd awenbwyll.

Yn gyntaf dangoser fal y daw *Dyrif* o golofnau *Gorchan*, fal hynn:

PEDRYFANN AR Y GYHYDEDD LEFN,

**Accen dderchafedig.**

**Mae'n dra hardd y claerfardd clyw,**
**Amlhau dysg er moli Duw;**
**A thra pher yw'r lwysber lef,**
**A wnai'n iawn i Ion y nef.**

**Samuel Jones Offeiriad a'i cant.**

Arall, chwebann, derchafedig.

**Tra bo rhew yn dew ar dwyn;**
**Ia'n y cwm a llwm y llwyn;**
**'Ddwy'n ddifraw'n cyweiriaw can,**
**Yn fardd by mewn ty, min tan;**
**Byw fal hynn mewn bwthyn bach;**
**Brenin wyf a'm bronn yn iach.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

Arall, wythbann, derchafedig.

**Dyn cwynfanllyd ynfyd wyf;**
**Gwr yn wyllt i'w gur a'i nwyf;**
**Yn dwyn nod gresyndod serch;**
**Gwewyr mawr o garu merch;**
**Tost yw'r fronn a'r galon gaeth,**
**Lle rhy serch yn llwyr ei saeth;**
**Ond gresynach tostach twyll,**
**Yw ias penn heb naws y pwyll.**

**Dafydd Williams a'i cant.**

Ag wrth hynn dealler cydred yr accenion.

Arall, wythbann, ar y Gyhydedd Wastad, derchafedig.

**Yn hynn o fedd mae'n gorwedd gwr,**
**Un hynod oedd i wann yn dwr;**
**A'r gwir i'w gais, trugarog oedd;**
**Yn wr o gant, a'i enw ar goedd;**
**Caid gras ym mysg ei ddysg a'i ddawn;**
**A'i feddwl e'n grefyddol iawn;**
**Da'i waith o Dduw, a doeth oedd ef;**
**Wr mwyn yn awr y mae'n y nef.**

**Samuel Jones a'i cant.**



Digitized by Google

### Arall, chwebann, derchafedig.

Yng nghlais y Bre mae lle mewn llwyn,
I'm yno fyn'd ag Emen fwyn;
Ag awr a gaf i garu Gwenn,
Tra chano'r gog mewn brigog brenn;
Lle caf mewn caniad siarad serch,
Yn wiwlan fardd, f'anwylwen ferch.

Dafydd Williams a'i cant.

### Arall, pedryfann derchafedig.

Duw nertha'r gwann y mann y mae,
Er mwyn dy nef yn goddef gwae;
Rho glust i'w gri, gwna di bob dydd
Yn rwydd ei ffordd, rho iddo ffydd.

Samuel Jones a'i cant.

### Arall, degbann, derchafedig.

Mi welais ddydd hoyw gynnydd gynt
Yn iach i'm hoen, yn wych i'm hynt;
Cawn barch y byd o hyd yn hardd,
A moliaith ber canmoliaeth Bardd;
Pann oedd im' din, yn wir fe wyn,
Ag aur mewn llaw, cawn gar mewn Llys;
Gwnaeth syrthio'n dlawd i'mrawd ymroi
I rwydo'm ffyrdd, mae'n raid i'm ffoi;
Troes ceraint gwar, do gyda'r gwynt;
Y leni'n wir gelynion ynt.

Dafydd Ifan Sion a'i cant.

### Ag fel hynn ar accen ddisgynnedig pedryfann:

Ar hyd nos wy'n rhodio'n ysig;
Lle du chwerw mewn llaid a cherrig;
'Y mun gulwys, y mae'n galed
Im' y galar am ei gweled.

Hywel Lewys a'i cant.

### Arall, chwebann.

O! Doethineb diwith hynod,
Nid yw neb yn d'iawn adnabod;
Odiaeth hynaws wyd i'th anian;
A dy ddyddiau'n hyfryd ddiddan;
A'th iawn addysg gwna'th anneddiad,
Yn 'y mynwes rho 'nymuniad.

Samuel Jones a'i cant.

### Arall, wythbann.

Duw trugarog, Dad rhagorol;
Ior wyd Naf y rhadau nefol;
Rho dy gymmorth purdeg imi;
Claf yw 'ngwaedd, O clyw fy ngweddi;

Digitized by Google

Tro fi Ner o'm holl oferedd,
I gywreinion ffyrdd gwirionedd;
Yn dduwiolaidd fal yn ddilys
Y deallwyf fi dy ewyllys.

Samuel Jones a'i cant.

## Arall, unrhyw.

Llais y cwn a'u swn yn seinio,
A wna' i ddyffryn union ddeffro;
Aeth eu llef drwy'r holl bentrefydd;
Brynniau gwylltion, bronnau gelltydd;
Rhed eu miwsig 'rhyd y meysydd;
Sain eu presgerdd sy'n y prysgwydd;
Iw llwys agwedd a'u llais hygar
Clywch eu llef! fal clych eu llafar!

Edward Dafydd a'i cant.

Ag yn unwedd a hynn a ddangoswyd ar y Gyhydedd Wastad y bydd ar bob un arall o'r cyhydeddau; sef o barth accen yr un a fynner ai derchafedig, ai ynte'n ddisgynnedig yr odl; ys ef y peth a welir ar un gyhydedd, a ellir, ag a ddylir ar arall pa un bynnag y bo; ag nid rhaid pellach addysg ar hynn o bwnc.

## Dyrif ar y Gyhydedd Laes, pedryfann.

Hed drosof y deryn pigfelyn at ferch,
Dwg gan i fy Ngwenn o ias awen fy serch,
Ag arch iddi ddyfod i'r gwaelod lle'i gŵyr,
I gyffwrdd a'i Bardd y wawr hardd yn yr hwyr.

Charles Dafydd a'i cant.

## Arall, chwebann.

Cyfrifais fy Ngwenn yn hoyw seren y sir,
Ar gan ag ar gywydd drwy'r hafddydd yn hir;
Y gauaf a'm oerodd, fe suddodd fy serch,
Fe ddarfu'r fath hud, ydd wy'n fud am y ferch;
Ni theimlaf yn awr, i'm pwyll-dirfawr, wr doeth,
Y cur a wna'r cariad a'r bwriad yn boeth.

Dafydd Lewys a'i cant.

## Arall, wythbann.

Lle bytho Mab ifanc a'i wanc am Ferch wenn,
Mawr iawn bydd syfrddandod trybestod ei benn;
Fe eilw y Ferch honn yn liw tirion y tes;
A gwilied ag wylaw, mae'n greidiaw mewn gwres;
Ynfydrwydd i gyd yw ei fryd yn ei fronn;
A meddal y bydd yn ei mhennydd am honn;
Rhyw adwyth yn wir lle 'n trawshudir a serch,
I'n twyllo mewn trallod fal meddwdod yw Merch.

Dafydd Lewys a'i cant.



Digitized by Google

Dyrifau ar y Gyhydedd hwy na hir, sef y Gyhydedd orllaes, (neu'n hyttrach ar math ar goloflh a dyf o ansawdd Bann Cyrch, sef teirsill ar ddeg yn y bann.)

Myfi sydd fwyn bysgottwr yn rhodio glanddwr glynn;
A llawer awr yn ymdaith hyd ochrau llaith y llynn;
Caf fwydydd hwyr a borau o'm rhwydau fwy na rhif;
A thynnaf yn waith uniawn gyfreidiau'n llawn o'r llif.

Dafydd Ifan Sion a'i cant.

Arall, chwebann.

Tydi'r goganwr diras sy'n llunio'n gas y gan,
Cythryblu plwyf yw'th ymffrost a'i yrru'n dost ar dan;
Rho glust a deall didor i wrando cyngor call;
Na wna dy hun, wr arab, fal hynn yn fab i'r fall;
Ti dynni'r mawr elyniaeth a bariaeth am dy benn;
A goflin fyd ag aflwydd o ddilyn swydd y senn.

Dafydd Ifan Sion a'i cant.

Arall, wythbann.

Yr hardd ysgeiddig wenfun sy'n bert ei llun a'i lliw;
Mor wynn a'r lili hyfryd neu'r od ar hyd y rhiw;
Clyw achwyn mab serchogaidd a'th gar y fwynaidd ferch;
A gad i'th gariad gwirion f' anwylyd son am serch;
Danfonais itti'n gennad fy nghaniad yn fy nghur;
Na ro imi'n dal adolwyn, y pall naws anfwyn sur;
Mi 'th gerais Wenn yn ystig, ag unig beth a gaf
Yng nghêl wrth chwilio 'nghalon wyt ti lliw hinon haf.

Sion Padam a'i cant.

[Hyd yn hynn y gwelwyd y rhywiau *Brithodl* ar *ddyrif* yn tyfu o *golofnau Gorchan;* dangoser bellach y rhywiau ar *Ddyrif* a dyfant o'r *adlawiaid golofnau:* rhai'n bennillion cyfunhydfann; eraill a'u bannau'n anghyfunhyd; neu'n *frithgyhydedd;* a *Dyrifau* o'r *adlawiaid golofnau* a fyddant yn ymgyd a dwy ansawdd; sef megis ag ansawdd *Bann Cyrch,* neu *Gadwynodl,* neu *Hyppynt,* neu *Gyngog,* neu ryw fesur adlaw arall yng nghyd a'u *hansawdd angen* ei hunain; eithr *Dyrifau* o gyfiawn ansawdd a fyddant fyth; sef drwy ymddal ar accen wastad ddyrifawl; ag o'r cyfryw foddion y gwelir y rhai a ganlynant.]

Dyrif Bann Cyrch ar y Gyhydedd Wastad a'r un Lefn, fal hynn, yn frithodl:

1.

Ti sydd ryfelwr lladdwr llu,
Yn gyrru fal gwynt gerwin;
A deifiwr hyll yn difa'r hedd,
A gorwedd mewn gwaed gwerin;

Digitized by Google

Er maint dy fost awr dost sy'n dod,
I'th orfod gwnn i'th yrfa;
Tra thost yw'r hawl i'r sawl y sydd
Heb ffydd y dydd diwedda.

2.

Gwir ffydd y sydd yn cynnu serch;
Ie gwirserch mewn glew gwarsyth;
I'w droi'n ei gais o'i drais rhy drwch
I'r ffwch dawelwch dilyth;
Bydd war, bydd hawddgar, a llawn hedd,
Yn unwedd a'r mwyn oenyn;
Gelynaidd wg llawn drwg a'i drais,
O ddiawl, na chais ei ddilyn.

Samuel Jones o Fryn Llywarch a'i cant.

Ag ar hwnn y mae gwir a chyfiawn ansawdd Dyrif, herwydd ei frithodlaeth ar accen wastad.

Pennill Cadwynodl ar y Gyhydedd Lefn fal hynn:

Culwas wyf yn celu serch,
Cario min y cur i'm ais,
Curio mawr yn caru merch,
Canu'm llith a'm cwyn i'm llais.

Pwy a'i cant?

Ag yn wythbann ar yr un gyhydedd ag accen y bydd weithiau.

Arall, wythbann, ar amrafaelryw accen.

Nid oes ond y gwaeloes gwyllt
Ag adfyd ym myd i mi;
A chalon yw honn a hyllt
Sy'n donn dann fy nwyfronn i;
Mi gollais y feinais ferch,
Un deg, oedd fy ngwynfyd oll;
Aeth weithon cyssuron serch,
A'r byd im' i gyd ar goll.

Lleision Ifan a'i cant.

Arall, pedryfann, ar y Gyhydedd Wastad.

Cais gadw y synnwyr llwyr gerllaw,
A rhywglaer bwyll wrth dreiglo'r byd;
Awr hedd y doeth, tra rhwydd y daw
I'th haelwiw fronn, a thawel fryd.

Samuel Jones a'i cant.

Arall, wythbann.

Rho'th gais ar orfod trafod trwch
Y daran fawr yn awr ei nerth;

Digitized by Google

Arafu'r llew, a rhifo'r llwch,
 A dofi sorr y cefnfor certh;
Nid callach ceisio siglo serch,
 A deor swch ei fryd a'i rwyf;
Mae'n maeddu mab, mae'n meddwi merch,
 E dery'n wael y dewra'i nwyf.

Charles Bwttwn, Yswain, a'i cant.

## Arall, amrafael accen.

Pendefig urddedig i'w ddydd;
 Gwr hynod. sy'n llythrod y llawr;
A saeth ym mhob calon y sydd
 O ddyfod oer anffod yr awr;
Ochneidiais pann glywais ei gloch;
 Y clwyf oedd fal ergyd y cledd;
A chryf yw'm galarlef, a chroch,
 Oer dynged o'i fyned i'w fedd.

Hopcin Llywelyn a'i cant.

## Arall, ar y Gyhydedd Laes, pedryfann.

Llawenydd fy ngwala 'r fath benna sy'n bod
 A gefais drwy'm ienctyd, a gwynfyd ei gael;
Ond gwelais ynfydrwydd yn arwydd ei nod;
 Nid yw yn y diwedd ond gwagedd a gwael.

Dafydd Williams a'i cant.

## Llymma bennill lle cenir y Gyhydedd Draws ar un Wastad, wers tragwers, a hefyd odl ddisgynnedig ag un dderchafedig, wers tragwers.

Pennillion rhai gloywon a glywais,
 A thon gann feirdd gwychion y gwydd;
A diwyd o'm serch y gwrandewais
 Eu caniad ar dorriad y dydd;
Oedd eurlaith can bronfraith o brenfrig;
 Oedd cog yno'n serchog ei sain;
Ces lawer hynawsder yn ystig,
 A gwledd o gan ryfedd y rhain.

Hopcin Llywelyn a'i cant.

## Rhyw arall ar bennill cadwynodl.

Mawr iawn yw gwagedd balchedd byd,
 A serch ar gyfoeth annoeth yw;
Gwell ym yw gwledd yr hedd o hyd,
Na'r hoen a gawn o'r rhain i gyd,
 A chael eu rhwyf tra bwyf im byw.

Lleision Ifan a'i cant.

## Llymma rywiau cynghogaidd ar bennillion Dyrif.

Myfi sydd ganiadydd a'i wenydd ar waith,
 A 'mwriad yn hyf, hoff yw gennyf y gan;

Trwy'm calonnau meddyliau arferais yn faith
Air mawl i wr hynod, a chlod i ferch lân;
Y gerdd yw'm holl amcan i'w hanian o hyd,
Mae'n ber yn fy mronn y mae'n berwi'n fy mryd.

Dafydd Williams a'i cant.

## Arall, Amrafaelryw yn gadwyngyrch.

Mae llawer a'u trachwant am feddiant yn fawr,
A'u bariaeth yn ddirfawr i'w bwriad;
Eu gwynfyd yw cyfoeth dyb annoeth bob awr,
Hyd elawr, wann ystawr, yn wastad;
A minneu am gael, gyda'r feinael ber ferch,
Wiw rann o bob rhinwedd a sylwedd ei serch.

Dafydd Williams a'i cant.

## Arall, Amrafaelwedd Cadwynodl digyrch.

Mi 'th glywaf y gog yn odidog ar dwyn,
Mae 'th awen yn beraidd a mwynaidd i mi;
Yn encil y mynydd, neu'n llonydd y llwyn,
Fy nghyfaill blynyddol naturiol wyt ti;
'Ddwy'n cerdded yn awr wyneb glaslawr y glynn
I wrando dy lafar, wyd gynnar dy gan;
Mae'n llifo'n gainc rydd y boreuddydd o'r brynn;
Mae'n weddus, mae'n hyddysg, ym mysg y dail mân;
Car pob un dy glywed, a'th weled, da'th wedd,
Yn canu 'n yr haf in' acenion yr hedd.

Dafydd Williams a'i cant.

## Arall, (Cân y Ffermwr.)

1.

Er cymmaint rhif galwadau, er amled crefftau cred,
Nid tebyg un i'r Ffermwr, y gwladwr mawr ei glod;
Mae'n byw mewn diniweidrwydd, a'i fawl yn rwydd a red
Fal golau'r hafddydd araul, tra retto'r haul i'w rod;
Mae'n un a saif bob amser yn uwchder y gwŷr nod;
A'i bethau da'n aneirif, ant fal y llif ar lled;
E fedd, heb gais gormodedd, ddigonedd yn ei god;
Yn fwynddyn mewn cyfiawnddull, bob awr yn cynnull ced;
Un ydyw, os da nodwn, fe welir hwnn o hyd,
Yn Baun, wr hir ei barch, ag yn benn ar wyr y byd.

2.

Mae'n codi'r ŷd o'r ddaear, o fol y braenar briw;
O beraidd flith ei warthog, cawn foethau'n deg bob dydd;
Ei ddefaid gyda'u hwyn sydd yn pori 'n nhrwyn y rhiw;
A'i feirch metelus difraw drwy'r ddol yn rhodiaw'n rydd;
Mae gantho'r bwydydd gorau, ag oll o'i bydiau'n brydd;
Awr hedd, ag annedd gynnes, yn iach a fires ei ffriw;
Lle can y gog a'r fwyalch, heb feddwl balch y bydd,
Yn llunio mewn blagurdardd ei babell hardd ei lliw;

Digitized by Google

Haf! dewch Brydyddion ganmil, pob un a'i gynnil gân;
A miniwch fawl i'r mwynwr, y Ffermwr gwladwr glan.

Dafydd Williams sef Dafydd o'r Nant a'i cant.—Gwelir ar y Pennill cyntaf odl gadwyn-broest, a chadwynodl o ryw amgenwaith ar yr ail.

## Arall, cynghogaidd.

Daeth Mai odiaeth mwyn,
I'r dyfiant ar dwyn;
A dail yn glasdarddu sy'n llennu pob llwyn:
Ond hyfryd a braf
Yw harddwch yr haf;
A rhodio'n y mandes yn gynnes a gaf:
Drwy'r ddol y caf gerdded a gwyrdded ei gwawr;
Y perthi'n flodeuog, meillionog y llawr;
Caf dyner bleseron,
Yn ddelwau'r meddylon;
A sawr y cysuron drwy 'nwyfronn yn awr.

Dafydd Williams a'i cant.

## Arall, amrafaelryw.

Trigolion Bro Gwladforgan, cyfeillion diddan dewch
Yn dyrfa lan,
Y mawr a'r man,
A newydd gan a gewch;
I Fedwen hardd y Coetty 'ddwy'n meddwl clymmu clod;
A ddaeth o'r Rhath,
Mae'n ddeunaw llath,
Nid oes ei bath yn bod;
A'r chwech Mab ifanc glandeg a'i dygai'n deg ar daith,
O'r Rhath lle'r oedd,
Wyr gwych ar goedd,
Ar ddannedd miloedd maith;
A dodaf yn odidog fy nghan a serchog sain,
Naw ugain mlwydd,
Wyf falch o'r swydd,
Er clod yn rwydd i'r rhain.

Gruffydd Morys a'i cant.

## Arall, amrafaelryw.

Dewch holl Brydyddion,
Hardd gantorion,
Rhai doethion gloywon gwlad,
A gwnewch drwy ddeall,
Gan synnwyrgall,
Heb ball na gwall na gwad,
I gadarn farchog enwog union
Un dewr ei fwriad, da 'i arferion,
Y dyn hygaraf dann y goron,
A goreu 'i ddoniau 'n gar i ddynion,
I'n hen Baun hollwych gwnawn bennillion.
Yn gyfion, rhoddion rhad.

Lleision Ifan a'i cant, i Syr Sion Heiddyn.

Digitized by Google

**Marchog y Sir erioed ym Morganwg.—Gwelir yma ganu pump o'r bannau yn unodl, a'r un peth a welir yn y pennill nesaf, a hynn a welir yn fynych ar Ddyrif, sef tair, neu bedair, neu fwy o'r bannau, yn unodli fal y bo'r achos wrthynt.**

Arall, amrafaelryw.

**Gwaith caru Merch a gwyneb serchus,**
**Y feingan fwyn 'ddwyf yn gwynfannus,**
**Y mae fy mronn yn donn am dani,**
**Un wenn lliw'r hiffyn o'i llwyr hoffi;**
**Perchen wyf ar galon glwyfus,**
**O ddal hiraeth mae'n ddolurus**
**Yn ddi nerth a rhy drafferthus,,**
**Dwys dan ofal dost anafus,**
**A'r blaned oer yn dra blinderus;**
**Clyw fy ngeneth ddifeth ddwyfol,**
**Hynn o stori yn ystyriol,,**
**Iacha 'nghur sy'n drwm anguriol**
**A gair addas trugareddol,**
**Y lanwedd feinir luniaidd fanol.**

**Gruffydd Morys a'i cant.**

[Y Pennillion Cynnrych a ddangoswyd, a gymmerais, lawer o henynt o benn gwlad a gwerin, ag aml aneirif y rhywiau sydd o henynt yn *gynghogaidd*, a hefyd yn tarddu o eraill golofnau adlaw; gwelir mwy o'r fath gymmysgfodd ar bennill yn Nosparthau Cyngog a Hyppynt ag eraill fesurau, Gorchan ag Adlaw; ag nid oes achos yn y byd ini osod ar lawr ymma fwy o gynnrychau; nid oes nemmor o Fardd nas deall y pethau hynn yn berffaith oddiwrth a ddywedpwyd yn Nosparth hynn o fesur *Dyrif*, ag yn Nosparthau'r mesuron eraill; ag nid oes na rhif na diben ar amrafaelion ddulliau *pennillion Dyrif*. Gadawaf i ddeall Bardd awenbwyll weled ym mhellach, a synniad yn llwyr y rhywiau a ellir ar *Ddyrif*.]

*Tribann Morganwg* a genir yn *Ddyrifaidd* drwy gynnal gwastadrwydd accen a bann arno, a chadw yr holl bennillion yn gydwastad gyfunwedd gyfunbwys, fal hynn:

**Y siriol beraidd seren,**
**Oleuwedd addfwyn lawen;**
**Arnat ti rhois i fy serch,**
**Y liwlwys ferch ail Elen.**

**Harri Hywel o Langyfelach a'i cant.**

A thrwy gynnal yr unryw wastadrwydd ar accen, bann, a phennill, y cenir *Hyppynt* yn *Ddyrifaidd*, fal hynn:

**Mae'r gog yn ber laferydd,**
**A'i miwsig yn y maesydd,**
**A gwenu y mae'r gweynydd**
**Dan dywydd hirddydd haf,**



Digitized by Google

A'r gerdd yng nghaerau gwyrddion
Y tir gann fwyailch taerion,
Llawenydd pynciau llawnion
Y don hyfrydlon fraf.

Charles Dafydd Meredydd a'i cant.

A llawer cynnrych o'r unrhyw a welir yn Nosparth *Hyppynt* neu Lostodyn; a chofier yr un peth am eraill fesurau.

Ag wrth o roddwyd yn gynnrychau dealler hynn, sef pa peth bynnag a welir ar unrhyw bennill o henynt; pa un ai o barth Cyhydedd Bann, gosodiad, ffurf, ai o bwys accen, dull, a rhywogaeth odl; neu o barth un peth arall ar drefn ag athrylith pennill; yn yr unrhyw fodd y gellir ei wneuthur ar un gyhydedd ag ar y llall, a'r llaill oll, o henynt; sef yr unrhyw drefniad, ffurfiad, gosodiad, dychymmyg, odlad, ag accenìad; cann mai braint cyffredin yw hynn o beth i'r holl gyhydeddau a cholofnau; ag nid rhaid pellach addysg na hynn ar *Ddyrif*.

*Lleision-gerdd* y geilw rhai *Dyrif*, fal ei gwelais mewn hen Lyfr, sef yw hynny Cerdd wrth don a chainc; am mai *Ton* oedd ystyr y gair *Lleision*, yn yr hen amser; er mai enw dyn yw'r gair yn awr genym ni; a cherdd o'r un ansawdd yw *Dyrif*, a'r rhyw ar gerdd a elwir yn Lladin *Lyrica*; sef yw ystyr y gair hynny yn Gymraeg, Cerdd wrth *Don* a *Thant*; sef eu cenid y cyfryw gerddi yn yr amser gynt gann y *Lladingwyr* gydag offer dannau a elwid *Lyra* o rywogaeth *Telyn*; a'r cyfryw arfer o ganu gyda chrwth a thelyn, y sydd gyda ni yng *Nghymru*.

*Yng Ngorsedd Caerfyrddin* rhodded y cyfryw gerddi a'r rhain dann warth a gommeddiant; a'r achos y bernir oedd hynn; sef ydd oedd yr arfer yn yr amser hynny, fal y mae'n awr gann *oferfeirdd*; o ganu'r cyfryw gerddi'n llwyr ddigynghanedd, heb na chrebwyll na chelfyddyd; ag o hynn o anghelfydd brydyddu ag arfer ar *Ddyri*, y daeth ar y rhyw hynn o gerdd ammharch ag anarfer, gann Feirdd wrth ddysg ag awdurdod; eithr y mae yn yr oes honn lawer o ymarfer a'r cyfryw brydyddu ym mhob rhann o *Gymru*; gann amled a rhagored ceingciau a chaniadau goslef yn y wlad yn awr, yn waith rhagorgamp o fawr gynnildeb Cerddorion ton a thant, a *Beirdd Arwest*; a Chantorion goslef; a goreu o'r holl fesurau yw *Dyrif* gyda *Thon oslef*, ym mraint ei llithrigrwydd; ag o gyffelyb gelfydd a chyfiawn ganu a barddoniaethu, y ceir y *Dyrifau* ym mhlith y goreuon o'r mesurau, ag yn un peth yn benn ernynt oll, sef nid mor fynych o'u hadrawdd, gann y werin diddysg y gwneir cam a'r Prydydd; gann fod yr accen wastad ernynt yn arwain y llafar i'r cyfiawn ddatganiad ag adroddiad; ag o allu canu ton a

Digitized by Google

chainc ernynt y maent, yn hynny o beth, yn fwy peraiddlais nag un mesur arall.

Y mae llawer Bardd awenbwyll dysgedig yn yr oes honn yn barnu *Dyrif* yn oreu gyda thon o'i bod yn odli'n gyflwyr ddigynghanedd, am y gellir o hynny arwain y crebwyll a'r dychymmyg yn fwy rhywiog; a'r ymadroddion a'r synnwyr yn fyrrach, ag yn eglurach: Barned y Cywrain awengamp.

Da yw Accen led-wastad ar amryw o'r *adlawiaid fesurau*; sef fal y bydd Pennill *Proest* ar odl dderchafedig ei hacccn; a *Llostodyn*, a *Chadwyn cyrch*; (sef rhai rywiau neu geinciau o henynt;) ag eraill fesurau weithiau; eithr ar y rhann fwyaf o'r mesurau, bai yw gormod bannau cyfaccen, gan eu diflased a'u mawr ddyrllydrwydd, ag nid ydynt [*y cyfryw gyfundodau Bann, Accen, a Phwys, a Mesur,*] hyfrydlef ar *gerdd draith*, sef can iddei darllen, a'i hadrodd, a'i datgan yn ddi-don heb gainc a goslef. Tebyg yw llatar rhygyfaccen bannau ar *gerdd draith* i gan y gog; sef gormodd unllais yn blino'r clust; ag am hynny gwell yw accen anwastad amrafaelryw, a'i chymmysg yn debyg i gan eos; yn llawn amrafaelsain hyfrydlais; a rhwyddineb a natturioldeb llafar yn fwy amlwg erni [*na'r cyfunllais bann ag accen ag y mae ton neu gainc arwest yn gofyn.* J. B.]

## LLYMA DDOSPARTH AR FESURAU CERDD DAVOD,

**A wnaeth Simwnt Vychan Bencerdd i'r Meistr Pirs Mostyn o Dalacre, a'r Ddosparth hon a gafodd varn a bodd Eisteddfod fawr Gaerwys ym mlwyddyn oed Crist 1567.**

YN gyntaf ysbysswn am y ffordd i wybod ac i adnabod mesurau y Gerdd, y rhai a dynnwyd o'r Lladin drwy athrawiaeth Einiawn Offeiriad a Davydd Ddu Athraw o Hiraddug, y rhai a gonffirmiodd y mesurau a dynnassant, ac a dynnodd eraill o'r blaen, y rhai hynny a ddechreuodd ar voliant i Dduw yr yn amser Enos ap Seth ap Addaf, y gwr cyntaf a voliannodd Duw ar Gerdd Dafod; ac a wnaeth delw yr honn yn Lladin a elwir Ffugr; sef yr amser y dechreuwyd, ynghylch chwechant o vlynyddoedd o ddechreu Addaf, ac o hynny hyd enedigaeth Crist y cynhaliodd y Prophwydi ef dan ei wellhau

yn prophwydo Iesu: a'n iaith ninnau, pan gredassom i Grist, a'i cafas drwy yr Yspryd Glan, a galw yr Yspryd Glan a wnaethant yn Awen; yr honn a ddivlanna gan bechodau, ac a amlha gan gyfrwyddyd a gwybodau a saucteiddrwydd.

Weithion yr ysbysswn am golofnau, ac am eu rhif, nid amgen

Y Verr Gyhydedd, a'i mesur yw pedair silldaf.
Y Wenn Gyhydedd, a'i mesur yw pump silldaf.
Y Las Gyhydedd, a'i mesur yw chwech silldaf.
Y Gaeth Gyhydedd, a'i mesur yw saith silldaf.
Y Draws Gyhydedd, a'i mesur yw wyth silldaf.
Y Drwsgl Gyhydeedd, a'i mesur yw naw silldaf.
Y Gyhydedd Hir a'i mesur yw deg silldaf.

Ac o'r saith golofn hynn y tynnwyd pedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod, y rhai y mae Beirdd Ynys Prydain yn ymarfer oe canu, a'u gwneuthur.

Pump mesur cyffredin a vu ar odlau a wnaeth Taliesin, nid amgen Toddaid, Gwawdodyn byrr, Cyhydedd hir, Cyhydedd ferr, a Huppynt byrr; a rhai a'u geilw hwynt pump Cadair Cerdd Dafod, (a phump Cadair Cerdd Taliesin.*)

Gwedi hynny y dychymygwyd pedwar mesur eraill, nid amgen Gwawd odyn hir, Cyhydedd naw bann, Byrr a Thoddaid, a Chlogyrnach yr hwn a elwir dull Cynddelw.

Gwedi hynny y dychymygodd Davydd Ddu Athraw dri messur eraill, nid amgen Cyrch a Chwtta, a Hir a Thoddaid, a Thawddgyrch Cadwynwog.

Einion Offeiriad a ddychymygawdd yntau Hupunt hir.

Davydd ap Edmwnt a ddychymygawdd ddau vessur yn lle Ynglyn o'r hen ganiad ag Ynglyn Milwr, nid amgen Gorchest y Beirdd, a Chadwyn vyrr.†

---

* Nid ydynt y geiriau a'r ymadrodion a welir rhwng cromfachau yn Nosparth SIMWNT VYCHAN yn yr hen ysgrif, nag ychwaith yng chyfysgrif Robert Vychan o Hengwrt, ond y mae amryw o honynt yn ysgrif Rhisiart Hughes o Gefn Llanfair

† Fe reibiodd Dafydd ap Edmwnt y Gadwyn fyrr, ond fe a'i dychymmygwyd ef gan mlynedd o leiaf cyn geni Dafydd ap Edmwnd; gwelir ef yn ei hen ddull ymhlith pethau eraill yng Ngwaith Iorwerth Llwyd ap y Gargam; ag y mae yn null Cadair Tir Iarll (yr un a dull Beirdd Gwynedd y dydd heddyw eithr yn fwy gorchestol) yn awdl Gwilym Tew i Fair o Benn Rhys, cyn y flwyddyn 1414, pan gaewyd yn erbyn y Fonachlog honno Nid oes neb o Feirdd Gwynedd wedi canu'r mesur hwn ar ddull Deio pwll gweppra, ond y diweddar Edward Jones o Fodfari, ag yn ei waith ef gerllaw cymmaint o wanbwyll ag a welwyd erioed yng ngwaith Dafydd ap Edmwnd. Y mae rhai Prydyddion yn Morganwg yn gyfoedion Edward Jones, er anghlod iddynt, wedi amcanu gorchestion llaid pwll gweppra; buassai'n gallach iddynt beidio. Y mae'r Bardd mawr! mawr! mawr! a mawr iawn! ni wyr neb pa mor fawr oud

Naw messur eraill y sydd, nid amgen pedwar messur Cywydd a elwir Cywydd deuair hirion, Cywydd deuair vyrrion, Owdl Gywydd, a Chywydd Llosgyrnioc a phump messur Ynglyn, nid amgen, Ynglyn unodl uniawn, Ynglyn unodl cyrch, Ynglyn unodl Crwcca, Provest cyvnewidiawc, a Phrovest cadwynawc.

Bellach ysbysswn am y modd y gwneir messurau Cerddwriaeth Cerdd Davod, nid amgen pedwar mesur ar hugain, cans o'r ymadroddion perffaith cyviawn y bydd mydr neu brydiad.

Beth yw mydr neu brydiad?

Cyfansoddiad ymadroddion perffeithion cyviawn o eiriau addurn, arddercbawc, a deocaer o eiriau cymmeredic a arwyddocant voliant neu ogan, a hynny ar Gerdd Dafod ganmoledic.

Tair Cainc Prydyddiaeth y sydd, nid amgen Cywyddau, Ynglynion, ac Odlau.

Tri rhyw Gywydd y sydd, Cywydd deuair, Cywydd Llosgyrnioc, ac Owdl Gywydd.

Deuryw Gywydd deuair y sydd, Cywydd deuair vyrrion, a Chywydd deuair hirion.

Cywydd deuair vyrrion a vessurir o wyth silldaf, pedwar ym mbob bann, val y mae hwnn o'r ddull hen,

> Eiliw gwenic
> Tonn am gerric.

Ac o'r ddull newydd val hynn:

> Dewr hil vil vur,
> Didarf Dudur.

Cywydd deuair hirion a vessurir o bedair silldaf ar ddec, saith ym mhob bann, val y mae hwnn o'r hen ddull:

> March ffyrf archgrwn byrr ei vlew,
> Llyfn llygattrwth pedreindew.

Ac o'r ddull newydd val hynn:

> Y mae y mi am y myd
> Wyneb un yn ei benyd.

Cywydd Llosgyrnioc a vessurir o ddau vann, neu dri, neu

---

efe ei hunan ardderchog, Dafydd Ddu o'r Eryri yn dywedyd, yn ei nodau ar Farwnad y Parchedig Richard Davies o Fangor, i Ddafydd ap Edmwnd ddyngu dau fesur i Feirdd Deheubarth, odid nad gorchestion Pwll Gweppra y mae'n ei feddwl: rhyfedd a rhyfedd yw rhinweddau cwrw da; a phwy a wyr hynn yn well na Dafydd Ddu?

> Un dafn yng ngenau dyn doeth
> Yn union a'i try'n annoeth.

Fal y canodd Taliesin ab Iolo Morganwg.

Digitized by Google

bedwar o wyth silldaf ym mhob bann, ac yn unawdl bob llosgwrn, drwy y Cywydd; ac yn saith silldaf o hyd, a gair cyrch rhwng y pennill a'r llosgwrn, val y mae hwnn o'r hen ddull:

**Lluwch eiry glennydd mynydd mynnau,**
**Lluoedd a'th vawl gwawl gwawr dehau,**
**Llathrlun gorau oleuddydd.**

Ac o'r ddull newydd val hynn:

**Y mae gorhoff Em a garaf**
**O gof aelaw ag a volaf,**
**O choeliaf gael ei chalon.**

Neu o dri bann val hynn:

**Iawnach heddyw yw no'i chuddio,**
**Ywch ei chenedl uwch uwch yno,**
**Ar ei golwg, ar a'i gwelo,**
**Alw honno eiliw hinon.**

Neu val hynn o bedwar bann:

**Oll awn i'r Gaer y llenwir gwin,**
**I glos urddol Eglwys Hyrddin;**
**Y Plas y sydd val Powls a Sin;**
**Pantri'r val uwch Pentre'r Velin;**
**Aur dilyn ym yw'r dólydd.**

Owdl Gywydd a vessurir o bedwar silldaf ar ddec, saith ym mhob bann; a gair cyrch yn nechreu yr ail bann yn atteb i'r owdl gyntaf, a'r owdl ddiwaethaf yn ymravael; a honno yn unodl drwy y Cywydd, val y mae hwnn o'r hen ddull:

**O gwrthodi liw ewyn**
**Was di velyn gutynnau,**
**(Gwas di wladaidd da ei len**
**A'i awen yn ei lyvrau,)** — **O Ysgrif R. H.**
**Cael o honot aradrgaeth**
**Un gwaeth-waeth ei anwydau.**

Ac o'r dull newydd val hynn:

**Un a dal y nadolic**
**Obr diddic i Brydyddion,**
**Ag a bryn ddeg o bai raid**
**Llongaid val y gollyngon.**

Weithion yr ysbysswn o'r ail gainc; nid amgen Ynglynion.

Deuryw Ynglyn y sydd, Unodl a Phrovest.

Tri rhyw Ynglyn Unodl y sydd, Unodl Uniawn, Unodl Cyrch, ac Unodl Crwcca.

Ynglyn Unodl Union a vessurir o ddec silldaf ar hugain, unarbymthec yn y Paladr, pedair ar ddec yn y penn arall.

Gossodiad y Paladr yn y bummed silldaf, sef yw hwnnw rhagwahan, ac o bydd yr owdl gyntaf yn terfynu yn y seithved

Digitized by Google

silldaf, bid y gair cyrch yn dairsilldaf; os yn yr wythfed y tervyna, bid y gair cyrch yn ddwy silldaf; ac os yn y nawved y tervyna, bid y gair cyrch yn un silldaf; a'r tervyniad hwnnw a elwir gwahan; val y mae hwnn yn tervynu yn yr wythved:

**Dilynais clwyvais val y clyw—deucant**
**Y deccaf o ddyn byw;**
**Dolur gormodd a'm doddyw**
**Dilyn pryd ewyn, prid yw.**

Yr ail dull ar Ynglyn Unodl Uniawn yw ei drawsgynghaneddu heb ragwahan ynddaw, val y mae hwnn:

**Arglwydd Sain Bened a erglyw—weiniaid**
**Anhawdd cael ei gyvryw;**
**Bid menestr bywyd Mynyw,**
**Beda ddoeth abadoedd yw.**

Arall.

**(Ceisiais yn rhwydd gael cusan cofus nwyf,**
**Cefais nag o'm hamcan;**
**Pa les i Wenn, lwyswenn lan,**
**Rhyw alaeth, fod yn rylan?**

**Myfi R. H. a'i cant.**

**Ond mae bai arno, am nad yw yn gorphwys yn y bummed silldaf. Juxta Reginam. R. H.*)**

Ac er na bo rhagwahan, y mae yn rhaid iddo gael gorphwysva yn y pummed silldaf.

Ac weithiau y cenir godidowgrwydd ynddaw, sef yw hynny rhoi y gair cyrch i atteb i'r bummed silldaf, val y mae hwnn:

**Dolur a gevais a dolau dwyais,**
**Dial am bechodau;**
**Dwyrann adwyth, dyrnodiau,**
**Dwrn y cryd yn dirwyn crau.**

**Simwnt Vychan a'i cant,**
**[pan fu yn glaf o'r cryd a'r poeth. R. H.]**

Ynglyn unodl cyrch a fessurir o wyth silldaf ar hugain, saith ym mhob un o'r pedwar bann, y Paladr fal Pennill o Gywydd dauair hirion, a'r penn olaf val awdl Gywydd, val y mae hwnn:

**Diboen Verch Coel Godeboc,**
**I gred y peraist y groc;**
**Ugain trychant a'i wrantu,**
**Oedd oed Iesu Dduw D'wysoc.**

Ac weithiau cenir y mesur hwnn yn Brovest, val y canodd Tudur Aled yr Ynglyn a ganlyn:

---

* Y mae bai arall yn Englyn R. H.; hynny yw, odlau'r gynghanedd sain yn poestio a'r brifodl—(medd Taliesin ab Iolo Morganwg).

Nerth yw dy rann wrth dy rym,
Aeth yn dy ras a'th wayw'n drwm;
Aethost iawnlwyth Ystanlai,
Lle nid ai y llew na dim.

Ynglyn unowdl Crwcca a vydd pann vo y ddau vann hirion yn ol, a'r ddau fyrrion ym mlaen, ac yn wrthwyneb i unawdl Uniawn, ac yn un messur ac ef, val y mae hwnn:

I'r gangen wann ar Lannerch.
A roddes yn arwydd serch,
A chudynnau brwyn o cheid annerch hardd,
I Glaerwardd Eglurverch.

Dau ryw Ynglyn Provest y sydd; Provest cyfnewidioc a Phrovest cadwynoc.

Provest cyfnewidioc a newidia odlau ymrafael, ac a vessurir o wyth silldaf ar hugain, saith ym mhob un ar bedwar; val y mae hwnn:

Y Gwr y sydd Dri ag Un,
Dad, Mab, ag Yspryd, a Dyn,
Duw vara gorph, dwfr, a gwin,
Ydyw oll, o dyallwn.

Provest cadwynoc a vessurir o'r un hyd a'r uchod, ac a gadwynir val hynn; y drydedd awdl yn atteb i'r gyntaf, a'r bedwaredd yn atteb i'r ail, val y mae yr Ynglyn hwnn:

Mae Rhys heb gael mwy o'r hun,
Mae'r genedl, a'i mawr gwynan;
Mae'r Beirdd, o blegid marw Bun,
Mewn llewic, am Wenllian.

Beth yw Provest?

Cyfnewid Bogailiaid a chydatteb Cydsonaniaid, a hynny yn odlau yr Ynglyn val y mae yn dangos uchod, a phan vo Provest yn tervynu mewn Bogailiaid heb Gydsonaniaid ar eu ol, hwnnw a elwir Hanner Provest, neu Provest Bogailiaid, val y mae hwnn:

Doeth i'th etholes Iesu,
Em addwyn yn fam iddo,
Dovydd a ddywad Avi
Rhag dial afal Eva.

Yr Ynglynion eraill, nid amgen, Ynglyn o'r Hen Ganiad, Ynglyn Garr hir, Ynglyn Milwr, ac Ynglyn Cil Dwrn; ofer fesurau ydynt, ac nid ydynt yn y pedwar mesur ar hugain.*

---

* Nid ydynt yn y pedwar mesur ar hugain! dyna i chwi synwyr a blawd ynddo! dyna i chwi ddadl dros eu galw yn ofer fesurau! nid ydynt ar bedwar mesur ar hugain

Digitized by Google

Bellach yr ysbysswn o'r drydydd Gainc Prydyddiaeth, nid amgen, odlau ar bymthec messur; sef ynt y rhai hynn, Toddaid, Gwawd odyn byrr, Gwawd odyn hir; Hupynt byrr, Hupynt hir; Cyhydedd verr, Cyhydedd hir, Cyhydedd nawban; Byrr a Thoddaid, Hir a Thodddaid, Cyrch a Chwtta; Clogyrnach a elwir Dull Cynddelw, Gorchest y Beirdd, Cadwyn vyrr, a Thawddgyrch Cadwynoc.

TODDAID: a vessurir o bedwar silldaf ar bymthec, a dwy awdl unrhyw yn y Pennill, a gair Toddaid vegis gair Cyrch Ynglyn unodl uniawn, yn terfynu yn y ddegved silldaf, a'r bann olaf i'r Pennill Toddaid bid yn nawsill vyth, val y mae hwnn:

A vynno evo a vydd yn ei vro,
A'r hynn a vynno na bo ni bydd.

Gwawd Odyn byrr a vessurir o ddwy sillдaf ar hugain, nid amgen, dau Bennill vyrrion o naw sillдaf ymhob un, a'r un hir val Toddaid yn ol val y mae hwn:

Lle bu'r Gaer vaen, llwybr gwyr a vynnai,
Lloegr o dir Ffranc yn ieuanc a wnai;
Llew blin ym myddin maeddai wyr arvawo
Llym Varchawc enwawc a ddigonai.

---

Pwll Gweppra, Wala hai! fal y dywedir yng Ngwynedd; ewch rhagoch ddoethion yn y cyfryw ddadlyddiaeth, y mae digon o dir ëang rhyngoch a phenn eich taith; os gwyr rhywun nad yw'n Fardd wrth Fraint a Defod, Beirdd Gwynedd, ym mha le, neu ym mha fyd, y mae'r penn iddi?

Y mae rhyw son diarhebol ym mhlith Beirdd Morganwg, am HEN GAFFO BENN CEFFYL O FON, un a ddychymmygai ambell peth tra rhyfedd; odid nad efe a ddychymmygodd yr ymadrodd PEDWAR MESUR AR HUGAIN; sef yw hynny pedwar dull ar hugain ar Bennill; peth na feddyliodd neb o hen Feirdd Cenedl y Cymry erioed cyn amser Dafydd ap Edmwnt, neu fe allai amser TUDYR ALED, os gellir derbyn RHEOLAU TUDUR ALED; sef yr enw a roddir yn fynych yn Neheubarth i Ddosparth pedwar pennill ar hugain Gwynedd; y mae llawer oddiwrth hynn yn meddwl mai TUDUR ALED, nai mab chwaer a disgybl Dafydd ap Edmwnt, drwy gynhorthwy yr hen GAFFO rhagenwedig, a drefnodd y DDOSPARTH FENDIGEDIG HONN!!! (Yr hen GAFFO druan! yr wyf yn deall ei fod heb farw etto! a bod llawer o'i hiliogaeth yn Brydyddion dan enw Beirdd, eraill yn Awduron Geirlyfrau a Gramadegau, ym mha rai y gwelir ymegnio mawr dros benn, i roi agwedd newydd, gorddyfnawd newydd, trefn newydd, ar bob peth yn y Gymraeg, llythyriad a llafar newydd i bob gair a geffir allan o enau ein hen Gares yr IAITH GYMRAEG, ond y mae rhai o'i cheraint ffyddlonaf yn wrolion ar eu traed ag mewn arfau gloywon o'i phlaid yn erbyn yr hen GEFFYN a'i holl hiliogaeth ordderchgael; ag os dant ymlaen yn hir yn eu rhyfyg, ys dir i'r hen GEFFYNIAID gael dyrnodiau trymion ar eu pennau CALEDION; neu FEDDALION, (fal y mae eraill yn barnu eu bod.) Ond i ddychwelyd at GYFF DADWRDD Beirdd Pwll Gweppra, ni welwyd yr ymadrodd disail a disylwedd hwnn (Pedwar ar hugain) erioed mewn dim ag a welwyd o ysgrifen Gymraeg, cyn Eisteddfod gyntaf Caerwys yn y flwyddyn 1523. Pa bryd y dechreuwyd Darben ar bedwar ansawdd ar hugain ym Morganwg nid hawdd gwybod; nid oes dim son am yr ymadrodd yn Nosparth Edeyrn, yn Nosparth Einion Offeiriad, nag yn Nosparth Dafydd Ddu Athraw. Yn awdl Gwilym Tew i ddangos amrafaelion o hen fesurau y mae naw mesur neu ddeg ar hugain; yn awdl Lewys Morganwg y mae ynghylch dau neu dri mesur ar hugain, nid oes un o'r Beirdd rhagenwedigion yn son yn un ystyr am rif pedwar ar hugain, ar na mesur nag ansawdd. Yr oedd o hen ddefod gan bob Cadair, Gwlm arbennigrif neu Gwlm Cadair fal ai gelwid, o'r mesurau a elwid neu a fernid yn oreuon, ond nid oeddynt yn carcharu Celfyddyd Cerdd Dafod o fewn i gyfyngrif Pedwar ar hugain, nag un rhif arall ba bynnag.



Digitized by Google

Gwawd Odyn hir a vessurir o bumthec silldaf a deugain, pedwar pennill byrrion o naw silldaf bob un, a phennill o Doddaid yn ol o bedwar silldaf ar bymthec, val y mae y Pennill hwnn:

**Rhedaf rad breisgof lle rhed brwysgion,**
**Rhandai roid ossai yr rheidusion;**
**Rheol Rhys deol rhyw westeion,**
**Rheidwest rhad Lluest, rhadau Llëon;**
**Rhyddglos rhad agos rhi digon rhyddlys**
**Rhys rhyw vann ysbys Rhuvain osbion.**

Hupynt byrr a vessurir o bedwar silldaf ar hugain, dau bennill o ddeuddec silldaf ymhob un, a thri phennill byrrion ymhob un o bedwar silldaf, a'r ddau gyntaf yn atteb yw gilydd, a'r trydydd yn arwain yr awdl, val y mae y Pennill hwnn:

**Iawn oe berchi,**
**I bawb erchi,**
**O bob Eirchiad;**
**Ar y diben,**
**Oes anniben**
**I Sion Abad.**

Hupynt hir a vessurir o un silldaf ar bymtheg yn unic: os dau bennill, un silldaf ar bymthec ymhob un; a phedwar pennill byrrion ymhob un o bedair silldaf; a'r tri cyntaf yn unodl; a'r pedweyydd yn arwain yr odl, val y mae hwnn:

**Mi a baraf**
**I'm Gwenn araf,**
**Gann a garaf**
**Gan o gerydd;**
**Am lyfasu**
**Fy niflasu,**
**A'm lliasu**
**Em lliosydd.**

Cyhydedd verr a vessurir o bedwar pennill byrrion, o wyth silldaf ym mhob un, ae yn unawdl bob un fal y mae hwnn:

**Yn Ior ydwyt Sion waredoc,**
**A'n Cun eurfalch Siencyn arfoc,**
**Wyr Veredydd arf riwaedoc,**
**Aer arvodau orwyt Vadoc.**

Cyhydedd hir a vessurir o ddau bennill o bedair silldaf ar bymthec ymhob pennill; a thri phennill byrrion unawdl o bump silldaf bob un yn y dechreu; a phennill byrr o bedair silldaf yn arwain yr awdl, fal y mae hwnn:

**O roes voes veusydd**
**Ivor rhagor rhydd,**
**Ef a roe Ddafydd**
**I Veirdd ddeufwy.**
**Oes deiroes dirion**
**A bair Mair i'm Ion,**
**I buro Canon**
**Aberconwy.**

Cyhydedd nawbann a vessurir o bedwar pennill o naw silldaf bob un, ag yn unodl oll; val y mae y pennill hwnn:

Digitized by Google

**Aruthr yw llongaid wrth ddryll angor;**
**A bai yw gweddi heb egwyddor;**
**O byddai megis budd ymogor**
**Y bobl o Wynedd heb eu blaenor.**

Byrr a Thoddaid a vessurir o bedwar pennill byrrion o wyth sillдaf bob un val Cyhydedd Verr, a phaladr ynglyn ar i ol yn diweddu pob pennill o'r awdl, a phaladr ynglyn o'r blaen yn nechreu yr owdl val y mae y pennill hwnn:

**Yno'r awn i'n llawn winllwynau—Hyrddin**
**Yw heirddion neuaddau,**
**I Dai'r Dalaith, Duw a'r Delwau,**
**Ag yn bedwar gwin a bwydau;**
**I bur llynnoedd, o berllannau,**
**Ynn a redant yn wirodau;**
**Yno gwelir gwir dan gaerau—nefawl**
**Arglwyddawl rhoi gwleddau.**

Hir a Thoddaid a vessurir o drigain sillдaf, nid amgen, pedwar pennill byrrion o ddec sillдaf ymhob un, a phennill o Doddaid yn ol o ugain sillдaf, ac yn unodl oll val y mae hwnn:

**Gwn a wna v'enaid gain enau vwyniant,**
**Gweddio'r Iesu Gwiwdduw oreusant;**
**Garr bronn y delwau gwawr breiniau DYLWANT**
**Gwyddai Dduw deilwng weddi ddidoliant.**
**Gwiwras a gavas gwarant oe gweddi,**
**Gan Dduw oll iddi gynnydd a llwyddiant.**

Cyrch a Chwtta a vessurir o unsillдaf ar bymthec a deugain, nid amgen chwech o bennillion byrrion o saith sillдaf ymhob un, a phennill yn ol o bedair sillдaf ar ddec, val penn Ynglyn Unodl Cyrch, val y mae hwnn:

**Lloer ddeddfol llariaidd addfed,**
**Llawen oedd ei llunieiddied,**
**Llawn glud verw, llonn glodvored**
**Llym orchest haul llu Merched,**
**Llys dirion drem llesteiried**
**Lludd vi varw lleddf vyvyried,**
**Llyna son mewn llwyn o serch**
**Llais v'annerch lles a vynned.**

Clogyrnach a vessurir o ddeuddec sillдaf ar hugain, nid amgen, dau bennill o wyth sillдaf bob un yn y dechreu, val hanner Cyhydedd Verr, a phennill yn ol o un sillдaf ar bymthec, ac yn hwnnw dri phennill byrrion, dau yn unodl o bump sillдaf bob un, a'r trydydd o chwech yn arwain yr odl, a gair cyrch yn y drydydd sillдaf yn atteb i'r ddau bennill vyrrion, a thair odl yn y pennill oll val y mae hwnn:



Digitized by Google

Brwysgwr dynion braisc Ior dòmoc,
Bro aer rhinwedd, Bryhyr enwoc
Brad vugad vwgwl,
Bradwr ciliwr owl,
Braich Yniwl Brycheinioc.

Gorchest y Beirdd a vessurir o un bann o bymtheg silldaf; ac yn hwnnw y bydd dau bennill vyrrion o bedair sillduf, bob un yn unodl, a'r ail sillduf o'r ail pennill yn atteb i'r ail o'r cyntaf, ac yn gytsain, ac yn groesgynghaneddawl bob un; a phennill o saith sillduf yn ol yn arwain yr odl, a'r bedwaredd sillduf a'r ail o hwnnw yn cydseiniaw a'r pennillion byrrion, ac yn ddwblrywioc croesgynghaneddawl, val y mae hwnn;

I rwydd air hir,
Yw chwydd och wir, } Y sydd saeth.
Yw swydd a'i Sir

Ac yn gymmar i hwnnw,

I glai a glyn
Y rhai o'r hyn, } I Dduw 'dd aeth.
Ydd ai y ddyn

Cadwyn vyrr a vessurir o ddeuddec sillduf ar hugain, nid amgen, dau bennill o un sillduf ar bymthec bob un, a gair cyrch ymhob un o'r rhai'n yn y ddeuddegved sillduf yn atteb i'r wythved, a'i gynghaneddu yn ddwbl pob pedair sillduf, a phob wyth, ac yn y pennill oll y bydd tair owdl heblaw y pedair owdl gyrch, nid amgen, yr owdl gyntaf yn terfynu yn yr unvedsillduf ar bymthec; yr ail owdl yn yr ugeinfed sillduf, a'r drydedd owdl yn diweddu y pennill; a gwybydd vod y pedair sillduf neu owdl gyrch uchod yn unodl; val y mae hwnn;

Gwenvun gwynvawr, geinvwyn gynvyl,
Gariad gweryl girieđ gorau;
Gwirvudd gyrvau, gorvydd gweurvyl,
Gorug eryl gwiw ragorau.

Tawddgyrch Cadwynoc a vessurir o bedair sillduf a thrugain; ac yn hwnnw y bydd 'pedwar pennill byrrion o un sillduf ar bymthec ym mhob un; ac ym mhob un o'r ddau bennill gyntaf y bydd dau bennill vyrrion o wyth sillduf bob un; a'r sillduf gyntaf oll yn atteb i'r owdl; a'r wythved sillduf yn atteb i'r ddeuddegved; ac yn yr unved sillduf ar bymthec bod yr owdl; a'r bedwaredd sillduf o'r ail bann yn atteb i'r bedwaredd sillduf gyntaf, a'r wythved o'r ail bann yn atteb i'r wythved o'r bann cyntaf, a'r ddeuddegved o'r ail bann yn atteb i'r ddeuddegfed o'r cyntaf ac yn y ddeuddegfed sillduf ar hugain bod yr ail

Digitized by Google

owdl; a'r hanner arall a genir val dau bennill un gyfochr o'r Hupynt hir, a'i gyfochri val y mae y pennill hwnn:

| | |
|---|---|
| Adcas doddiant<br>Oed cystuddiau<br>Wyf a lluddiau | } Yw vy lladdiad, |
| Y mae coddiant<br>Heb ddim cuddiau<br>Ar y gruddiau | } O'r gorweddiad, |
| Em mi bïau<br>Amlwc ïau,<br>A gwelïau, | } A goleuad |
| Am elïau<br>Oer yw 'nghrïau<br>Y'th rann diau | } O'th wrandawiad.* |

Ac velly y tervyna Dosparth y pedwar mesur ar hugain. [A honn a elwir Dosparth Prydyddion Gwynedd.]

---

* Y mae ROBERT VYCHAN o HENGWRT, Yswain, yn ei Ysgrif o Ramadeg Simwnt Vychan, ac ar ol y Ddosparth honn, yn rhoi mesur newydd a ddychymmygwyd gan Simwnt Vychan dan enw DYMCHWELAWL, [gwell enw byddai Dymchwelawdl] ag yn ei ddosparthu fal hynn:

"DYMCHWELAWL a vessurir o ugain silldaf, pump pennill byrrion o bedair silldaf bob un, a'r ddau gyntaf yn unodl ag yn gyfochr; a'r ddau eraill yn amrafaelio odl, ag yn unodl gyfochr hwyntau ill dau; a'r pennill diweddaf yn dychwelyd adref yn unodl ungyfochr a'r ddau cyntaf, a'r ailrhann yn cynghaneddu a'r pummed; val hynn: [Pwy a etyb dros Robert Vychan ai iawn ai amgen ei Gymraeg ef ymma?]

Y gwr gorau
Ym mrig Iorau,
A mawr giried
Ei air gwiried
A'i ragorau.

O Ysgriflyfr P. Panton, Yswain, o'r Plas Gwynn, ym Mon.

Dwy awen sydd, da yw'n son,
Yn ddoniau deuryw ddynion,
Un o Dduw'n gyfiawn ddeall,
A llen o Gythraul y llall.

Ebe rhyw Hen Fardd.

Ymofynner pa un o'r ddwy a fu'n ysprydoli Simwnt Vychan i ddychymmyg mesur, ym mha un nis gellir canu'r gronyn lleiaf o gyfiawn ddeall. IOLO MORGANWG.

Digitized by Google

## LLYMA AWDL

Arddangos y pedwar mesur ar hugain a wnaeth Simwnt Vychan i'r Meistr Pirs Mostyn o Dalacre; a honn a ddangoswyd ger bronn yr Eisteddfod yng Nghaerwys.

### 1. Unodl Union.

Pen breisgedd bonedd bennod,—parch vawredd
Por glasgledd pur glwysglod;
Pwyll distaw pell yw d'ystod,
Pirs air Nudd parhaus wr nod.

### 2. Unodl Cyrch.

Nodol wyd a ffynnadwy,
Ni bu'n v'oes neb enw yn vwy,
Nerth draig, Caswallon with drin,
Neu Edwin a wnai adwy.

### 3. Unodl Crwcca.

Adwy ni wnn, dyna wir,
Yn dy lin o dilynir,
Ond glan a chyfan ach hir oleudeg,
Iaith vreudeg i'th vrodir.

### 4. Prost Cyfnewidioc.

Dy vrodir divai rydyd,
Dy vreuder a dyf rediad;
Da vrawdwr wyd a vrudid,
Dy vradwyr hy dyvnodud.

### 5. Prost Cadwynoc.

Divrodaist a vu rydyn,
Dinag wyd i hen a gwann;
Dawn a hoedl nid anhydyn,
Duw a ro hynny'n dy rann.

### 6. Cywydd Llosgyrnioc.

O rann dy serch arwain da son
I'th deg annerch a'th dai gwnnion
Dy ddynion a diddanedd;
O gaer a'i phont gorhoff hawg
D'air a fynn hyd Ryvoniawg,*
Ior doniawg aur adanedd.

---

* Gweler yn y pennill hwnn bonfannau'r ail gangen o'r mesur ar y Gyhededd gaeth, (fal y geilw Beirdd Gwynedd Cyhydedd Lefn Morganwg, sef yr un seithsill) ag yn hynny yn amrafaelu ar fonfannau y gangen gyntaf, yr hynn y mae Dosparth Morganwg yn caniattau. Y mae eraill o Feirdd Gwynedd (gwedi amser Dafydd ap Edmwnt) wedi cymmeryd amryw rydd-didau o'r cyfryw, a hynny yn ganmoladwy.

Pei cynnullid yr holl fesurau amrafaelion a welir yn aml yng ngwaith Hen Feirdd

Digitized by Google

### 7. Awdl Gywydd.

**Llwyth Trevor, llu waith travael,**
**Llew ebrwydd hael llwybraidd hedd,**
**Llwyth Edwin oll i'th hadyd,**
**Llawn dywys yd, llin hyd Sedd.**

### 8. Gwawdodyn byrr.

**Merion coed perion lle i caid puredd,**
**Mostyn am arial moes dwyn mawredd,**
**Maelgwn i'th rifwn o'th ryfedd vowart,**
**Mowrddart mab Rhissiart ym mhob rhysedd.**

### 9. Cyhydedd nawbann.

**Ail Luned gwreigiol lain nod gwragedd**
**Yw Elin wisgad Olwen osgedd;**
**Ail Anna tyfai lan etifedd**
**O irdwf iesin euraid vyssedd.**

### 10. Byrr a Thoddaid.

**Gwawr Domas solas ddisalwedd—a bair**
**Gwin bir a llysieufedd;**
**Gwawr dwf Essyllt, gair di vaswedd,**
**Glan ryw hadyd gloew anrhydedd,**
**Gwelwyd o'i gwin gael digonedd;**
**Gwirdduw a'i gad, a'i gwrdd gydwedd;**
**Gorau gwyr symmwyr cyssonedd—gynnal**
**Gannwyll yr iawn vuchedd.**

### 11. Clogyrnach.

**I'w thai y leni waith haelionedd,**
**Aml yw lluniaeth mal y llynedd;**
**I gaer ragorawl,**
**Ag arvaeth gwirvawl,**
**Ammodawl ymadwedd.**

---

**gwir awengamp Gwynedd, a'u trefnu'n reolaidd herwydd rhyw ag ansawdd, yn Gwlwm neu Ddosparth gelfyddbwyll, nid mawr y byddai'r gwahaniaeth ryngthi a Dosparth Morganwg, ag fe allai y byddai'n well, yn gymmaint a bod mwy o wir oleuni gwybodaeth ym mhob celfyddyd a rhywiogaethau dysgeidiaeth, am danom yr oes honn, yn des haf cannaid, nag a welwyd yn yr oesoedd y cynnullwyd, y deallwyd, ag y trefnwyd Dosparth Morganwg. Ymroed rhyw ddyn goleubwyll, at hynn o waith; Beirdd Powys! y mae rhai o honoch wedi rhoi llaw ar y gorchwyl, ewch rhagoch.**

**Cam dros y trothwy yw hanner y daith;**
**Llaw ar y gorchwyl yw hanner y gwaith.**

**Medd diarheb odledig gyffredin ym Morganwg.**

**Yr Eryr, medd hen ddiarhebcoel, yw'r unig creadur mewn bod, a ddichon, gan mor gryf ei lygaid, edrych ar yr haul; rhowch glust, chwi Eryron cylch y Wyddfa! cywion Dafydd Ddu! trowch eich golygon at nattur, at wir egwyddorion ymbwyll, at gyfiawn ansawdd celfyddyd. Edrychwch atti; nag ymlwygwch yn ol; rhag cael eich cyfrif ym mhlith Bon y Glêr. IOLO MORGANWG.**

Digitized by Google

12. Cywydd deuair vyrrion.

Croew vir cryf vedd,
Cof yw cyvedd.

13. Toddaid.

Claear yw daear duedd—Llannhassaf,
Caer yw urddasaf crair ddewisedd.

14. Cyhydedd verr.

Eura'r gwirion Eryr gwaredd,
A nad weini anudonedd;
O'r lle uchaf o Arllechwedd
Wyd yr haelaf hyd yr Heledd.

15. Cyhydedd hir.

Gwir ddwyn gair y ddys,
Garw glan i'th graig Lys,
O ugeinawdl wys,
Gan dy lyssedd;
Gorau un gwr Iaith,
Gorau mann gair maith,
Glewion wyr unwaith,
Glan Rianedd.

16. Gorchest y Beirdd.

Is Clwyd waisg Lyr,
Wr llwyd Ieirll wyr,
Ail wyd i Lyr, a'i wlad wledd,
A'th dai i'th dir,
Y rhai Ior hir,
A wnai yn wir, yn un wedd.

17. Cadwyn vyrr.

Deryw d'euro'n
Darw diorwan,
Dirwd arian, doriad wiredd;
Denaist Wynedd
Dawnus d' anian,
Dewrwiw darian, deuryw diredd.

18. Tawddgyrch cadwynoc.

E ddisgynnodd addas ganiad
At vawl ranniad, yt vael rhinwedd
Eurddwbl Wnedd irwydd blanniad,*
Yn gyvanniad enwog vonedd:

---

* Eurddwbl Wnedd] fal hynn yn unig yi cefais ymhob ysgrif a welais i erioed, a gwelais lawer un yn fy amser, ag o bob peth arall yn hen ysgrifeniadau'r Cymry o bob oes, a mwy, anturiaf ei ddywedyd, nag a welodd un dyn arall y sydd yn fyw'r dydd heddyw: ag er hynny y mae, ni wn i ba faint o hen ysgrifoedd, ni welais i etto.

Digitized by Google

I'th hen Deidiau y ddoedd bleidiau,
O'r Cynt-heidiau, Ior cant tudwedd;
I'th vyrddeidiau aeth hogsieidiau,
Iawn gyvreidiau yn gyvrodedd.

### 19. Hupunt hir.

Ar win deler,
Wythryw gweler;
O'th loew seler, i'th lysieu-wledd,
A'th gyd holant,
A'th ganmolant,
Arfer Rholant ar vawr haeledd.

### 20. Hupunt byrr.

Ym mysc siasau,
Eurvawr drasau, arfer drawsedd,
A bydd dirion
I dra gwirion, O drugaredd.

### 21. Gwawdodyn hir.

Mynnu'r wyd wynnu euraid annedd;
Mynnu ystynnu oes a dawnedd;
Mynnu esgynnu oesawg wnedd;
Mynnu cydtynnu mewn cyttunedd;
Mynnu ennynu uniownedd; ffynnu;
Mynnu dirynnu da wirionedd.

### 22. Cyrch a Chwtta.

Wyd brysurglod Birs eurgledd
Oll i wared llaweredd;
Anturiwr heb hwnt orwedd;
Anturiaist yn oed dewredd;
Aeth drwy vyd waith d'orvodedd,
Ior dewrnerth ar dëyrnedd;
A'th law, rhag mor nerthol wyd,
A wnai d' arswyd yn d' orsedd.

### 23. Cywydd Deuair hirion.

O eglur Gymru Ogledd,
Ydwyd lain nod hyd Lynn Nedd.

---

GWNEDD medd rhai o'n Ieithyddion goreu, yw anrhydedd; odid nad swydd anrhydeddus y dynodai'r gair yn nechreuad yr ymarfer ag ef; am fod a ddodid y swydd arno yn gwisgo gwn, fal ag y mae Ynad a llawer un arall, yn Wr wrth swydd anrhydeddus.

WNNOD yn lle Wnedd yw'r gair yn yr awdl honn a welir yng Ngramadeg Sion Dafydd Rhys; ond fal hynny y mae bai, oes beiau amryw hefyd o henynt, yn y mesur; ag yn y gair hwnn yn unig gwelais y bai hwnn er cyn dengmlwydd oed, ag amcenais gwared y pennill o'r bai drwy ysgrifennu YNNODD yn gyffelyb ag yr ydys yn dywedyd ag yn ysgrifennu TANODD, TRWODD, ARNODD, &c.; fal hynn buasai'r pedwerydd silldaf o'r drydedd fraich yn odli'n gyfochr a'r pedwerydd o'r fraich gyntaf; fal y mae gofynion cyffredin y mesur er ys hir iawn o amser. Ond gan mai WNEDD (Gwnedd) yn unig a welais mewn deg neu bymtheg ysgrif-len o leiaf; heb erioed gweled gymmaint ag unwaith y gair YNNODD, gadewais i WNEDD y lle, ag y mae'r mesur fal hynny yn ddi fai ag yn reolaidd, herwydd barn rhai Awduron a Beirdd deallus, a ddodaint, yn lle'r ffordd gyffredin, Gyrch unodl o'r gair diweddaf o'r ail fraich at orphwysfa'r drydedd, fal ag y mae yma: barned a chwilied ym mhellach, y darllenydd celfyddgamp.—IOLO MORGANWG.



Digitized by Google

24. Hir a Thoddaid.

Par elw i Degeingl perwyl deagwedd;
Par sal dda yma Pirs hael ddiommedd;
Par val gloew Viragl purvawl glyvaredd;
Par yn llu cysson, par yn llai cassedd;
Pan vo cad guriad garwedd—plaid vlaengar,
Par dorf ar wasgar Peredur vreisgedd.

Simwnt Vychan a'i cant.

[O Lyfr y Parchedig Mr. DAVIES, o Bennegos; yn Nhachwedd, 1799.]

Bellach y soniwn am Gymmeriadau mewn Cerdd Davod, y rhai a vyddant yn rhwymaw y penn cyntaf i'r gerdd; val y mae'r awdl yn rhwymaw y penn diweddaf, sef yw Cymmeriad dechreu y bannau ar yr un llythyren, a chadw hynny; eithr hynn a lygrir yn vynych wrth ceisiaw synnwyr yn y gerdd.

Tri rhyw Gymmeriad y sydd, nid amgen; Cymmeriad Llythyrenol, Cymmeriad Cynghaneddol, a Chymmeriad synnhwyrol.

Cymmeriad Llythyrennol a vydd val hynn:

Calon dynion dwy Wynedd,
Credo'r Beirdd o'r crud i'r bedd.

Cymmeriad Cynghaneddol Llythrennol a vydd pann vo dechreu y bannau yn cynghaneddu a'u gilydd, val hynn:

Canu bum ym Mrynn Cinallt,
Cwyno 'rwyf aoew'n yr allt.

Neu val y mae y Pennill hwnn:

Pum heryr, pwy a'm heurodd?
Pum haerwy aur vo i pum rhodd.

Pob cymmeriad a vo'n dechreu ar vogaliaid, er na bôant o unrhyw, a elwir Cymmeriad Llythrennol, val y mae hwnn:

Ysttiwart Rhos a dart rhudd,
Iechyd eryr i'ch deurudd.

Cymmeriad synnwyrol a vydd pan vo y bann cyntaf o'r gerdd yn gofyn synnwyr o'r ail bann i gordio ag ef, a hwnnw a vydd Cymmeriad cymmeradwy, er na bo ef llythrennol, val y mae hwnn:

Ni ddug neb yn ddigon abl
Bleth vanaur heb lwyth wenabl.

Cymmeriad llythrennol synnwyrol a vydd val hynn:

Gwaed Ywain, gwraidd a geidw'n gras,
Glynn dwfr, ag o lin Devras.

Cymmeriad cyfochredig synnwyrol a vydd pan vo sain cyfochredic yn dechreu y bann, val hynn:

**Lluryc daublyc dien blaid,**
**Suryc a gwregys euraid.**

Tri rhyw gymmeriad Pencerddiaidd y sydd, nid amgen; cymmeriad cynghaneddol, cymmeriad llythyrenol synnwyrol, a chymmeriad cyfochredic.

Dau rhyw gymmeriad disgyblaidd y sydd, cymmeriad llythyrenol, a chymmeriad synnwyrol.

Pa sawl peth a bencerddia Cerdd Dafod?

Pump peth, nid amgen, cymmeriad pencerddiaidd; croes gynghanedd; odl bencerddiaidd; sef odli ar silldaf gadarn ganiad cyfochr; a synnwyr naturiol.

Ysbysswn bellach am gynghaneddion, y rhai sydd yn rhwymo pob mesur yn y Gerdd, sef yw cynghanedd, cydatteb cydsoniaid, a chyfnewid bogaliaid, mal y dengys y pennill hwnn yn eglur; sef yr ystricciau cyfain o'r vraich uchaf i'r isaf a ddangosant y cyvattebion, a'r rhai amgen, sef y ticciau cyfres o'r un vraich i'r llall a ddangosant y cyvnewidiadau.

**Cu adardy, coed irdec.**

C u a D a R D y
| : : | : | | :
C o e D i R D e c

Pa sawl Cynghanedd y sydd? Pump, nid amgen, Cynghanedd groes, Cynghanedd draws, Cynghanedd sain, Cynghanedd lusc, (unawdl ynt y sain a'r lusc) a Chynghanedd bengoll. Ac o'r pump Cynghanedd a henwyd uchod, dwy Brifgynghanedd y sydd; nid amgen, Cynghanedd groes, a Chynghanedd sain, neu unawdl, a'r tair eraill tynnedigion ynt o'r ddwy Brifgynghanedd.

Cynghanedd groes yw yr orau o'r cynghaneddion, ac a genir yn groes uniawn gyflawn val y mae y pennill hwnn:

C u a d a r d y
| : : | : | | :
C o e d i r d e c

Cynghanedd sain a gydseinia yn unodl val hynn:

**Llyr i gadw gwyr gydag ef.**

O'r ddwy gynghanedd hynny y mae y tair cynghanedd eraill yn tyfu, val y mae amravaelion rannau o'r ymadroddion yn tyfu o Henw a Berf. O'r gynghanedd groes y tyf cynghanedd



Digitized by Google

draws, val Rhagenw o'r Henw. O'r gynghanedd sain y tyf cynghanedd lusc, val Rhagverf o'r Verf. O'r ddwy y tyf cynghanedd bengoll, val Cyfranniad o Henw a Berf.

Cynghanedd draws a dynnir o'r groes, ac a vydd pan vo un neu ychwaneg o'r cydsonanniaid ymhervedd bann, neu vraich o gerdd, heb ddim yn atteb uddynt, a thrawsi drostynt i gyrchu cynghanedd, val y bann hwnn:

**Cwfert hardd mewn cyfair tec.**

Cynghanedd draws goverbyn a vydd pann ranner gair a chymmeryd y rhann olaf o honaw i gynghaneddu, a gadael y rhann gyntaf yn llanw yn y canol, a thrawsi drosto val hynn:

**Eissiau am gymmwynasswr.**

A phann vo bann neu vraich o gerdd heb ddim ond un clo cynghan, a'r canol yn adwy wag, val hynn:

**Penn ar yr haelion a'u parch.**

Honno y ddys yn arfer o'i galw cynghanedd draws vantach o herwydd bod cimmaint yn hyll o honaw o ddiffic cloyau cynghan; sef yw y clo cynghan, cyd atteb a chyvnewid, val y dwedpwyd o'r blaen, ac yn vantach goverbyn, val y bann hwnn:

**Aur sydd vettel ragorol.**

Cynghanedd lusc a dynnir o'r sain yn unodl, ac a vydd pan vo y silldaf nessaf at y brifodl, yn cydseiniaw, neu yn cydodli ag un o'r gorffwysvaiau o'r blaen; ac o ddyno yn llusgaw at y brifawdl, mewn disgynnedic accen, val hynn:

**Odid im gael dy haelach.**

A honno nid yw weddus na chymmwys, ond ar y bann cyntaf i bennill o Gowydd.

Cynghanedd bengoll a dynnir weithiau o'r Groes, ag a vydd pan vo y penn cyntaf o'r bann yn cynghaneddu, a'r penn diwaethaf yn colli, val hynn:

**Arglwydd Eurglawr y Dehau.**

Neu val hynn hevyd, yn sain benngoll:

**Y dydd teccaf haf hinon.**

Ac yn llusc bengoll, pann vo un neu ddwy o'r cydsonanniaid rhwng y llusgiad a'r brifodl, val hynn:

**Marchog uwch Nenn y Pennrhynn.**

A'r gynghanedd benngoll a ddeholwyd ac a gaethiwyd yn y

Digitized by Google

confirmiad diwaethaf a vu ar gynghanedd a messurau yn amser yr Awdur ariandlyssawc, Dafydd ap Edmwnt;* eithr mewn paladr Ynglyn Unodl Uniawn, ac yn y cyfle hwnnw y gadwyd hi yn gymmeradwy ac yn lwfiedic, val hynn:

**Dolur a gefais o dalau dwyais,**
**Dial am bechodau.**

Lle gwelir y rhann gyntaf o'r ail vraich yn y Paladr yn cynghaneddu a'r gair cyrch ar ddull croes gynghanedd, ond y rhann diwaethaf yn benngoll, heb ddim yn cyfatteb iddo.

Ac felly y tervyna y pump cynghanedd hynny.

Gynt yr oeddid yn ymarver o gynghanedd braidd gyffwrdd, a honno a vydd pann vo un clo cynghan neu ddau ynghanol braich o gerdd, a'r ddeupenn yn colli val hynn:

**Y gwr hael o hil Rhodri.**

A honno hevyd a ddeholwyd yn yr unrhyw amser, neu'n gynt.

Tri rhyw groesgynghanedd y sydd; Croes rywiawc, Croes o gysswlt, a Chroes ddisgynnedic.

Croes rywiawc a vydd megis y galler i chanu wyneb yng ngwrthwyneb yn groesgynghanedd i bob ffordd, val y mae y Pennill hwnn:

**Cu adardy, coed irdec.**
**Coed irdec, cu adardy.**

Croes o gysswllt a vydd pann vo yr un gydsonanniaid yn diweddu y briforffwysva ac a fo yn dechreu y bann neu'r vraich, val y mae hwnn:

**A theg yw'r llwyth Eigr a Llyr.**

Arall.

**Cenau Efroc gwineufrych**

Croes ddisgynnedic a vydd pann vo y silldaf nessaf at y brifodl yn proestio a'r briforffwysva, ac yn disgynn oddi yno i odli; ac y mae yn rhaid i'r orffwysva vod yn accen ddyrchafedic ac i'r odl vod yn accen ddisgynnedic, ac am hynny y gelwir hi Cynghanedd ddisgynnedic, val hynn:

**Pwy ni'th gar Pennaeth gwrol?**

---

* Nid Davydd ap Edmwnt a ddiwygiodd y gynghanedd, eithr Llawdden a'i diwygiodd yn Eisteddfod Gyntaf Caerfyrddin dan nawdd Gruffudd ap Nicolas, a chyda Llawdden yr oedd Gwilym Tew a llaw yn y gwaith, bu eraill hefyd, ond Llawdden oedd y Blaenor, a chystal y bernid y diwygiad ar Ddosparth a wnaeth ef ar y Cynghaneddion, fal nas gwelwyd achos diwygio ym mhellach ernynt; am hynny lle gwelit Cerdd Dafod yn hardd a pheraidd yn ei chynghaneddau, dywedid bod ol bwyall Llawdden erni, ag aeth y gair hynn yn ddihareb dros holl Gymru, ag y mae mewn rhai fannau ar gof hyd y dydd heddyw. IOLO MORGANWG.

Digitized by Google

Neu val hynn, a'r orphwysva yn terfynu mewn dwy gonsonans:

**Bondo gwydr Bendigeidran.**

Ac weithiau y bydd yr orffwysva yn tervynu mewn bogail, val hynn:

**Un a Thri yn Athrowyn.**

Neu yn terfynu mewn dwy vogal, val hynn:

**A'ch gwaed rhyw ywch gadw rheol.**

Ac o'r tri rhyw Groesgynghanedd uchod, goreu yw y Groes rywioc, herwydd gallu ei throi wyneb a gwrthwyneb, a'i hodli ar yr accen a vynner; a nessaf atti hithau yw y groes, o gysswllt, o herwydd gallu i hodli ar yr accen a vynner o'r ddwy, val y llall, ac o'r tair Croes, y waethaf yw y ddisgynnedic, o achos bod yn gaeth iddi yr accen ddyrchafedic, val y dywedpwyd o'r blaen.

Cynghanedd Groes rywioc a vydd weithiau heb gymmwys gymmalu wyneb a gwrthwyneb, rhac nessed y briforffwysva at ddechreu y bann neu y braich, val hynn:

**Mae plaid y mab hael o'i win.**

A honno a ellir ei galw Croes anhydynn.

Tri rhyw Groes o gysswllt y sydd; Croes gyvann gysswllt; a Chroes hanner cysswllt; a Chroes ddwbl gysswllt: Croes gyvann gysswllt a genir val y mae y dosparth o'r blaen, val hynn:

**A theg yw'r llwyth Eigr a Llyr.**

Croes hanner cysswllt a vydd pan vo un gonsonans drom a grym dwy ynddi, megys un o'r llythyr picca yn tervynu yn y brif orffwysva, a chonsonans o hanner i grym hithau yn nechreu y bann neu y braich. A chymeryd yr hanner olaf o rym y gonsonans drom i atteb i'r gonsonans gyntaf o'r bann val hynn:

**Gwinllannau Ffraine yn llawn ffrwyth.**

Neu val hynn hevyd:

**Bu wir rhoi'r hap ar y rhyw.**

Neu val hynn etto:

**Dug voliant i Gyveiliawc.**

Ac yn groes hanner cysswllt ddisgynnedic, val hynn:

**Dennaw cant i un cyntedd.**

Croes ddwbl gysswllt a vydd pann vo dwy gonsonans yng

Digitized by Google

nghyd yn y brif orffwysva, yn atteb i'r ddwy gonsonans gyntaf o'r blaen, val hynn:

**Drwy'r gwelydr a'i aur goler.**

Croes goll y cyntaf a vydd pann vo N yn gyntaf consonans yn y bann, ac heb yr un yn atteb iddi, val hynn:

**Ni phlygwyd Rhys a phlyg Trin.**

A phob un o'r tair croes a ddigwydd velly weithiau, ag o bydd hi trawsgoll y gyntaf cam vydd.

Tri rhyw gynghanedd sain y sydd, sain lefn, sain gadwynoc, a sain o gysswllt; sain lefn a genir val y mae y dosparth o'r blaen val hynn:

**Llyr i gadw gwyr gydag ef.**

Sain gadwynoc a vydd pann vo un o'r geiriau cyntaf o'r bann yn cydodli a'r trydydd gair, a'r ail yn cydatteb a'r pedwerydd, val hynn:

**Pab Rhufain Bro Burgain braff.**

Sain o gysswllt a vydd pann vo y seiniad diwaethaf o gysswllt dau air, val y mae hwnn:

**Vy ngherdd am y ddager ddu.**

Neu gysswllt yn y clo cynghan, val hynn:

**Oes bun, nag yr un o gred.**

Neu val hynn hefyd:

**Ac ergyd hefyd divai.**

Tri rhyw gynghanedd lusc y sydd, llusc lefn, llusc o gysswllt, a llusc ddwbl cysswllt.

Llusc lefn a genir val y dosparthwyd o'r blaen, val hynn:

**Odid im gael dy haelach.**

Llusc o gysswllt a vydd pann gymmerer y llythyren gyntaf a vo yn dyvod ar ol y brif orffwysva gyda'r orffwysva, ac o gysswllt y ddwy lythyren hynny gwneuthur odl ac atteb i'r brif silldaf nessaf at y brifodl, val hynn:

**Nid a dyn gall dann alltud.**

Llusc ddwbl gysswllt a vydd pann vo dwy gonsonans yn yr unrhyw fodd, yn niwedd yr orffwysva, ac yn nechreu y gair nessaf atti, val hynn:

**Y gwr cadr vraich paladrvriw.**

Digitized by Google

Cynghanedd gyvnewid a vydd pann vo bann o gerdd heb gydatteb cydsonanniaid eithr cyvnewidiadau bogaliaid, val hynn:

**Ieuanc a hael yw Owain.**

Cynghanedd ewinoc a vydd pann vo H yn cynhorthwyaw un o'r tair llythyren hynn, B. D. G. i atteb i un o'r tair llythyren picca; sef yw y rheini P. T. C. val y mae yn y bannau hynn:

**Caer Gai enwog hir gynnydd.—**
**Parchus yw y mab hirchwyrn.—**
**Tudur Llwyd hyder y Llew.—**

Hevyd pann vo un o'r ddwy gonsonans hynn, L, R, yn wasgedic gydac un o'r tair consonans a henwyd uchod, sef B, D, G, ac H ar eu hol, val y bannau hynn:

**Croenwynn vab dilwgr hinod.—**
**Tri gwaladr hy o gwlen.—**
**Bwrw plyg ar barabl hygar.—**

A'r vath hynny a elwir Cynghanedd ewinoc.

Hevyd, pan vo un o'r tair consonans uchod, B. D. G. yn diweddu y naill air, a'r unrhyw gonsonans yn dechreu y gair nesaf at hynny ym mhlethiad cynghanedd, yna y gallant o'u cyd-rym yll dwy, atteb i un o'r tair llythyren picca, P, C, T, val yn y bannau hynn:

**Pinagl wyd ar bob Bonedd.—**
**Tryssor gwlad di rus Ior glew.—**
**Af er can i vrig Gwynedd.—**

Hevyd, ef a all un o'r tair consonans uchod, B, D, G, i hun atteb i un o'r tair llythyren picca, pan vo hi yn niwedd gair ac un o'r llythyrennau hynny, Ff. B. C. Ll. P. S. T. yn nechreu y gair nesaf, ym mhlethiad cynghanedd, cans egni a grym o'r rheini a'i gwna yng ngrym llythyren picca, ac yna y gall atteb llythyren bicca gyfleus y sydd o'r un nattur a hi yn dyvod ar ol hynny, val yn y bannau hynn:

**Brig ffydd a bair coffa hwnn.—**
**Y mab coch mwy hap y caid.—**
**Aed llawer at y lluoedd.—**
**Brig prenn o barc y prynnwr.—**
**Heb swydd mor happus a hwnn.—**
**Ym mhob tir mae hap yt oll.—**

Dyaller eraill o'r vath wrthynt hwy.

Hevyd, tri gallu sydd i silldaf gadarnleddf, wrth gynghan-

Digitized by Google

eddu, un yw cydatteb a'i rhyw i hun, mewn cynghanedd ddisgynnedig, val y mae hwnn:

Llys gadr lliaws y gwydrwyd.

Ail yw cydatteb a silldaf dalgronn, val y mae y Pennill hwnn:

Brain Syr Rhys Bro Aenssio rathr.

Y trydydd yw cydatteb a dwy silldaf dalgronn, val hynn:

Ag iaith hagr i gwaethygu.

Hefyd, pann vo y deuddec consonans hynn, Ff, F, C, G, P, B, T, D, Ll, L, Th, Dd, yn dyvod yng nghyd bob yn ddwy yn y modd hwnn ym mhlethiad cynghanedd, yna y cyll y rhai cochion (Lleddfon) hynn eu grym a'u nerth, canys y llaill a'u gorchvyga hwy, val yn y pennillion hynn:

Y praff Fonedd pur ffynnant.—
Brig Cenedl Bröau Cynan.—
O hap Breuder pur ydwyd.—
O waeD Tudur at Edwin.—
Velly mab y wrach voel-llwyd.—
Wrth DDyvod o'r eithafoedd.—

Hevyd, ef a ganodd Davydd ap Edmwnt, val hynn:

Gair o'th fronn Gwawr ddyffrynoedd.—

Gruffydd Hiraethog yntau, val hynn:

O'th actiau'r praff Ddoctor Prys.—

Tri pheth a berthyn ar gynghanedd groes, Cydatteb, Cyfnewyd, a Gorffwysva.

Pedair Gorffwysva y sydd mewn pennill o Gywydd; un yn yr Amseroedd, un yn y Personniaid, ac un yn yr Awdl.

Pump Gorffwysva y sydd yn y Cynghaneddion, canys ym mhob un o'r gyntaf i'r chweched y gellir gorffwys.

Dwy Orffwysva a vydd yn yr Amseroedd; a dwy yn y Personiaid a ddengys eu synnwyrau a'u rhannedigaethau.

Bellach yr ysbyswn am Gynghaneddion cymmysgedic o ddwy neu dair yng nghyd mewn un bann.

Cynghanedd seingroes rywiog a vydd gwedy i chymmysgu a sain a chroes bob un yn i gilydd, val hynn:

Llaw a barr draw lle bo'r drin.—

Cynghanedd seingroes o gysswllt, val hynn:

Gwressoc yw'r Coc a'r siwgr cann.—
A'th wayw nowllath a 'nillud.—



Digitized by Google

Cynghanedd seingroes gydgysswllt a vydd pann vo cysswllt y sain a chysswllt y groes ynghyd, val hynn:

**O droi y Rod i Ryw Rhys,—**
**I Gelli wig ac yw Llys.—**

Cynghanedd sain gysswllt, golli N y gyntaf a genir fal hynn:

**Ni thyf Rwyd i'th vyw ar honn.—**

Cynghanedd seingroes gadwynoc rhywioc a genir val hynn:

**Trist vydd llef tros Dafydd Llwyd.—**
**Lle arch o hyd Llywarch hen.—**

Cynghanedd seingroes o gysswllt gadwynoc ddisgynnedic a genir val hynn:

**Ni'm gyrr Bun im gwir boeni.**

Cynghanedd drawsgroes o gysswllt gadwynoc ddisgynnedic, val hynn:

**Uchel vaich Howel Vychan.**

Cynghanedd groes rywioc N goll y gyntaf a vydd val hynn:

**Ond treulio da trwy lid oll.**

Cynghanedd groes o gysswllt N goll y gyntaf, a vydd val hynn:

**Ni thynnir bath hwnn o'r bedd.**

Cynghanedd groes N goll y gyntaf ddisgynnedig, a vydd val hynn:

**Nid yw hawdd i dyhuddaw.**

Cynhanedd seingroes ddisgynnedig, val hynn:

**Vynawc Riain vain Vunud.**

Cynghanedd seindraws gadwynoc ddisgynnedic, val hynn:

**Od aeth gair rhod a'th geraint.**

Cynghanadd groesluse ddisgynnedic val hynn:

**Nid oes Dyn un destynion.**

Cynghanedd drawsluse ddisgynnedic, val hynn:

**Na'n hol dirgel na'n helynt.—**
**Y Gwr ar warr y garrec.—**

Cynghanedd seingroes gadwynoc gysswllt a genir val hynn:

**Pwy a wnai gost Penn Aig Ial?—**

Digitized by Google

Cynghanedd groes ddisgynnedic o gysswllt orphwysva, a genir val hynn:

**A maen perl mewn y Parlment.**

**Gruffudd Hiraethog a'i cant.**

Tri lle y cyll W i grym bogal, ac ni ellir bod hehddi yno er hynny; un yw yng nghessail G gonglawc val hynn, Gwych, Gwedd; yr ail lle yng nghessail Ch, val hynn, Chwyl, chwech; a'r trydydd lle yw ar ol llythyren dawdd, val hynn, Marw, Erw, Galw, Elw.

**Ni'th gar eithr rhyw ddiffeithwraic.**

Pa ham os yw yr W yn colli i grym bogal accw nad yw y Pennill yn ei le neu yn iawn?

Am ei vod yn anhardd yn y glust, er bod y Rheolaeth yn i gadw ef, canys ni wnaed Cerdd ond er melustor i'r glust, ac o'r glust i'r galon, ac velly yn gyffelyb y pennill hwnn:

**Naw o'i genedl yng Ngwynedd.**

Neu val hynn:

**Ag i ostwng o ystyr.**

Ac weithiau eraill y bydd yn velys yn y glust, ac yn torri Rheolaeth val hynn:

**Cawn vedd rhad, cynneddvau Rhys.**

A rheidiach yw gochel hwnnw na'r llall.

Llyma ddangos beiau ac anafau Cerdd Davod; nid amgen na'r beiau gocheladwy y rhai a elwir y beiau cyffredin, a'u perthynasau, neu eu ceinciau, ac i'r holl veiau hynn nid oes ond dau wreiddin, neu ddau gychwyniad; sef yw y ddau hynny rhwy ac eissiau, neu gormodd a rhyvychan; ac ni ddichon y prydydd vod yn Bencerdd, neu yn Athraw i iawn ddysgu, iawn ganu, ac iawn varnu heb wybod y beiau cyffredin a'u dosparth.

Henwau y beiau yw y rhain; Gormodd odlau, Dybryd sain, yr hwnn y sydd yn brovest i'r awdl; Tin ap, Carn-ymorddiwes, Rhy debic, Ymsathr odlau.

Tri thwyll y sydd; Twyll gynghanedd, Twyll awdl, a Thwyll gymmeriad.

Dryc-ddychymmic, Dryc synnwyr, a Dryc-ystyr.

Unic a lliossoc i gyd; Gwrw a banw i gyd; Gwydd ac apssen i gyd; Lleddf a thalgronn i gyd; Trwm ac ysgafn i gyd; Crych a llyfn i gyd.



Digitized by Google

Cam amser; Cam berson; Cam achos; Cam osodiad.

Y rhain yw anafau Cerdd Davod, ac iawn yw i gochel, cans Tripheth a ddyly Prydydd—Iawn ganu, Iawn ddysgu, ac Iawn varnu.

*Gormodd odlau* a vydd pann vo dwy awdl mewn un bann o Bennill o Gowydd, lle ni ddylai vod onid dwy i gyd yn y pennill cyvan, val y mae hwnn:

Ai gad wyth oes gyda i Thad.

Neu hevyd, pa vessur bynnac o'r messurau y bo yntaw fwy o odlau nac y mae y Dosparth yn ei gynnwys, hynny y sydd ormodd.

*Dybryd sain* a vydd mewn Cynghanedd sain pann vo seiniad yr odliad diwaethaf o'r gynghanedd yn proestiaw a'r Brifawdl, val y bo dybryd i glowed, val hynn:

Yr Arglwydd arwydd iraidd.—
Cadr i daradr drwy d' edrydr.—
Pe cedwid am dir gwir gwyr.—

*Prost* i'r awdl y sydd yr un rhywogaeth a Dybryd sain, ond i vod ef yn y gynghanedd groes, neu yn y draws, ac a fydd pann vo priforffwysva y gynghanedd a'r brifawdl yn proestio ynghyd; val hynn:

Y dewr gwrol drwy gweryl.—
Y dyn vo ffaeliodd dy don.—

*Tin ap,* a vydd pann vo pennill o Gowydd deuair hirion, neu ddeuair vyrrion, a'r ddwy awdl yn yr un accen, a honno yn ddyrchafedic, val hynn:

Y gwr a luniodd y Gad
A wnaeth i'w Vro annoeth vrad.

Arall.

Gwr ab oedd yn gyrru bw,
Gwreigan gul grec yn galw.

Eithr y mae yn y pennill hwnn ddau vai eraill, nid amgen, torr messur, a thwyllodl.

*Carnymorddiwes,* yr hwnn a elwid gynt Garllaes, y sydd debic i Din ap, eithr bod y ddwy awdl ar accen ddisgynnedic; val y mae hwnn:

Dwrn a Chledd duedd dieingl
Drws a deugwrr dros Degeingl.

*Rhy debic* a vydd pann vo yr orffwysva gynghaneddol a'r awdl mewn accen ddisgynnedic, ac yn debic bob un i'w gil-

Digitized by Google

ydd, o achos na bydd onid un gonsonans neu ddwy i ddiweddiad yn llestair i gydodli yn ddwbl, val hynn:

Ieuan vy nghariad ieuanc.—
Llawer diwarnod llawen.—
Rhydec vu yr anrhydedd.—

Ac o bydd y vath beth yn yr accen ddyrchavedic, ni ellir dim o'i alw yn rydebic, namyn tebic, ac nid yw vai, val y canodd Davydd ap Edmwnt i verch herwydd ei gwallt:

Y mae a pheth am ei phenn
Yr haf fal y Rhiw velen.

Ac weithiau hevyd y bydd rhy debic o rann y rhesswm neu y synnwyr pann vo gair a dau ddyall ynddaw, un at y moliant, ac un at y gogan, cans mynych y cymmerir y gerdd i'r dyall gwaethaf, ac y dywedir mae rhydebic i'r gogan, val hynn:

Oer, oer i holl Gymru rhawc
Oedd orchudd gwr ardderchawc.

Er bod ardderchawc yn arwyddoccau arbennic, neu urddasawl, etto os cenid i wr a vai yn dyvod o ordderchiad ef a'i tybid yn edliw, ac yn rydebic i hynny. Nid bai yw hwnn herwydd Gramadec, namyn herwydd Retoric.

*Ymsathr odlau* a vydd pann vo yr orffwysva gynghaneddol neu rann o'r silldaf honno, yn ymsathr a'r awdl, val hynn:

Y gwr o Gaer Lleon Gawr.

Cans balch yw yr awdl ac y hi yw llygad y Gerdd, ac am hynny ni oddef hi ddim yw briwo.

Y mab rhy hydr ym mhob brwydr.

Ac weithiau y bydd ymsathr odlau mewn cynghanedd lusc neu unawdl, pann ddyccer llythyren neu ddwy o'r awdl i helpio y gynghanedd, val hynn:

A chrwcc ar i vrest a'i llestr.

Cans ni ddichon yr un llythyren neu yr un llythyrennau wneuthur dau wassanaeth ar unwaith, cynghaneddu ac odli hevyd; ac weithiau eraill y bydd ymsathr odlau pann sathr dau bennill neu dri mewn Cowydd wrth i gilydd yn unawdl.

*Twyll gynghanedd* a vydd pann vo consonans neu ddwy yn y naill rhann o'r clo cynghan, neu o'r cloiau cynghan, heb ai hattepo yn y rhann arall; val y mae hwnn:

Meirch unlliw Maer Machynllaith

Digitized by Google

Ac mewn cynghanedd sain, val hynn:

**Cowgau a chreithiau'r vrech wenn.**

Neu val hynn yn fwy anafus:

**Parabl dyn trwyadl o'm tref.**

Neu mewn cynghanedd lusc, gadael llythyren yn y naill air heb i gynghaneddu yn y gair arall, val hynn:

**Mae ystolff val golchffonn.**

A'r bai hwnn a gyffelybir i adael un gledren o'r blaid heb eiliaw.

Hevyd pann vo cynghanedd bengoll, honno a vydd pann vo dechreu braich neu bann o bennill yn cynghaneddu; a'r diwedd heb vod, val hynn:

**Arglwydd Eurglawr y Deau.**

Sef y tebygir hwnnw i gleddau a'i vlaen drwy y wain; ac os at y penn cyntaf y bydd, tebic yw i gleddau heb pwmel.

*Twyll awdl* a vydd pann vo ymrafaelion gydsonanniaid neu vogaliaid yn yr odlau, val hynn:

**Llynn o ddwfr a'm lleinw o ddic**
**Llonaid tagell Llynn Tegid.**

Neu val hynn:

**Y llwdn gwraidd llydan gwrw**
**Llwydfawr y sydd yn lledfarw.**

Neu val hynn hevyd:

**Dialedd ac nid yw elw,**
**Drwy wall i un dorri llw.**

Twyll gynghanedd hevyd yn hwnn:

**Rhaid i Arglwydd drwy erglyw**
**Roi i stad tan restiad Duw.**

*Twyll-gymmeriad* a vydd pann vo ymravael gydssonanniaid yn y cymmeriadau heb synnwyr naturiol yn i achub, val hynn:

**Carw penn aig gwyr piau ni**
**Paladr o Vran ap Beli.**

Ac nid yw dwyll-gymmeriad, dechrau pennillion a'r ymravaelion vogaliaid, cans cyfnewid dwy vogal yw cynghanedd gyfnewid, ac velly y gellir i alw yn gymmeriad cynghaneddol, val hynn:

**Y ddyn vwyn, a ddaw'n vynych**
**I'm meddwl, gorff moddawl gwych.**

Bai herwydd Retoric.

Digitized by Google

*Dryc-ddechymic*, a fydd pann ddechymyger ar voliant rhesswm gwann diffrwyth, ac a ellir i ddyall yn hawdd at vwy gogan na moliant, val hynn:

**O daw eissiau da ar d'en,**
**Un lleuad a'th wna'th llawen.**

Er bod dechymic y Prydydd mae y wraic, e ddechymygai eraill mae lleuad olau i yrru gwarthec.

Bai yw hwnn yn erbyn Dilechdit neu Logic.

*Dryc-synnwyr* a vydd pann vo Cerdd vessuredig gynghaneddol heb synnwyr ddosparthedic dyallus ynthi; neu heb Verf berssonawl i ddangos i synnwyr, val hynn:

**Llun egoriad Llann Guric**
**A'i vlaen ar Velin y Wic.**

**Dau wy a cheilioc mwyalch,**
**Eidion ac wy Odyn Galch.**

Bai herwydd Dilechdit.

*Dryc-ystyr* a vydd pann gyffelybir peth oddiwrth i destun a'i natur, val hynn:

**Catrin vodd Caterwen Vain.**

Bai yn erbyn Retoric yw hwnn.

*Unic a' Lliossawc* a vydd pann vo henw lliossawc a berf unic i gyd, val hynn:

**Miloedd ni char ond Maelawr.**

Neu pann vo henw unic a berf liossoc i gyd, val hynn:

**Mil vawr yn ymleferydd**
**O daranau sygnau sydd.**

Bai yw hwnn herwydd y rhann o Ramadec a elwir Cystrawiaeth ag nyd herwydd tonyddiaeth, ac velly y mae y ddau nessaf hevyd.*

Ag hevyd, pann vo henw cadarn lliossawc a henw gwann unic i gyd, val hynn:

**Y gwyr dewr o'r Gard euraid.**

A mynych y cynhwysser ceinciau o'r bai hwnn cyfleydd drwy esgus; sef yw hwnnw, bod yn deccach y cam no'r iawn, achos i vod yn y rhesswm yn dalfyrrach, ac yn ddiwytnach.

---

* Y mae rhyw faint o anghysondeb yn yr hen gynysgrif ymma, ac yn y llinellau blaen ac ol. IOLO MORGANWG.

*Gwrw a banw* i gyd a vydd pann vo henw cadarn o'r genedl wrw a henw gwann o'r genedl vanw i gyd, val y pennill hwnn:

| | |
|---|---|
| Gwr ffol nid goroff weled.— | |
| Y hi yw'r ffwl ar y ffair.— | |
| Vry nid hardd i Vorwyn tec.— | Morwyn deg. |
| A vynn destun Vun distaw. | Bun ddistaw. |

*Gwydd ac Apsen* a vydd pann rodder y drydedd berson gyda'r ail; neu yr ail i gida yr gyntaf, val hynn:

Mi efo Sion am vy Sir
Yw'r dynnion ni rydweinir.

Ag o ddechreu Prydydd ymadrodd ei gerdd megis yngwydd y gwr, ni ddylai mwy i throi yn i Apsen, rhac y bai hwnn.

Lleddf a thalgrwn a vydd pann vo silldaf leddf yn atteb i silldaf dalgronn, neu i ddieithr weithiau mewn Cynghanedd Lusc, val hynn:

Yn Ial gwnai Ruffudd Maelawr.—

Neu val y pennill hwnn:

Rhaid rhifo'r gwyr yn llwyrach.—

Neu val hynn yn y gynghanedd sain:

Vy swydd o vewn manwydd Mai.—

Ac weithiau y bydd yn y brifawdl val hynn:

Ni thriswyd Llew aelwyd Llyr
Nattur Sion ond trwy synnwyr.

Weithiau eraill y bydd mewn Ynglyn prost yn y prostiad, val hynn:

Y gwr balch sy'n digio'r byd,
Ag er i vudd y gwyr ved
Yn wir gostyngir i stad,
Anhoff i wedd oni phaid.

Neu mewn Diptoniaid, val hynn:

Y Llew gwych wrth ynnill gair
Weithion i gyd aeth yn gawr,
A nos a dydd yn was dewr
Yn lladd amcanai yn llwyr.

*Trwm ag ysgafn* a vydd pann vo gair trwm a gair ysgafn i gyd, a hynny yn yr un accen, a honno yn ddyrchafedic, val hynn mewn cynghanedd lusc:

I Wlad Von nid a honno.

Ym mhob gair a lliaws o silldafau ynthaw, y silldaf ddiwaethaf ond un a vydd ac accen ddyrchavedic iddi, oddieithr i arwydd uchenaid, neu ranniad yr accen beri iddi i cholli, val y mae yn nechrau y llyfr yn son.

Digitized by Google

Trwm ac ysgafn mewn cynghanedd sain, val hynn:

Ar dorr merch y Cor y can.*

Hevyd rhaid yw gochel y bai hwnn mewn Ynglyn unawdl, ac mewn Ynglyn prost, ac mewn messurau odlau; cans pann ddel pennill gyntaf i odli mewn accen ddyrchavedic cynlynet pwys honno drwy yr awdl i gyd, pa un bynnac vo ai trom ai ysgafn, ar a ddigwyddo o'r pennillion ar yr accen honno.

*Crych a llyfn* y sydd vai anafus mewn cerdd, yr hwnn yw camossodiad bogaliaid, a hynny ym mherthynassoldeb y brif awdl, a'r orffwysva gynghaneddol, pa un bynnac vo yr orffwysva ai accen ddyrchavedic, yntau accen ddisgynnedic; cans yn yr accenion hynn y dyly bod cyd atteb a chyfnewid yn rywiawc, val yn y pennill hwnn:

C u a D a R D y
C o e D i R D e c.

Ac yn veius o grych a llyfn i gyd val hynn:

Am Rolant Abermarlais.—
O vraster ef a rwystrodd.—

Ac val hynn mewn accen ddyrvachedic:

Huw Conwy vry hy cawn varn.

Ac mewn Cynghanedd ddisgynnedic val hynn:

Yn y dwrn yn dirynnu.—
I Deirnion i dirynnaf.—

Neu,

Parabl Syr Wiliam Probert.—

A phann vo allan o berthynassoldeb yr awdl nid yw vai, am hynny gelwir ef bai gwahanredawl, neu gwahanedic; val hynn:

Byw ar dri Broder o Ial.

Ef a vydd weithiau gwrthfyn allan o berthynas yr awdl, val yn y bann olaf o'r pennill hwnn:

Pwy oll a ddac pell ydd aeth
Warthafl aur wrth filwriaeth?

*Cam amsser* a vydd pann rodder yr amsser dyvodiad, neu ffutr, yn lle yr amsser cydrychiol, val hynn:

Pann dynner penyd anian
Mae'n growndwal mae'r wahl yn wann.

---

* Sef oedd honno yr allor. Simwnt Vychan.



Digitized by Google

Neu val hynn:

**Y mae neithior y vory**
**A mwnai'n vraisc ym Mon vry.**

Bai herwydd Retoric yw hwnn.

*Cam Bersson* a vydd pann rodder y naill veddiant yn lle y llall, val hynn:

**Tir caeth vydd y Twrc i'th vau.**

*Cam achos* a vydd pann roer achos ammherthynassawl, yn yr ymadrodd, val dechreu ymadrodd ar Verf amherssonawl val hynn:

**Neu'r mynnu un o'r mawrwyr.**

*Cammossodiad* a vydd mewn Cynghanedd, pann ossoder y Consonanniaid o'i cyfnewidiad yn anghyflëus, er bod cimmaint o bob un a'i gilydd, val hynn:

**Cawn fedd rhad cynneddfau Rhys.**

Neu val y pennill hwnn:

**V'athrod ac ef vyth drwy gas.**

A'r vath gamossodiad a hynn a elwir yn Dwyllgynghanedd.

*Camossodiad* mewn awdl a vydd pann gamossoder y bogal-iaid yn yr orffwysva a'r awdl, val y mae'n dangaws o'r blaen m wn Crych a Llyfn, ys ef val hynn:

**I Deirnion y dirynnaf.**

*Cam ossodiad* mewn messur yw gossod Rhagwann, neu os-sodiad Paladr Ynglyn unawdl uniawn yn y chweched silldaf, yng gwrthwyneb y Dosparth.

Bai hevyd yw cam-gyvansoddiad mewn Cynghanedd, val y pennill hwnn:

**Oes yr un is yr awyr.**

*Cam gyvansoddiad* i'r Gynghanedd ddisgynnedig yw na bytho i gorffwysva gynghaneddol o'r un nattur a'r silldaf nessaf i'r awdl oddieithr bod lleddf a thalgronn, yr hwnn nid yw vai yn y lle hwnnw val hynn:

**Gwr llwyd a geiriau lladin.**

Neu val hynn, a'r orffwysva ar Vogaliaid:

**Heddyw doe hawdd yw dyall.**

A'r bai hwnn hevyd a ddigwydd yn vynych o rann cyfans-soddiad geiriau, neu ymadroddion.

*Bai* hevyd yw ammherthynas mewn Cerdd ganmoledic, sef yw hynny peth ni chydweddo i'r dyn y prytter, neu y caner, iddaw.

Digitized by Google

Bellach yr ysbysswnn am y pedair Ffugr, y rhai y sydd yn esgusodi dros bedwar cam neu bedwar bai.

Beth yw Ffugr esgus neu liw diarffordd?

Y gyntaf yw ffugr ymgynnull, (a elwir *Syllepsis* yn y Groec,) yr honn a esgusoda dros Wrw a Banw wrth ddwyn y rhann at y cwbl, sef yw hynny pann vo rhann a chwbl yn yr ymadrodd a Henw Gwann rhyngthynt, yr henw gwann hwnn a roir at y cwbl, ac nid at y rhann, val y mae Gwr gwynnllaw, Gwraic wenndroed, cans y gwr a'r wraic y sydd anedic, ac y sydd yn perchenogi ar y troed a'r llaw, y rhai sydd rannau o'r cwbl, ac iawn yw i'r cwbl gael i veistrolaeth.

Yr ail ffugr yw ffugr arddangos, (a elwir *Synecdoche* yn Iaith y Groegiait,) yr honn a esgussoda dros unic a lliossawc, sef e vydd honno pann vo y cwbl yn unic ar rhannau yn lliossawc, ac velly dwyn y rhann at y cwbl val hynn, Gwr llygeittu, Gwraic wenn, i dwylaw.

Y drydydd yw ffugr ymoralw, (a elwir *Evocatio* yn y Lladin,) a'r ffugr honn a esgussoda dros wydd ac apsen, wrth roddi y naill berson at y llall, val y mae Ni yw'r Gwych; neu, Ti yw'r Gwr gwych; ac yn iawn ymadrodd diesgus val y mae Myvi wyf Vi, Tydi wyt Ti, Evo yw'r Gwr gwych.

Y bedwaredd ffugr yw torr penn gair, (a elwir yng Ngroec, *Aphæresis*,) a honno a vyrha rai o'r geiriau, val y mae Tec yw d'wyneb, ac yn ddiesgus, Tec yw dy wyneb.

Ffugrs eraill, a dynnwyd o'r Lladin ac o'r Groec, nid anghenrhaid i ni wrthynt; cans yn ffugrs ni yw moddion prydyddiaeth, sef yw hynny esgussodion drwy awdurdod o waith y Beirdd cadeiriawc, neu yr Athrawon Pencerddiaid a vuont o'r blaen; y Pennillion o Gerdd y rheini yw yn gwarant a'n arddelw ninnau i ganu yn i hol; cans nid yw i ffugrs hwyntau yr Ieithoedd eraill ond yn ol gwaith Awduriaid o'u hiaith o'r blaen.

Tri gwarant y sydd i ymadrodd, nid amgen, llythyr, lliaws, ac arver, ac nid gwarant camarver.

Val dyma yr ugain peth cynnwysedic a berthynant ar bennill o Gywydd deuair hirion, mesur, synnwyr, a chynghanedd.

Pump gorffwysva y sydd mewn Cyngnanedd; ymhob silldaf o'r gyntaf hyd y chweched y gellir gorffwys.

Pedwir gorffwysva y sydd mewn Pennill; un yn y Cynghanedddion, un yn yr amseroedd, un yn y perssoniaid, ac un yn yr awdl.

Dwy orffwysva a vydd yn cyvlawni.

Tair gorffwysva a vydd yn yr amseroedd i ddangos i synnwyrau, a'u rhannau.

Tair braint y sydd i bennill o Gywydd; Pencerddiaidd, Dysgybliaidd, ac Iselradd, neu Dincerddiaidd.



Digitized by Google

Cans o'r ymadroddion perffaith cyfiawn y bydd Mydr, neu Brydiad; wrth hynny rhaid yw gwybod beth yw Mydr neu Brydiad.

Mydr neu Brydiad yw cyfansoddiad ymadroddion perffaith, cyfiawn, a deccäer o eiriau gwann ardderchawc addfwyn addurn, a arwyddoccant moliant neu ogan, a hynny ar Gerdd Davawd ganmoledic.

---

**Rhaid yw gwybod bellach pa ffurf y dyleir moli pob peth ar y prytter iddaw, a pha bethau a dyleir prydu uddynt; nid amgen ysprydawl nefawl, a pheth corfforawl bydawl.—Peth ysprydawl nefawl megis i Dduw, a Mair, a'r Saint, a'r Angylion.—Peth corfforawl bydawl megis Dyn, neu Lwdn, neu gyfle.**

Duw a volir achos i vod yn Greuawdr hollgyfoethawc, ac yn Dad Ysprydawl heb greawdur, ac yn drugarawc, hael, a holl ddaioni, a holl ddoethineb, a holl allu, a meddiant yr holl vydusawd gantaw; a'i vod yn wynvydic, ac yn vawrvrydus, ac yn Vrenin Nef a daear ac uffern, ac o sancteiddrwydd, a chreadigaeth, a Thadoliaeth, a Maboliaeth, ac Ysbrydolder, ac anrhydedd, heb dranc heb orffenn. Amen.

Mair ei Vam, a volir o achos i morwyndawt werydd-dawt, a'i sancteiddrwydd, a'i glendid buchedd, a'i thegweh, a'i gogoniant, a'i haelder, a'i hanrhydedd, a'i doethineb, a'i hufudd-dawd, ac i bod yn Vam y drugaredd, ac yn Vrenhines nef a daear, ac uffern; a haeddu o honi ymddwyn yn ei chroth gwyryfawl, Creawdr hollgyfoethawc y creaduriaid oll; a'i bod yn wyry, cynn esgor, a gwedi esgor.

Y Saint a'r Angylion a volir o achos ei glendyd a'i sancteiddrwydd, a'i gwyrthiau, a'i rhinweddiau, a'i nefolion weithredoedd, a'i dwyvawl ogoniant; ac i bod yn wasanaethwyr i'r Hollalluawg Amherawdr y brenhinoedd, ac o nefolion bethau eraill anrhydeddus.

Deuryw Ddyn a volir, nid amgen *Gwr* a *Gwraic*.

Deuryw Wr a volir, nid amgen *Ysgolhaic* a *Lleyc*.

Deuryw Ysgolhaic a volir, nid amgen *Gwr eglwysic* a *Gwr bydawl*.

Deuryw Wr eglwyssic yssydd, nid amgen, *Gwr Eglwys vydawl* a *Chrevyddwyr*.

Deuryw Eglwysswyr bydawl y sydd, nid amgen, *Preladieit*, val *Pab* neu *Gardinal*, neu *Esgyb* neu *Arch-Esgyb*, neu *Arch-Ddiagoniaid*, neu *Officialyeid*, a *Biccaryeid*, ac *Offeiryaid*; ac *Ysgolheigion Eglwyssic*.

Preladyeid a volir o'i ssancteiddrwydd, a'i glendyd buchedd, a'i trugaredd wrth weiniaid, a'i elussenau, a'i cadernid, yn cynnal cyfreithiau yr eglwys, a'i breintiau, ac o bethau eraill

Digitized by Google

ysbrydolion, ac anrhydeddus: a meddylier yn ysbys voli pawb yn ei radd i hun; ac yn ei ragorfraint.

DAROSTYNGEDIGION a volir o'i haelioni, a'i bonedd, a'i buchedd, a'i defodau, ac o bethau eraill addfwyn.

DEURYW GREFYDDWYR y sydd, nid amgen, Preladiaid, val Abadau a Phrioriaid; a Darostyngedigion, val Brodyr a Menych, a chrefyddwyr eraill.

PRELADIAID, crefyddwyr a volir megis Preladiaid eraill, ac i gyda hynny, o'i crefydd a'i buchedd, a'i santeiddrwydd, a'i dwyfolion wasanaethau; ac o'i nevawl a'i hysbrydawl gariad ar Dduw; ac o gyfiawn lywodraeth ar eu Darostyngedigion grefyddwyr eraill; ac o'i ystadau eglwysic, a'i doethineb, a'i cyfiawnder yn cynnal cyfreithiau yr Eglwys a'i chymedrwydd, a'i trugaredd wrth reidusion a thylodion; a'i gweddiau, a'i gweithredoedd ysbrydolion, a'i haelioni yn cynnal llyssoedd, a phethau eraill ysbrydolion anrhydeddus clodfawr yn ddi-orwac ddi-bechadurus, ac o bethau eraill perthynassol i voliant.

Crefyddwyr eraill Darostyngedigion, a volir o'i hufudd-dawd, a'i darostyngedigrwydd i Dduw ac i'w Breladiaid; ac o bethau eraill nefolion ysprydawl.

DEURYW YSCOLHEIGION BYDAWL y sydd, nid amgen, Athrawon a Disgyblion.

Athrawon a volir o'i celfyddodau a'i gwybodau, ac uwchelder nattur a chyfreithiau a blaenwydd Canon, a buddugoliaethau yn ymryssonau, a doethineb ar ewynnau a gollyngau, drwy Athrylith, a Chelfyddodau, a Dosparth.

DISCYBLION a volir o'i dysc, a'i hethrylith, a'i gwybodau, a'i haddfwynder, ac o'i bod yn ddefnyddion gwyrda.

DEURYW LLYC a volir, nid amgen, Arglwydd ac Uwchelwr.

*Arglwydd*, megys Brenhin, neu Amherawdr, neu Dywyssoc, neu Iarll, neu Varwn, neu Bennaeth arall, a volir o'i gadernid, a'i ddewredd, a'i vilwriaeth, a'i allu ar wyr a meirch, ac arfau, a chyfoeth, a thraul, a'i ddoethineb, a'i gymmhendawd yn llywiaw gwlad a theyrnas; a chreulonder wrth ei elynion; a gwarder a hygarwch wrth ei wyr, a'i gyfeillion; a haelioni rhoddion a gwleddau, a mawrfryd gweithredoedd; a digrifwch, a bonedd, a thegwch pryd a gwedd, ac addurnyant gwisgoedd ac aur neu a thlyssau, a mawr-vrydussion veddyliau; a gwroliaeth gweithredoedd; a phethau eraill addfwyn anrhydeddus.

*Uwchelwr* a volir o'i ddewredd a'i gadernid, a'i vilwriaeth, a'i bryd, a'i vonedd, a'i addfwynder, a'i haelioni, a'i ddigrifwch; a'i ddoethineb a'i gymmhendawd, a'i wrdahaeth, a'i gynhalyad; a'i gyvoeth; a'i fawrfrydus weithredoedd; a'i wladwriaeth, a'i gywirdeb o air a gweithred; a meddwl wrth ei Arglwydd.

Digitized by Google

TRI RHYW WRAIC a volir, nid amgen, Crefyddwraig, a Gwreigdda; a Morwyn Ieuanc rianaidd.

*Crefyddwraig* a volir, o santeiddrwydd, a diweirdeb, a glendid buchedd; a chrevydd, a glendid morwyndawd, o air, a meddwl, a gweithred; ac o nevawl gariad ar Dduw; a phethau eraill santaidd ysbrydawl, megis y molir Crevyddwr.

*Gwreigdda* o Arglwyddes, neu Uwchelwraic, a volir o bryd a gwedd, a thegwch, ac addfwynder, a digrifwch, a haelioni, a lledneissrwydd, a doethineb ymadroddus, a chymhendawd, a diweirdeb, a thegwch pryd a gwedd, a dissymlder ymadroddion, a phethau eraill ardderchawc, addfwyn, canmoladwy, ac ni pherthyn prydu i Wreigdda, herwydd serch a chariad, cynn ni pherthyn iddi ordderchgerdd; ac o bydd Swyddoc i Gwr, ef a ellir prydu iddi ac i'w Gwr, herwydd braint y swydd.

*Morwyn Ieuanc rieinaidd* a volir o bryd a gwedd, a thegwch, a diweirdeb, a morwyndawd, a rhianaidd ledneissrwydd, a chwrteissrwydd, a bonheddeigrwydd, a hygarwch, a dissymlrwydd, a haelioni, ac addfwynder; ac eglurder clod, a devodau da, a serchawgrwydd, a gwychder; ac iddi y perthyn prydu, herwydd serch a chariad, a rheingerdd; ac val hynny yn yrvol y molir Mab Ieuanc serchawc.

Ni ddyly Prydydd vod yn Oganwr, a gwnenthur swydd Clerwr, cans swydd Prydydd yw moli; ni ddyly oganu neb nes oi brovi dair gwaith, ond tewi a'i voli a ddichon: Ef a ddichon vod yn Deuluwr, cans swydd Disgybl yw.

Dewiniaeth, a Swynau, ac Overedd, a Chroesanaeth, ni pherthyn ar Brydydd.

Ystorïau Ysgrifenn, ac Ymddiddanau Cyfannedd, ac Odidogion Ovynnau ac Attebion, a berthyn ar Brydydd, i ddigrifhau Llyssoedd; ac i ddiddanu Gwyrda a Rhianedd; ac i ymddiddan a doethion, cans rhann o ddoethineb anianawl yw Prydyddiaeth, ac Eithrylith; cans o un o'r saith Gelfyddyd yr henyw, ac Awen a henyw o'r Ysbryd Glân

Val dyma y campau ysbrydolion a berthyn ar Brydydd; Ufudd-dawd, Haelioni, Diweirdeb, Cariad perffaith, Cymhedroldeb bwyd a llynn, Amynedd da, a Dilesgrwydd; y rhain y sydd wrthwyneb i'r saith bechod marwol; nid amgen, Balchder trahaus, Anghywirdeb, Godineb, Cynghorfynt, Glothineb, Llid, a Llesgedd; y rhain a lygrant yr Awen, ac a laddant yr Enaid.

Ac velly terfyna Dosparth Cerdd Dafod Simwnt Vychan.

[Hon a elwir Dosparth Beirdd Gwynedd.]

IOLO MORGANWG.

Digitized by Google

[Dychweler at Ddosparth Morganwg, lle a'i gadewyd ar ei sawf, tu dalen 171.]

TRAETHER bellach am Gorfannau Cerdd Dafod, a'u llesoldeb er trefnu a chadarnhau melusder caniadaidd ar fann a phennill; ys ef yw Corfann adranniad ar fann neu fraich parth gorphwysfa'r canol, ag awdl ar ddiwedd y bann, ag ar gyfryngau rhwng y rhai hynny er gochelyd trysglineb llef a llafar.

Nodir y Corfannau er addysg ernynt fal hynn: — ◡ ʌ y cyntaf o'r nodau yn dangos sill hir, yr ail sill ferr, a'r trydydd sill gyffredin neu ganolbwys, na hir na byrr, ond fal y bo melusder caniadaeth yn gofyn.

Wyth Corfann hynaws y sydd, sef a'u gelwir yn hynawsion am y llithrant yn hynaws o un i arall, neu y naill i'r llall.

CYNTAF yw Corfann crwnn, neu un hir, sef o unsill hir y bydd, fal y mae dȳn, dawn, dā, drwg, &c.

AIL yw Corfann rywiog, a nodir fal hynn, - ◡ ys ef unsill hir ag un ferr, fal y mae dȳnol, dawnŭs, cānŭ, mȳnĕd, cērddĕd, ag eraill yn afrifed; sef y bydd y brif accen ar y sill ddiweddaf ond un o'r gair, fal y mae gorddyfnawd y Gymraeg yn gofyn, oddieithr y Perwyddiaid, ys ef Gwerfau, treigledigion o enwau gweinion.

TRYDYDD yw Corfann talgrwn, neu dderchafedig, sef y bydd yn dderchafedig yr accen ar y sill ddiweddaf o'r gair, a'i nodi fal hynn, ◡ - yn ddwy sill, y cyntaf yn ferr a'r olaf yn hir; fal yn mwȳnhāu, iăchāu; ag fal hynny'r ddwysill ddiweddaf ar eiriau mwy na rhai dwysill, fal y mae llawĕnhāu, ufŭddhāu, ag eraill o'r cyfryw.

Heblaw y rhai hynn, y mae rhyw ychydig o eiriau yn ymdreiglaw o eiriau unsill a font yn diweddu yn O neu AW, a'r Gwerfau treigledigion o'r cyfryw a'u haccen ar y sill ddiweddaf, fal y mae ymdrōi, ymrōi, ffōi, cyffrōi, deffrōi, ag eraill o'r cyfryw, o'r geiriau Tro, Rho, Ffo, Ffraw, Cyffraw, Deffraw, ag eraill o'u rhyw.

PEDWERYDD yw Corfann hir, neu Gorfann cydbwys, dwysill y bydd fal hynn, - - sef a dwysill hirion a'i gwneir, neu a sill gyffredin ag un hir, fal hynn ʌ - mwȳhāu neu mwȳhāu, a phob deuair unsill yn rannedigion a wnant y cyfryw gorfann o wir angen, fal y mae Dȳn dā, Gwr dā, Gwrāig ddā, hīn dēg, hīn ddā, Dūw māwr, māwl Dūw, a'r cyfryw; ys ef afrywiogrwydd ar y Gymraeg yw dywedyd Gwrdă, Gwrēigddă, hīnddă; nid llai gwrthun yw Dȳwsŭl, Dȳwllŭn, Dȳwmāwrth; yr un gymmaint ag nid mwy felly Dȳnmāwr, Dȳnbăch, Dyndoēth, Dȳnclăf, yn lle Dyn mawr, Dyn bach, Dyn doeth, Dyn claf.

PUMMED yw Corfann crych derchafedig, a hwnn a fydd o deirsill, y ddwy gyntaf yn fyrrion a'r olaf yn hir, fal hynn; llăwĕnhāu, trŭgărhāu, rhăgȳmrōi, ymbarŏttōi, ag eraill; eithr mynych o eiriau rhannedigion, y bydd fal mȳnĕd ȳr wyf, dȳfŏd ȳn ōl, gorfŏd ȳmrōi, dibēn ȳ daith, dos ȳn ȳ blaen, arŏs ȳn ōl; ag fal hynn yn dri chorfann, ăm ȳ bȳd ȳ măe dȳn ȳn ĕi swydd, ag eraill dros benn rhif a dangos.

CHWECHFED yw Corfann crych ddisgynnedig, a'i mesur fal hynn - ◡ ◡, sef un sill hir a dwy sill byrrion, ag nis gellir hynn ar y Gymraeg, eithr yn gyfansoddedig; ag nis gellir diweddu bann a'r cyfryw Gorfann; er hynny melus iawn yn nghorff y bann neu'r fraich, ag yn gyfansoddedig y bydd, fal hynn:

Tān ȳ gwȳllt ănĭăn ă'm tȳnnŏdd ŏ'm llē.

Digitized by Google

Lle gwelir ar y rann gyntaf o Baladr Englyn, Tri Chorfann crych disgynnedig, a phob un o gysswllt geiriau rhannedigion, un ar ol ei gilydd; a Chorfann crwnn, sef o un sill hir, yn diweddu'r fraich; ag nis gellir Corfann crych disgynnedig yn y Gymraeg, yn amgen nag o gysswllt geiriau rhannedigion.

**Seithfed** yw Corfann cymmhlyg disgynnedig, a fessurir fal hynn ⏑ - ⏑, o deirsill, y gyntaf a'r olaf yn fyrrion a'r un ganol yn hir, fal yn Trŭgārĕdd, ămȳnĕdd, rhăgōrăwl, cărēdĭg, a miloedd gyda hynn; a Chorfann cymmhlyg rhywiog hefyd ei alw, am fod ei ddiwedd yn rywiog.

**Wythfed** yw Corfann cymmhlyg derchafedig a fessurir fal hynn o deirsill - ⏑ -, y gyntaf a'r olaf yn hirion a'r un ganol yn ferr, fal yn y geiriau hynn yn rannedigion, Dōs ȳm mlāen, trīg ȳn ōl, dȳwēd pwȳ, băchgēn cāll, gēnĕth dēg; ag yn gyfansoddedig o air fal hynn, ŭfŭddhāu, ȳmlănhāu, a mynych y cymmerir sill gyffredin mewn mann ar fann, lle y gellir rhoi llafar hir iddi, wrth achos; ag mewn mannau eraill hi a saif yn rywiog yn lle sill ferr.

A hynn y sydd o Gorfannau hynawsion ag addwynion; y mae eraill a elwir Corfannau anhynawsion, ag nis dylit ymarfer a nhwy, namyn wrth achos taerbwyll, er achub rhagoroldeb mawr ar synnwyrbwyll myfyrdod, lle nis gellir mewn un modd yn amgen; neu er dyfalu yn gyfiawn yr hynn nis gellir ei ddyfalu yn amgen nag a chorfannau a geiriau trysglon a' gerwinllais.

Llyma'r Corfannau anhynaws neu anaddwyn, fal y mae Rhys Meyryg o'r Cottrel yn eu galw.

Corfann Trwm a fydd lle bo tair neu bedair sill byrrion heb un hir neu gyffredin rhyngddynt, fal hynn ⏑ ⏑ ⏑ neu hynn ⏑ ⏑ ⏑ ⏑; ys ef trymmion ar lafar y byddant y bannau lle bont y cyfryw gorfannau fal hynn ynddynt:

Māwr ȳw căniăd gwȳr Mēiriŏn.

Ys ef nis gellir cadw'r gynghanedd ar glyw os doder y cyfryw sillau yn gyffredinion, ag a farnai rai'n alledig ei bod felly ar y Pennill, fal hynn:

Māwr ȳw cāniăd gwȳr Mēiriŏn.

Ag nid gwell y byddai fal hynn:

Māwr ȳw căniăd gwȳr Meirion.

Ym mhob un o'r ddwy ffordd efryddir y Gynghanedd, am mai ar y sill mawr yn y dechreu ar sill meir yn y diwedd y saif y gynghanedd, ag o lafaru'r sill can neu yntau gwyr yn hir mal y gellir ymhob sill gyffredin, y mae un ag arall o henynt yn dwyn oddiar y sill mawr yr holl bwys agos ag y sydd yn gwneuthur y gynghanedd; eithr lle bo'r sill ynghanol y bann gellir rhoi pwys cyffredin arni, a dwysill byrrion

Digitized by Google

rhwng y cyfryw sill gannol blaen ag ol ar y geiriau a wnant y gynghanedd, ag ni fydd yno fai, fal hynn:

Pĕnn ăr ỳr hăeliŏn ău Pŭrch.

Corfann trwm yn a ganlyn:

Drăw ỳ măe'n ĕi ddryllĭăw'n drwm.

Doder fal hynn, a difai y bydd:

Y măe drăw'n ĕi dryllĭăw'n drŵm.

Corfann trwm yma hefyd:

Dă ỳw'r dĕchrĕu ă'r diwĕdd.

Y mae'r fraich a ganlyn yn ddifai:

Mynỳch ỳw căs ăm ănair.

Eithr yn honn y mae Corfann trwm:

Mynỳch sĕrnĭr ỳ mŵynĭon.

Hwnn yn ddifai, a'i gymmar hefyd;

Ynfŷd mĕwn rhănn ŏ'm ănfŏdd,<br>A bŭm ĕttĭfăr ŏ'm bŏdd.

Cyfyd trysglineb mewn Corfann hefyd cyd na bo parth acen, na hir na byrr, eithr o gynghlwm cydseiniaid geirwon eu llafar, ag yn bennaf felly mewn sillau cadarnleddfon, fal y mae yn y fraich honn:

Y mae'n hydr mewn gwydr gadwyn.

Arall.

Yn ymwanfrwydr Ion mwynfraisg.

Gellir gochel y trysglineb hynn drwy drefnu bod y gair a ganlyn y sill gadarnleddf yn dechreu a bogal, fal hynn:

Arall egr a'i haerllugrwydd.

Neu ynteu 'r gair canlyn yn dechreu a'r un gydsain a'r un olaf o'r gair cadarnleddf yn yr orphwysfa, fal hynn:

Ni bu Rodn na'i Beredur<br>Negydd o'i win nag o'i ddur.

Arall tra thrwsgl:

Y mae'n Flandrs ryw glandrs rew glups.

Y Prydydd awenbwyll a wyr ffordd i ochel y cyfryw gloggrugadrfraich ar Gerdd Dafod, oddieithr ei fod yn hoffi ymorchestu, fal y gwyddys am rai, yn y cyfryw bethau; gadawer iddynt eu gorchest a'u clod.



Digitized by Google

Corfan cloff a fydd agos yr un peth, os nid yn llwyr felly, a chynghanedd bengoll; a mynych a'i gweler ar yr ail fraich o baladr Englyn, fal hynn:

Gorfod dwyn llwyth yn gurfaith—afiachus,
Dan faich drwy'r holl ymdaith,
Cwd a ffonn—Gwlad estroniaith,
Ofer y dwyn—gwae fi'r daith.

Thomas ab Ifan ap Rhys a'i cant.

Cynghanedd y geiriau Toddaid ydynt—afiächŭs—fäich drwy; yn yr ail gangen o'r gynghanedd nid oes ond y gair fäich yn cynghaneddu a'r sill ddiweddaf ond un, yn y gair cyrch, heb ddim i ymgynghaneddu a'r diweddaf oll; a llyma ddull y gynghanedd herwydd ei chorfannau, - ᴗ - sill hir yn yr ail fann o'r paladr yn atteb i'r un hir yn y gair cyrch, ag heb ddim yn atteb yn yr ail fann i'r sill ferr yn niwedd y gair cyrch: dull y Gorfan a welir fal hynn, - ᴗ - - a chorfan cloff a'i gelwir, am nas geill gerdded ym mlaen i'r diwedd fal ei gymmhar; eithr gellir gwared y cloffni fal hynn:

Gorfod dwyn llwyth yn gurfaith—afiächŭs;
Dan feichiău drwy'm ymdaith.

Yna saif y gynghanedd yn gyflawn ar gorfannau cyfatteb fal hynn:

Afiächŭs—dan feichiău.

Neu fal hynn:*

AFIACHUS
Dan FEICHIAU.

Trymder anferth ar Gorfannau yw Dehëad, sef y bydd hynny pann fo gorfod symmud o un fogal i arall heb gydsain rhyngddynt, fal y mae yn hwnn:

A Llēwŏd ŏll ŏ Owaĭn.

Gweler y dehëad rhwng O ag Owain heb un gydsain rhyngthynt i nerthu'r anadl i fyned ym mlaen yn hynwyf; am hynny trwm yw'r Corfan, a thrymach am fod yr O yn y gair oll yn lleihau'r cyfnewyd bogaliaid, a'r un O ym mhellach fyth yn ol

---

* Aml iawn y gwelir y cyfryw gorfannau cloffion yn Englynion Beirdd Gwynedd y dydd heddyw, dyma un.

Caiff yno eilio'n wiwlan ei bennill
Heb un gofal trwstan——

Nid yw bēnnĭll a bŭngŏf. yn atteb y naill i'r llall yn gynghanaidd, am nad ydynt dann arweiniad yr unrhyw gorfann.

Arall.

Beunydd yr wyf yn boenus, y fÿnwēs o fewn sÿ

Nid wyf yn enwi neb; ond nid y Bardd a gant fal uchod, yw'r unig un sy' fal hynn yn canu corfannau cloffion ar baladr Englyn, yng Ngwynedd y dydd heddyw.

IOLO MORGANWG.

yn sill olaf llewod: ys ef yn y fraich honn, heblâw'r dehëad yn fai o drymder, y mae gormodd cyfunsain bogaliaid yn ddigyfnewyd, nid amgen na phedair O olynol, yn dybrydhau'r sain yn anferth dros benn mesur. †

O'r Corfannau hynawsion rhai ydynt gyfreolus, ys ef gellir eu dodi lle mynner mewn bann a chynghanedd, a llithrant yn rywiog y naill at y llall, ag i'r llall, heb ronyn o ddybryd sain yn y mydr; eraill ydynt afreolus nid amgen y corfannau trisill lle bont o'u cyd yn peri gormodd o'r hirion neu ormodd o'r byrrion ynghyd; fal hynn, - ᴗ ᴗ ᴗ ᴗ - sef Corfann crych disgynnedig yn dechreu, ag un dderchafedig yn canlyn:

**Māwl fŷth ĭ'r ĕbŏl mēlyn.**

Ag o ddatgan yn amgen na hynn parth corfannau, ni chedwir y gynghanedd.

Ag anferth yw'r sain, ag er hynny lle a'u harferer yn amgen ag yn awenbwyll mewn bann, trachanmadaidd y bydd y crychiaid derchafedig a disgynnedig, fal a'u gweler yn a ganlynant.

**Tān ȳ gwŷllt ăniăn ă'm tŷnnŏdd ŏ'm llē ă grŷm llĭd ă'm gŵyrŏdd;**
**Ynfŷd mĕwn rhānn ŏ'm ănfŏdd ă būm ĕtifar ŏ'm bōdd.**

Pedwar corfann crych disgynnedic yn y fraich gyntaf olynol, heb un arall yn torri rhyngddynt, a dau gorfann rhywiog. Yn yr ail fraich, un crych disgynnedig, dau rhywiog, dau talgrwn, ac un crych derchafedig.

Gweler yn a ganlynant moddau y doder corfannau addwynion, sef hynawsion o unrhyw yn atteb i eraill arallryw.

**Drūd ŷr ădwaĕnwn dŷ drō**
**Gwēn cĕnhīnĕn cŷnn hēno.**

**Dafydd ap Gwilym a'i eant.**

---

† Y mae rhyw Brydydd neu Fardd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynyddaid, neu, o enw arall, yr Oferfeirdd, yn llanw'r wlad a phennrimpau, ym mha rai y mae megis yn ymorchestu am glod yn y cyfryw fodd anferth o fydryddu,

I lwysaf lë ā ŷw.

Dyma itti, Gymro glân, gorfann hirdrwm o dair sill hirion ar dair bogal egored, yn peri Dehëad digon HWHWAIDD nid yn unig i alw holl ddylluanod y gwylltgoedydd ynghyd i floeddiaw a fynnant o'r gyfryw Gan Arwest yn dy gostiau, ond i roddi'r cyfryw lawnder gwaith i'th anadl ag nis cafas erioed o'r blaen, ond gochel dodi'n rygaled ar d' ysgyfaint.

Y mae Prydydd arall o'n hoes, os arall yw mewn gwirionedd, wedi canu fal hynn:

Cana awen nefawl; a, a, a, e, e, aw.

Dyma itti beroriaeth mydryddol gyda melldith; y mae ef wedi bothellu clod y cyfryw ddiewllydiais guwch a'r haul, ag yn gwallgofi mae'r cyfryw udlef llafariaid yn unig, yw prif beroriaeth Cerdd Dafod.

IOLO MORGANWG.



Digitized by Google

Rhŷdd mae'r dŷdd ŷn dŷfŏd.—
Dŷn dā nŷd ōes, mâe Dūw'n dŷst.—
Dŷn dōeth hŷ chēir, pând ŷw'n dōst.—
Dân w̄ydd mŷfī ă'm dȳn wēnn.—
Y fērch ă wēlaĭs ŷn fwŷn.—
Ămlhău măe drŵg ŷn fŷ mīlwŷf.—
Măb wŷf ă'i nwŷf ăm ŭn wênn.—
Dŭw māwr ŏfêrĕd ĭ mi,
A gręssŷn! cēisiŏ'th grŏesi.

Mwŷn mwŷn
Adâr a'ŭ llāis ŏ dōrr ŷ llwŷn,
A glwȳs ŷ tărdd ŷn glăsŭ twŷn.

Wŷf ŷn dăer ăm fŭn dēg, ŭn aĭl Indĕg o lîw.—

Dērfŷdd ĕi gȳwŷdd ă'i gāinc, oĕră cwŷn ĕr ă'i cār pōb Iēuainc.—*

Cērăis ărfērăis i'r fwriăd i'm cān ă'm cēiniăith ŷn wāstad.—

Y gw̄r glēw, ŷ măe gwîr glōd
O ddawn bēr iddŏ'n bārŏd.—

Y māe gāir, ām ĕi gāriăd,
Hŷnŏd yw̄ fāĭ ĕi hēn dād.—

Un ŏ rōdd ŷn w̄r hŷddŷsg,
Ag ŭn dōeth ŷn gwēinĭ dŷsg.—

Un ă gāwn ŷn mīn gwēynŷdd,
Yn ēiliŏ gwāwd ŷn nāil gwŷdd.

Harri Hir o Fuas i'r fwyalch a'i cant.

Dŭw'n ĕi dārŏ 'r dŷn dīrăs
A māith ŷ cūr, ăm wāith cās.

Y măe'n ŷ tŷ mĕwn mānn tŷwyll.—

Bann a chorfannau afreolus yn llwyr anghaniadaidd.

Niwlŏg ŷdyw'r ănialwch.

A gocheler y cyfryw gorfannau, eithr dann orford cadarn, i achub synnwyr rhagorbwyll.

Ag o ddeall y corfannau, a'u medru'n iawn parth pwys llafar a chyfle, bydd melusach, a llithriccach, a mwy cywair Bannau a Chynghaneddion Cerdd Dafod, nag a fyddai'n amgen, ag o'u hesgaeluso.

Ag fal hynn y terfyn Dosparth y Corfannau a dynnwyd yn gynhwyswyll o Hen Lyfr yn llaw Rhys Meyryg o'r Cottrel ag efe, meddai, a'i tynnodd o Hen Lyfr yr Hen Syr Edward Stradling o Gastell Sant Dunwyd.

---

* Toddaid Taliesin yw hwn a'r nesaf; a mesur ydyw a elwir yn lladin Hexameter.
IOLO MORGANWG.

Digitized by Google

LLYMA Awdl y Wyryf Fair Wenn o Benn Rhys a gant WILYM TEW Bencerdd ag Athraw Cadeiriog, mewn Eisteddfod dan nawdd Owain Glynn Dwr ym Monachlog Penn Rhys yng Nglynn Rhondde, er dangos a dysgu yr Hen Fesurau gorchestolion ar Gerdd Dafod herwydd barn a hen arfer Dosparth y Ford Gronn yng Nghaerllion ar Wysg, fal ag y mae y Ddosparth honno ar gof a chadw yng Nghadair Tir Iarll, ag yn Nawdd Cessaill Prif Feirdd Ynys Prydain yn Ngorsedd a Chadair Morganwg a Gwent ag Euas ag Ergin ag Ystrad Yw.

A gwedi Difant Bargodiaint Owain Glynn-Dwr doded Monachlog Penn Rhys i lawr, a gwerthu'r cyfoeth, gann y Brenin Harri'r bummed, amcan oed Crist 1415, am ddeochri at Owain a'i Blaid. A chwedi hynny GWILYM TEW a wellhäes yr Awdl honn ag a'i dangoses yn addysg ar yr Hen Fesurau Cerdd Dafod yn Eisteddfod fawr gyntaf Caerfyrddin, amser y Brenin Harri Sant o Winsor, pann oedd oed Crist MCCCCLI, dann nawdd Llythyr Cynnwys y Brenin, ag yn nawdd dawn Gruffudd ap Nicolas o'r *Dref Newydd yn Ninefwr*, er dangos addysg a chelfyddyd yno ar Hen Fesurau Cerdd Dafod, y rhai am farddoniaeth nid ydynt iddeu cael mewn unlle arall yn awr, achos y trymysg tra thrymysg a fu ar wlad a chenedl y Cymry; a Hen Gwlm Cerdd Dafod Tir Iarll a'i gelwir, [meddai Antoni Powel o Lwydarth, ag nid oedd a wyddai yn well nag efe. EDWARD DAFYDD.] *

## I. Proest Cyfnewidiog.

**MORWYN Wyry Mair wineurydd,**
**Mae mewn Eurwy Mam Nawradd,**
**Mair war Mam y Drugaredd**
**Mewn llaw Fair mae'n lleferydd.**

* Nid yw Teilyngdod Barddoniaidd yr Awdl honn ond lled fychan; yr oedd hi mewn bod hanner cant mlynedd o leiaf, cyn ail Eisteddfod Caerfyrddin yn 1461, pann ddangosodd y Gwr o Bwll Gweppra ei wagorchestion, ag ynnill Cadair am gang Gorchest y Beirdd a modd newydd ar Gadwyn ferr: rhodder enw newydd cynnulledig ernynt nid amgen na, Madrondod Deio Pwll Gweppra.

Nid yw'r Gynghanedd bengoll yn ymddangos yn yr Awdl honn yn amgen nag ar baladr Englyn Toddaid, lle a'i cennattaer; a hynn yn cadarnhau tyb gyfiawn SIMWNT FYCHAN, y celfyddaf o holl Gerddfeirniaid Gwynedd, ei bod wedi cael ei gwrthod rhyw faint o flynyddau cyn amser Gorchestion hudbwyll Dafydd ap Edmwnt: ond y mae yma feiau eraill, a rhai anafus hefyd, nad oeddent ar yr hynn o bryd dann ommedd a gwaharddiad, megis gormodd odlau, ymsathr odlau, proestio rhwng prif orphwysfa'r gynghanedd a'r brifodl; a sain lled-ddybryd mewn amryw eraill o leoedd. Ni wiw son am syfrdandod pabaidd y dydd heddyw fal y mae goreu'r damwain, ag nid achos ond chwerthin am benn y mabiaith gwrthbwyll a pha un y mae'n Hen Athraw bolfras yn son am ei Fair Forwyn, ei Fair Wenn; a phethau eraill, digrif yn byt-

Digitized by Google

### II.

**Lleferydd y Llafuriaid**
**Llu 'Mhenn Rhys llê maen' erioed,**
**Llun y Wyry a'i lliw'n euraid**
**Lle mae braich llaw mab a roed.**

### III. Unodl Crwcca.

**Ef a roed y Wyry Fair Wenn**
**Wrth fesur Araith Foesen,**
**Iesu yn ei bru ar Brenn yn Brynwr**
**A Brenin Nef bresen.**

### IV. Unodl Gyrch.

**Mair Amherodres Presen;**
**Mair, nid a'r pumgair o'm penn;**
**Mair Gabriel mawr ei gobrwy,**
**Mair yn fwy na mur nef wenn.**

### V. Unodl Union.

**Mair Frenhindref nef, Mair gynnifer ered**
**Yn cae'r wybr a'r lleufer,**
**Mair a glyw'n llef, burdref ber,**
**Ar gwbl iawndal rhag blinder.**

### VI. Tribann Milwr.

**Mair rhag blinder a'n gweryd;**
**Mab Mair i bawb a ddairyd;**
**Mair a gar y meirw i gyd.**

---

trach nà ffiaidd eu clywed; ag nid oes er ys hirfod maith o amser, achos rhybuddio'r Cymry yng ngeiriau ein hen Gwdwladwr glew, Gwilym Ganoldref, 'Gochelwch y Surdoes.'' (Gweler Gramadeg y Dr Sion Dafydd Rhys, tu dalen 235.)

Y mae'r Awdl honn, er maint a ddywedais am ei hannheilyngdod, yn deilwng o'i chadw; y mae'n dangos yn oleudrem helynt ein Mydryddiaeth yn yr oes derfysglyd honno; a threigl ei diwygiad o well i well, hyd amser Eisteddfod gyntaf Caerfyrddin, lle dangosodd Llawdden ei wellhad ar y cynghaneddion, a lle cafodd ei Ddosparthau ef Farn arnynt, a Bodd a chadarnhad yr Eisteddfod. Nid oedd gormodd odlau a phroestio ag eraill o feiau wedi cael eu gwahardd cynn amser Llawdden.

Yr oedd Beirdd Tir Iarll cynn y flwyddyn 1414, yn mha un y dodwyd Monachlog Penn Rhys i lawr, wedi bod ar waith yn chwilio allan yr hen Fesurau Cerdd Dafod a fuant gynt ar arfer, er eu hadferyd, neu o leiaf y goreuon o henynt; a'r Awdl honn, er dim yn amgen a wyddom ni'r dydd heddyw, yw'r dangos cyntaf a welwyd ar adgaffaeliadau y cyfryw ymchwil. Yr oedd Gwilym Tew yn Athraw Cadeiriog yng Nghadair Tir Iarll. (Gweler Cywyddau ymryson Hywel Dafydd ap Ieuan ap Rhys am Farwnad Ieuan ap Hywel Swrdwal, yr hwnn oedd hefyd yn Athraw Cadeiriog yn y Gadair honno.) Gelwid ei Gwlm cynnull ef ar yr hen fesurau yn gwlm Cerdd Dafod Cadair Tir Iarll, neu Gadair Morganwg fal a'i gelwid gann eraill, a'r Cwlm Cadair cyntaf a wyddom ni am dani ydyw; ag "o'r oes gyntaf," i'r cyfryw gylmau ydyw. (Gweler tu dalen 235, fal uchod.)

Gwelwn yn yr Awdl honn ein mesurau hynaeifion, neu rai o'r cyfryw, Englyn Milwr, neu Driban Milwr, a'r hen Driban Toddaid; ag yn wir y maent wedi aros fed y dydd heddyw dan gadwedigaeth yng Nghadair Morganwg; a gorchestion Dafydd ap Edmwnt dan lwyr wrthodedigaeth.

Digitized by Google

## VII. Tribann Toddaid.

I'r byd y deiryd derwen eurwerthog
Ar warthau'r Ffurfafen ;
Morwyn weddw, Mair Winwydden.

## VIII. Hen Englyn, a elwir mesur Balchnoe.

Un o Winwydd
Duwfab Dafydd,
Mae'm mhell enw mam llawenydd,
Mair a'n rhoes fyw a meirw yn rhydd.

## IX. Hen Englyn arall, Cil Dwrn.

Rhydd dynnu pumpllu o'r poen a wna Fair
Wenn Forwyn eiry unhoen,
I rad yr Oen.

## X. Englyn Garr hir.

Oen Duw a'r Wyry Fair yn dal am erchi
A mawrchwant yr Afal;
Rhingyll fu'r Angel
Yn dwyn gair dann gel,
Yn gyfiawn dawel, rhag ofn dial.

## XI. Garr Hir amgenryw.

Ynial fu'r dial rhoi'r dyn, a'i werthu
Dann warthair I'w Elyn;
Prisiwr Presen
Ein Pont a'n Penn,
Ym mynwes prenn mwy ni's pryn.

## XII. Cywydd deuair byrr, a Chywydd deuair hir yn un.

Ym mynwes Mair
Y Gwr fu'r gair,
Gwir Yspryd glan diddanair,
A gwir Fab o fru Gwyry Fair.

## XIII. Cywydd Llosgyrniog.

Os enw Mair y sy'n y moroedd
A'r tyrrau aruthr a'r tiroedd,
O'i Nefoedd mae a'i Nafiad.
Cynnadlai 'mhlaid cenhedloedd,
Addewyd oedd o Dduw Dad.

## XIV.

Duw Dad o'i gariad gyrrai
I a garai'r byw gwirion,
Y Forwyn Wenn freahinol
I lwyr eiriol yr awrhon.

Digitized by Google

## XV. Huppynt Byrr.

Awr honn y rhydd
Ei phwys a'i ffydd beunydd Bannon,
Ar yr Iesu
I'n croyw Iesu Cirie Eleuson.

## XVI. Huppynt Hir.

Mair berllan ber,
Mair loyw leuer,
Mair wybr a ser, mor bur y son,
Mair yw'n seren,
Mair offeren,
Mair Weneren, Morwyn wirion.

## XVII. Cyhydedd Nawsill.

Mawr yw Mair Wenn a phenn a ffynon
O Bab Duw Ener i bob dynion,
A gannwyf ar dir ag nofio'r donn
Yr anifeiliaid a'r nefolion.

## XVIII. Huppynt hir ar bump rhagodl.

Mair nos a dydd,
Mair a geidw'n ffydd,
Mair a'n gwna'n rydd,
Mair fu Mair fydd Gwinwydd gwynnion;
Mair yn Benn Rhaith,
Mawr mawr ei gwaith,
Mair ni wna'n llaith,
Mair ym mhob maith,
Mair ym mhob Iaith a daith doethion.

## XIX. Clogyrnach.

Mair enaid corph Morwynion
Diddrwg, yng ngolwg Angylion;
Mair y sy' i'm arwain,
Mair fu Em Wyry fain,
Yn y Dwyrain yn dirion.

## XX.

Mair Lyfr Eglwyswyr Mair loyw afon Ffydd
A Ffoddes Creulonion,
Mair ddadleuwraig Ysgolheigion,
Mair yw'n gafes Morwyn gyfion,
Mair Wyry a'i henw ym mrn hinon,
Mair a ddeaill meirw'r Iuddewon,
Mair gyffes neges Crist'nogion wyrth drud
Wrth y drain a'r hoelion.

## XXI. Cyhydedd Wythsill.

Mair dawelwybr, Mair Dduwiolion;
Mair, o'i heddwch, mawr ei hadden,

Digitized by Google

Mair o egyr y mor eigion,
Mair adwaener rhag marw dynion.

## XXII. Hir a Thoddaid.

I Fair da wyniaith e fu'r Dewinion
O Raith resymol wrth eiriau Simon;
Mawr oedd y Ddeulu! myrdd o urddolion;
Ymgais a'r seren megis Rhos irion:
Gwirionddeb Sioseb dewisason hi,
Gadu'r gair iddi gyda'r Gweryddon.

## XXIII. Cyrch a Chwtta.

A dyn dall a'r glwyd yn donn,
A'r gwaew aruthr a'r goron;
A Duw fry'n rhoi gwaed ei fronn
Yn Dudded i Brydyddion,
Yn grair y Ffyrfafen gronn,
O Fair Wyry ef yw'r Aeron,
 A llwyr Dduw, a Llew'r ddaear,
Ag oen gwar gann y gwirion.

## XXIV. Gwawdodyn Hir.

Mair deladai amryw dylodion;
Mair Mam i Dwysog y Twysogion;
Israel a phobl hael, Iaith a phabl honn,
I Fair a Iesu llafuriason,
Fe greodd o'i fodd ufuddion lle 'ddynt,
Ei weis un gerynt Moesen ag Aron.

## XXV. Cyhydedd Hir a Thoddaid Hir yng nghyd.

Cynn oes cynnesu
A phwys cyffesu
Y bom ar Iesu, heb ymryson.

## XXVI. Toddaid Hir.

Gwnaeth i'r byd wynfyd anfon y Forwyn
Gwawr fwyn gwedi dwyn i gadw dynion.

## XXVII. Cadwyngyrch Byrr o'r hen ddull.

Mair yw'n golwg ym mronn gelyn,
 Mair yw'n telyn am rentolion,
Morwyn dirion ym marn Derwyn,
 Ag annherwyn rhag annhirion;
Mae rhwym difriw Mair i'm dwyfronn,
Mwy argelwch Mair y galon.

## XXVIII. Tawddgyrch Cadwynog.

Oanen wyra dann wn Urael
 A'n derchafael yn dra chyfion,



Digitized by Google

**Ar lun Adda wawr lunieiddael**
**I bur wassael Ebrywysion,**
**Mair pan aned**
**Mair fu'n Planed,**
**Mair o'i ganed, meirw gelynion,**
**Mair amcaned,**
**Mair yn maned,**
**Mair ddiddaned myrdd o ddynion.**

XXIX. Gwawdodyn Byrr.

**Arglwydd Iesu Grist, ceidw bob Cristion,**
**A biau f'enaid heb ofynion,**
**Ei bassiwn gwiliwn rhag ein galon Grair,**
**Morwyndod Mair, nawddair ein addon.**
**Morwyn Wyry, &c.**

**GWILYM TEW a'i cant,**

**Yn Eisteddfod Monachlog Penn Rhys Glynn Rhondde, cyn ei dodi i lawr yn yr ail flwyddyn o Goroniad y Brenin Harri y Pummed, am gymmhleidio ag Owain Glynn Dwr; ag ef a'i gwellhaes hi wedi hynny, ag a'i dangoses er dysgu yr Hen Fesurau gorchestolion yn Eisteddfod fawr gyntaf Caerfyrddin yn yr unfed flwyddyn ar hugain o Goroniad Harri Sant o Winsor, [ebe Antoni Powel o Dir Iarll. I. B.]**

---

*Llyma Awdl a gant* LEWYS MORGANWG *i* LEISION *Abad Glynn Nedd a'i dymunes, er dysgu goreuon yr Hen Fesurau Cerdd Dafawd, i'r Prydyddion ieuainc a wahodded i gyfeistedd Beirdd a Phrydyddion a fu yno, yn y bummed flwyddyn o Goroniad y Brenin Harri'r Seithfed, yn nyddiau Gwyl y Sul Gwynn: ag ar yr Awdl honn y mae llawer o'r Hen Fesurau gorchestolion.*

I. Englyn Unodl Union.

**Oes oesoedd Llysoedd Lleision Abad Nedd**
**Ynysedd enwason;**
**Gwisger ag eurer goron**
**Am ei benn wisg un mab NONN.**

II. Proest Cyfnewidiog.

**Abad pob Abad a'u Penn,**
**Afal Duw o'i flodeuyn,**
**O flas Eurant fal Sieron,**
**O felusder fal Awstin.**

III. Proest Cadwynog.

**Eglwyswr teg o Leision,**
**Abostol o fab Iestyn,**
**Ail Daniel o waed Einion,**
**Allwedd dysg a Lleuddad Wynn.**

Digitized by Google

IV. Unodl Crwcca.

Teml Nedd Tai aml newyddion,
Duw mawlheir yn y Deml honn,
Dunawd Tad Abad attebion, Bernet
Barnwr Grefyddolion.

V. Unodl Cyrch.

Bugail ffydd a bagl a ffonn;
Bugailwriaeth bagl Aron;
I Blas Mair fal Balsamwm,
Band aeth Swm Bendith Simon.

VI. Unodl Cyrch etto.

Hyfawl wybr hafal Ebron
Yw 'chlog hi'r Fonachlog honn;
Trwm yw'r plwm sy'n trumio'r Plas,
To dulas tai Duwiolion.

VII. Englyn Milwr.

Erchi'r Wyry arch yr awrhon,
I un Duw fry'n waed o'i fronn,
Eiriol oes hir i Leision.

VIII. Hen fesur Englyn.

Glaslwys glwyslonn,
Glosydd gleision,
Ir yw'r tir, yr ar a'r tonn,
Aml y stor am hoywlys dirion.

Arall yn gymmhar iddo.

Dethol doethion,
Hydr dysgodron,
O grefyddwyr gwar ufuddion,
Noddfa'n hiaith nawdd Dduw fo'n honn.

IX. Cywydd Llosgyrniog.

Pob lliw'n y gwydr, pob llun gwiwdraul,
Peuliw drwy hwnn fal pelydr haul,
Pyrth araul Porthorion.

X. Englyn o'r hen ganiad.

Urddas gobau heirdd Esgobion,
Aras hoyw, aurwyau sywion,
A roe wynnion rianedd,
I'w dai ar Nedd o dir Nonn.

XI. Huppynt Byrr.

Pur imperial,
Pob iaith rial,
Pab Athrawon,



Digitized by Google

Bardd yw i'n mysg,
Bwrwed addysg
I Brydyddion.

### XII. Cywydd Deuair.

Geiriau dethol gwyr doethion,
O grawn hir, a geir yn honn.

### XIII. Cyhydedd Hir.

Ag aur yn gerrygl,
Naf, Burnaf fernygl,
Tyrau a phinygl,
Tair ffynon.

### XIV. Awdl Gywydd.

To cuwch a Sin yn teccau
Y Neuaddau newyddion,
Lliw aur a gwyrdd, llawer gem
O Gaersalem gras haelion.

### XV. Hir a Thoddaid.

Erfai mae ar wydr arfau 'mherodron,
Arfau Nenn olau yn frenhinolion,
Ar fwd sy ogylch arfau Twysogion,
Arfau Nedd gannoes ar fain nadd gwynnion,
Arfau'r gwyr gorau dan goron Harri,
A muriau'r Eglwysi o'r marmor gleision.

### XVI.

Y Nenn fawr uchel yn y Nef wreichion,
Goruwch yng ngolwg Archangylion,
Y llawr i bobloedd holl wyr Bablon,
Obry a weithiwyd a main brithion;
Y Clych a'r Menych a'r mwynion molant
Mynych ogoniant Meneich gwynnion.

### XVII.

Dyma Lys eilmodd i Deml Salmon,
Neu gaerau Rhufain goror afon,
Menychlys a Llys Lleision, sy gyfuwch,
A'i Ffreutyr sy uwch na Phreter Sion.

### XVIII. Mesur o Gysswllt, dull Prohl y Clawdy, ys ef hwnnw, Casnodyn Fardd.

Ni bu adeiliad bywydolion,
Na tho muriau na thai mawrion,
Ni bu ryw seilwydd bu rasolion
Neu dderi o'u hyd ar y ddaear honn;
Ni bu ag ni bydd
Y rhyw waith ar wydd,
Yr hwnn ni dderfydd
Na'r dydd na'r donn.

Digitized by Google

### XIX. Cyhydedd wyth.

Gyrr y Meneich eu gwyr mwynion
A'u gwyrdd arwisg i gerddorion,
Ail i rif gro ael yr afon
Bwydau Llys yr Abad Lleision.

### XX. Cyhydedd naw.

Heddyw anhawdd iawn yw i ddynion
Difanw y dwr a llu deifn y donn;
Un anhawsed, wrth bob hanesion,
Yw enwi o les a wnai Leision.

### XXI.

Erfai yw'r Llys ar for llonn,
Hynn o les a wna Leision;
E geir gwres yn y Gaer gronn;
E geir seigiau gwresogion;
Y Ceirw fry o barcau'r fronn,
A'r Eogiaid o'r eigion;
  Y gwenith a phob gwinoedd,
O'r tiroedd a'r mor tirion.

### XXII. Byrr a Thoddaid.

Unifersi* Nedd, llyna fawr-son Lloegr;
  Llugorn Ffrainc a'r 'Werddon;
  Ysgol hygyrch Ysgolheigion,
  I bob syw fal pe bai Seion
  Ag organau i'r gwyr gwynnion,
  A mawr foliant amrafaelion,
Rhithmetic, Music, Grymusion, safant,
  Rhetric Sufl a Chanon.

---

* Mi a glywais gann y Cymro cywreiriaith a'r Bardd dysgedig hwnnw, y diweddar Morgan Llywelyn o Gastell Nedd, iddo weled Coffadwriaeth mewn hen ysgrif, i'r Brenin Harri'r Seithfed roddi Ysgrifen Fraint i Leision Abad, Glynn Nedd, i ossod Prif-ysgol i fynu yno, yr unrhyw a Rhydychain, er lles i'r Cymry; ag y mae Lewys Morganwg yn lled amlwg yn cyfeirio at rywbeth tebyg i hynny yn y Pennillion 22 a 23 o'r Awdl honn; ond y diwygiad, meddir, a darawodd hynny o arfaeth yn ei benn, yn amser Harri'r Wythfed, a'i gnyw gwancus am olud o ledrad

Clywais gerllaw yr un peth gann y Bardd tra dysgedig y diweddar Dafydd Nicolas o Aberpergwm, eithr mai nid Harri'r Seithfed, ond Siasbar ab Owain Tudur, Arglwydd a Thywysog Morganwg (hynn yw enw Braint y Bendefigaeth), a roddes yr Ysgrifen Fraint, ag mai ei farwolaeth ef cynn llofnodi'r ysgrifen a dadymchweliad y Monachlogydd dan ormes Harri'r Wythfed a'i gydladron a ddihimiaid, a fu'r achos i'r amcan fyned yn ddiffrwyth. Siasbar ab Owain Tudur oedd y diweddaf o Arglwyddi Penn Rhaith Morganwg; ar ei farwolaeth ef aeth Pendefigaeth Morganwg i'r goron, ag yn ebrwydd wedi hynny cyd-gorpholwyd Cymru a Lloegr yn un Deyrnas gyfun gyfunfraint: dywedodd yr un gwr dysgedig wrthyf fod coffadwriaeth mewn hen lyfr ysgrifennedig iddei weled fyth yn Aberpergwm; lle mae hefyd goffadwriaeth am fagad o bethau er lles y Cymry, pa rai yr oedd yr Arglwydd Siasbar yn bwriadu eu gwneuthur, ym mhlith eraill, Ysgrifenfraint gyfosgordd i Dref Llanilltud Fawr, yr honn sydd mewn bod yn awr, medd ef, ond bod honno hefyd heb ei llofnodi; ag nis caid hynn o ddawn gan Harri'r Wythfed Mawr y bu anffod y Cymry na chawsid Prif-ysgol yr amser hynny yng Nghymru, nail ai yng Nglynn Nedd neu yn rhyw le arall IOLO MORGANWG.

XXIII. Hen Fesur Cyrch unodl.

I gael addysg a byw'n y gwleddoedd
O dir a moroedd y daw'r mawrion;
Cawell gweiniaid, cell yw i gannwr;
Caer uwch y dw'r lle ni's cyrch y donn.

XXIV. Tawddgyrch Cadwynog.

Tonnau grawnwin, tân Gwerinoedd,
Trilliw gwinoedd trallaw gweinion,
Tai byrnhawnwin, tŷ Brenhinoedd,
Troe fyddinoedd, torfoedd ddynion;
Teml urddolwaith, Trwy rasolwaith, Twr nefolwaith, } Tai'r Nefolion;
Tŷ rheolwaith, Trwy fanolwaith, Tŷ duwiolwaith } Y Tadolion.

XXV. Cadwyngyrch byrr o'r hen ganiad.

Naf ysgolion nefwisg heiliawdr;
Urdd i Seiliawdr urddasolion;
Oen urddolion yn wrdd Ddeiliawdr,
I Fair Seiliawdr fu rasolion.

XXVI. Hyppynt hir Cyfochrawdl.

Eurwyd Nennau Uwch eu pennau, Teg o lennau, } Tai gleinion,
Offerennau, Ysgrifennau, Ar ddalennau } Urddol union.

XXVII. Cyhydedd wyth etto.

BERNAD Lysoedd Barned LEISION;
Boed le ASSA'R ABAD LEISION;
BEUNO Laswyr o'i Benn LEISION;
Bo'i hoedl oesog ABAD LEISION;

XXVIII. Toddaid y Bardd Glas.

Bywyd yn wynfyd anfon o Nefoedd,
Boed i'w Lysoedd yr Abad Leision;
Boed rhodd wrth ei fodd Caerfaddon Cymru,
Bid o law Iesu, Abad Leision.

Lewis Morganwg a'i cant,

Ger bronn Eisteddfod Gwyr wrth Gerdd Dafod, a wnaethpwyd ym Monachlog Glynn Nedd, gann yr Abad Leision.*

---

* Yr wyf wedi gweled llawer ysgrif o'r awdl honn, ugain o leiaf; a mawr y mae pob un o honynt yn ymrafaelu oddiwrth eraill; cafodd ei derbyn yn Gwlm Oes a

Digitized by Google

Llyma bedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod, modd ag a'u doded ar ddosparth gan *Ddafydd ap Edmwnt* yn yr ail Eisteddfod fawr yng Nghaerfyrddin, oed Crist MCCCCLXI, a honn a elwir *Dosparth Caerfyrddin*, ag a gorffirmiwyd yn Gadair Cerdd Dafod i holl *Wynedd* a *Phowys* yn *Eisteddfod gyntaf Caerwys*, yn *Sir y Fflint*, ag a drefnwyd o gyttundeb *Sir William Gruffydd* a *Sir Robert Salbri* drwy bresennol gyngghor *Gruffydd ap Ieuan ap Llewelyn Fychan*, a *Theodor Aled* Bardd Cadeiriog, a cher bronn *Rhisiart ap Hywel ap Ieuan Fychan*, ysgwier, a llawer o Fonheddigion a Doethion eraill, yr ail ddydd o fis Gorphen haf yn y bymthegfed flwyddyn o Goronedigaeth Harri yr Wythfed, ag oed Crist 1524, er gwneuthur ordr a llywodraeth ar Wyr wrth Gerdd Dafod a Thant, ac ar eu Celfyddyd, nid amgen, i gadarnhau a chonffirmio y Pencerddiaid a'r sawl a gafas radd yn y blaen; i raddio y sawl a'i haeddai; ac i roddi i eraill *Ysbas* i ddysgu ac i fyfyrio yn nessaf ag i galler wrth gydwybod, ac wrth Hen Ystatys *Gruffydd ap Cynan* a *Bleddyn ap Cynfin*, ag a drefnwyd gan y ddau Dywysawg hynn mewn Eisteddfod Reiol a fu ganthynt yng Nghaerwys*, ag i honno y daeth Ieirll Caerlleon Gawr a'r Ammhwythig i gyttuno a hwynt, yn yr hynn a wnaeth-

---

Chadair ym Morganwg hyd amser Llywelyn Sion o Langewydd. Pwy a wyr nad hynn oedd yr achos i Lewys Morganwg ei gwellhau o bryd i bryd? Gellir barnu'r un peth am awdl Gwilym Tew, ag y mae pethau digon tebyg i hynn yn ymddangos ar gwlm Eisteddfod Tudur Aled, yn Eisteddfod gyntaf Caerwys yng Ngwynedd, yn y flwyddyn 1523. Iolo Moranwg.

* Bach a bach dros benn, yw gwirionedd yr hanes honn; bu farw Bleddyn ap Cynfyn yn y flwyddyn 1072, ag ni oresgynnodd Gruffudd ap Cynan ei Dywysogaeth cyn y flwyddyn 1080, wyth mlynedd wedi marw Bleddyn ap Cynfyn; am hynny nis gallasaint fod yng nghyd mewn Eisteddfod nag mewn un Dygynnull gwlad arall, i wneuthur unrhyw Drefn neu Ystatut, ba ryw bynnag; ag nid oes un hanes am ddim o'r fath cyn amser Eisseddfod gyntaf Caerwys yn y flwyddyn 1523, neu fal y mae hanesion eraill yn dywedyd, 1524; nid oes ychwaith y gair lleiaf o son yn Hanes Caradawc Llancarfan, nag mewn un hanes arall am un 'Satut a wnaeth Gruffudd erioed ar wyr wrth Gerdd Dafod, nag ar ddim tebyg i hynny. Y mae hanes bywyd Gruffudd ap Cynan gennym, a lled helaeth yw, ond nid oes un sill ynddi am ddim o'r cyffelyb a wnaeth Gruffudd ap Cynan erioed; ond y mae amryw anwireddau mawrion yn hanes ei fywyd ef, megis dywedyd iddo gynnorthwy Rhys ab Tewdwr i oresgyn ei Dywysogaeth yn Neheubarth; y gwirionedd yw, yr oedd Rhys ap Tewdwr wedi ynnill meddiant ar Dywysogaeth Deheubarth dair neu bedair blynedd cyn i Ruffudd ap Cynan ynnill Gwynedd; a thrwy gynnorthwy Rhys ap Tewdwr y llwyddodd ef yn hynny: gweler hanes Caradawg yn y blynyddau 1077 a 1080. Nid llai distaw yr hanesion awdurdodol am Fleddyn ap Cynfyn mewn perthynas i ddim cyffelyb i'r cyfryw Ystatut. Y gwirionedd yw nid oes un achos gennym i gredu bod yr Ystatut a elwir un Gruffudd ap Cynan a Bleddyn ap Cynfyn mewn bod cyn i Lawdden ei threfnu yn nessaf ag a allwyd yn ol hen Ystatutau Arthur Amherawdr ag eraill yn Eisteddfod gyntaf Caerfyrddin yn y flwyddyn 1451. Odid nad amcan Tudur Aled oedd honni blaenoriaeth yn hynn, fal mewn pethau eraill, i Wynedd er bod wynebau yr holl hen Hanesion yn erbyn hynny.

Iolo Morganwg.

pwyd yno; a goreu Prydyddion *Beirdd Bleddyn ap Cynfyn*, goreu Telynorion gwyr *Gruffudd ap Cynan*, a goreuon ar Grwth gwyr wrth Gerdd Dant Iarll Caer Lleon.

---

Llyma bellach *Pedair Cadair ar hugain* Cerdd Dafod herwydd Dosparth *Caerfyrddin* a phedwar mesur ar hugain a'u gelwir herwydd enwau celfyddyd a ddodoed arnynt gan *Dudur Aled* yn ei Eisteddfod ef yng *Nghaerwys*.

Pedwar Mesur ar hugain y sydd ar Gerdd Dafod yn warantedig o Farn a Chadair Eisteddfod nid amgen,

PEDWAR MESUR CYWYDD;

Y cyntaf, deuair fyrrion o ddeufann pedwar sillafog, fal hynn:

Y mae i mi,
Ion i'w enwi.

Ail, deuair hirion o bedwar silldaf ar ddeg neu ddeufan o saith silldaf bob un, fal hwnn:

Y mae i mi am y myd,
Wyneb un yn ei benyd.

Trydydd, Owdl gywydd o wyth silldaf ar hugain, neu o bedwar bann saith sillafog, fal hwnn:

Un a dal y Nadolig
Obr diddig i Brydyddion;
Ag a bryn ddeg, o bai raid,
Llongaid fal y gollyngon.

Pedwerydd yw Cywydd Llosgyrniog, fal hynn, a rhif ei silldafau ar ol pob bann:

Y mae gorhoff Em a garaf - - - wyth silldaf.
O gof aelaw ag a folaf - - - - - wyth etto.
A choeliaf gael ei chalon. - - saith silldaf.

Neu fal hynn:

Iawnach heddyw yw no'i chuddio - wyth.
Iwch ei chenedl uwch uwch honno - wyth.
Ar ei golwg, ar a'i gwelo - - - - wyth.
Alw honno eiliw hinon. - - saith.

Modd arall fal hynn:

Oll awn i'r Gaer y llenwir gwin - - wyth.
I glos urddol Eglwys Hyrddin - - wyth.
Y Plas y sydd fal Powls a Sin - - wyth.
Pantri Fâl uwch Pentre'r Felin - wyth.
Aur dilyn ym yw'r dolydd. - saith.

Digitized by Google

*Pump Englyn y sydd, nid amgen.*

Y cyntaf, Englyn unodl Union, o ddeg silltaf ar hugain.

**Doluriais curiais yn caru Duwies,**
**Blodeuwedd holl Gymru;**
**Dirwyn ochain drwy nychu;**
**Difrif oedd, Duw ofer fu.**

Ail, Unodl Cyrch, wyth ar hugain o sillafau, fal hynn:

**Diboen ferch Coel Godebog**
**I gred y peraist y grog;**
**Ugain trichant a'i wrantu**
**Oedd oed Iesu Dduw Dwysog.**

Trydydd, Unodl Crwcca, deg silltaf ar hugain, fal hynn:

**I Gangen wann ar Lannerch**
**A roddais i arwydd serch,**
**A chudynau brwyn o cheid annerch hardd**
**I glaerfardd eglurferch.**

*Dauryw Englyn Prost y sydd.*

Pedwerydd, Prost Cyfnewidiog, fal hynn, wyth silltaf ar hugain:

**Ys da wraig ystor yw ym;**
**Ys da le'i mi gystal Mam;**
**Ys da dŷ heb gostiaw dim;**
**Ys da fyd ar ei chost fûm.**

Pummed, Prost Cadwynog, yr un rhif silldafau, fal hynn:

**Mae Rhys heb gael mwy o'r hun,**
**Mae'r genedl a'i mawr gwynan;**
**Mae'r Beirdd, o blegid marw Bun,**
**Mewn llewyg am Wenllian.**

*Pymtheg mesur Awdl y sydd, nid amgen.*

Y cyntaf, Gwawdodyn Byrr, dwy silltaf ar bymtheg ar hugain, fal hynn:

**Lle bu'r Gaer Faen llwybr gwyr a fynnai,**
**Lloegr o dir Ffrangc yn ieuangc a wnai;**
**Llew blin ym myddin maeddai wyr arfog;**
**Llym Farchog enwog a ddigonai.**

Ail, Gwawdodyn Hir, pymtheg silltaf a deugain, fal hynn:

**Rhedaf rhad breisgaf lle rhed brwysgion,**
**Rhandai rhaid ossai i'r Rheidusion;**
**Rheol Rhys deol rhyw westeion;**
**Rheidwest rhod Lluest rhadau Lleon;**
**Rhyddglos rhad agos Rhi digon Rhyddlys,**
**Rhys rhyw fann ysbys Rhufain Osbion.**



Digitized by Google

Trydydd, Cyhydedd Hir, pedwar silltaf ar bymtheg yn sengl, deunaw ar hugain yn ddwbl; fal hynn:

I ba le o'i Blas,
I ddawn o'i ddinas, } Onid iddo,
Awen nid addas

Ei fwyd yma fydd
A'i rad Wirodydd, } Yn ei ado.
A'i dda annedwydd

Pedwerydd, Cyhydedd Ferr, deuddegsill ar hugain o bedwar bann:

Ein Ior ydwyd Sion waredawg;
Ein Cun eurfaleh Sion Cynarfawg;
Wyr Faredydd arf rywaedawg
Aer arfodau Orwyr Fadawg.

Pummed, Cyhydedd nawbann, unsill ar bymtheg ar hugain:

Aruthr yw Llongaid wrth ddryll angor;
A bai yw gweddi heb egwyddor;
O byddai megis budd ymogor,
Y Bobl o Wynedd heb eu blaenor.

Chwechfed, Hir a Thoddaid, trugeinsilltaf, fal hynn:

Ar gan Nef Hyrddin aur i gwnaf hirddydd;
Aed y deunawawr, aed i'w dai newydd;
Y mae y gwared imi o'i gerydd,
A gallt i'w adaw, a gwell diodydd;
Alaeth mab ar faeth a fydd drwy geudod,
O oedi dyfod neu ado Dafydd.

Seithfed, Byrr a Thoddaid, Trugeinsilltaf a phedwar:

Yno ir awn, win llawn Ion Llwynau Hyrddin,
I'w heirddion Neuaddau;
I dai'r dalaith Duw a'r delwau,
Ag yn bedwar gwin a bwydau;
A'i bur llynnoedd o'i berllannau,
Ynn a redant yn wirodau;
Yno gwelir gwir dan gaerau nefawl,
Arglwyddawl rhoi gwleddau.

Wythfed, Toddaid, pedwarsilltaf ar bymtheg, fal hynn:

A fynno yfo a fydd yn ei Fro,
A'r hynn a fynno na bo ni bydd.

Nawfed, Cyrch a Chwtta, unsilltaf ar bymtheg a deugain:

Lloer ddeddfol llariaidd aeddfed,
Llawen oedd ei llunieiddied;
Llawn glud ferw llonn glodfored;
Llym orchest haul llu merched;

Digitized by Google

Llys dirion drem llesteiried,
Lludd fi farw, lleddfyfyried;
  Llyna son mewn llwyn o'i serch
Llais f'annerch lles a fynned.

Degfed, Clogyrnach, deuddegsilltaf ar hugain:

Da llawenddoeth heb dwyll ynddo,
Da lawenydd a'i dilyno,
    Dewrwalch dioriog
    Dianair doniog,
        Dinerthog dyn wrtho.

Unfed ar ddeg, Cadwyn Fyrr, deuddegsilltaf ar hugain:

Gwaenfyn gwynfawr geinfun gynfyl,
Gariad gweryl giried gorau;
Gwirfydd gyrfau gorfydd gweurfyl,
Gorug eryl gwiw ragorau.

Deuddegfed, Huppynt Byrr, pedwar silltaf ar hugain:

| | |
|---|---|
| Mi a baraf<br>I'm Gwenn araf,<br>Gan a garaf, | Gain o gerydd, |
| Am lyfasu,<br>Fy niflasu,<br>A'm lliasu, | Em lliosydd. |

Pedwar ar ddegfed, Gorchest y Beirdd, degsilltaf ar hugain:

| | |
|---|---|
| I rwydd air hir,<br>I'w chwydd och wir,<br>I'w swydd y sir | Y sydd saeth; |
| I glai y glŷn,<br>Y rhai o'r hyn,<br>I ddai y ddyn | I Dduw dd'aeth. |

Pumthegfed, Tawddgyrch Cadwynog.

Atgas dodiant oed cystuddiau
  Am son lluddiau ynfsynn lladdiad;
Y mae coddiant heb ddim cuddiau
  Ar y gruddiau o'r gorweddiad;
Y mae'r gïau yn welïau,
  Oer yw 'nghrïau ar 'y nghread,
A'm elïau wyd yn ddïau,
  Os dyn bïau ysdynn bywiad.

Explicit.

Diwedd hynn o Rol y mesurau, nid amgen na phedwar mesur ar hugain yn gynnifer Cadair Cerdd Dafod, herwydd Dosparth a wnaethpwyd ar Fesurau cyfiawn Cerdd Dafod yn ail Eisteddfod fawr Caerfyrddin gann Ddafydd ap Edmwnt, a gwedi hynny a gonffirmiwyd herwydd y dangos arni gann



Digitized by Google

Theodor Aled Bencerdd yn Eisteddfod gyntaf *Caerwys*; a barnu yn ofer fesurau pob mesur arall, ag ni weddai i Brydydd o Bencerdd eu canu a'u dangos ger bronn Eisteddfod. Sef y canwyd i'r Ddosparth honn yr Englynion hynn:

Gwilier gan fynny gweled yr heol
I'r Awen ei cherdded;
Rhol gynniwair Crair Beirdd Cred,
Rheolau Tudur Aled.

Ieuan Tew a'i cant.

Mil pumpcant rhifant y rhed a rhagor
Pum ar hugain, rhodded
Yn ddeddf bwys Beirdd Gaerwys ged,
Rheolau Tudur Aled.

Gruffudd Hiraethog a'i cant *

---

## CYNNWYSDREM AR Y CYNGHANEDDION.

*Cynghanedd Groes.—Derchafedigion.*

A gair Duw'n agored aeth.
Mae nef ar ael Menai fry.
A bod ar ffordd Bedr a Phawl.
A phrudd a hir yw'r ffordd honn.
Mae'n was gwael am einioes gwr.
Pirs air nudd parhaus wr nod.
Adwy ni wnn, dyna wir.
Ond hwn a'i blant Duw'n y blaen.
Ys da yw'r pwyll ystryw penn.
Nos da i ti nis dywed honn.
Y mae cur fal y mag hwnn.
Ar gain gyrch Morganwg wenn.

---

* Miss Elizabeth Price, cyfnither Robert Vaughan o Hengwrt, a ddywed mai Dafydd Llwyd a Gydewain a gant yr Englyn hwnn.

Nid ydyw Cwlm Cadair Tudur Aled yn rhydd oddiwrth feiau: a rhyfedd yr anghyttundeb y sydd oblegid y flwyddyn y bu Eisteddfod gyntaf Caerwys; nid yn unig rhwng Ysgrifenwyr amrafaelion, ond hefyd rhwng yr un Ysgrifenydd a'i hunan. Y mae'r Ysgrifennwr o ba un y tynnais i'r Ddosparth honn, yn rhoi 1523, 1524, ag 1525, am oed Crist pann gynhaliwyd yr Eisteddfod honno; nis gellir f'allai gwell amcan am yr achos na hynn; sef bod y Brenin neu ei Raglaw (Chamberlain) yr hwnn oedd Syr William Gruffudd o'r Penryn, wedi amseru'r Llythyr Cynnwys (fal a'i gelwir yn Gymraeg,) neu'r Commissiwn, yn y flwyddyn 1523; yr oedd cyfraith yr oes honno yn gofyn rhoi'r cyfryw bethau dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn; yn hynny llyncwyd y flwyddyn 1524, a bu'r Eisteddfod yn 1525. A phwy a wyr nad am yr unrhyw achosion y mae rhai ysgrifenadau yn dywedyd mai yn 1565, eraill 1566, a rhai eraill etto yn enwi 1567, eraill ym mhellach yn rhoi 1568, y cynnaliwyd ail Eisteddfod Caerwys: rhyfedd o'r annhrefn, a'r cymmysg, a'r ansiccrwydd am y pethau hynn y sydd yn holl ysgrifeniadau Gwynedd, ag odid na welais i fwy o henynt nag a welodd un dyn y sydd yn awr yn fyw nag a fu yn fyw wedi marw y Parchedig Evan Evans o'r Ganhawdref yn Sir Aberteifi; ag odid na sylwais i'n fanolach ar y maint a welais nag un dyn arall a fu erioed o'mlaen.

Iolo Morganwg.

Digitized by Google

Rhoddiadau Cerdd deg hy aeth.
Wrth ddau beth yr aeth y byd.
Preseb Sais heb Rys ap Sion.
Pwy ydyw'r nerth? Pedr i ni.

*N coll y cyntaf.—Derchafedigion.*

Ni roi dolc er ei wawd ynn.
Yn yr haf aed ar ei hynt.
Ni chaf ei ail, Och o'i fedd.

*Disgynnedigion.*

Ni bu adeiliad bywydolion.
Ni bu'n frith binn o'i frethyn.
Yn y ty rhag y tywydd.
Yn rhannu rhof a'i rinwedd.
Ni bu achos rhybychu.

*Disgynnedigion.*

Gwëais Gywydd gwaisg Awen.
Teg edrych tuag adref.
A'i bryder o Baradwys.
Ymlynais ym Maelienydd.
Cefl o anras cyflawnrwydd.
Llandeilaw llawen dylwyth.
Gwin oleuddydd gain loywddoeth.
Gwrdd geudawd y Gerdd Gadair.
Am Gaerau y Magwyrydd.
Troes Duw adwyth trist ydyw.
Ag i Ddeau gwiw ddiwyg.

*Croes Afrywiogion.—Disgynnedig.*

Llai naws cur lle nis carwn.
Gyda'r Mur gwawdair Morach.
Pob Llenn gel, pob llwyn golas.
Dwyn un Deau'n awenydd.
Llithro Tad llwythryw Tudur.
Dan fur Dewin a fwriwyd.
Elais Deifr o lais Dafydd.
Ni cheir medd yn ochr Mowddwy.
Ni bu Rodn Nai Beredur, }
Negydd o'i win nag o'i ddur. }
E gur Lloegr y gwr lliwgoch.
Ag os dig a'i gostegodd.
P'le try heddyw plaid rhoddion.
A'i law tynn y wlad dano.
A saith hiroes i'th ddeurudd.
A thal iaith i'th ddwy leithig.

*Cynghanedd Draws, un clo cynghan, sef y sill gyntaf a'r ddiweddaf.*

Gwell yw, er drycced na gwaeth.
Duw sydd drugarog a doeth.

Digitized by Google

Gwr mor ddiymgais ag yw, }
Ys tlawd a distadl ydyw. }
Llwyr y gwnai alar a llid.
Drud yr adwaenwn dy dro, }
Gwen cenhinen cyn heno. }
Dos, a boed hylwydd dy daith }
Yn ol i'th drigfann eilwaith. }

*A dau glo cynghan, sef y ddwy sill gyntaf a'r ddwy ddiweddaf.*

Mynych yw cas am anair.
Mynnwn, fal mae'n nymuniad.
Naf a gyrch ei gynnefin.
Y bum er yn herlod bach.
A phrin y gwelir ei ffriw.

*Tri chlo cynghan, ag eraill dau wrth dri, neu dri wrth ddau.*

I'r un gwr mae aur yn garn.
Cledren grin i'r clai draw'n groes.
Llun gwaelgist uwch llanw gweilgi.
Ag yd mwy na Hu Gadarn.
Bugail yw heb gael ei well.
A iau ar eidion ieuanc.
Dy far sy'n ein difuriaw.
Un Duw i bob enaid wyd.
Bid rhwydd gan y neb a'u troes.
A rhad Duw yr hëwyd hwnn.
Tri drws ol traed yr Iesu.
Perigl pid yw heb hiraeth.
Purboeth wyd y mab byrbwyll.
Ym mhob penn y mae piniwn.

*Llusg (neu sain fal y mae yn y* DDEUDNEUDEG.*)*

Tant coed ar nant cadarn oedd.
Bun arllwydd hun eirllwydd hud,
Bun laes wanllun lwys wynlliw.
Cnap gwnn anhap gwenwynig.
Af a gwelaf y gwaelod.
Taf yn yr haf honn a red.
O'th ol hawg grasol cai rann.
Trabludd a wlych deurudd dyn.
Canwyll dispwyll a dosparth.
Coffhau dyddiau da oeddynt.
Ceisiaid sydd heb raid i'n bro.
Deall saith arall wyrion.
Llaesglun wael adlun ledlom.
Adref y daw ef a deufin.
Ni ad Abad arnad ing.
Byw a iach nid gwychach gwalch.
Philip goeth dewrddoeth dorddu.
Teg Elfydd ei gwydd a'i gwellt.
Ag annerch Rhydderch rhoddiad.
A'i ddoniog oludog wlad.
Llugyrn heirdd lle caiff Beirdd bwyth.

Digitized by Google

Llawen fydd beunydd lle bôn.
Y gleisiad difrad yw ef.
Rhoist inni'r goleuni glwys.
Priellyn melyn y maes.
Bum ar ei lled mawrged mau.
Am yr afal dial dwys.
Mab Ifan Llwyd anwyd arth.
Pand Cadwaladr harddgadr hy.
Dan bwys dryccin ym min môr.

*Llusg Gadwynog.*

Haeddasam roi arnam rus.
Y dydd dros y mynydd draw.
Lliugno briw fal morlo bwysg.
Dylid grair a'th rydid grym.
Dafydd lledwag Brydydd Llwyd.
Pwmel cleddyf rhyfel clau.

*Unodl, neu Sain, heb un clo cynghan o gydsain.*

Car yn cyhuddo arall.
Tan i'r nenn yn trywanu.
Bran yn rhyfygu canu.
Mellt yn goddeithio gelltydd.
Deall saith ugain allor.
A hagr yn ei llinagrwydd.
Gwyll fladr a gan i'r lladron.
Yn hoyw dan arfau gloywon.
Fy ngobrwy lle bo mwyaf.
Mynnu lle ar hyd heol.
Paradwys yr Eglwysi.
Y mae cas anurddasawl.
Y mann lle mae dann gaead.
Nid a'n anghof y gofal.
A glas y brwyn a'r twyni.
Gostwng yn war ag arab.
Balant y pasg ar lasgoed.
Ar delyn ledr y medraf.
Mawr yw dy ddadl anfadlais.
Ymbwyll goleddf yn reddfol.
Clyw araith egr y gwegrydd.
Ni char y doeth grasgoethi.
Gweled penn Pedr a fedrwn.
Os ei drwyn Bod a godai.
Doe lle bum i weddiwr.
Gyrr di gennad goeladwy.
Dyfod yn wir heb hiraeth.
Ymgais a synwyr llwyrach.
Amcanaf y Gerdd erddi.
Y mae yng Nghapel Elen.
Gwr difalch yw ef hefyd.
Lle digwydd i Fran ganu.

Digitized by Google

## CYNNWYSDREM AR GYNGHANEDDAU EWINOG;

**Sef a'u gelwir felly am fod llythyren wann yn ymewino neu yn ymafaelu â'r lythyren gyfaddas, iddei nerthu yn erbyn un gadarn, mal y gallo atteb iddi lle bo gofyn.**

Llythyrenau Meddfon y gelwir y cydseiniaid gweinion, sef y rhai'n; B. D. F. G. a Llythyrenau Creision y gelwir y rhai hyn; P. T. Ff. C.

Dau o'r Meddfon ynghyd, sef un o honynt ar ddiwedd gair, a'r llall yn dechreu'r gair nesaf, a safant yn gydrym ag un o'r Creision, sef yn y rhai hynn, BB yn gydrym â P.

**Poeni y mae pawb beunydd.—**
**gg.—C.—Cerais fab serchog geirwir.—**
**Dd.—T.—Briw tost a'm rhoddes Brad dyn.—**

H. yn dilyn B. a fydd gydrym â P. fal hynn:

**Hŵy y peri pob hiraeth.—**
**H. yn dilyn G.—Oer yw cŵyn y wraig honno.—**
**H. ar ol D.—Nid herwydd pwyll naturiol.—**

Llyngcedigion y gelwir y llythyrenau hynn, B. F. D. G. Dd. ag L. achos pann y canlynont yn nesaf at y rhai hynn, P. Ff. T. C. D. ag Ll. fe a'i llyngcir ganthynt, fal nis clywer eu sain yn y gynghanedd, ag am hynny ni wnant dwyll ynddi; ag ni waeth pa un ai o flaen neu ar ol y llythyren, a'i llyngco y bydd yr un a lyngcir.

**P. yn llyngcu B.—Atteb pwyll, aed at y pwngc.—**
**Ff. yn llyngcu F.—Hoff fyddai lle ffo iddynt.—**
**T. yn llyngcu D.—Nid tirion itti aros.—**
**C. yn llyngcu G.—Nid teg a wneit ei agor.—**
**Arall.—Annog Cythraul i'n cathrain.—**
**Arall.—Er maint dig, eir mewn tegwch.—**
**Th yn llyngcu Dd.—A'th ddawn yn ffrwd o'th enau.—**
**Ll yn llyngcu L.—Caul Llo yng nghymmysg a llaeth.—**

**R ag S hefyd a roddant rym i'r meddfon i atteb y creision, blaen neu ol, ni waeth p'un; fal yn a ganlynant:**

**R yn cryfhau D i atteb T.—P'le try heddyw plaid rhoddion? } —**
**R yn cryfhau P.—Preseb Sais heb Rhys ap Sion. }**
**S yn cryfhau B.—Os brawd o ddyn ysprydol.—**
**S yn cryfhau G.—Ys caf heb achos gofal.—**

---

## TRAETHER BELLACH AM FEIAU AG ANAFAU CERDD DAFOD,

**A ddylai Prydydd willed rhagddynt a'u gochelyd ar ei Gerdd.**

Pymtheg bai y sydd ar Fydrau ag Odlau a Chynghaneddau Cerdd Dafod herwydd Celfyddyd a Dosparthau Cerdd, a'i

Digitized by Google

Mydrau a'u Hodlau, a'i Chynghaneddion, herwydd Barn Cadair Beirdd *Morganwg*, a *Gwent* ag *Euas* ag *Ergin* ag *Ystrad Yw*, fal a'u gweler yma yn ddangosedig. Cyntaf yw,

1. Twyll yn y Mydr neu'r mesur herwydd ei brif ansoddau o angen a braint, ag er gochel hwnn nid oes ond dysgu a deall a chofio'r ddosparth arno; a'i gadw rhag llithraw o'i ansawdd arbennig i ansawdd arall, neu i ansawdd anghyfiawn.

2. Trwm ag ysgawn ynghyd a fydd pann rhodder gair neu sill a fo trwm, i gyfodli ag un a fo'n ysgawn; fal rhoi Cann, Rhann, Mann, a'r cyfryw, i gyfodli a Cân, Tân, Mân, a'r cyffelyb; fal Gwenn, Llenn, Penn, yn cyfodli a Hên, Gwên, a Llên; a Byrr, Tyrr, ag eraill trymion, i gyfodli a Gwŷr, Sŷr, Mŷr, a'r cyfryw ysgawnion; Barr, Carr, Gwarr, ag eraill, yn atteb i Câr, Bâr, Gwâr; Hynn, Tynn, Gwynn, i gyfatteb i Dŷn, Clŷn, Gwŷn; Torr, Corr, i gyfodli a Môr, Côr, Pôr, ag eraill: ag wrth hynn dealler am drymmion ag ysgawnion, a'r sillau eraill: Celfydd a'phwyllgar a wel cybelled ag bo achos.

3. Lleddf a Thalgrwn a fydd o roi sill ar oslef gymhlyg yn atteb i sill ar oslef odidog; y llafar a geir o ddodi dwy neu dair oslef neu fogal odidog mewn un sill; fal y mae Maen, Draen, Chwaen; Main, Cain, Sain; Oen, Croen, Poen; Crair, Gwair, Pair, Mair; Cwyr, Llwyr, Hwyr; Cwyn, Llwyn, Mwyn; Oer, Poer, Lloer; ag wrth hynn dealler am y lleddfon eraill; nid amgen nag y tyfant o gymhlyg un oslef odidog ag un arall a fo yn odidog ar lafar amgen. Talgrynnion y gelwir y sillau godidogion, ys ef lle na bo amgen nag un oslef yn y gair, fal y mae Tân, Glân; Gwên, Llên; Dŷn, Prŷn; Tôn, Sôn; Iôr, Môr; Câr, Gwâr, ag eraill a wnant sillau hirion ar y Corfannau.

Cofier hynn, mai nid cymhlygiaid neu lleddfon yw Gwŷr, Gwŷd, Gwŷch, Gwŷn, Gwŷdd, a'r cyfryw; a'r un peth am Gwynn Gwyllt, Gwynt, am nad oes gymhlyg ar oslefiaid ynddynt, ag nid oes ond un llafar goslef ym mhob un o'r geiriau hynn, gann fod W ymhob un o henynt yn cymmeryd erni nerth ag ansawdd cydsain ag yn cadw ei meddiant ar hynny drwy holl dreigladau'r cyfryw eiriau; am hynny talgrynnion yr holl eiriau hynny, ag nid lleddfon.

4. Carnymorddiwes a fydd lle diweddo dau air prifodl yn yr un accen lle nas dylaint fod felly; megis mewn cwpl o Gywydd a'r ddwy awdl arno y naill ai'n dderchafedig neu ynteu yn ddisgynnedig; y peth ni ddylai fod herwydd dosparth ansawdd y mesur; a'r un peth a fydd yn fai ar ddeufann seithsill yr Englynion Toddaid a elwir Unodl Union; ag a elwir Carnymorddiwes am fod megis carnau yr olaf yn gorddiwes rhai'r blaenaf,



Digitized by Google

garn ynghamı; neu garnau'r olaf yn olion carnau'r blaenaf; ag er gwybod hynn o fai, dysger a chofier dosparth ag ansawdd y mesur.

5. Gormodd odlau a fydd pann fo geiriau yng nghorph y Bann, ni waeth pa le ynddo, yn unodl a phrifodl y mesur, hawdd deall hynn heb ddangos ym mhellach.

6, Amsathr odlau a fydd lle bo rhy debig llafar y brifor-phwysfa, a llafar y Brifodl, mal pei Gwarr a fyddai gair yr orphwysfa, a Gwann y gair yn y Brifodl; ag ar yr un fraich, Caer a Cawr.

7. Proestio yn y bann a fydd pann fo sill y briforphwysfa yn gyfryw ag a wnai un a gyfattebai i sill y Brifawdl pei mesur proest y byddai'r pennill, a bai anferth yw.* Amsathr Proest a fydd lle na bo cyflawn y proestodlau, sef sillau a wnant y Proestodlau, megis pei cymmysgid Lleddf a Thalgrwn, neu drwm ag ysgawn, ynghyd ernynt.

8. Twyllodl a fydd amlaf yng ngherddi Beirdd Deheubarth, lle rhoddant *Oer*, *Lloer*, a lleddfon eraill o'r cyfryw, i gyfatteb yn unodl a *Mor*, *Por*, ag eraill,† a hynn a wna fai arall sef lleddf a thalgrwn yng nghyd, ynghyd a thwyllodl: eraill yng Ngwynedd gystal ag yn Neheubarth, a ddodant *U*'n gyfatteb ag *Y*: yng Ngwynedd hefyd dodant, wrth achos, *edd* yn lle *aidd* er cyfodli a geiriau a ddiweddant yn rywiog yn *edd* megis peredd i gyfodli a mawredd a'r cyfryw; *eth* hefyd yn lle *aeth*, megis rhagorieth i gyfodli a difeth, wrth hynn dealler am eraill.

9. Twyllgynghanedd, a fydd o fodd amrafael iawn, fal y rhain. Twyll mewn Croesgynghanedd pann fo cydsain yn un gangen, ni waeth pa un ai cyntaf ai'r diweddaf y bo, heb y cyfryw gydsain yn y gangen arall, fal hynn,

Mab Gwilym yN bygylu,

lle nid oes N, yn y gangen gyntaf rhwng M a G i gyfatteb a'r un y sydd yn yr ail gangen rhwng yr M a'r G.

---

* Cynnrych hynod o'r bai hwnn yw'r englyn a ganlyn; gwaith Goronwy Owain:

Hoff ar Hen yw Gwên a Gwawd,
Bid llango ddilladl, drwyadl droed,
Os Hen annïen a naid,
Hen yw ei benn lledpen llwyd,
A synwyr Iau sy'n yr Iad.

Lleddf a Gwrthleddf, Lleddf a Thalgrwn, gymmysg drachymmysg.

† Gweler llawn ddigon o'r cyfryw yn saernïaeth seiri hymnau Deheubarth, seiri clawddgaib bob un o honynt; ag yn wir nid pethau gwell (boed y clod a fo teilwng i bob hurthgendod) a wellir yng Ngwynedd, o dann balfau trymion tomenwyr hymnau a charolau'r wlad honno; yn wir y mae Gwynedd a Deheubarth wedi tombennu pob llygredd y gallai ddyn feddwl am dano ar benn ein hen Iaith anffodus yn ddiweddar, aberthu ffieidd-dra ar allorau'r Goruchaf. Arswydus! arswydus! nid "canu a'r yspryd ag a'r deall hefyd" yw hynn. Iorwerth Morganwg.

ADDAS i fod y SYDD fyth.

Bedo Hafesp a'i cant.

Buasai ASADD i fod y sydd fyth,
Neu Addas i fod y DDYS fyth,

yn cynghaneddu'n gyfiawn, ag yr un modd y twyll mewn cynghanedd draws; ond sain heb synwyr a fyddai'r cyfryw wellhad ar y gynghanedd yma.

Arall, P gwreiddgoll.

Pa fodd ond i'w ryfeddu.

Gwreiddgoll y gelwir y bai hwnn, a bai yw lle bo unrhyw gydsain oddieithr N, yn wreiddgoll; gweler mwy am hynn yng Nghynnwysdrem y Cynghaneddau, ag yn eu Dosparth hefyd.

Ag ar gynghanedd lusc fal hynn;

Angau'n hy a dry drwyDDynt;

lle mae'r DD yn bengoll ar y bann.

Mewn cynghanedd lusc, neu gymmysg, fal hynn:

Trwy'r Gogledd berEDD y bu,——EDD yn lle AIDD.

Ag ar gynghanedd sain neu unodl fal hynn:

Blin yw mhenn am ddyn wendeg.

Ag wrth y rhain dealler am eraill.

10. Rhy debyg a fydd pann fyddo gair y brif orphwysfa yn gyfunsain a'r brifawdl ym mhob llythyren, oddieithr yr un ddiwedd ym mhob gair, fal hynn:

Ar edyn yr ehedydd.—
Ewybr fal rhediad Ewig.—
Awel o Dduw yw Awen.—

Ag felly ym mhob cynghanedd arall.

11. Awdl foethus a fydd yn y geiriau a gydodlanty pob un o'r sillau, neu'r geiriau, a'r un llythyrennau yn gwbl yn y naill ag a fo yn y llall, fal hynn:

YmadrODDGAR RHODDGAR hael.
Giried GORAU——gwiw raGORAU.
GWELIAU——ELIAU.
Penn GLANN wrth deg LANN Ty glwys.

Ag AWDL FOETHUS a'i gelwir am fod gormodd cyfunsain ynddi achos gormodd llythyrennau cyfunrhyw.

12. Crych a llyfn a fydd lle bo gwrthosodiad cydseiniaid yn y sillau arbennigion a wnant y gynghanedd, neu'r awdl, fal hynn ar awdl:

Ennynnant olau'n entyrch y nefoedd
Lle nofiant mewn llewyrch;



Digitized by Google

Uwch benn byd rhyfedd gennych;
Eu gwedd yn euraidd a gwych.

Ni waeth pwy a'i cant i'r oer.

## Arall.

Tywynder haul uwch tondyrch }
Am warr craig, ewyn mor crych. }

Rhai a gyfrifant y bai hwun yn unrhyw a phengoll ar gynghanedd; ond nid cyfiawn hynny; gellit ei gyfrif yn un a *thwyll* gynghanedd, pei ar gynghanedd yn unig a'i gwelit; eithr ar awdl a'i gwelir hefyd; ag nid coll cydsain yw, eithr camossodiad y gytsain, mewn un o ddwy ganghen y gynghanedd, ag ni waeth ar ba un y bo, ai'r gytsain o flaen yr oslef, yn un o'r canghenau, ag yn y ganghen arall ar ei hol. Gweler y rhai hynn:

Un ar fays yn honni'r farn.—
A brathu yr aberthwr.—
Bu grachaidd ym mhob gorchwyl.—
Afradus ar ei fyrdydd.—
Ni fu raid i'r hen fwrdais.—
Draw dewr a'u cyrch drwy dir cred.—
Y diweddgrefft ar Dawddgyrch.—

Bwmbwr cloch maendwr calchaid, }
A phwys ei galar ni phaid. } —

Ag ar gynghanedd lusc, fal hynn:

Mae'r Byd a'i fryd ar fawrdwyll.—

Y gwir yn sywir yw'r son }
A glywch drwy'r wlad o gylchon. } —

Wrth y rhain gweler mai camosodiad cydsain a goslef, yw'r bai ar anaf yn a ddangoswyd; eithr aml y gwelir camosodiadau eraill; megis ar Wann a Rhagwann; ag ar bethau eraill; ag er eu gochel, dysger Gramadeg ag Ystrawen a gorddyfnawd y Gymraeg; a chyda hynny Dosparth y Mydrau a'r Cynghaneddion.

Ys ef yw Twyllodl, diffyg llythyren neu ddwy, neu ragor, ar un neu arall o ddwy ganghen y gynghanedd, ag nid diffyg, ond camosodiad llythyren yw Crych a Llyfn.

13. Dybryd Sain ddiffyg goslefiaid, a gormoddion cydseiniaid fal yn yr odlau, a mannau eraill ar y pennill proest a ganlyn:

Rhi danallu rhoed eirwllathr; }
Rhoed oerllam a'i rhyw dirllethr; }
Rhew diarlloes rhwyd oerllithr; }
Rhodri Iarll, Rhaiadr eurllythr. }

Gadawer y synwyr allan o'r sylw, os synwyr a geir ynddo.

Digitized by Google

Gorchest ardderchog ym mam y Deudneudfardd a'i cant oedd rhoi ar odlau pennill, geiriau cadarnleddfon, rhai tawddleddfon, gwibleddfon, byddarleddfon, ag eraill sy'n dwyn enw a wedd yn gyfiawn i'r cyfryw Brydyddion *Pengamleddfon*; a a llawer o'r cyfryw orchestion a geir yn llyfrau Beirdd Gwynedd, lle nid oes na rhaid nag achos iddynt, a lle bo achos; hawdd iawn y geill Prydydd awenbwyll ddwyn gair o'r cyfryw i mewn mewn modd gwell o lawer nag yn yr awdl, neu lëoedd yn y gynghanedd a'i gwnelo'n erwin a throsgl ei llafar, ys ef ar rannau arbennigion y cynghaneddau ag ar yr odlau y dylit ymorchestu er eu bod yn brif-felusderau'r ganiadaeth parth llafar a swn iaith a chydrediad ymadrodd: chwilier Dosparth y Corfannau am addysg i ochel yr anaf hwnn ar Fydryddiaeth.*

Cynnrychau eraill gerwindeb ar Fydr.

Gwydriad embrodriad brwydrwaith.—
Twyllodrddoeth wyt y lleidrddyn.—

Dealler wrth hynn ansawdd y bai a waherddir, ys ef, diffyg goslefiaid, a gormodd cydseiniaid yn peri gerwindeb Clogyrngadrdrwm, ar fann ag awdl a chynghanedd.

14. Dybryd sain, gann ddiffyg cyfnewid ar y goslefiaid, ys ef, yr un oslef yn dilyn olynol yn ry aml a mynych, a hynny yn peri sain rhy debyg i'r sillau ar fraich o bennill, a newid bogalaid neu oslefiaid yw un o'r melusderau pennaf ar Gerdd Dafod, a dybrydwch mawr y gwrthwyneb.

Sant Sant a garant ganiad.——Gwilym Ganoldrof.
Oedd o hen Adda a'i had.——Bedo Hafesp.
Awel o Dduw yw Awen.——Hwmphre Dafydd ap Ieuan.
Gal, ag anhap, a galar.——Huw Cornwy.
Mab Gwilym yn bygylu.——Pwy a'i cant?
A a a'r bardd i hir barch.——Lewys ab Edward Bencerdd.
Ag anhap cadarn arnaf.——Dafydd Eppynt.

Na chaf, na chall na char chwaith. }
A ymdawr syrth ei ymdaith. }

Harri Hir o Buas, ym Marwnad Cybydd ar ei ymdaith i'r Pwll diwaelod.

---

* Gocheler hefyd dull ffiaidd Mr Owen Pughe o ysgrifennu anmraint, yn mron, nghyd, yn nghred, annghrist, anmhrydferth, Cynmry, a channoedd heblaw y ...n o eiriau, yn lle'r hen ffordd lithrig a sefydlwyd er ys mwy na phedair mil o ...ddau yn ol, ag a ddylynwyd yn ddiwrthddadl hyd ein hoes fendigedig ni, sef o ...ifennu a llefaru ammraint, ym mronn, ynghyd neu yng nghyd, yng nghred, ...hrist, ammhrydferth, Cymry neu Cymmry, fal y dylai fod, yn ddiwrthddadl, du... i bob dadl ag amheuaeth. Iolo Morganwg.

Digitized by Google

Cyffes eres ei clriau.*

15. Dehead; ys ef yw hynny, y cyfryw oslefiaid yn dilyn, un ar ol y llall, ag a fyddent yn drymion ag anhawdd eu llafaru, ag yn ddiflas eu clywed, gan ddarllenydd a gwrandewydd: a gwelir y bai hwnn yn fynych lle bo gormodd goslefiaid yn enwedig o'r un rhyw, ag o hynny dau fai, un yn gyfun a'r llall: Gefeilliod yr unawr geni y gellir yn gyflawn eu galw.

Y Wraig a Aeth i roi gwin.—
Y genfigen gwaeth fagiad, }
Oedd o hen adda a'i had. }
Prydu i afon Buellt.—
Och fi a oedden iach fyw?—
Cwpla yw Capel Ieuan.—
A fu i emrys a'i femrwn.—
Hai hai hi a'r lu yw hono?—(Dafydd ap Edmwnt.)
Hi A Aeth yn bai weithion.—(Yr un a'i cant.)
Hu hw hu hurt ddylluan, } (Lewis Menai a'i cant.)
Annedwydd Gywydd a gan. }
Canu a fydd annedwydd nad, } (Yr un a'i cant.
Hw ddy hw hoyw ddyhead. }
A El mewn llaw O Olud.—
A n Af A Aeth i nef yw.

[Nid rhaid i glust awenbwyll amgen na hynn yn addysg.]

Ag felly y terfyn Dosparth a Chynnwysdrem ar Feiau ag Annafau Cerdd Dafawd.—A therfyn ar Ddosparth Cerdd Dafod Cadair Morganwg.

---

## *O Lyfr Antoni Powel o Dir Iarll. J. B.*

Yn amser y Brenin Harri y bedwerydd: y bu Rhyfel Bargodiaint Owain Glyndyfrdwy, ag y bu Cenedl y Cymry yn dra hylwydd dan Flaenorgyrch Owain; a byssaint y Cymry yn ynnill eu Braint a'u Coron yr amser hynny, oni fyssai brad rhai o Bendefigion Cymry yn dynoethi amcanion, ag yn gwrthfynnu cynnarbodau Owain a'i gyflewyddion; a

---

* Y mae awdur Cyre Mr ton, tebygid, yn ymhoff'n fawr (neu yn ffraidd, fal y dywedant ym Meirion, yn rwan yng gair Morganwg), yn y Dehead, ag hefyd mewn gormodd goslefiaid —llwysaf iawn yn—canawon a fawl, a miloedd o'r cyfryw yn ei lyfr

Gormodedd goslefiaid, diffyg cydseiniaid, a chyda hynn beiau amgen, mwy na rhif y llythyrenau a geir yn y bann Mawr! mawr! a mawr ar bob mawr! ur o Eanion Idrison yw'r gwatwar Cywydd lle gwelir y fraich honn. Cywydd! a Cywydd a ddywedais? Wele! rhodder yr enw a fynner arno, y mae cyflawnder twyll-gynghaneddau a weir ynddo yn prof tu hwnt i bob amheuaeth, na wyddai un a'i cant fwy oddiwrth fesur a chynghanedd cywydd, nag a wyr mochyn newydd ei eni o ba ddefnyddion y gwneir llawd newydd pan fo'r un hen wedi llwyr dreulio ddim. Cywydd i'r Glew, medd Idrison, yw'r un lle cawn y fraich ragorgamp dan syl

A o le i le a'i lu!!!

Pan gyfarfuddodd y llinell honn a'm llygaid, meddyliais am rhyw wraig a phlentyn ar ei bronnau a'i gwnaeth, i'ddarwain cwsg ar ei baban, yn lle'r hen gân mammaeth mor hen ag amser Dafydd ap Gwilym o leiaf, ym Morganwg:

Huw, huw, huw, huw,
Lwli, lwli, lwli, lwli, luw,
Huw, huw.

Ynawr am Idrison:

Lwli, lwli, lwli, lu,
A o le i le a'i lu,
Lwli lu.

Da iawn yn wir Idrison; gwell o lawer na
Bloedd Glew cadr yn rhaiadru
Yngo'l dwrdd, Gawr angau du.

Iolo Morganwg.

gwedi hynny aeth Gwaith ar goll; a'r Beirdd yn gwybod amcan am dano, a'r Brenin yn deall hynny, efe a'u gwaharddodd dan boen Ffin a Charchar, i gynnal Eisteddfodau a Chadeiriau wrth gerdd Dafod, lle nas caid hynny dan nawdd a braint Llythyr Cynnwys y Brenin. Achos hynny nis caid na Beirdd Cadeiriog, na Beirdd Teulu, drwy wybod i'r Brenin a'i gymmhlaid, i gynnal a dodi addysg ar ddarllaith ag ysgrifennu'r Gymraeg; sef hyd yn hynny o amser y Beirdd a'r Prydyddion yn unig a ddysgaint wybodau llythyr ag awgrym rhif i'r Cymry; ag ni ddysgid namyn Lladin a Ffrangeg yn y Monachlogydd: ag o hynn o draill ar y Wlad a'r Genedl, aeth gwybodau Cerdd Dafawd a llythyr yn agos ar goll o gwbl, ag nis caid ond anamal a fedrai addysg, a mwy anaml a'i dangosai, gan ofn brad a chynllwyn, ag y mae oed an gerdded i lawer o Brydyddion gael eu dwyn ar goll, heb gael un clywfyth wedi hynny am danynt: gwaharddwyd ysgolion a phob defnydd llythyr ag ysgrif: bu achos hynny, annosparth ag anwybodaeth mawr ar Genedl y Cymry, a phob drwg ag anfoes yn uchaf o'r uchelion; a braidd y gellid yng ngolwg a gwybod Gwlad a Chenedl a fai debyg i wr wrth Gerdd Dafod, na Cherdd a fai a gwaith egwyddorbwyll arni; dim ond rhyw Glerfeirdd neu Glergwn yn crwydro Gwlad; dim yn chith Cerdd Dafod ond Dyrifau Croesangerdd a gogan ar bob dosparthus a ddyn: heb na theilyngded awen, na gwybodau, na chelfyddyd.

A Llawdden Fardd gwr o Landeilo Tal y Bont, yng Ngwyr, ar ucha diwarnod yn Abermarlais gyda ei gar a'i gyfrin Gruffudd ap Nicolas, dyma Glerwr yn dyfod i'r Neuadd dan enw Bardd, a Chan moliant o'r fath ag oedd, i Ruffudd, a mawl iddo am ddrygai na ddaeth erioed ar ei feddwl eu gwneuthur, a'u galw yn gampau gwrolion; a Gruffudd a roddes y ddyrif yn llaw Llawdden; Llawdden a'i darllenodd, a saesoneg oedd, ag ar ol ei darllain efe a gant yr Englyn a ganlyn:

Pob gair cras diras pob Dyri goegiaith,
Pob gogan a brynti;
Pob drewdod, pob dirieidi,
Ei gludo a wnaed i'n Gwlad ni.

Gwir yw hynny ebe Gruffudd, a pha fodd y gellir amgen? Yn ddigon hawdd a'i gellir, ebe Llawdden; galwer am Eisteddfodau a Chadeiriau dan Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn, fal y bu gynt, er adnewyddu hen Wybodau Llythyr a Cherdd Dafod Cenedl y Cymry, a chadarnhau braint wrth Gerdd Dafod; ag yna ceir gweled mai bach y bydd diffyg Awen a Chydwybod.

Attebai Gruffudd, ni channiatteir hynny gan gyfraith y Brenin y dydd heddyw: a gwneir, ebe Llawdden, pei ceisid yn gyfiawnbwyll ganthon: f'allai hynny, ebe Gruffudd, eithr pa le 'r gobaith? Lle gennych chwi f'Arglwydd, ebe Llawdden, os y chwi a'i cais; ag os ei geisio a wnewch, mi a ddaroganaf i chwi lwyddiant, a bodd eich calon. Mi a'i ceisiaf, ebe Gruffudd. Efe a'i ceisiodd, ag a'i cafas; a Gwarant a Braint diogelwch dyfod a dychwel, dann nawdd Llythyr Cynhwys y Brenin, ys ef Harri Sant o Winsor, a'r unfed flwyddyn ar hugain o'i Goroniad ef, cynnal yr Eisteddfod fawr gyntaf yng Nghaerfyrddin, a galw a ellid eu cael yn Feirdd a Phrydyddion yno, a Gwleddau iddynt; a'r derbyn, yn groesaw bonheddig i fonheddig; parch Neuadd i bob gwr wrth Gerdd Dafod, a rhoddion, a gwisgoedd sidan i bob un, a March a Nobl aur i bob un, a'i wleddau'n rydd, a'i le' tŷ yn rhad; a hynny hyd ym mhen cyfnod deugain diwarnod. A Llawdden o Dir Gwyr, ag o Wehelyth Gruffudd Gwyr, a Char o waed i Ruffudd ap Nicolas, a Gwilym Tew o Dir Iarll, a Dafydd Nanmor, a gad yn oreuon eu gwybodau a'u hawen,

Digitized by Google

a dodi ernynt, ddangos yr hen wybodau a'r defodau a fu gynt ar wybod a deall gan yr Hen Gymry, herwydd cof Gwlad, a'r cadw Llythyr, a gaid ernynt ag am denynt; ag ar Lawdden y doded chwilio a dangos y Cynghaneddau, a modd y gellid eu gwellhau lle gwelit achos i hynny, ys ef, goreu o Gynghaneddwr yng Nghymru y bernit Llawdden; goreu am hen Ddefodau y bernit Gwilym Tew, ag am hen gelfyddyd ar Gerdd Dafod; a mwyaf ei Orchest ar Gerdd Dafod y bernit Dafydd Nanmor, ag hefyd am Ddefodau Llysoedd Tywysogion Cymry hyd ag y buant.

Bu'r Eistedd yn Neuadd Llys y Brenin, a Gruffudd ap Nicolas yn Farnwr, a'r tri Phrydydd dan eu henwau ym Mraint Athrawon Cadeiriog o Bencerddiaid, a phan rhodded a wnaethant ar ddangos goreu ar hen wybodau Cerdd Dafawd a'u hen Fesurau, a Defodau Amherodron Ynys Prydain, a Defodau'r Ford Gronn y barnwyd Gwilym Tew; a goreu am Wybodau a Defodau Llysoedd y Tywysogion, y barnwyd Dafydd Nanmor, a chynnilaf ei Orchest ar Fesurau Cerdd Dafod. A goreuon o'r hen Ddefodau y cafad Dosparth y Ford Gronn fal ag y bu gan yr Amherawdr Arthur yng Nghaer Llion ar Wysg, ag un Rhys ap Tewdwr a ddug ef o Lydaw pan ddaethoedd o Gonstinobl i Gymru pan oresgynnodd ef ei Dalaith a'i Fraint o Dywysog. Ag un y Ford Gronn oedd honno; yn amgen ei threfn nag un Tir Iarll, a ddoded yno yn warantedig o Fraint gan Robert Iarll Caerloyw ap Nest ap Rhys ap Tewdwr: ag Arlwydd a Thywysog Morganwg, ym Mraint ei Wraig; Mabli merch Syr Rhobert ab Amon oedd honn: a'r Rhieinferch lanaf ei phryd a'i gwedd a welwyd erioed oedd hi, ag o hynny y ddiarheb, Ceisio bod yn Fabli cyn bod yn Lleucu, am una fynnai barch am fod yn benn, cyn bod yn fwy na chynffon. A gwedi'r dangos dodwyd yr Eisteddfod ar Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn, hyd penn y tair; ag o dair blynedd i dair blynedd hyd ym mhenn y naw mlynedd, ag yn hynny cyrchu braint cyfallwy! a'r ddegfed flwyddyn cynnal ail Eisteddfod fawr Caerfyrddin, lle ennillodd Dafydd ap Edmwnt y Gadair Arian am ei Orchestion a fernid yn oferbwyll celfyddyd gan Feirdd Morganwg, a Llawdden yn Bencerdd Cadeiriog, a gafodd y Fwyall Aur am ei wellhad ar y Cynghaneddion, ys ef, ni bu achos gwellhau ernynt ymhellach fyth wedi hynny. Ag yn yr Eisteddfod honno Beirdd Morganwg a ddodasant eu gwrthneu yn erbyn Dosparth Pedwar Pennill ar hugain Dafydd ap Edmwnt, a freiniwyd dan Warant Cadair yno, achos bod Gorfodrif Beirdd Gwynedd yn ormes ar Feirdd Talaith Dinefwr a Rhai Pendefigaeth Morganwg; ag o hynny allan aeth Cadair Morganwg ar ei phenn ei hunan ym Mraint Beirdd Ynys Prydain, ag yn ei chessail Dosparth y Ford Gronn, fal ag a'i cadarnhäed yno gann Robert Iarll Caerloyw a Mabli ei Wraig y dydd y priodasant yng Nghastell Caerdydd; lle rhodded Cwmmwd y Maes Mawr yn oddol Gwraig i Robert Iarll Caerloyw, ag achos hynny y rhodded enw Tir Iarll ar y Cwmmwd.

Wedi cyrchu Braint cyfallwy fal y dywedwyd, nid oedd rhaid Llythyr Cynnwys Brenin ym mhellach ar Gadair Talaith Dinefwr, can ei bod yn Gadair agored: ag o gyrhaeddwyd hynn o Fraint, ymroddwyd i drefnu Deddf ag Ystatut yn nessaf ag a allwyd yn ol Hen Ystatutau Arthur Amherawdr ag eraill penn y naw mlynedd, herwydd a ddoded, ar Lawdden; a hynny a ddoded gantho ar Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn, o flaen yr ail Eisteddfod; a hynny a ddoded ar Lawdden, a thynnu'n Drefn o'r Cyfarwyddyd a'r Gwybodau a ddangoswyd yn yr Eisteddfod gyntaf. Ag fal hynn terfyn y Gyfarwyddyd am yr Eisteddfod honno.

—DIWEDD.—

J. James, Argraphydd, Merthyr Tydfil.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

3 2044 036 450 476

Digitized by Google